

# Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
[ceredigion.gov.uk](http://ceredigion.gov.uk)

Dydd Mercher, 20 Medi 2023

## **Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Mercher, 27 Medi 2023 am 9.30 am\_i drafod y materion canlynol:**

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Materion Personol**
- 3. Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
- 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio>a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny (C (Tudalennau 3 - 10)**
- 5. Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Tudalennau 11 - 16)**
- 6. Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth (Tudalennau 17 - 206)**
- 7. Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth (Tudalennau 207 - 232)**
- 8. Adroddiad ar gynnydd Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft a Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023-24 (Tudalennau 233 - 334)**
- 9. Huanaasesu arfer dda a gwerthuso effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Tudalennau 335 - 342)**
- 10. Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/23 â 30/6/23 (Tudalennau 343 - 354)**
- 11. Hunanasesiad Archwilio Mewnol 2022-23 (Tudalennau 355 - 412)**
- 12. Adroddiad Blynyddol o sylwadau Canmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth (2022-2023) (Tudalennau 413 - 454)**
- 13. Adroddiad Hunanasesu Drafft Cyngor Sir Ceredigion 2022/23**

(Tudalennau 455 - 516)

14. Cofrestr Risgiau Corfforaethol (Tudalennau 517 - 532)
15. Y Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg Drafft (Tudalennau 533 - 584)
16. Blaenraglen Waith (Tudalennau 585 - 586)

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio  
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO  
a gynhaliwyd yn hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o  
bell drwy fideo-gynadledda ddydd Mercher, 21 Mehefin 2023**

YN BRESENNOL: Mr Alan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Keith Henson, Maldwyn Lewis a Gareth Lloyd, ynghyd â Mr Andrew Blackmore a Mrs Caroline Whitby

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Matthew Vaux

Archwilio Cymru: Miss Non Jenkins a Mr Jason Blewitt

Y Swyddogion a oedd yn bresennol: Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro, Mr Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad, Mr Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil, Mrs Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol, Mrs Alison Hodgson, Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol, Mr Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu, a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democraidd a Safonau.

(9:30am -12:00pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Wyn Evans a Mr Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**2 Materion Personol**

Nododd y Cadeirydd mai dyma fyddai cyfarfod olaf Mr Harry Dimmack a dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd.

**3 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Dim.

**4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 09 Mawrth 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion hynny**

CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 09 Mawrth 2023 yn gywir.

**Materion yn Codi**

Cofnod 6.v) – Nododd y Swyddog Llywodraethu y byddai'n cadarnhau'r wybodaeth hon ar ôl y cyfarfod.

**5 Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Ystyriwyd Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

CYTUNWYD i nodi'r cynnwys a'r diweddariad fel y'u cyflwynwyd.

## Tudalen 4

Roedd y Pwyllgor eisiau bod yn rhan o'r broses ar gyfer y Fframwaith Rheoli Risg.

- 6 Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth**  
Ystyriwyd Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth a oedd yn cynnwys 3 rhan:

- a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- b) Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd / a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru

### **Y Sefyllfa Bresennol**

#### **a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

#### **b) Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd / a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Archwilio Cymru – Llythyr i Gyrrff Llywodraeth Leol
- Archwilio Cymru – Cynllun Archwilio Manwl 2023 - Cyngor Sir Ceredigion
- Archwilio Cymru – Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2021-22 – Cyngor Sir Ceredigion
- Archwilio Cymru – Briff Prosiect – Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad – Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau a Deilliannau – Cyngor Ceredigion
- Archwilio Cymru – Cynllun Blynyddol 2023-24
- Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Cyngor Sir Ceredigion
- Arolygiaeth Gofal Cymru – Cynllun Gweithredu Drafft

#### **c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru**

- Archwilio Cymru – Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-26

Yn dilyn cyflwyniad gan Archwilio Cymru a chwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD:-

- (i) i nodi'r adroddiadau er gwybodaeth;
- (ii) bod angen sicrwydd bod y Cyngor yn ymgeisio am yr holl grantiau posib.

### **7 Ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth Cyflwyniad**

Roedd yr adroddiad yn nodi ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth a'r cynnydd a wnaed o ran y cynigion a'r argymhellion.

Roedd dwy ran i'r adroddiad hwn:

- a) Arolwg tracio'r Cyngor o gynigion y Rheoleiddiwr / Arolygiaeth ar gyfer gwella a'r argymhellion; a

b) Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor.

Y Sefyllfa Bresennol

**a) Arolwg tracio'r Cyngor o gynigion y Rheoleiddiwr / Arolygiaeth ar gyfer gwella a'r argymhellion**

**o Diweddariad am Ffurflenni Ymateb Rheolwyr y Cyngor 2022-23:**

- Archwilio Cymru – Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru
- Archwilio Cymru – Cyfle wedi'i golli – Mentrau Cymdeithasol
- Archwilio Cymru – Llamu Ymlaen – Adolygiad Rheoli'r Gweithlu'n Strategol
- Archwilio Cymru – Llamu Ymlaen – Adolygiad Rheoli Asedau'n Strategol

**(b) Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor**

- Archwilio Cymru – Llythyr Ymholiadau Archwilio 2023 Cyngor Sir Ceredigion

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r adroddiadau er gwybodaeth ac y dylai enwau'r swyddogion sy'n gyfrifol am unrhyw adroddiadau gael eu cynnwys yn y dogfennau.

### **8 Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru**

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r datganiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a nodwyd yn Adran 10 o Ddeddf 2016.

Rhaid i'r datganiad blynyddol hefyd gynnwys y wybodaeth a nodwyd yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau"), fel y'u diwygiwyd gan Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol a Chofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2019.

Roedd Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob datganiad blynyddol a gyflwynwyd. Byddai hyn drwy wefan Arolygiaeth Gofal Cymru ar y cyd â phob adroddiad arolygu ar gyfer y gwasanaethau a reoleiddir. Roedd y Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad blynyddol fod ar ffurf datganiad ar-lein a rhaid ei gyflwyno i Weinidogion Cymru o fewn 56 diwrnod i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, sef 26 Mai 2023. O dan Adran 48 o Ddeddf 2016, roedd yn drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chyflwyno datganiad blynyddol o fewn y terfynau amser a bennwyd gan y Rheoliadau. Pe bai darparwr gwasanaeth yn methu â chyflwyno datganiad blynyddol o fewn y terfynau amser gofynnol, gallai fod yn destun hysbysiad cosb neu gamau gorfodi eraill fel y bo'n briodol gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

O dan Adroddiad 52 o Ddeddf 2016, gallai Gweinidogion Cymru roi hysbysiad cosb pe baent yn fodlon bod y darparwyr gwasanaeth wedi cyflawni trosedd ragnodedig. Roedd hyn yn cynnwys methiant i gyflwyno

## Tudalen 6

datganiad blynyddol. Nododd Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 fod y gosb i'w thalu yn swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol (sef £2,500).

### Y Datganiad Blynyddol

Dyma'r gwasanaethau a oedd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Blynyddol:

- Cartref Gofal Preswyl Bryntirion, Tregaron
- Cartref Gofal Preswyl Tregerddan, Bow Street
- Cartref Gofal Preswyl Min y Môr, Aberaeron
- Cartref Gofal Preswyl Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan
- Cartref Gofal Preswyl Yr Hafod, Aberteifi
- Gwasanaeth Gofal wedi'i Dargedu a Galluogi

Y cyfnod amser ar gyfer y data a'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y datganiad blynyddol oedd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Fel darparwr gwasanaeth, roedd ganddynt hyd at ganol nos ar 26 Mai i gyflwyno'r datganiad blynyddol.

Llwyddwyd i gyflwyno'r datganiad blynyddol i Arolygiaeth Gofal Cymru ar 26 Mai 2023. Fel rhan o'r broses, roedd yn rhaid i Unigolyn Cyfrifol y sefydliad sicrhau'r canlynol:

- bod y rhan o'r datganiad blynyddol a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth y'i dynodwyd ar ei gyfer wedi'i chwblhau'n llawn; a
- darparu datganiad, a oedd yn cadarnhau fod y wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol yn gywir.

Gan fod yr adroddiad yn un mor gynhwysfawr a'r ffont yn fach ar gyfer y wybodaeth y gofynnodd Arolygiaeth Gofal Cymru amdani (gan fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno ar-lein), CYTUNWYD y byddai tri neu bedwar o'r materion allweddol yn yr adroddiad yn cael eu hadrodd flwyddyn nesaf. CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

## 9 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022/23

Roedd Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (argraffiad 2022) yn nodi ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei ddwyn i gyfrif o ran i ba raddau yr oedd wedi cyflawni ei bwrpas. Byddai hyn yn cynnwys a oedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi:

- cyflawni'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno
- mabwysiadu'r arferion a argymhellir
- asesu ei effeithiolrwydd ei hun
- asesu anghenion hyfforddi
- asesu effaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar lywodraethu, risg a rheolaeth o fewn yr Awdurdod.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 14 Medi 2017, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a oedd yn asesu effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn rhoi sicrwydd bod materion wedi cael sylw ac yn symud ymlaen.

Defnyddiwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i:

## Tudalen 7

- a) Dynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y flwyddyn;
- b) Dangos sut roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gwneud gwahaniaeth;
- c) Amlinellu'r flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod; a
- d) Darparu hunanasesiad a sicrwydd.

CYTUNWYD i dderbyn cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Roedd angen cwblhau'r holl focsys yn y tabl am bresenoldeb.

### 10 **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarter 4**

Ystyriwyd adroddiad y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ynghylch Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ar gyfer Chwarter 4. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymgymryd â gwaith priodol a digonol i ddarparu sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.

CYTUNWYD i nodi'r gwaith a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

### 11 **Adroddiad Camau Rheoli**

Fel y nodwyd yn Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol, roedd Safon Perfformiad 2500 yn nodi bod yn rhaid i Archwilio Mewnol sefydlu proses i fonitro a mynd ar drywydd camau rheoli. Y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol oedd yn gyfrifol am fonitro'r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu hyn ac adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o'r cynnydd a wnaed gan y rheolwyr i fynd ar drywydd y camau rheoli a gyhoeddwyd yng nghynlluniau gweithredu'r adroddiadau Archwilio Mewnol.

CYTUNWYD ar y canlynol:

- (i) nodi'r gwaith presennol;
- (ii) dylid ystyried coladu'r holl gamau yr oedd angen eu cymryd a hynny yn ôl gwasanaeth, er mwyn eu monitro; a
- iii) dylai'r Grŵp Arweiniol dderbyn yr adroddiadau.

### 12 **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol**

Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2022/23 yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2022. Roedd y Cynllun yn darparu amlinelliad o'r gwaith yr oedd yn rhaid i'r Adain Archwilio Mewnol ei gyflawni yn ystod y flwyddyn er mwyn ffurfio barn ynghylch sicrwydd.

Roedd y farn hon yn ffurfio rhan o fframwaith sicrwydd y Cyngor. Roedd Archwilio Mewnol hefyd yn darparu cyngor annibynnol i wasanaethau er

## Tudalen 8

mwyn helpu rheolwyr i wella'u mesurau rheoli mewnol, eu dull o reoli risg, a'u trefniadau llywodraethu. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn darparu crynodeb o'r gweithgarwch archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, ac roedd yn ymgorffori barn yr adain archwilio. Roedd hefyd yn cofnodi'r sefyllfa bresennol o ran adnoddau, a chynlluniau'r adain ar gyfer sicrhau ansawdd, gwelliant a chynnydd.

CYTUNWYD I GYMERADWYO'R adroddiad ac i gynnwys data ar hyfforddiant y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn y flwyddyn flaenorol mewn adroddiadau yn y dyfodol.

### 13 **Adroddiad Archwilio Mewnol – Atal Twyll 2022-23**

Roedd Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol yn darparu crynodeb o'r gweithgarwch archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth, ac roedd yn ymgorffori barn yr adain archwilio.

Yn y gorffennol, roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys rhan ar dwyll, gan roi braslun o'r gwaith roedd y gwasanaeth wedi'i wneud yn y maes hwn. Erbyn hyn roedd adroddiad ar wahân ar gyfer Atal Twyll a oedd yn cefnogi Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn.

CYTUNWYD I GYMERADWYO'R adroddiad ac i gyflwyno papur i'r Grŵp Arweiniol i ystyried Asesiad Risg ar Dwyll Ariannol, gan fod iddo werth sylweddol; a gallai fod yn hanfodol ar gyfer rhoi rhagor o sicrwydd Gwrth-dwyll.

### 14 **Cofrestr Risgiau Corfforaethol**

Rhoddwyd adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod y risgiau a nodwyd gan uwch reolwyr yn cael eu rheoli'n briodol. Roedd hyn yn atgyfnerthu rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei rheoli'n briodol.

Cynhaliwyd adolygiad o statws diweddaraf y risgiau yng nghyfarfod y Grŵp Arweiniol ar 24.5.23 lle trafodwyd a chytunwyd ar risgiau y gellid eu huwchgyfeirio / isgyfeirio.

Isgyfeiriwyd y canlynol o risg gorfforaethol i risg ar gyfer y gwasanaeth:

R004: Parhad Busnes – roedd sgôr y risg wedi gostwng i 12 gan fod prosesau a strwythurau yn eu lle a bu'r rhain yn ddibynadwy yn ystod digwyddiadau sylweddol. Roedd cynlluniau wrth gefn a threfniadau busnes yn eu lle a oedd yn rhoi sicrwydd nad oedd angen i'r risg fod ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

R015: Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol, Cynnal Diogelwch – roedd sgôr y risg wedi gostwng i 9 wrth i adnoddau diogelu'r cyhoedd gael eu dargyfeirio i glirio'r ôl-groniad a bu'r camau lliniaru'n llwyddiannus.



## Tudalen 9

R018: Covid-19 – roedd sgôr y risg wedi gostwng i 9 gan fod Covid-19 wedi'i isgyfeirio ar lefel genedlaethol.

Uwchgyfeiriwyd y canlynol o risg ar gyfer y gwasanaeth i risg gorfforaethol:

Dim.

Roedd sgôr y risg ar gyfer R009: Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch wedi cynyddu i 20. Roedd mesurau lliniaru blaenorol yn annigonol i atal risgiau rhag cynyddu. Felly rhoddwyd mesurau lliniaru newydd ar waith er mwyn lleihau'r risg, sef:

1. Datblygu adolygiad rheolaidd ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth
2. Ailstrwythuro i ffocysu adnoddau ac arbenigedd yn well
3. Mudo data a chynnwys i leoliadau mwy addas
4. Gweithredu amgryptiad segur

Ychwanegwyd cam lliniaru newydd i R017: Diogelu – gweithredu'r strwythur Llesiant Gydol Oes diwygiedig i wella'r gweithgarwch o ran Sicrhau Ansawdd a Diogelu Strategol a Lles Meddyliol a Chamddefnyddio Sylweddau ym Mhorth Cynnal.

Adolygwyd yr holl risgiau eraill ac roeddent yn cynnwys statws RAG diwygiedig ar gyfer y camau lliniaru ac roedd y sylwadau wedi'u diweddarau.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD ar y canlynol:

- (i) nodi'r gofrestr a oedd wedi'i diweddarau;
- (ii) dylai colofn gael ei hychwanegu at bob risg i nodi'r dyddiad y cafodd y risg ei hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu priodol; er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod y gofrestr wedi cael ei hystyried drwy'r broses ddemocrataidd;
- (iii) bod hi'n bwysig i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fynd i'r cyfarfodydd Rheoli Perfformiad a gynhaliwyd bob chwarter er mwyn bod yn ymwybodol o risgiau'r gwasanaethau;
- (iv) yn dilyn y cyfarfod, dylai'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol ymateb i'r ymholiadau gan Mrs Caroline Whitby ynghylch Risg 8 a 9; a
- v) dylai'r Cadeirydd gysylltu â Chadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Craffu.

### 14 **Y Flaenraglen Waith**

Cytunwyd i nodi'r Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar nodi y byddai Mrs Hannah Rees yn dychwelyd i gyflwyno'r adroddiadau yn lle Mr Harry Dimmack.

### 15 **Unrhyw fater arall y mae'r Cadeirydd yn penderfynu ei fod at sylw brys y Pwyllgor**

Diolchodd y Cynghorydd Elizabeth Evans i'r Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd am ei gwaith i ddatrys problemau gyda'r system hybrid gan na fu unrhyw problemau ar-lein, fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd Gareth Lloyd fod problemau wedi codi gyda'r system yn y Siambr sawl gwaith yn ystod y cyfarfod.

# Tudalen 10

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a  
gynhaliwyd ar xxxx**

**Cadeirydd:** \_\_\_\_\_

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_

## Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ceredigion 2022-2023\*

Pwrpas y Cofnod hwn o Gamau Gweithredu yw monitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu cyfarfodydd e.e. pan fu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ofyn i adroddiad gael ei gyflwyno iddynt, neu y gofynnwyd am wybodaeth ar gyfer Cyfarfod yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth ar y Cofnod o Gamau Gweithredu dylid cysylltu â'r Swyddog Llywodraethu.

Diweddarwyd: ?? ?????? 2023

\* Blwyddyn Fwrdeistrefol

Bydd camau gweithredu y nodwyd eu bod wedi eu cwblhau yn cael eu tynnu oddi ar y Cofnod dilynol o Gamau Gweithredu.

### Acronymau:

AW – Archwilio Cymru

PW: Prif Weithredwr

SAC – Swyddog Arweiniol Corfforaethol

SDD – Swyddog Diogelu Data

BW – Blaenraglen Waith

SLI – Swyddog Llywodraethu

SM – Swyddog Monitro

RhC – Rheolwr Corfforaethol

RhCAM – Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol

PRhD – Pwyllgor Rheoli Datblygu

PLIA – Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

C a LI – Cyfreithiol a Llywodraethu

Amh – Amherthnasol

IG – I'w gadarnhau

0	Dyddiad Cyfarfod Y Pwyllgor Llywodraethu	Eitem	Nodwyd/Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(ion) sy'n gyfrifol am y cam gweithredu	Diweddariad ar y datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Statws	Nodiadau
1	27/09/2022	<b>15 Adroddiad ynghylch Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth (2021-2022)</b>		(ii) Adroddiad ynghylch a oedd y cwynion hyn yn cyfeirio at gyfarthrebu neu ddiffyg cyfarthrebu.	Marie-Niege Hadfield	(ii) Re'l ystyrir yn yr adroddiad nesaf	27/09/2023	<b>Ar Waith</b>	Mae'r tîm yn edrych ar hyn dros y flwyddyn.
2	27/09/2022	<b>16 Cofrestr Risgiau Corfforaethol - Chwarter 1</b>	(iii) y dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach roi ystyriaeth bellach i lwyth gwaith y tîm Diogelwch Bwyd oherwydd nifer yr arolygiadau sydd heb eu gwneud.	y dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach roi ystyriaeth bellach i lwyth gwaith y tîm Diogelwch Bwyd oherwydd nifer yr arolygiadau sydd heb eu gwneud.	Swyddog Llywodraethu	Mae'r mater hwn wedi ei roi ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.		<b>Ar Waith</b>	Mae arolygu manau bwyd wedi'i nodi yn y flaenraglen waith ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iachach ym mis Tachwedd.
3	09/03/2023	<b>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</b>	Eitem 9 - paragraff terfynol - gofynnol gweithdy cyllideb	trefnu gweithdy cyllideb  sleidiau o weithdy cyllideb i'w dosbarthu i aelodau	Swyddog Llywodraethu / Duncan Hall  Swyddog Llywodraethu / Duncan Hall		27/09/2023  27/09/2023	<b>Ar Waith</b>  <b>Ar Waith</b>	Gweithdy i'w ystyried maes o law ochr yn y gweithdy cofrestru risg.

	21/06/2023		(v) bod Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn gwneud cais i ystyried adroddiad yr Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer ticio blwch?, fodd bynnag, nodwyd bod Asesiad Effaith Integredig Cyngor AEA yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i fod yn fwy hwylus i Aelodau ei ddefnyddio ac i swyddogion ei gwblhau.(v) bod Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn gwneud cais i ystyried adroddiad yr Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer ticio blwch?, fodd bynnag, nodwyd bod Asesiad Effaith Integredig Cyngor AEA yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i fod yn fwy hwylus i Aelodau ei ddefnyddio ac i swyddogion ei gwblhau.	Gofynnir i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried yr adroddiad ar yr Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag ymarfer blwch ticio	Swyddog Llywodraethu	FfYRh wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyflwyno i PLIA 27/09/2023	27/09/2023	<b>Ar waith</b>	
4	09/03/2023	<b>Cofrestr Risg Q3</b>	Mae angen gwell dealltwriaeth o'r broses o'r diwedd l'r diwedd ar ba eitemau sy'n cael eu cynnwys / tynnu.	Gofynnodd y gweithdy esbonio'r broses o ychwanegu / dileu risgiau l'r Gofrestr risg Gorfforaethol.	Swyddog Llywodraeth			<b>Ar Waith</b>	Bydd y gweithdy'n cael ei ystyried unwaith y bydd yr Asesiad, Strategaeth a Fframwaith Risg newydd wedi'l gyflwyno.

	21/06/2023	<b>Cofrestr Risg Q4</b>	(ii) bod y golofn sy'n cadarnhau'r dyddiad yr ystyriwyd y risgiau gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol yn cael ei hailgyflwyno ar bob risg; er mwyn i'r pwyllgor gael sicrwydd bod y gofrestr wedi cael ei hystyried drwy'r broses ddemocrataidd;	Argymhelliad bod y dyddiadau craffu yn cael eu hailgyflwyno i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol	Alun Williams		27/09/2023	<b>Ar Waith</b>	Alun Williams wedi cadarnhau bod y dyddiadau wedi'u hailgyflwyno
			(iv) bod ymholiadau a godwyd gan Mrs Caroline Whitby mewn perthynas â risgiau R009, R019 ac R20 yn cael sylw gan y CLO perthnasol yn dilyn y cyfarfod	CW ar R009, R019 ac R20 i'w bwydo'n ôl i'r swyddogion perthnasol.	Hannah Rees		27/09/2023	<b>Ar Waith</b>	Atebodd Alun Williams R019 drwy e-bost gan egluro fod y sylwebaeth wedi'i ddiweddarau.
5	21/06/2023	<b>7 Ymateb Cyngor Sir Ceredigion I Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth</b>	Holodd Mrs Caroline Whitby a oedd y dyddiad targed ar gyfer eitem R002 yn realistig	Adborth y sylwadau wrth CW trwy'r FfYRh Cyfle a Gollwyd-Menter Gymdeithasol. Ydy'r dyddiad targed i R2 yn realistig?	Harry Dimmack		27/09/2023	<b>Wedi Cwblhau</b>	Cadarnhaodd Elin fod y dyddiad yn gywir.

6	21/06/2023	<b>11 Adroddiad Camau Rheoli</b>	<p>(iii) dylai'r Grŵp Arweiniol dderbyn yr adroddiad.</p> <p>(ii) rhoi ystyriaeth i goladu gan y gwasanaeth, eu holl gamau gweithredu sy'n weddill, i fonitro'n unol â hynny.</p>	<p>Adroddiad Camau Rheoli i'w gyflwyno i'r GA</p> <p>Ychwanegu eithriadau'r Gwethrediadau Rheoli gan y gwasanaeth</p>	<p>Alex Jenkins</p> <p>Alex Jenkins</p>		<p>27/09/2023</p> <p>27/09/2023</p>	<p><b>Wedi Cwblhau</b></p> <p><b>Wedi Cwblhau</b></p>	<p>Mae'r adroddiad diweddaraf wedi cael ei ystyried gan Brif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Statudol. Arranged ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn y dyfodol gan CLO L &amp;G/MO i LG yn fisol. Mae taenlen wedi'i ddiweddarau i gagslu'r wybodaeth ar gyfer yr adroddiad nesaf ym mis Ionawr 2024.</p>
---	------------	----------------------------------	---	---	---	--	-------------------------------------	---	--

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol



**Cyngor Sir CEREDIGION County Council****ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**DYDDIAD:** 27 Medi 2023**LLEOLIAD:** O bell drwy Gynhadledd Fideo**TEITL:** Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cynnydd o ran astudiaethau y mae Archwilio Cymru wedi ymgymryd â nhw neu yn ymgymryd â nhw**Er:** Penderfyniad**Cyflwyniad**

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth ac mae iddo dair rhan

- a) *Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*
- b) *Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd/a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*
- c) *Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru*

**Y Sefyllfa Bresennol:****a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Atodiad 1 Archwilio Cymru – Rhaglen Waith ac Amserlen – Cyngor Sir Ceredigion

**b) Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd/a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Atodiad 2 Arolygiaeth Gofal Cymru – Cynllun Gweithredu Terfynol
- Atodiad 3 Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolygiad Gwerthuso Perfformiad o Gyngor Sir Ceredigion
- Atodiad 4 Archwilio Cymru – Gosod Amcanion Llesiant – Cyngor Sir Ceredigion
- Atodiad 5 Archwilio Cymru – Adolygiad Dilynol or Gwasanaeth – Cyngor Sir Ceredigion

**c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru**

- Atodiad 6 Archwilio Cymru – Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru
- Atodiad 7 Archwilio Cymru – Ymgynghoriad ar y Graddfeydd Ffioedd ar gyfer 2024-25
- Atodiad 8 Archwilio Cymru – Llamu Ymlaen – Gwersi on Gwaith ar y gweithlu ac asedau mewn llywodraeth leol

# Tudalen 18

**ARGYMHELLIAD:** Rhoi ystyriaeth i adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth

**Rheswm dros yr Argymhelliad:** Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adroddiadau, cynigion a'r gwaith yr ymgymerir ag ef

- **Atodiadau:**
  - Atodiad 1** Arolygiaeth Gofal Cymru – Cynllun Gweithredu Terfynol
  - Atodiad 2** Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolygiad Gwerthuso Perfformiad o Gyngor Sir Ceredigion
  - Atodiad 3** Archwilio Cymru – Gosod Amcanion Llesiant – Cyngor Sir Ceredigion
  - Atodiad 4** Archwilio Cymru – Rhaglen Waith ac Amserlen – Cyngor Sir Ceredigion
  - Atodiad 5** Archwilio Cymru – Adolygiad Dilynol or Gwasanaeth – Cyngor Sir Ceredigion
  - Atodiad 6** Archwilio Cymru – Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru
  - Atodiad 7** Archwilio Cymru - Ymgynghoriad ar y Graddfeydd Ffioedd ar gyfer 2024-25
  - Atodiad 8** Archwilio Cymru – Llamu Ymlaen – Gwersi on Gwaith ar y gweithlu ac asedau mewn llywodraeth leol

**Enw Cyswllt:** Elin Prysor

**Teitl:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro

**Dyddiad yr Adroddiad:** 27/09/2023



## Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ceredigion

**Diweddariad Chwarterol: 30 Mehefin 2023**

### Crynodeb Archwilio Blynyddol

Disgrifiad	Amserlen	Statws
Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.	Mawrth 2023	Cyflawn  <a href="#">Cyngor Sir Ceredigion - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022</a>

### Gwaith Archwilio Ariannol

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Archwilio datganiad o gyfrifon 2022-23 y Cyngor	I gadarnhau a yw'r datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg.	Barn Archwilio erbyn 30 Tachwedd 2023.	Ar waith
Archwiliad Ffurflen Flynyddol 2022-23 ar gyfer Harbwr Ceredigion	Cadarnhau bod y datganiad wedi'i gwblhau'n gywir.	Barn Archwilio erbyn 30 Tachwedd 2023.	Heb ddechrau eto

# Tudalen 21

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Archwilio Ffurflenni Blynyddol 2022-23 ar gyfer Cydbwyllgor Corfforaethol Tyfu Canolbarth Cymru Canolbarth Cymru</b>	Cadarnhau bod y datganiad wedi'i gwblhau'n gywir.	Barn Archwilio erbyn 30 Tachwedd 2023.	Heb ddechrau eto
<b>Archwiliad Grantiau a Ffurflenni 2022-23 y Cyngor</b>	Archwilio'r grantiau a'r ffurflenni fel sy'n ofynnol o dan eu telerau ac amodau.	Yn unol â'r dyddiadau cau ar gyfer pob grant unigol a'u dychwelyd.	Heb ddechrau eto

## Gwaith Archwilio Perfformiad

Gwaith archwilio Perfformiad 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Sicrwydd as Asesu Risg</b>	<p>Prosiect i ganfod lefel sicrwydd archwilio a/neu lle bo angen gwaith archwilio ychwanegol yn ystod y blynyddoedd i'w dod o ran y risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sefyllfa ariannol</li> <li>Rheoli rhaglenni cyfalaf</li> </ul>	<p>Monitro'r sefyllfa ariannol</p> <p>Medi – Rhagfyr 2023</p>	<p>Ym mynd rhagddo</p> <p>Wedi'i gwmpasu</p>

## Tudalen 22

Gwaith archwilio Perfformiad 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau</li> </ul> <p>Pennu amcanion llesiant</p>	<p>Chwefror – Medi 2023</p> <p>Cyflawn</p>	<p>Ar y gweill – dechreuodd y gwaith maes ym mis Gorffennaf 2023</p> <p>Adroddiad i'r Cyngor – 4 Gorffennaf 2023</p>
<p><b>Adolygiad Thematig – Gofal heb ei Gynllunio</b></p>	<p>Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i fod o gymorth i ryddhau cleifion, yn ogystal ag atal mynd i mewn i'r ysbyty. Bydd y gwaith yn ystyried hefyd pa gamau a gymerir i ddarparu datrysiadau tymor canol i hir.</p>	<p>Awst 2022 – Gorffennaf 2023</p>	<p>Drafftio adroddiad</p>
<p><b>Adolygiad thematig – Digidol</b></p>	<p>Adolygiad o ddull strategol y Cyngor i dechnoleg ddigidol, ac i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau cynghorau.</p>	<p>Ionawr – Medi 2023</p>	<p>Drafftio adroddiad</p>
<p><b>Gwaith risg lleol: Adolygiad cynllunio – gwaith dilynol</b></p>	<p>Dilyn cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn ein hadolygiad Cynllunio a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021.</p> <p><a href="#">Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Sir Ceredigion</a></p>	<p>Hydref 2022 – Haf 2023</p>	<p>Gorffen yr adroddiad</p>

Gwaith archwilio perfformiad 2023-24	Cwmpas	Amserlen	Statws
<p><b>Asesiad Sicrwydd a Risg gan gynnwys unrhyw waith dilynol</b></p>	<p>Prosiect i ganfod lefel sicrwydd archwilio a/neu lle bo angen gwaith archwilio ychwanegol yn ystod y blynyddoedd i'w dod o ran y risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gall y gwaith asesu Sicrwydd a Risg hwn gynnwys unrhyw waith dilynol/olrhain y gallwn ei adnabod o'n hadroddiadau a'n hargymhellion archwilio mewn blynyddoedd blaenorol.</p>	<p>Ym mynd rhagddo</p>	<p>Ar waith</p>
<p><b>Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd Ariannol</b></p>	<p>Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cynghorau, gan gynnwys canolbwyntio ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau ariannu a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig.</p>	<p>I'w gadarnhau</p>	<p>Cwmpasu</p>
<p><b>Adolygiad thematig – comisiynu a rheoli contractau</b></p>	<p>Adolygiad yn canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu, a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.</p>	<p>I'w gadarnhau</p>	<p>Cwmpasu</p>

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi eu cynllunio/ar y gweill

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ceredigion
<b>Diogelwch adeiladau</b>	Adolygiad o ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau dros ddiogelwch adeiladau	Medi 2022 – Awst 2023	Adroddiad – diwedd Gorffennaf 2023	Do – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor
<b>Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy– Adfywio Tir Llwyd</b>	Adolygu sut mae awdurdodau lleol yn hybu ac yn galluogi gwell defnydd o anheddau annomestig gwag a safleoedd tir llwyd	Hydref 2022 – Medi 2023	Adrodd – Medi 2023	Do – cyfweiliad gyda swyddog enwebedig mewn saith cyngor ac arolwg.
<b>Llywodraethu awdurdodau diben arbennig – Parciau Cenedlaethol</b>	Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethu	Tachwedd 2022 – Medi 2023	Casglu tystiolaeth – gwaith maes i'w gwblhau ddiwedd Mehefin 2023	Na hoffwn



Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ceredigion
<p><b>Cyd-bwyllgorau Corfforedig</b></p>	<p>Asesu cynnydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth ddatblygu eu trefniadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithio rhanbarthol.</p>	<p>Medi 2022 – Awst 2023</p>	<p>Cyhoeddwyd adroddiad drafft i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. Caiff llythyrau at y pedwar CJC unigol hefyd eu cyhoeddi. Mae disgwyl i adroddiad cryno wedi'i ddiweddarau gael ei gyhoeddi ym mis Awst.</p>	<p>Do – Gwnaethom ystyried persbectif y Cyngor drwy ein cyfarfodydd cyswllt arferol. Roedd y gwaith maes yn cynnwys cyfweiliadau â'r prif weithredwr, y cyfarwyddwr cyllid a chadeirydd pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig.</p>

## Estyn

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n peri pryder sylweddol. Mae awdurdod lleol Wrecsam yn dal i fod mewn categori sy'n peri pryder, a byddwn yn cynnull cynhadledd cynnydd ym mis Gorffennaf i werthuso cynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad craidd. Gwnaethom hefyd ymgymryd â gweithgaredd gwaith cyswllt penodol ym Mhowys ym mis Mai i ystyried agweddau ar eu gwaith ar wella ysgolion, yr agenda trawsnewid a rheolaeth ariannol mewn ysgolion. Byddwn yn arolygu Gwynedd yn yr wythnos sy'n dechrau 26 Mehefin a Sir Gaerfyrddin yn yr wythnos sy'n dechrau 10 Gorffennaf.

Mae gwaith maes sy'n cael ei wneud ar draws awdurdodau lleol yn ystod tymor yr haf yn cynnwys canolbwyntio ar ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn ategu anghenion addysgol ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Caiff y gwaith hwn ei gynnwys yn adroddiad blynyddol PAEF. Ein nod yw disgrifio, cydnabod a gwerthuso profiadau'r grwpiau hyn wrth iddynt ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
Rhaglen 2022-23	<p><a href="#">Rydym wedi cyhoeddi ein Cod Ymarfer wedi'i ddiweddarau ar gyfer ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol   Arolygiaeth Gofal Cymru</a></p> <p><a href="#">Sut rydym yn arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru</a></p>	Mai 2023	Cyhoeddwyd
Gwerthusiad perfformiad	<p>Adolygiad ar berfformiad y Cyngor wrth arfer ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth.</p> <p><a href="#">Adroddiad ar yr arolygiad gwerthuso perfformiad: Gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion   Arolygiaeth Gofal Cymru</a></p>	Mawrth 2023	Cyhoeddwyd

# Tudalen 27

Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
Gwaith ar y cyd	<p>Rydym wrthi'n cwblhau ein rhaglen waith adolygiadau thematig ar gyfer 2023-2026. Mae meysydd i'w hystyried yn cynnwys diogelu oedolion, gofalwyr, TADC a CAMHS.</p>	Cyfredol	Ar waith
	<p>Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid, gan rannu gwybodaeth a deallusrwydd gan gynnwys cwblhau adolygiadau ar y cyd.</p>	Cyfredol	Ar waith
	<p>Rydym yn gweithio ar y cyd ag AGIC ar gyfer adolygiad cenedlaethol o'r llwybr strôc. Bydd adroddiad cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi ddechrau'r haf.</p>	Cyfredol	Ar waith
	<p>Rydym yn parhau i gydweithio ag AGIC i gynnal arolygiadau TIMC.</p>	Cyfredol	Ar waith
	<p>Mae AGC yn gweithio gyda phartneriaid i gwblhau adolygiad cyflym. Amcan trosfwaol yr adolygiad cyflym yw penderfynu i ba raddau y mae'r strwythurau a'r prosesau presennol yng Nghymru yn sicrhau bod plant sydd angen gofal, cymorth ac amddiffyniad yn cael eu gosod yn briodol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'u tynnu oddi arni, pan fo tystiolaeth ddigonol yn dangos ei bod yn ddiogel gwneud hynny. Adolygiad cydweithredol yw hwn.</p>	<p>Canfyddiadau interim – Cyhoeddi 22 Mehefin 2023</p> <p>Adroddiad cenedlaethol – Medi 2023</p>	Ar waith

## Tudalen 28

Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
<p><b>Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-23</b></p>	<p>Cyhoeddwyd <a href="#">adroddiad 2020-21</a> ar 7 Chwefror 2021</p> <p>Mae adroddiad 2021-22 yn mynd rhagddo</p>	<p>Cyhoeddwyd</p> <p>I'w gadarnhau</p>	<p>Cyhoeddwyd</p> <p>Paratoi</p>
<p><b>Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus</b></p>	<p>Diben yr adolygiad</p> <p>Darparu gwaith craffu allanol, sicrwydd a hyrwyddo gwelliant o ran ansawdd ymarfer mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion amlinelliad cyfraith cyhoeddus.</p> <p>Ystyried i ba raddau mae ymarfer wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus' gan AGC a chyhoeddi Adroddiad gweithgor Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2021 gan gynnwys canllaw ar arfer gorau.</p>	<p>Cyhoeddi adroddiad cenedlaethol Hydref 2023</p>	<p>Ar waith</p>
<p><b>Trefniadau Cyd-arolygu Diogelu Plant (JICPA)</b></p>	<p>Dull traws-arolygiaeth. Meysydd i'w penderfynu. Byddwn yn cwblhau pedwar arolygiad amlasiantaethol arall ar y cyd i gyd. Bydd pob awdurdod lleol yn cael llythyr cyhoeddedig ar ôl yr arolygiad.</p> <p>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol tuag at ddiwedd gwanwyn 2023.</p>	<p>Ebrill 2023 – Ebrill 2024</p>	<p>Cyflawni</p>

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers Mehefin 2022

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolenn i'r adroddiad
Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig	<a href="#">Mehefin 2023</a>
Cynhwysiant digidol yng Nghymru (gan gynnwys cwestiynau allweddol i gyrff cyhoeddus)	<a href="#">Mawrth 2023</a>
Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros	<a href="#">Mawrth 2023</a>
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd	<a href="#">Chwefror 2023</a>
Pryniant Llywodraeth Cymru o Fferm Gilestone	<a href="#">Ionawr 2023</a>
Gyda'n gilydd fe allwn ni – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau	<a href="#">Ionawr 2023</a>
Darlun o Reoli Perygl Llifogydd	<a href="#">Rhagfyr 2022</a>
'Cyfle wedi'i gollu' – Mentrau Cymdeithasol	<a href="#">Rhagfyr 2022</a>
Offeryn Data Tlodi	<a href="#">Tachwedd 2022</a>
'Amser am newid' – Tlodi yng Nghymru	<a href="#">Tachwedd 2022</a>
Dysgu o ymosodiadau seibr	Hydref 2022 (dosbarthwyd yn breifat i gyrff archwilio)

## Tudalen 30

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21	<a href="#">Hydref 2022</a>
Cymorth busnes COVID-19 yn 2020-21 – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus	<a href="#">Hydref 2022</a>
Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth	<a href="#">Medi 2022</a>
Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio?	<a href="#">Medi 2022</a>
Llywodraeth Cymru – pennu amcanion llesiant	<a href="#">Medi 2022</a>
Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru	<a href="#">Medi 2022</a>
Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at Fawrth 2022	<a href="#">Awst 2022</a>
Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Net Zero Carbon erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth	<a href="#">Awst 2022</a>
Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030	<a href="#">Gorffennaf 2022</a>
Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru	<a href="#">Gorffennaf 2022</a>
Cronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus	<a href="#">Gorffennaf 2022</a>
System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru –diweddariad a'r offeryn data	<a href="#">Gorffennaf 2022</a>

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill/wedi'i gynllunio)<sup>1, 2</sup>

Teitl	Dyddiad cyhoeddi bras
Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol – Diweddariad	Gorffennaf 2023
Offeryn Data Cyllid y GIG – hyd at Mawrth 2023	Gorffennaf/Awst 2023
Llamu Ymlaen – Rheoli asedau a gweithlu mewn llywodraeth leol	Gorffennaf/Awst 2023
Cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon – dilyniant	Awst 2023
Llywodraethu ansawdd y GIG	Awst/Medi 2023
Cynllunio gweithlu'r GIG (briff data)	Awst/Medi 2023
Sero net (trosolwg ledled y DU)	Medi 2023
Gwasanaethau ffoaduriaid Wcreinaidd	Hydref/Tachwedd 2023

<sup>1</sup> Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i gyfathrebu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, yn ogystal â gwaith archwilio lleol eraill lle rydym o'r farn bod teilyngdod mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath. Er enghraifft, rydym wedi bod yn olrhain datblygiadau wrth gwblhau prosiect gwella ffyrdd adran 2 yr A465 yn dilyn ein [hadroddiad canfyddiadau interim](#) mis Chwefror 2020.

<sup>2</sup> Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur ar ein gwefan – [Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026](#) – sy'n rhoi manylion ychwanegol am ein gwaith cenedlaethol (gan gynnwys adolygiadau thematig lleol). Yn ogystal â'r gwaith newydd y byddwn yn ei wneud yn 2023-24, mae'r papur yn cynnwys manylion am bynciau dangosol i'r gwaith ddechrau yn 2024-24 neu 2025-26.

## Tudalen 32

Teitl	Dyddiad cyhoeddi bras
Adolygiad o strategaeth ddigidol llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol	Hydref 2023
Defnydd llywodraeth leol o wybodaeth am berfformiad, canlyniadau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau – crynodeb cenedlaethol	Hydref 2023
Tai fforddiadwy	Ionawr/Chwefror 2024
Rheoli rhaglen gyfalaf llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol	I'w gadarnhau
Teithio llesol	I'w gadarnhau
Gwasanaethau canser	I'w gadarnhau
Rheoli cynllunio cyfalaf a rhaglenni	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)
Heriau i'r sector diwylliannol	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)
Digartrefedd	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)
Mynd i'r afael â dirywiad o ran bioamrywiaeth (sector cyhoeddus ac yng Nghyfoeth Naturiol Cymru)	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)
Ail-gydbwyso gofal a chymorth	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)
Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)



## Tudalen 33

Teitl	Dyddiad cyhoeddi bras
Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)
Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac addysg uwch – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)
Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)
Yr uwch wasanaeth cyhoeddus	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)

## Digwyddiadau ac adnoddau Cyfnewid Arfer Da

Teitl	Dolen i'r adnodd
<p><b>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu:</b> Wedi'i ysbrydoli gan daith Cymdeithas Bêl-droed Cymru dros y ddegawd ddiwethaf, bydd y digwyddiad hwn yn edrych ar sut mae mynd y tu hwnt i'r gofynion yn creu agwedd gadarnhaol a chynhwysol sy'n lluosogi llwyddiant.</p> <p>Gan weithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg, bydd y digwyddiad hwn yn cynorthwyo ac yn ysbrydoli cyrff cyhoeddus i gofleidio amrywiaeth ddiwylliannol Cymru fodern a gweithio y tu hwnt i gydymffurfio a thuag at ragoriaeth.</p>	<p>Mae'r holl adnoddau bellach ar gael ar ein <a href="#">gwefan</a>.</p> <p><a href="#">Dolen i'r blog</a></p>
<p><b>Gyda'n gilydd gallwn – creu'r amodau i rymuso ein cymunedau i ffynnu:</b> Bydd y digwyddiad dysgu ar y cyd hwn yn dod â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth. Byddwn yn rhannu canfyddiadau ein hadroddiadau ar fentrau cymdeithasol a gwydnwch cymunedol, gan gynnwys ein hargymhellion wrth symud ymlaen.</p>	<p>20 Mehefin 2023 – 10:00 – 12:00 – Ar-lein. <b>Bydd y recordiad ar gael ar ein gwefan mewn un i ddwy wythnos.</b></p>
<p><b>Podlediad: Tlodi a Gwydnwch Cymunedol</b> Mae ein podlediad diweddaraf yn dilyn ein hadroddiadau a'n digwyddiadau diweddar ar dlodi, mentrau cymdeithasol, a gwytnwch cymunedol.</p>	<p><a href="#">Podlediad</a></p>
<p><b>Strategaeth Ddigidol:</b> Mae pandemig Covid wedi dangos pwysigrwydd digidol wrth ddarparu gwasanaethau modern ar gyflymder. Rydym wedi gweld bod digidol yn gweithredu fel catalydd mawr wrth addasu i'r heriau yr ydym wedi'u hwynebu. Mae angen i wasanaethau cyhoeddus barhau â'r ffordd o feddwl ystywyth ac ymatebol hwn fel yr hyd sydd i'w ddisgwyl ac nid yr eithriad. Bydd y digwyddiad hwn yn helpu i arfogi gwasanaethau cyhoeddus â'r offer a'r wybodaeth ymarferol sydd eu hangen arnynt i weithredu Strategaeth Ddigidol yn llwyddiannus o fewn eu sefydliadau.</p>	<p><b>21 Medi 09:00 – 13:00 – Caerdydd - Caerdydd</b> <b><a href="#">I gofrestru ar gyfer Caerdydd</a></b></p> <p><b>27 Medi 09:00 – 13:00 – Gogledd Cymru – <a href="#">I gofrestru ar gyfer Gogledd Cymru</a></b></p>

## Blogiau Diweddar Archwilio Cymru

Teitl	Cyhoeddiad
<a href="#">Helpu pobl i helpu eu hunain</a>	15 Chwefror 2023
<a href="#">Storm berffaith – yr argyfwng costau byw a cham-drin domestig</a>	21 Tachwedd 2022
<a href="#">Mae mynd i'r afael â thlodi yn golygu mynd i'r afael â'r data ar dlodi</a>	11 Tachwedd 2022
<a href="#">Costau byw a rhoi'r fidog i gadw</a>	21 Medi 2022
<a href="#">Mae pethau'n poethi i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd</a>	18 Awst 2022
<a href="#">Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru</a>	15 Mehefin 2022
<a href="#">Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru – System o dan bwysau gwirioneddol.</a>	21 Ebrill 2022
<a href="#">Cystadleuaeth Sgiliau Cymru</a>	18 Chwefror 2022
<a href="#">Seibergadernid – blwyddyn ymlaen</a>	9 Chwefror 2022
<a href="#">Helpu i adrodd y stori drwy gyfrwng rifau (Offeryn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol)</a>	3 Chwefror 2022
<a href="#">Galwad am wybodaeth gliriach ynglŷn â gwariant ar newid yn yr hinsawdd</a>	2 Chwefror 2022

## Tudalen 36

Teitl	Cyhoeddiad
<u>Y gweithredoedd tu ôl i'r geiriau</u> (adeiladu gwytnwch cymdeithasol a hunandibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau)	14 Ionawr 2022

Thema	Cyf AGC	Cryfderau a nodwyd
Pobl – llais a rheolaeth	2.1	I lawer o bobl, caiff eu lleisiau eu clywed a chaiff eu canlyniadau personol eu cofnodi. Roedd enghreifftiau lle roedd ymarferwyr yn gweithio mewn ffordd gydweithredol a chyson â phobl i gefnogi'r pethau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael eu deall, bod eu llais wedi cael ei glywed a bod trefniadau cyfathrebu effeithiol a rheolaidd ar waith. Dywedodd 82% o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg pobl fod yr awdurdod lleol wedi eu trin ag urddas a pharch drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser.
Pobl – llais a rheolaeth	2.2	Gall pobl gyfathrebu yn eu dewis iaith. Roedd tystiolaeth bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ddarparu, ac roedd rheolwyr yn hyderus bod digon o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar waith.
Pobl – llais a rheolaeth	2.3	Roedd gwasanaethau eirioli yn cael eu hystyried a'u cynnig mewn modd rhagweithiol, yn enwedig yng nghyd-destun cynadleddau amddiffyn plant ac adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r ffaith bod y gwasanaethau hyn ar gael yn hwylus yn gryfder sy'n parhau o'n gwiriad sicrwydd blaenorol yn 2021. Mae eiriolwyr yn mynychu fforymau gwneud penderfyniadau yn rheolaidd er mwyn cyfleu safbwyntiau'r plant. Dywedodd rhai plant sy'n derbyn gofal wrthym am anawsterau roeddent yn eu cael weithiau wrth gael cymorth ac am ddiffyg tryloywder ynghylch eu hawliau a'u hawliadau. Roedd rhai o'r plant yn teimlo eu bod yn gwneud penderfyniadau heb gymorth ar adegau allweddol yn eu bywydau. Gall fod angen atgyferthu'r maes hwn ymhellach. Yn y gwasanaethau oedolion, roedd tystiolaeth bod pobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr anffurfiol i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae ymarferwyr yn y gwasanaethau oedolion yn deall pwysigrwydd gwasanaethau eirioli. Nododd y darparwr eirioli ffurfiol efallai, ar adegau gellid bod wedi ei gynnwys yn gynt.
Pobl – llais a rheolaeth	2.4	Mae pobl yn cael y cyfle i deilwra a rheoli eu gofal a'u cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, yn yr un modd ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, mae'n anodd recriwtio cynorthwyr personol i roi cymorth drwy daliadau uniongyrchol. Clywsom sut mae'r gwasanaeth wrthi'n ceisio recriwtio cynorthwyr personol newydd drwy wefan a system feddalwedd newydd.
3.16. Cafwyd sylwadau cymysg gan ddarparwyr y trydydd sector ynghylch trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda rhai yn datgan y gellid cydnabod pa wasanaethau sydd ar gael yn well a gwneud mwy i'w cydgyssylltu ar lefel strategol. Gallai fod o fudd i'r awdurdod lleol gynnal ymarfer mapio i ddeall amrywiaeth gwasanaethau'r trydydd sector gyda'r nod o annog mwy o gydweithio.

3.17. Clywsom gan ymarferwyr, rheolwyr timau a Swyddogion Adolygu Annibynnol fod cynlluniau yn ganolog wrth fonitro ymyriadau â phlant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Fodd bynnag, nid oes trefniadau tebyg ar waith ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae nifer y plant yr oedd cynllun gofal a chymorth cyfredol a chynllun llwybr ar waith ar eu cyfer ar ddyddiad eu lleoliad cyntaf yn llawer rhy isel ac mae angen cynyddu'r nifer hwnnw. Mae'r wybodaeth hon am berfformiad yn adlewyrchu'r negeseuon a gawsom gan y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw a ddywedodd wrthym nad oeddent wedi gweld eu cynlluniau. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff cynlluniau eu diweddarau'n unol â safonau statudol.**

#### 4. Llesiant

##### Cryfderau:

4.1. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu plant a phobl ifanc ym mhob rhan o'r model LIGO. Roedd y gweithwyr cymdeithasol yn dangos dealltwriaeth dda o hanes a sefyllfa bresennol teuluoedd. Gwelsom weithwyr medrus a chymwys a oedd yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion diogelu plant a phobl ifanc. Mae'r penderfyniadau a

wneir mewn perthynas â niwed sylweddol yn glir ac maent yn arwain at gamau gweithredu priodol.

- 4.2. Caiff plant eu gweld mor aml ag sydd ei angen gan eu gweithiwr cymdeithasol, yn unol â lefelau eu hanghenion a'r risgiau. Cydnabyddir effaith tiodi ar deuluoedd a rhoddir cymorth ariannol rheolaidd i rieni er mwyn iddynt allu mynychu sesiynau cyswllt. Gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr yn cynyddu nifer yr ymweliadau, gan gynnwys ymweld ar benwythnosau, ac yn rhoi cymorth dwys er mwyn bwrw ati i leihau risgiau diogelwch. Rhoddodd un rhiant ddisgrifiad pwerus o'r dull gweithredu a oedd ar waith gan nodi bod yr ymarferwyr yn "*understanding, actually supporting me and letting me speak*". Dywedodd hefyd fod adroddiadau cynadleddau bellach yn cydnabod cryfderau yn ogystal â risgiau. Mae hyn yn ategu ein canfyddiadau bod risgiau amddiffyn plant yn cael eu hystyried yn briodol a'u cydbwysu yn erbyn cryfderau teuluoedd.
- 4.3. Caiff Cynadleddau Grŵp Teulu eu defnyddio'n rheolaidd ac yn effeithiol i ffurfioli'r cymorth a roddir i rieni/gofalwyr ofalu am eu plant yn ddiogel. Yn yr achosion hyn, caiff canlyniadau da yn aml eu cyflawni ar gyfer y plant. Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i gadw plant gyda'u rhieni ac, er nad oedd hynny bob amser yn bosibl, gwelsom ganlyniadau da lle rhoddwyd cyfle i'r plant aros gydag aelodau o'r teulu estynedig. **Yn gadarnhaol, clywsom fod y trefniadau ar gyfer Cynadleddau Grŵp Teulu bellach yn cael eu hehangu i gynnwys gwaith gydag oedolion, er mwyn adlewyrchu'r model LIGO.**
- 4.4. Gwelsom enghreifftiau rhagorol o ymarferwyr yn cofnodi eu gwaith dadansoddi a'u rhesymeg gan ddangos eu bod wedi deall yr hyn a oedd yn ofynnol er mwyn helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau. Caiff safbwyntiau plant eu hystyried fel rhan o waith cynllunio a gwaith dadansoddi gwybodus gan weithwyr cymdeithasol i ystyried y risg o niwed. Mae'r cofnodion yn tynnu sylw at gryfderau yn ogystal â nodi'r pryderon a phrofiadau bywyd plant. Gwelsom enghreifftiau rhagorol o asesiadau risg amlasiantaeth, gan ddefnyddio dulliau SOS ac amrywiaeth o adnoddau eraill i hwyluso gwaith uniongyrchol.

### **Meysydd i'w Gwella:**

- 4.5. Mewn perthynas â diogelu oedolion, a oedd yn gryfder yn flaenorol, gwelsom rywfaint o amrywiadau yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos arferion diogelu amserol ac effeithiol a oedd yn gydnaws â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, gellid atgyfnerthu'r cofnodion drwy fynd ati'n gyson i nodi tystiolaeth o'r holl gamau rhesymol a gymerwyd i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses ddiogelu.
- 4.6. Nododd asiantaethau partner ddiffyg adborth pan fyddent yn rhoi gwybod am bryderon diogelu mewn perthynas ag oedolion. Clywsom hefyd er bod lefelau presenoldeb da mewn cyfarfodydd strategaeth, fod oedi yn aml wrth ddosbarthu

cofnodion y cyfarfodydd hyn. **Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau presennol i sicrhau y caiff canlyniadau atgyfeiriadau eu rhannu â'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos ac y caiff cofnodion eu rhannu â'r unigolion a oedd yn bresennol mewn modd amserol.**

- 4.7. Clywsom, ar adegau, fod capasiti'r tîm diogelu oedolion i ymgymryd ag ymweliadau ar y cyd â'r heddlu a chwblhau asesiadau galluedd meddyliol amserol wedi bod yn gyfyngedig. Cawsom wybod am gynlluniau i wella capasiti'r tîm diogelu oedolion. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau goruchwylio cadarn ar waith ar gyfer arferion diogelu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.**
- 4.8. Fel rhan o'r model LIGO newydd, caiff trafodaethau strategaeth bellach eu cynnal gan y tîm diogelu canolog. Ar adegau, nodwyd gennym y dylid bod wedi gwahodd grŵp ehangach o weithwyr proffesiynol i gymryd rhan yn y drafodaeth strategaeth mewn perthynas â phlant, er enghraifft gweithwyr ieuchyd neu addysg. Dylid bob amser wahodd y gweithiwr cymdeithasol sy'n gweithio gyda'r teulu i gyfrannu gan y bydd gan yr unigolyn hwnnw, yn anochel, gyfoeth o wybodaeth i lywio'r penderfyniadau a wneir. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi prosesau amddiffyn plant ar waith mewn modd amserol **ond rhaid iddo sicrhau y caiff cyfranogiad amlasiantaeth ei ystyried cyn gynted â phosibl.**
- 4.9. Nododd ein Gwiriad Sicrwydd yn 2021 fod ansawdd asesiadau, cynlluniau gofal a chymorth a chofnodion oedolion yn amrywiol. Rydym wedi dod i'r un casgliad yn dilyn yr arolygiad hwn. Caiff lleisiau llawer o bobl eu clywed, a chaiff y pum maes asesu eu cynnwys yn yr asesiad gofal cymdeithasol arbenigol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n wir mewn llawer o'r asesiadau cymesuredd. Yn ein barn ni, dim ond cofnodi'r prosesau brysbennu, cyfathrebu a phenderfyniadau amlasiantaethol a wneir, yn hytrach na nodi asesiad o'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig ag asesiadau oedolion er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn yr holl ofynion statudol craidd a amlinellir yn Rhan 3 o'r Cod Ymarfer (Asesu Anghenion Unigolion).**
- 4.10. Wrth gwblhau cofnodion gofal cymdeithasol, mae'n bwysig bod ymarferwyr yn nodi rôl y bobl sy'n cymryd rhan yn y trafodaethau amlasiantaethol. Dim ond enwau cyntaf yr ymarferwyr oedd wedi'u nodi yn llawer o'r asesiadau cymesuredd. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ei bolisi cofnodi er mwyn cynnwys trefniadau goruchwylio cadarn gan reolwyr i wneud yn siŵr y caiff pob cofnod ei gynnal yn briodol.**

## 5. Partneriaethau ac Integreiddio

**Cryfderau:**

## Tudalen 56

15

- 5.1. Clywsom negeseuon cyson gadarnhaol am y trefniadau gweithio mewn partneriaeth gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad. Ar lefel strategol, mae'r uwch-arweinwyr yn cydweithio i ymdrin â heriau adrannol trawsbynciol. Disgrifiodd un uwch-reolwr y strwythur uwch-reoli fel '*powerhouse*' o ran cyflawni nodau. Yn allanol, clywsom am gydberthnasau gwaith rhagorol â'r arweinydd strategol yn y gwasanaethau iechyd cymunedol. Gwelsom dystiolaeth o bartneriaethau a oedd o fudd uniongyrchol i bobl, er enghraifft o ran datblygu cartrefi gofal i blant yng Ngheredigion sy'n golygu y gallant aros yn eu cymunedau eu hunain, a phrosiect Borth, sef cyfarfod amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r gefnogaeth cywir ar yr adeg gywir.
- 5.2. Yn weithredol, mae trefniadau integreiddio a chydweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol yn amlwg ar draws timau. Mae strwythurau ar waith sy'n golygu y gall ceisiadau am ofal a chymorth gael eu hystyried mewn ffordd gydgysylltiedig mewn perthynas â gwasanaethau atal. Mae gwaith integredig â'r gwasanaethau iechyd a ddarperir gan dimau Brysbennu ac Asesu'r Porth Gofal yn sicrhau y gellir cyfeirio pobl tuag at y gweithiwr proffesiynol mwyaf perthnasol mewn modd amserol. Mae hyn yn annog proses o ystyried amgylchiadau pobl a risgiau mewn ffordd gyfannol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau brysbennu yn cael eu gwneud ar sail gwybodaeth. Er enghraifft, o ganlyniad i broses brysbennu effeithiol ac amserol a lwyddodd i atgyfeirio unigolyn at sylw'r tîm galluogi, llwyddwyd i ryddhau'r unigolyn hwnnw'n brydlon o'r ysbyty a rhoi cyfle iddo adennill ei annibyniaeth gartref heb fod angen gofal a chymorth ffurfiol.
- 5.3. Ceir lefelau presenoldeb da gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol mewn fforymau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys cynadleddau amddiffyn plant. Disgrifiodd ymarferwyr y prosesau ymgysylltu yn ystod y cyfarfodydd hyn fel prosesau 'eithriadol' a nodwyd enghreifftiau lle roedd pediatregwyr yn aml yn bresennol. Clywsom fod adroddiadau cynadleddau yn cael eu rhannu fel mater o drefn, ond mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu cofnodion cynadleddau mewn modd amserol ar ôl y cynadleddau. Roedd tystiolaeth o drefniadau cydweithio â gweithwyr iechyd i'w gweld yn ffeiliau nifer bach o'r plant anabl a welwyd ac o anghytuno iach rhwng gweithwyr proffesiynol ar brydiau.
- 5.4. Mae llawer o drefniadau partneriaeth cadarnhaol gan ysgolion. Er enghraifft, gwelsom lwybr clir a oedd yn galluogi plant sy'n derbyn gofal i gael gafael ar gymorth iechyd emosiynol drwy'r Cynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) a mentrau mwy cyffredinol fel arolygon i dargedu grwpiau penodol o blant a risgiau cyd-destunol ynghylch materion fel fêpio. Mae'n amlwg bod partneriaethau da ar waith rhwng ysgolion a gweithwyr ieuencid, cwyselwyr ysgol a swyddogion cynhwysiant a bod y partneriaethau hynny o fudd i blant.
- 5.5. Dywedodd staff gwaith cymdeithasol wrthym fod amseroldeb ac ansawdd cyfraniadau partneriaid at asesiadau yn dda. Gwelsom enghreifftiau o drefniadau



gweithio mewn partneriaeth amlasiantaethol effeithiol ac ymrwymiad i gefnogi teuluoedd a chadw plant o fewn eu teuluoedd.

- 5.6. Rhoddodd darparwyr adborth cadarnhaol ar eu cydberthnasau â'r tîm comisiynu. Soniwyd y gallai'r broses dendro fod yn heriol, ond nodwyd bod yr awdurdod lleol yn gefnogol ac yn cynnal gweithdai i symleiddio'r broses ac i esbonio'r disgwyliadau. Dywedodd darparwyr hefyd fod y tîm comisiynu yn barod i wrando ar eu barn ac i weithredu er mwyn gwella materion.

### **Meysydd i'w Gwella:**

- 5.7. Ceir tystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthnasau gwaith proffesiynol â phobl ar sail cydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Fodd bynnag, mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â phobl a gofalwyr ar ganlyniadau a gaiff eu llunio ar y cyd mewn rhai meysydd gwasanaeth. Fel y crybwyllwyd eisoes yn gynharach yn yr adroddiad, mae angen cynnwys asesiadau ac egwyddorion Deddf 2014 fel rhan amlycach o ymarfer, yn enwedig wrth gwblhau asesiadau cymesuredd. Ar adegau, caiff y cymorth ei arwain gan y gwasanaeth a'i roi ar ffurf weithredol yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig a'r canlyniadau y mae'r unigolyn am eu cyflawni.
- 5.8. Er i ni glywed bod partneriaid a rhanddeiliaid ar lefel Bwrdd Ceredigion Iachach a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn deall gweledigaeth y model LIGO, clywsom hefyd fod angen gwella'r trefniadau cyfathrebu ar sail ehangach. Clywsom fod rhai aelodau o'r cyhoedd wedi hysbysu'r awdurdod lleol nad oeddent yn siŵr beth oedd ystyr y Pyrth ac nad oeddent yn deall pa wasanaethau a oedd wedi'u cynrychioli ganddynt. **Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei strategaeth gyfathrebu er mwyn sicrhau bod ei fodel yn ddealladwy ac yn hygyrch.**
- 5.9. Ar y cyfan, mae darparwyr o'r farn bod yr awdurdod lleol wedi bod yn glir ynghylch ei weledigaeth o'r model LIGO. Fodd bynnag, nawr bod y broses ailstrwythuro wedi'i chwblhau, nid yw rhai ohonynt yn glir ynghylch y sefyllfa bresennol o fewn rhai timau. Dylai'r awdurdod lleol ystyried rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w bartneriaid am y trefniadau gweithredol presennol.
- 5.10. Nododd rhai darparwyr nifer y gweithwyr asiantaeth a oedd yn gweithio fel rhan o rai o'r timau, a all effeithio ar ansawdd atgyfeiriadau ac sydd wedi atal cyfarfodydd rhag cael eu cynnal pan nad yw'r gweithwyr wedi'u lleoli yng Ngheredigion. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw penderfyniadau i gyflogi staff asiantaeth sy'n gweithio y tu allan i Geredigion yn achosi unrhyw rwystrau neu oedi o ran rhoi cymorth i bobl.

### **Y Camau Nesaf**

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r arferion cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol, er mwyn lledaenu gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## Methodoleg

### Gwaith maes

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar **42** o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain **10** ohonynt er mwyn deall profiad yr unigolyn yn fanylach.

Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

Gwnaethom hefyd:

- gyfsweld â chyflogwyr yr awdurdod lleol.
- cyfsweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner, yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.
- cynnal grwpiau ffocws gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau'r awdurdod lleol.
- O ganlyniad i'r uchod, llwyddodd AGC i ymgysylltu â **114** o unigolion.

Yn ogystal, gwnaethom;-

- edrych ar ffeiliau goruchwyllo staff
- edrych ar ganmoliaethau a chwynion
- edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad
- dosbarthu arolygon i staff, sefydliadau partner a phobl

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>.

### Y Gymraeg

Cyflawnwyd ymrwymiad AGC i ddarparu cynnig rhagweithiol i gynnal rhannau o'r arolygiad yn Gymraeg. Roedd angen y cynnig rhagweithiol yn ystod yr arolygiad hwn.

## **Cydnabyddiaethau**

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

## Gosod amcanion llesiant – Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2022-2023

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2023

Cyfeirnod: 3624A2023

# Tudalen 61

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

## Cynnwys

### Cynnwys

Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant	4
Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Sir Ceredigion	5
Sut a phryd y mae Cyngor Sir Ceredigion yn gosod ei amcanion llesiant	5
Yr hyn a chanfuom	
Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant, fodd bynnag, gallai dynnu ar gyfranogiad mwy helaeth o ddinasyddion a gwella monitro ac adrodd	6
Argymhellion	9
Atodiadau	
Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano	10

## Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant

- 1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 48 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyrff hynny osod a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf.<sup>1</sup> Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.
- 2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae gyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant.<sup>2</sup> Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r arholiadau hyn, hyd at ddechrau 2025.<sup>3</sup>
- 3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal.<sup>4</sup>
- 4 Gwnaethom lunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae gyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut beth allai da edrych.
- 5 Wrth ddylunio ein dull gweithredu, gwnaethom ystyried yr hyn y gallem ei ddisgwyl yn rhesymol gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Dylai gyrff cyhoeddus nawr fod yn gyfarwydd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a cheisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod gyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant. Felly, mae'r arholiadau'n cynnwys ystyried sut mae gyrff cyhoeddus yn cymhwyso eu dysgu a sut y gallant wella yn y dyfodol.

<sup>1</sup> Y saith nod llesiant cenedlaethol yw; Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus, a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

<sup>2</sup> Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<sup>3</sup> Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arholiadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau flwyddyn cyn etholiad y Senedd ac sy'n dod i ben flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad y Senedd ganlynol.

<sup>4</sup> Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Sir Ceredigion

- 6 Nod yr archwiliad hwn oedd:
- esbonio sut y gwnaeth Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gydol y broses o osod ei amcanion llesiant;
  - rhoi sicrwydd i'r graddau y gweithredodd y Cyngor yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant; a
  - nodi cyfleoedd i'r Cyngor ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth osod amcanion llesiant yn y dyfodol.
- 7 Aethom ati i ateb y cwestiwn 'i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd'. Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:
- A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y Cyngor i osod ei amcanion llesiant wedi'u seilio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
  - A yw'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
  - A yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?
- 8 Buom yn trafod amseriad yr arholiad gyda'r Cyngor, ac fe wnaethom deilwra'r ddarpariaeth i adlewyrchu ei amgylchiadau penodol.
- 9 Rydym yn casglu ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:
- adolygu dogfennau allweddol;
  - cynnal gweithdy gyda swyddogion allweddol ac Aelodau a oedd yn ymwneud â gosod yr amcanion llesiant; a
  - chynnal cyfarfod eglurhad terfynol ar faterion sy'n weddill gydag unigolion allweddol yn ogystal â'r uchod.
- 10 Fe wnaethom hefyd ddarparu adborth anffurfiol i swyddogion ar ganfyddiadau allweddol ein gwaith cyn rhannu drafft cyntaf yr adroddiad hwn.

## Sut a phryd mae'r Cyngor yn gosod ei amcanion llesiant

- 11 Mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2022-2027 (y Strategaeth) ym mis Tachwedd 2022. Mae'r Strategaeth wedi'i strwythuro o amgylch pedwar Amcan Llesiant Newydd y Cyngor, sef:
- hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
  - creu cymunedau gofalgwr ac iach
  - darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi dysgu ar bob oedran



- creu Cymunedau Cynaliadwy, Gwyrdd a Chysylltiadau Da
- 12 Strategaeth y Cyngor hefyd yw ei ddatganiad llesiant, y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o dan y Ddeddf.' Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi'r Strategaeth lawn ar eu gwefan, yn ogystal â Strategaeth Gryno a fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen'.
- 13 Wrth osod ei Amcanion Llesiant newydd (ALI) mae'r Cyngor wedi cymhwyso gwersi a ddysgwyd o'i leoliad blaenorol o ALI. Roedd y gwersi allweddol hyn yn cynnwys:
- datblygu ei flaenoriaethau ALI a Chorfforaethol newydd i ddod yn un yn yr un peth, gyda'r nod o sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i wneud y mwyaf o'i gyfraniad i'r Nodau Cenedlaethol.
  - bod yn gliriach ynghylch y rhesymeg a'r sail dystiolaeth ar gyfer ei ALI sydd wedi sicrhau bod ei ALI yn canolbwyntio ar y meysydd hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf ac yn mynd i'r afael â'r materion mwyaf arwyddocaol.
  - ffocws ar gryfhau'r cysylltiadau rhwng ei Gynllun Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynlluniau Gwasanaeth Unigol. Mae hyn wedi sicrhau bod y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau yn cyd-fynd yn well â chyflawni ei ALI.

## Yr hyn a chanfuom

**Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant, fodd bynnag, gallai dynnu ar gyfranogiad mwy helaeth o ddinasyddion a gwella monitro ac adrodd**

## Y broses ar gyfer pennu amcanion llesiant

### Sylfaen dystiolaeth

- 14 Tynnodd y Cyngor o set eang o ddata a deallusrwydd i ddeall ei anghenion presennol a'i anghenion yn y dyfodol. Er enghraifft:
- Yr Asesiad Llesiant rhanbarthol
  - Ei adolygiad blynyddol o berfformiad yn erbyn ei ALI
  - Ei hunanasesiad blynyddol
  - Asesiad Anghenion Poblogaeth Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2022
  - Cynllun Ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
  - Adroddiad tueddiadau'r dyfodol (Cymru) 2021
  - Tystiolaeth ar gyfer trydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (CCRA3): Crynodeb ar gyfer Cymru 2021

- 15 Mae'r wybodaeth eang hon wedi helpu'r Cyngor i roi rhesymeg glir dros osod ei ALL a'r camau y mae'n eu cymryd i'w cyflawni.
- 16 Mae'r Cyngor wedi defnyddio set gadarn o dystiolaeth i ddatblygu dealltwriaeth glir o achosion sylfaenol y materion allweddol. Er enghraifft, heriau ynghylch cyfleoedd cyflogaeth lleol ac argaeledd tai fforddiadwy, gan fod yn rhai o achosion sylfaenol mudo pobl ifanc allan o'r Sir. Defnyddiwyd y ddealltwriaeth hon wedyn i benderfynu pa gamau y mae'n ystyried fydd yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf.

## Ymgynghori a chyfranogiad

- 17 Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd cynnwys dinasyddion, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd, a rhanddeiliaid wrth osod a chyflawni ei ALI. Mae wedi ymgynghori ar ei Strategaeth Gorfforaethol yn uniongyrchol a thrwy ddefnyddio canlyniadau ymarferion ymgysylltu presennol, er enghraifft, ymgysylltu ynghylch Asesiad Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn yn gyfyngedig ac nad oedd yn adlewyrchu amrywiaeth lawn dinasyddion.
- 18 Mae rhai enghreifftiau da yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor o ble mae ymgysylltu'n gweithio'n dda, ac mae dinasyddion yn ymwneud â chyflawni'r camau i gyflawni'r WO. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth yn natblygiad y Model Llesiant Trwy Oedran (TAWBM) a chynnwys pobl ifanc a Chymdeithasau Tai yn rhaglenni tai fforddiadwy ac oes y Cyngor.
- 19 Bydd datblygu a gweithredu ffyrdd arloesol a gwahanol o ymgysylltu â dinasyddion i lywio lleoliad ei Gydweithfa yn y dyfodol yn bwysig os yw'r Cyngor am wella lefelau ymgysylltu a chyrraedd amrywiaeth lawn y boblogaeth. Dylai Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu'r Cyngor a lanswyd yn ddiweddar ei helpu gyda hyn.
- 20 Mae'r naratif o fewn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yn tynnu sylw at y ffaith mai dim ond drwy gydweithio â dinasyddion y gellir cyflawni ar y Cyd â Chanolfan Gymdeithasol Cymru. Er enghraifft, bydd ei ALI "Creu Cymunedau Gofalu ac Iach" yn cael ei ategu gan ddarparu'r TAWBM sydd, yn ei dro, yn canolbwyntio ar ymgysylltu cynnar â dinasyddion a theuluoedd dinasyddion i nodi anghenion a lleihau'r risg o ddarparu pecynnau gofal dwysedd uchel yn y dyfodol.

## Cynllunio i wella lles

- 21 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o sut mae ei ALI yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Nodau Cenedlaethol a chynhaliodd ymarfer mapio penodol i benderfynu sut mae ei ALI, a'r camau y mae'n eu cymryd i'w cyflawni orau yn cefnogi pob Nod. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu cydberthyniad clir rhwng Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ALI a'i Swyddfa Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o faterion a risgiau rhanbarthol a rennir a ddatblygwyd yn rhannol drwy'r asesiad llesiant BGC rhanbarthol.

## Tudalen 67

- 22 Wrth ddatblygu ei ALI, archwiliodd y Cyngor flaenoriaethau strategol sefydliadau rhanbarthol eraill, gan gynnwys y rhai yng Nghynllun Heddlu a Throsedd Dyfed Powys 2021-2025 a Chynllun Ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol), i alluogi a hyrwyddo dull cydgysylltiedig o wella llesiant yng Ngheredigion.
- 23 Mae nifer o enghreifftiau, gan gynnwys Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, y mae'r Cyngor wedi tynnu arnynt i helpu i lywio lleoliad ei ALI a bydd hefyd yn gweithio gyda nhw i helpu i'w cyflawni. Mae enghreifftiau hefyd, gan gynnwys TAWBM, sy'n dangos ble a sut mae'r Cyngor yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn gwella llesiant.
- 24 Mae pedwar ALI newydd y Cyngor yn defnyddio naratif sy'n eu helpu i'w gosod fel rhai sy'n berthnasol i ddarparu angen tymor byr a thymor hir. Ymhlith yr ardaloedd o fewn ei Strategaeth Gorfforaethol lle'r oedd hyn yn arbennig o gryf roedd newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon, yn ei ffocws ar dai fforddiadwy, yn ei ddull o adfywio economaidd a'i TAWBM.

### Cyflawni'r amcanion llesiant

- 25 Rhan allweddol o'r broses bresennol i gyflawni ALI y Cyngor yw drwy ei Gynlluniau Busnes Gwasanaeth. Mae'r rhain yn rhan allweddol o 'edau aur' y Cyngor sy'n cydgysylltu cynlluniau staff unigol hyd at y blaenoriaethau yn y Strategaeth Gorfforaethol. Mae'r Cyngor yn parhau i wella'r ffordd y mae'r Cynlluniau Busnes Gwasanaeth hyn yn dangos yn glir sut mae gwasanaethau unigol yn cefnogi'r broses o ddarparu ALL.
- 26 Mae'r Cyngor wedi dangos sut y mae wedi dyrannu adnoddau i gefnogi'r gwaith o ddarparu rhai rhannau o'i ALI. Mae enghreifftiau'n cynnwys dyrannu adnoddau penodol i TAWBM a chlustnodi dros £9m o gronfeydd wrth gefn i fod yn sail i brosiectau allweddol Bargen Twf Canolbarth Cymru. Mae'r Cyngor yn datblygu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) newydd - sydd i fod i gael ei chwblhau erbyn canol 2023 - ac mae wedi datblygu Strategaeth Gyfalaf aml-flwyddyn i wella aliniad hirdymor adnoddau i'r ALI. Mae datblygu effeithiol a gweithredu'r Strategaethau Cyfalaf a SATC newydd yn llwyddiannus yn amlwg yn sylfaenol i gyflawni'r ALI.
- 27 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod yr adnoddau hirdymor ar gyfer rhai o'r ALI, fel y ALI sy'n ymgorffori datgarboneiddio, yn parhau i fod yn risg. Bydd yn bwysig bod fersiwn newydd o'i SATC yn cynnwys asesiad o ble y gallai fod risg ariannol yn y dyfodol i gyflawni ei ALI.

### Monitro'r amcanion llesiant

- 28 Proses bresennol y Cyngor ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn ei ALI yw drwy gyfuniad o'i drefniadau monitro Perfformiad Chwarterol a thrwy ei adroddiad adrodd blynyddol a hunanasesu. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen gwella ei

ddull monitro presennol er mwyn sicrhau ei fod yn gallu monitro ei gynnydd yn y ALI yn fwy effeithiol ac yn fwy rheolaidd.

- 29 Er bod y Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys y gweithgaredd y bydd y Cyngor yn ymgymryd ag ef i wneud cynnydd o ran cyflawni ei ALI a hefyd yn cynnwys y Mesurau Atebolwydd Cyhoeddus Cenedlaethol, mae'n bwriadu cynnwys set fwy cynhwysfawr o fesurau i bennu ei gynnydd o fewn ei Gynlluniau Busnes Gwasanaeth unigol.
- 30 Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu ystod uwch o fesurau lefel uchel sy'n seiliedig ar ganlyniadau i fonitro cynnydd yn effeithiol yn erbyn ei SBO. Mae'n bwriadu ymgymryd â gwaith o amgylch monitro a mesurau fel rhan o'r gwelliannau parhaus y mae'n eu gwneud i'w drefniadau rheoli perfformiad. Gan fireinio, adrodd yn rheolaidd a chraffu yn gadarn, bydd y mesurau ALI yn gam allweddol wrth alluogi'r Cyngor i bennu'r cynnydd y mae'n ei wneud wrth gyflawni ei Swyddfa Archwilio a sut/a ydynt yn effeithio a gwella lles dinasyddion Ceredigion fel y bwriadwyd ac a gynlluniwyd.
- 31 Mae rhai enghreifftiau da o fesurau a chamau perfformiad, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â thlodi, megis "Creu a gweithredu Cynllun Gweithredu Amddifadedd Gwledig ac Ecwiti i gefnogi ysgolion, lleoliadau nas cynhelir a darparwyr gofal plant a chwarae i leihau effaith tlodi ar bob plentyn" sy'n ystyried yr effaith eang ar les ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

## Argymhellion

- R1 Dylai'r Cyngor adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant drwy:
- archwilio ffyrdd newydd o fanteisio ar amrywiaeth lawn ei phoblogaeth i lywio a chyflawni ei ALI.
  - sicrhau bod ei MTFs wedi'i adnewyddu yn dangos sut y bydd yn rhoi adnoddau i ddarparu ei ALI newydd dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy ac i adlewyrchu unrhyw risgiau ariannol posibl i'w cyflawni yn y dyfodol.
  - sicrhau bod ei drefniadau rheoli perfformiad datblygol yn nodi'r mesurau canlyniadau mwyaf priodol ac yn darparu monitro, adrodd a chraffu effeithiol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflawni ei ALI.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr arholiad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i arwain ein casglu tystiolaeth. Mae hefyd yn cynnwys rhai 'dangosyddion cadarnhaol' sydd wedi'u teilwra i'r arholiad hwn, wedi'u haddasu o'r rhai rydym wedi'u defnyddio o'r blaen i lywio ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid rhestr wirio yw'r rhestr hon, ond yn hytrach set o nodweddion darluniadol sy'n disgrifio sut beth allai da edrych.

**I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?**

**Cynllunio: A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y corff i osod ei amcanion llesiant yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?**

**A yw'r corff wedi defnyddio data a gwybodaeth arall i ddeall anghenion, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?**

**Dangosyddion positif**

- Mae gan y corff asesiad clir a chytbwys o'r cynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i lywio dealltwriaeth y corff o'r angen 'fel y mae'/tymor byr'.
- Mae'r corff wedi gosod amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o angen, risg a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei dynnu o amrywiaeth o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:
  - Aseidiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
  - Aseidiadau poblogaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
  - Canlyniadau ymarferion cyfranogiad lleol/ymgynghori

## I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?

	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Monitro a chwynion gwasanaethau</li> <li>– Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol</li> <li>– Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru (SoNaRR) ar gyfer Asesiadau Cymru ac Ardaloedd</li> <li>• Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau rhwng cenedlaethau trwy ei amcanion llesiant.</li> </ul>
<p><b>A yw'r corff wedi cynnwys eraill i ddatblygu ei amcanion llesiant?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau cyfranogiad i helpu i ddewis ei amcanion llesiant. Mae'r ymglymiad hwnnw - boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad - yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.</li> <li>• Mae cyfranogiad yn adlewyrchu arfer da a chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.</li> </ul>
<p><b>A yw'r corff wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella lles a chael effaith eang?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.</li> <li>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.</li> <li>• Mae dealltwriaeth ddatblygedig o sut mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar, neu'n ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i weithio gyda'i gilydd.</li> </ul>
<p><b>A yw'r corff wedi dylunio'r amcanion i sicrhau manteision tymor hwy, wedi'u cydbwysu â diwallu anghenion tymor byr?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r corff wedi gosod amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac sydd wedi'u cynllunio i yrru gweithgaredd ar draws y sefydliad.</li> <li>• Mae'r amcanion wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion tymor byr a thymor hir. Pan osodir amcanion dros amserlen fer i ganolig, fe'u gosodir yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy.</li> </ul>

## I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?

**Adnoddau a chyflawni:** A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?

**A yw'r corff wedi ystyried sut y gall roi adnoddau i'r amcanion llesiant?**

- Dyrannwyd adnoddau i sicrhau y gellir cyflawni'r amcanion dros y tymor byr a'r tymor canolig, ond mae'r corff hefyd wedi ystyried adnoddau, risgiau a/neu sut y gall adnoddau adnoddau tymor hwy.
- Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i sicrhau buddion ataliol, lle mae'r rhain yn cael eu disgrifio yn ei amcanion llesiant.

**A yw'r corff wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion?**

- Mae'r corff yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei berthnasoedd a'i drefniadau cydweithredol i sicrhau y gall gyflawni uchelgeisiau trawsbynciol.

**Monitro ac adolygu:** A yw'r corff wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?

**Ydy'r corff wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol?**

- Mae mesurau perfformiad wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e., drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/sefydliadol ac sy'n sicrhau buddion lluosog (gan gynnwys ataliol) dros y tymor hwy.
- Mae 'edau aur' a fydd yn caniatáu i'r corff adrodd yn glir ac yn dryloyw ar gynnydd i gyflawni'r amcanion.

**A yw'r corff yn ceisio dysgu oddi wrth a gwella sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i bennu ei amcanion llesiant?**

- Mae'r corff yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.
- Mae'r corff wedi dysgu o osod amcanion llesiant blaenorol a thrwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant newydd.
- Mae gan y corff neu'n bwriadu myfyrio ar sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch hwn o bennu amcanion llesiant.







Archwilio Cymru  
1 Cwr y Ddinas  
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn testun: 029 2032 0660

Ebost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)  
Gwefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

## Adolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3660A2023

# Tudalen 75

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ceredigion fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

## Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gweithredu'n gyflym i ddechrau ymateb i'r argymhellion gwreiddiol yn ein hadroddiad yn 2021 ar yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio. Fodd bynnag, yn awr mae angen i'r Cyngor fireinio gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu ei Bwyllgor Rheoli Datblygu ymhellach fel eu bod yn cael eu deall, eu cymhwyso a'u gwreiddio'n llawn mewn ffordd sy'n dryloyw ac sy'n rhoi gwerth am arian i'r Cyngor cyfan.

### Adroddiad cryno

Crynodeb 4

### Adroddiad manwl

Trosolwg o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'n hadolygiad gwreiddiol (Hydref 2021) o'r Gwasanaeth Cynllunio 6

Argymhellion 12

### Atodiadau

Atodiad 1 – Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2021 13

## Adroddiad cryno

### Crynodeb

#### Meini Prawf Archwilio

- 1 Amcan yr adolygiad hwn oedd asesu cynnydd y Cyngor yn erbyn y deg argymhelliad a wnaed yn ein hadroddiad ar Adolygiad Archwilio Cymru o'r Gwasanaeth Cynllunio yn 2021. Yr argymhellion yn ein hadroddiad gwreiddiol oedd y meini prawf ar gyfer yr adolygiad dilynol hwn.

#### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 2 Mae gwasanaethau cynllunio'r Cyngor yn alluogwyr strategol bwysig sy'n tanategu llawer o ddatblygiadau mawr a phwysig, gan gynnwys adeiladu ysgolion newydd, datblygu cartrefi gofal, datblygiadau tai a llety i dwristiaid. Gall y datblygiadau hyn helpu cyngorau i gyflawni eu hamcanion ac uchelgeisiau corfforaethol.
- 3 Mae gan Gyngor Sir Ceredigion (y Cyngor), fel Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), rôl hanfodol o ran adnabod anghenion datblygu; pa ardaloedd y mae angen eu gwarchod neu eu gwella; ac o ran asesu a yw datblygiad arfaethedig yn gyson â pholisïau lleol a chenedlaethol.
- 4 Fel rhan o'n Cynllun Archwilio ar gyfer Cyngor Ceredigion yn 2021-22, fe gynhaliom ni adolygiad o wasanaeth cynllunio'r Cyngor i ganfod a oedd y gwasanaeth yn cyflawni ei amcanion ac yn cyfrannu tuag at gyflawni'r blaenoriaethau yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor mewn modd effeithiol a chynaliadwy. Ym mis Hydref 2021, fe gyhoeddodd ni ein canfyddiadau o'r adolygiad hwnnw<sup>1</sup> a daethom i'r casgliad, er bod aelodau'r Cyngor ac uwch swyddogion o'r farn bod y gwasanaeth cynllunio yn strategol allweddol, nad yw gwendidau hirsefydlog sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cefnogi'r Cyngor yn gynaliadwy nac yn gydlynol i wella perfformiad a chyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau strategol. Fe gyhoeddodd ni ddeg argymhelliad yn yr adroddiad hwnnw yn 2021.
- 5 Fe gynhaliom ni'r adolygiad dilynol diweddarach hwn o'r gwasanaeth cynllunio rhwng mis Medi 2022 a mis Chwefror 2023. Fe ddefnyddiom ni ystod o ddulliau archwilio wrth gynnal yr adolygiad hwn gan gynnwys cyfweiliadau, adolygiadau o ddogfennau ac arsylwi ar gyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor.
- 6 Fe ganolbwyntiom ni ar gynnydd y Cyngor yn erbyn ein hargymhellion yn yr adroddiad ar y Gwasanaeth Cynllunio a gyhoeddwyd gennym yn 2021.
- 7 Rydym hefyd wedi gwneud argymhellion pellach fel a nodir yn **Arddangosyn 2** isod. Mae rhai o'r rhain yn ymwneud â'n hargymhellion gwreiddiol yn 2021, ond

<sup>1</sup> Archwilio Cymru, Cyngor Sir Ceredigion – Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio, Tachwedd 2021

mae eraill yn ymwneud â chanfyddiadau newydd fel rhan o'n hadolygiad dilynol i helpu'r Cyngor yn y dyfodol.

## Yr hyn a ganfuom

- 8 Fel a nodir yn **Atodiad 1** isod, canfuom fel a ganlyn: Mae'r Cyngor wedi gweithredu'n gyflym i ddechrau ymateb i'r argymhellion gwreiddiol yn ein hadroddiad yn 2021 ar yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio. Fodd bynnag, yn awr mae angen i'r Cyngor fireinio gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu ei Bwyllgor Rheoli Datblygu ymhellach fel eu bod yn cael eu deall, eu cymhwyso a'u gwreiddio'n llawn mewn ffordd sy'n dryloyw ac sy'n rhoi gwerth am arian i'r Cyngor cyfan.
- 9 Ceir rhagor o fanylion am ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â phob un o'n hargymhellion yn **Atodiad 1**.
- 10 Mae'r adroddiad manwl yn darparu trosolwg o'n canfyddiadau.

## Adroddiad manwl

### Trosolwg o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'n hadolygiad gwreiddiol (Hydref 2021) o'r Gwasanaeth Cynllunio

- 11 Rydym yn cydnabod bod maint y newidiadau a gwelliannau o safbwynt gweithredol, llywodraethu a diwylliannol y mae eu hangen i fynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog hanesyddol y Pwyllgor Rheoli Datblygu y gwnaethom adrodd arnynt yn ein hadroddiad yn 2021 yn golygu y bydd yn cymryd amser i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy a'u gwreiddio'n llawn.
- 12 Roedd ein hadroddiad ar y Gwasanaeth Cynllunio ym mis Hydref 2021 yn cynnwys deg argymhelliad i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy a'r rheiny'n amrywio o faterion a oedd yn ymwneud â llywodraethu i rai a oedd yn ymwneud â chynllunio a monitro'r gwasanaeth.
- 13 Aeth y Cyngor ati'n gyflym i gytuno ar drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu a bu'n cydweithio'n agos gyda'r Aelodau i wneud hyn.
- 14 Fe weithredodd y Cyngor yn gyflym i gymeradwyo, erbyn mis Mawrth 2022, nifer o newidiadau cyfansoddiadol i'r trefniadau sy'n ategu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Fe wnaeth y Cyngor:
  - newid enw Saesneg y pwyllgor o Development Control i Development Management.
  - lleihau nifer yr Aelodau ar y pwyllgor o 21 i 15.
  - cymeradwyo cynllun dirprwyo newydd. Mae hyn yn sicrhau bod y pwyllgor yn ystyried yr holl geisiadau cynllunio mawr a strategol bwysig a cheisiadau cynllunio a gyflwynir gan y Cyngor, swyddogion cynllunio ac Aelodau Etholedig.
  - datblygu cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu.
  - cyflwyno canllawiau ynghylch diogelu data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.
  - cymeradwyo Protocol Arfer Da mewn Cynllunio ar gyfer Aelodau.
- 15 Yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, fe newidiodd aelodaeth Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor wrth i Aelodau Etholedig a oedd newydd gael eu hethol ymuno â'r Pwyllgor.
- 16 Darparodd swyddogion amrywiaeth eang o hyfforddiant i gynorthwyo holl Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu newydd i ddeall diben y pwyllgor, eu rôl ar y pwyllgor a pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pwysig.
- 17 Mae rôl y Pwyllgor Rheoli Datblygu o ran cyfrannu at amcanion corfforaethol y Cyngor yn dal i ddatblygu. Mae'n gadarnhaol gweld bod y Pwyllgor bellach yn ystyried ceisiadau mawr a strategol bwysig ac yn gwneud penderfyniadau er budd y cyhoedd ar geisiadau sensitif a chymhleth o bwysigrwydd strategol. Fodd bynnag, mae rhai mân geisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai sy'n ymdrin â

phryderon unigol nad ydynt yn cyd-fynd â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol yn dal i gael eu galw i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Gellir ymdrin â'r ceisiadau hyn dan awdurdod a ddirprwywyd i swyddogion ac maent yn mynd ag amser ac adnoddau'r Pwyllgor. Yn y dyfodol, dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar ei rôl strategol trwy fuddsoddi ei amser yn fwy ar y ceisiadau strategol bwysig y mae'n eu cael er mwyn cael effaith fwy arwyddocaol ac ehangach ar gymunedau lleol ac ar y Cyngor a'r sir.

- 18 Mae'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi gwneud gwelliant sylweddol o ran ymlynu wrth egwyddorion diogelu data a phrosesu gwybodaeth bersonol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data. Anaml y mae'r Pwyllgor Rheoli Datblygu'n trafod gwybodaeth bersonol ymgeiswyr bellach.
- 19 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'i ôl-groniad o geisiadau cynllunio gyda chymorth ymgynghorwyr allanol. Fodd bynnag, er gwaethaf trefniant tebyg gydag ymgynghorwyr allanol mewn perthynas â'r ôl-groniad o achosion gorfodi, nid yw achosion gorfodi'n lleihau yn yr un ffordd, sy'n effeithio ar berfformiad y Cyngor. Mae diffyg cymorth arbenigol o hyd yn y Gwasanaeth Cynllunio i alluogi swyddogion gorfodi i symud ymlaen gydag achosion gorfodi. Nid yw'r Cyngor wedi cytuno ar ei gyfeiriad strategol ar gyfer gorfodi, ac mae gorfodi'n faes sy'n achos pryder cynyddol i staff ac Aelodau'r Cyngor.
- 20 Nid oes bwriad gan y Cyngor ar hyn o bryd i drefnu bod darllediadau byw o gyfarfodydd ei Bwyllgor Rheoli Datblygu ar gael yn electronig i'r cyhoedd yn dilyn y cyfarfodydd. Cyngor Ceredigion yw'r unig Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) yng Nghymru nad yw'n gwneud hyn. Nid oes gan y Cyngor unrhyw fwriadau i recordio cyfarfodydd ei Bwyllgor Rheoli Datblygu a threfnu eu bod ar gael yn electronig ar ôl eu darlledu'n fyw nes bydd hi'n ofynnol iddo wneud hynny dan reoliadau pellach gan Lywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn gyson ag arfer gorau ac egwyddor Nolan sy'n ymwneud â bod yn agored mewn bywyd cyhoeddus<sup>2</sup>. Mae hyn yn arwain at ddiffyg tryloywder a hygyrchedd ar y cyfan, yn enwedig i'r aelodau hynny o'r cyhoedd neu ymgeiswyr i'r gwasanaeth cynllunio sy'n dymuno arsylwi ar gyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor ar adeg sy'n addas iddynt hwy.
- 21 Gallai'r Cyngor wneud mwy i ymlynu wrth arfer da a mabwysiadu arfer da gan ACLlau ledled Cymru. Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi cychwyn adolygiad o drefniadau llywodraethu ACLlau eraill. Hyd yma, mae wedi cysylltu â dau ACLI cyfagos ac mae cyfle iddynt ymgysylltu â rhagor yn y dyfodol. Yn dilyn adolygiad y Cyngor o ACLlau eraill a'i adroddiad i'r Cyngor wedi hynny ym mis Mawrth 2022 gyda rhestr helaeth o newidiadau, fe benderfynodd y Cyngor gadw ei Banel Archwilio Safleoedd sy'n cynnwys dim ond traean o aelodau'r Pwyllgor ac fe gyflwynodd grŵp Callio gyda dim ond 50% o aelodau'r Pwyllgor. Nid yw ACLlau eraill wedi cyflwyno'r trefniadau hyn sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o heriau cyfreithiol mewn perthynas â rhagderfynu penderfyniadau cynllunio a'r risg i Aelodau a swyddogion o ganlyniad i hynny, a chan eu bod yn cynnwys nifer

<sup>2</sup> gov.uk: [Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus](#)



cyfyngedig o Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r Cyngor ddysgu mwy oddi wrth ACLlau eraill yn y dyfodol.

- 22 Ynghyd â pharhau â'r cynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn ein hadroddiad gwreiddiol ar y Gwasanaeth Cynllunio yn 2021, ceir tri mater ychwanegol allweddol y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy dros yr ychydig fisoedd nesaf i'w helpu i symud yn bellach ymlaen ar ei daith tuag at welliant trwy newid diwylliannol.
- i. cryfhau'r trefniadau ar gyfer galw ceisiadau cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu gan Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol a'r rhesymau ac ystyriaethau cynllunio perthnasol ar gyfer gwneud hynny;
  - ii. mynychder, tryloywder, effeithlonrwydd ac aelodaeth Paneli Archwilio Safleoedd; a
  - iii. y ffordd y mae'r Grŵp Callio'n gweithredu.
- 23 Bydd cryfhau'r tri maes allweddol yma'n helpu'r Cyngor i ddiogelu Aelodau a swyddogion yn well wrth wneud penderfyniadau ac yn gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, allbynnau economaidd a chynaliadwyedd trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a'i effaith ehangach ar y Cyngor a'r Sir yn ei chyfanrwydd.
- 24 I helpu'r Cyngor, rydym wedi crynhoi isod ein canfyddiadau mewn perthynas â phob un o'r tri maes allweddol newydd ar gyfer gwella.

## **i) Rhesymau dros alw ceisiadau cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu**

- 25 Fel yn ein hadroddiad blaenorol, nid yw'r holl resymau a ddarparwyd gan Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol y Cyngor dros alw ceisiadau cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu'n ystyriaethau cynllunio perthnasol. Ceir canllawiau o fewn Cynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor sy'n amlinellu sut y gellir ychwanegu cais at un o agendâu'r pwyllgor. Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol bod ymgynghori'n digwydd rhwng y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer yr Economi ac Adfywio a'r Aelod sy'n cynrychioli'r Ward Leol i gefnogi penderfyniad i gyflwyno cais cynllunio i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Mae hyn yn golygu y dibynnir ar un swyddog yn unig i benderfynu a yw'r rhesymau'n cyrraedd y safon ofynnol. Pe bai anghytundeb, gallai hyn effeithio ar berthnasoedd gweithio a chreu risg i barhad busnes y gwasanaeth pe bai'r swyddog yn sâl neu'n absennol.
- 26 I fynd i'r afael â'r mater hwn lle dibynnir ar un swyddog yn unig, mae cyfleoedd i'r Cyngor wella mesurau diogelu ymhellach i sicrhau bod Aelodau a swyddogion yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn fwy wrth alw ceisiadau i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Ar hyn o bryd, gall ymgeiswyr cynllunio ofyn dro ar ôl tro i Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol alw cais i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, hyd yn oed os nad oes rhesymau cynllunio perthnasol cryf dros alw'r cais i mewn, yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor. Mae hyn yn creu sefyllfa anodd i Aelod sy'n cynrychioli ward leol ac yn creu amgylchedd lle gall pwysau allanol fodoli. Byddai sicrhau bod yr holl resymau dros alw cais i mewn i'r Pwyllgor yn rhesymau cynllunio perthnasol, a gorfodi hynny, yn diogelu ac yn amddiffyn Aelodau a swyddogion wrth iddynt

wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â pha geisiadau ddylai ac na ddylai gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Byddai hefyd yn sicrhau cysondeb â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

- 27 I fynd i'r afael â'r risgiau a materion uchod ac i asesu pa geisiadau sy'n addas ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn unol â meini prawf perthnasol, gallai'r Cyngor sefydlu grŵp bach o swyddogion sy'n ystyried rhesymau Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol dros alw i mewn ac yn penderfynu a yw'r rhesymau a gynigir yn ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn. Er nad oes un ffordd benodol o gyflawni hyn, gallai fod yn gymysgedd o swyddogion sydd â gorchwyl i gynnal trefniadau llywodraethu a pholisi cynllunio, er enghraifft y Prif Swyddog, y Pennaeth Polisi Cynllunio, a swyddog o dîm cyfreithiol y Cyngor. Byddai'r trefniant hwn yn helpu i ganolbwyntio amser y Pwyllgor ar ystyried y ceisiadau mwy cymhleth a strategol bwysig, yn hytrach na mân geisiadau. Byddai effaith gwneud newidiadau o'r fath yn helpu i ddiogelu swyddogion ac Aelodau yn well, yn canolbwyntio sylw'r Pwyllgor ar y ceisiadau hynny sy'n fwy cyson â rôl a diben y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac yn cyfrannu at amcanion corfforaethol y Cyngor.

### ii) Paneli Archwilio Safleoedd

- 28 Mae Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor yn gynyddol yn cyfeirio mân geisiadau cynllunio at Banel Archwilio Safle. Nid yw hyn wastad yn ddefnydd darbodus ac effeithlon o adnoddau. Er bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer Panel Archwilio Safleoedd wedi bod ar waith am beth amser, mae'r Pwyllgor wedi bod yn defnyddio Paneli Archwilio Safleoedd yn fwy mynych ers ein hadroddiad ar Wasanaethau Cynllunio ym mis Hydref 2021. Mae canllawiau cyfredol y Cyngor ynghylch Paneli Archwilio Safleoedd yn rhoi enghreifftiau penodol o achlysuron pan ddylid defnyddio Panel Archwilio Safle ac yn cydnabod bod defnyddio Paneli Archwilio Safleoedd yn gallu achosi oedi yn y broses gynllunio.
- 29 Mae Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru yn datgan mai 'Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, lle disgwylir y bydd y budd yn sylweddol, y dylid trefnu ymweliadau safle. Lle bo angen dylid eu nodi cyn cyfarfod y pwyllgor y mae'r cais i fod i gael ei drafod ynddo a dylai'r ymweliad safle ddigwydd ddim mwy nag wythnos ymlaen llaw<sup>3</sup>.' Mae hyn yn sicrhau cyn lleied â phosibl o oedi wrth benderfynu ar gais cynllunio.
- 30 Os nad yw'r Pwyllgor yn cael safbwyntiau gweledol o adroddiad y swyddog, sy'n arwain at fwy o Baneli Archwilio Safleoedd, gall y Cyngor archwilio ffyrdd eraill o ymdrin â hyn, megis mwy o ffotograffau o'r safle, fideo o'r safle a gweithgarwch arall tebyg, a ddefnyddiodd yn ystod ton gyntaf y pandemig. Nid yw Paneli Archwilio Safleoedd rheolaidd ar gyfer mân geisiadau'n ddefnydd effeithlon o amser aelodau'r Pwyllgor na swyddogion proffesiynol ac adnoddau'r Cyngor ar adeg pan fo'r gwasanaeth cynllunio a gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, [Llawlyfr Rheoli Datblygu](#)

eisoes dan bwysau sylweddol o safbwynt ariannol a'r gweithlu oherwydd pwysau cenedlaethol a byd-eang ehangach. Gall hefyd achosi oedi yn y broses gynllunio.

- 31 Ar hyn o bryd, dim ond pum Aelod o Bwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor sy'n cael gwahoddiad i Banel Archwilio Safle. Nid yw'r trefniant hwn yn rhoi mynediad cyfartal i holl Aelodau'r Pwyllgor at wybodaeth. Dylai pob aelod o'r Pwyllgor gael cyfle cyfartal i ymweld â safle cais a'i asesu a ffurfio'u barn eu hunain yn seiliedig ar wybodaeth uniongyrchol i sicrhau proses benderfynu dryloyw a gwybodus.
- 32 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn dilyn Panel Archwilio Safle, mae'r pum aelod o'r Panel Archwilio Safle yn annerch y Pwyllgor gan roi eu barn ynglŷn â'r safle cyn bod y Pwyllgor yn trafod y cais. Ar hyn o bryd mae'r grŵp hwn o bum Aelod o'r Pwyllgor yn cyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ynghylch eu harsylwadau ar y safle a rhinweddau'r cais. Nid yw'r arfer hwn yn gyson â chanllawiau'r Cyngor ynghylch Paneli Archwilio Safleoedd a'i Brotoocol Arfer Da mewn Cynllunio ar gyfer Aelodau. Mae canllawiau'r Cyngor ei hun yn datgan yn glir bod Paneli Archwilio Safleoedd 'ddim yn fforwm i drafod y cais' ac mae Protocol y Cyngor ei hun yn datgan bod rhaid i Aelodau 'sicrhau eich bod yn trin yr ymweliad â'r safle dim ond fel cyfle i geisio gwybodaeth' ac yn 'peidio â mynegi barn na safbwyntiau ynglŷn â'r cynnig wrth unrhyw un'. Yn ymarferol, ar hyn o bryd mae Aelodau'r Panel Archwilio Safle yn trafod rhinweddau cais fel a ddangosir gan dystiolaeth yn yr adroddiadau i'r Pwyllgor. Mae'r adroddiadau'n cynnwys yr argymhelliad gan Aelodau'r Panel Archwilio Safle pa un a ddylid cymeradwyo ynteu gwrthod y cais cynllunio. Mae caniatáu i aelodau'r Pwyllgor drafod rhinweddau unrhyw gais, y tu allan i'r trefniadau ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, yn achosi risg bod yr Aelodau hynny'n rhagderfynu'r cais cynllunio ac yn wynebu canlyniadau cyfreithiol posibl o ganlyniad.

### iii) Grŵp Callio

- 33 Ym mis Mawrth 2022, fel rhan o'i adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, fe gymeradwyodd y Cyngor gynnig i sefydlu Grŵp Callio.
- 34 Yn nodweddiadol, mae cyfeirio ceisiadau ar gyfer 'cyfnod callio' yn unol â Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru. Mae cyfnod callio'n galluogi ACLlau i adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â phenderfyniad sy'n mynd yn groes i bolisiâu cynllunio ac i swyddogion ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gyfer Aelodau.
- 35 Y gwahaniaeth yng Nghyngor Ceredigion yw ei fod wedi cyfansoddi Grŵp Callio penodol y mae 7 o'r 15 Aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu'n eistedd arno ac sy'n gytbwys yn wleidyddol.
- 36 Rydym yn deall bod y Cyngor wedi bwriadu i'r Grŵp Callio weithredu fel fforwm addysgol a dysgu ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Y bwriad oedd y byddai'r grŵp yma'n darparu cyfle ar gyfer oedi a myfyrio gydag Aelodau'r Pwyllgor yn gwirio synnwyr ac yn dysgu ymhellach am y polisiâu cynllunio cysylltiedig ac effeithiau mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad posibl.

## Tudalen 84

- 37 Yr hyn a ganfuom ni oedd bod y Grŵp Callio'n trafod ceisiadau cynllunio unigol. Byddai cynnal y Grŵp Callio fel fforwm addysgiadol yn helpu i ddiogelu Aelodau a swyddogion rhag unrhyw risgiau o ragderfynu canfyddedig neu wirioneddol ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol a champau cyfreithiol. Fel a gadarnheir yng nghyfansoddiad y Cyngor, mae rhagderfynu'n achosi risg y gallai penderfyniad cynllunio gan y Cyngor gael ei herio'n gyfreithiol.
- 38 Mae adran 10a yn y 'Protocol o Arfer Da mewn Cynllunio ar gyfer Aelodau' sydd gan y Cyngor yn cyfarwyddo bod rhaid i Aelodau ddod i gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu â meddwl agored a dangos bod ganddynt feddwl agored. Hefyd, yn unol ag awdurdod dirprwyedig y Cyngor ac i sicrhau arfer gorau, dylai trafodaethau am geisiadau penodol a alwyd i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ddigwydd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.
- 39 Bydd ailbwrpasu'r ffordd y mae'r Grŵp Callio'n gweithio'n ymarferol i fod yn fforwm addysgol yn unig, fel a fwriadwyd, yn helpu i ddiogelu swyddogion ac Aelodau a lliniaru risgiau mewn perthynas â rhagderfynu a diffyg tryloywder. Gan hynny dylai'r Cyngor
- sicrhau nad yw'r Grŵp Callio'n trafod manylion unrhyw geisiadau cynllunio unigol;
  - sicrhau nad yw'r Grŵp Callio'n cyflwyno unrhyw argymhellion yn ôl i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu llawn ynghylch cymeradwyo neu wrthod ceisiadau cynllunio; ac
  - sicrhau bod y Grŵp Callio'n cynnwys holl Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eu bod i gyd yn cael budd o'r gwersi ehangach ac yn cael yr un wybodaeth mewn perthynas â pholisïau cynllunio.
- 40 I gefnogi'r materion uchod, ac i hwyluso gwelliant pellach, dylai'r Gwasanaeth Cynllunio a'r Tîm Cyfreithiol gydweithio'n agosach i sicrhau bod polisïau cysylltiedig a threfniadau llywodraethu'n cael eu datblygu a'u rhoi ar waith mewn ffordd gydgyssylltiedig yn gyfansoddiadol ac yn ymarferol.

## Argymhellion

### Arddangosyn 1: argymhellion.

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhellion	
A1	Canlyn arni â'r argymhellion sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn rhannol a heb gael eu rhoi ar waith o'n hadroddiad ar y Gwasanaethau Cynllunio yn 2021 er mwyn mynd i'r afael â hwy yn llawn a'u gwreiddio'n ddiwylliannol yn y Cyngor.
A2	Datblygu a gweithredu cytundeb ffurfiol i adolygu a chymeradwyo'r rhesymau cynllunio perthnasol a ddarperir gan Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol wrth alw cais cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i sicrhau bod Aelodau a staff yn cael eu diogelu a bod y Pwyllgor yn canolbwyntio'i amser ar geisiadau mwy strategol bwysig.
A3	Adolygu arferion a gweithdrefnau'r Panel Archwilio Safleoedd i ddiogelu rhag unrhyw ganfyddiad o ragderfynu gan grŵp bach o Aelodau'r Pwyllgor i sicrhau: <ul style="list-style-type: none"><li>• bod holl Aelodau'r Pwyllgor yn cael eu gwahodd i ymweliadau â safleoedd;</li><li>• bod ymweliadau â safleoedd yn digwydd trwy eithriad, yn cydymffurfio â Phrotocolau Archwilio Safleoedd ac yn cael eu defnyddio'n ddarbodus i sicrhau defnydd effeithlon a chymesur o adnoddau; a</li><li>• bod ymweliadau â safleoedd yn cael eu hadnabod cyn cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn unol â Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru.</li></ul>
A4	Ailwrpasu'r ffordd y mae'r Grŵp Callio'n gweithio'n ymarferol fel ei fod yn cynnal ei ddiben bwriadedig fel fforwm dysgu ac addysgol i Aelodau gael rhagor o wybodaeth am bolisiau cynllunio lleol a chenedlaethol i gefnogi prosesau penderfynu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Bydd hyn yn diogelu Aelodau a swyddogion rhag unrhyw ganfyddiad am ragderfynu gan grŵp bach o Aelodau'r Pwyllgor.

# Atodiad 1

## Aseiad Archwilio Cymru o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2021

**Arddangosyn 2: aseiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2021**

Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021	Aseiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
<p>A1 Dylai'r Cyngor adolygu ei gyfansoddiad i gryfhau'r broses o lywodraethu ei drefniadau rheoli datblygu. Dylai'r adolygiad:</p> <p>a) dysgu o drefniadau llywodraethu rheoli datblygu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) eraill;</p>	<p><b>Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.</b></p> <p>Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi dechrau adolygiad o drefniadau llywodraethu ACLIau eraill. Hyd yma – mae wedi cysylltu â dau ACLI cyfagos ac mae cyfle iddynt ymgysylltu â rhagor yn y dyfodol. Yn dilyn yr adolygiad a'r adroddiad wedi hynny i'r Cyngor ym mis Mawrth 2022 gyda rhestr helaeth o newidiadau, fe benderfynodd y Cyngor gadw'r Panel Archwilio Safle sy'n cynnwys dim ond traean o aelodau'r Pwyllgor ac fe gyflwynodd grŵp callio sy'n cynnwys dim ond 50% o aelodau'r Pwyllgor. Nid yw ACLIau eraill yn defnyddio'r trefniadau hyn oherwydd y tueddiad ar gyfer rhagderfynu a nifer cyfyngedig yr aelodau sy'n cael eu cynnwys. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r Cyngor ddysgu llawer mwy oddi wrth ACLIau eraill yn y dyfodol.</p>

Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021	Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
<p>b) datblygu Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor, i ddatgan yn glir ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut mae'n cysylltu â Blaenoriaethau Corfforaethol;</p>	<p><b>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</b></p> <p>Mae'r Cyngor wedi diwygio'i Gylch Gorchwyl i ddatgan yn glir beth yw rôl a diben y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Fodd bynnag, er bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn datgan bod rhaid i'r Pwyllgor 'ystyried ceisiadau a phenderfynu arnynt, er mwyn hybu a chyfrannu at Strategaeth a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor trwy ystyriaeth drylwyr i ddatblygiadau mawr ledled y sir', mae'r Pwyllgor yn ansicr sut i ystyried y mathau hyn o geisiadau, gan bod cwestiynau'r Pwyllgor yn gyfyngedig ac na ofynnir am unrhyw Baneli Archwilio Safleoedd.</p> <p>Yn y dyfodol, gan bod y rhain yn fathau newydd o geisiadau cynllunio i'r Pwyllgor, gall swyddogion roi gwersi, datblygiad a chymorth pellach i Aelodau'r Pwyllgor. Gan bod yr holl ACLlau eraill yng Nghymru'n recordio'u pwyllgorau cynllunio ac yn trefnu bod y recordiadau ar gael i'w gweld ar ôl cyfarfodydd pwyllgorau, mae cyfle i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu arsylwi ar bwyllgorau eraill a dysgu oddi wrthynt o ran sut i ystyried ceisiadau cynllunio mawr mewn modd gweithredol.</p>
<p>c) diffinio'r hyn y mae'n ei ystyried yn geisiadau cynllunio strategol bwysig a 'mawr';</p>	<p><b>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</b></p> <p>Mae cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys diffiniad o geisiadau cynllunio mawr a strategol bwysig ac mae'r Pwyllgor Rheoli Datblygu bellach yn cael y ceisiadau hyn fel rhan o'r drefn arferol.</p>

Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021	Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
<p>d) cryfhau cynllun dirprwyo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu drwy ystyried codi'r trothwy ar gyfer ceisiadau cynllunio a elwir yn Bwyllgor i'w alluogi i ganolbwyntio'n well ar geisiadau mwy strategol bwysig a cheisiadau mawr;</p>	<p><b>Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.</b></p> <p>Mae cynllun dirprwyo'r Cyngor yn disgrifio amgylchiadau pan ddylai ceisiadau cynllunio gael eu cyfeirio at y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gyfer penderfyniad. Mae'r Cynllun Dirprwyo'n datgan – 'Penderfynu ar geisiadau cynllunio yn dilyn cais yr Aelod sy'n cynrychioli'r Ward Leol, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol-Economi ac Adfywio, oherwydd amgylchiadau a diddordeb lleol.'</p> <p>Fe gryfhaodd y Cyngor ei Gynllun Dirprwyo ac fe gadwodd y gallu i Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol alw ceisiadau cynllunio i mewn ond nid yw'r rhesymau dros alw ceisiadau cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wastad yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol ac mae'n aneglur beth mae 'oherwydd amgylchiadau a diddordeb lleol' yn ei olygu yn y Cynllun Dirprwyo cyfredol. Rydym yn gwneud argymhelliad penodol ychwanegol yn yr adroddiad hwn i fynd i'r afael â hyn.</p>
<p>e) sicrhau bod ceisiadau cynllunio a gyflwynir gan neu ar ran swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac nid o dan bwerau dirprwyedig swyddogion i ddiogelu rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig ac i hyrwyddo annibyniaeth a thryloywder;</p>	<p><b>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</b></p> <p>Fe wnaeth y Cyngor ddiwygio'i Gyfansoddiad i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, ac mae ei Bwyllgor Rheoli Datblygu bellach yn cael ceisiadau a gyflwynwyd gan swyddogion, ceisiadau ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno a chan Aelodau etholedig.</p>



Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021	Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
<p>f) adolygu cydbwysedd yr amser y mae'n rhaid i aelodau wardiau lleol siarad ar geisiadau cynllunio mewn cyfarfodydd pwyllgor o'i gymharu ag ymgeiswyr a gwrthwynebwyd;</p>	<p><b>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</b></p> <p>Mae cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys newidiadau i drefniadau siarad cyhoeddus ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Mae gan yr holl siaradwyr, gan gynnwys Aelodau sy'n cynrychioli wardiau lleol, bum munud i annerch y Pwyllgor. Mae hyn yn ymdrin â'r cydbwysedd o ran yr amser y mae unigolion yn ei gael. Rydym ni wedi sylwi, pan fo Aelodau sy'n cynrychioli Wardiau Lleol yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu, nad ydynt yn cael eu hysbysu ynghylch eu pum munud. Fodd bynnag, anaml y mae Aelodau sy'n cynrychioli Wardiau Lleol yn siarad am yn hwy na hynny. Mae unrhyw ymgeisydd, asiant neu wrthwynebydd sy'n annerch y Pwyllgor yn cael ei hysbysu ynghylch ei bum munud i annerch y Pwyllgor.</p>
<p>g) adolygu a chynnwys Cod Ymarfer Cynllunio'r Cyngor yn y cyfansoddiad a sicrhau bod aelodau'n deall ac yn gweithredu yn unol ag ef.</p>	<p><b>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</b></p> <p>Datblygodd y Cyngor 'weithdrefnau gweithredol' yr ymllynir wrthynt, heblaw am y Paneli Archwilio Safleoedd.</p> <p>Fodd bynnag, fel a nodir yn yr adroddiad hwn, mae gennym bryderon ynghylch gweithrediad y Grŵp Callio a'i arferion gweithio cyfredol.</p>
<p>A2 Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei Bwyllgor Rheoli Datblygu a'i drefniadau cymorth pwyllgorau yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data a phrosesu gwybodaeth personol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.</p>	<p><b>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</b></p> <p>Ceir gwelliant sylweddol gydag Aelodau'r Pwyllgor yn peidio â thrafod manylion personol ymgeiswyr wrth drafod ceisiadau cynllunio. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw Aelod sy'n cynrychioli Ward Leol yn ymwybodol, pan fo'n annerch y Pwyllgor, o'i gyfrifoldebau i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.</p>

Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021	Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
<p>A3 Mae angen i aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor sicrhau bod unrhyw benderfyniadau cynllunio yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn, ac nid amgylchiadau personol ymgeiswyr.</p>	<p><b>Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.</b></p> <p>Bu cryn dipyn o gynnydd cadarnhaol mewn perthynas ag ymlynu wrth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a thrafod amgylchiadau personol ymgeiswyr.</p> <p>Mae nifer o benderfyniadau'r Pwyllgor ar fân geisiadau cynllunio a'r rhai a gyflwynir gan ddeiliaid tai'n cael eu gwneud yn dilyn cyfeirio'r cais at Banel Archwilio Safle lle mae grŵp bach o Aelodau'n trafod rhinweddau'r cais ac mae rhai o'r rhain yn ymwneud ag amgylchiadau personol ymgeiswyr, sy'n mynd yn groes i ganllawiau a phrotocolau'r Cyngor ynghylch Paneli Archwilio Safleoedd.</p>
<p>A4 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod cofnodion o'i gyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Datblygu 'cyhoeddus' ar gael i'r cyhoedd ar ôl cyfarfodydd pwyllgor i gadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y dyfodol.</p>	<p><b>Argymhelliad heb ei roi ar waith.</b></p> <p>Er bod y Cyngor yn darlledu ei holl bwyllgorau'n fyw, dim ond y darllediadau o'r Cabinet a'r Cyngor sydd ar gael yn electronig wedi hynny. Ceredigion yw'r unig ACLI nad yw'n trefnu bod y darllediadau byw o gyfarfodydd ei Bwyllgor Rheoli Datblygu ar gael yn electronig ar ôl y cyfarfod.</p>

Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021	Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
<p>A5 Dylai'r Cyngor sicrhau bod penderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu sy'n ymwneud â chartrefi 'fforddiadwy' yng nghefn gwlad agored yn cael eu gwneud a'u hadrodd yn gywir yn unol â chanllawiau atodol Tai Fforddiadwy'r Cyngor.</p>	<p><b>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</b></p> <p>Fe gwblhaodd y Cyngor adolygiad o'i anheddau fforddiadwy i ganfod: pa un a yw anheddau fforddiadwy sengl mawr yng nghefn gwlad agored yn cael effaith sylweddol ar niferoedd y cartrefi fforddiadwy yr adroddir arnynt wrth Lywodraeth Cymru; a pha un a yw penderfyniadau o'r fath sy'n groes i gyngor swyddogion proffesiynol, mewn perthynas ag anheddau fforddiadwy sengl mawr yng nghefn gwlad agored, yn creu risg y gallai ymgeiswyr ar gyfer anheddau o'r fath benderfynu herio statws 'fforddiadwy' eu heiddo yn gyfreithiol wrth eu gwerthu yn y dyfodol.</p> <p>Fe wnaeth y Cyngor adnabod nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn 'lleoliadau eraill' ers 2015. Adnabu'r Cyngor hefyd ble y mae'r cartrefi fforddiadwy'n cael eu hadeiladu a maint yr anheddau. Daeth adolygiad y Cyngor i'r casgliad bod hyn yn cyfateb i 17% o'r cartrefi fforddiadwy a ganiatawyd. I sicrhau yr adroddir yn fwy cywir ar dai fforddiadwy yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu arwynebeddau a niferoedd ystafelloedd gwely anheddau fforddiadwy ac anheddau TAN6 â chaniatâd Llawn neu Faterion a Gadwyd yn Ôl. Mae'n bwriadu ychwanegu'r wybodaeth hon at ei broses fonitro fewnol a gall yr anheddau hynny sy'n mynd y tu hwnt i'r uchafswm maint gael eu hadnabod a'u diystyru wrth adrodd wrth Lywodraeth Cymru.</p>
<p>A6 Dylai'r Cyngor a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu asesu goblygiadau cronol ac effaith seilwaith hirdymor cymeradwyo anheddau fforddiadwy sengl a cheisiadau cynllunio TAN 6 yng nghefn gwlad agored er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gynaliadwy ac yn gydlynol at flaenoriaethau corfforaethol ehangach y Cyngor.</p>	<p><b>Argymhelliad heb ei roi ar waith.</b></p> <p>Fel a nodwyd mewn ymateb i A5, fe gwblhaodd y Cyngor adolygiad o faint anheddau fforddiadwy a ganiatawyd yng nghefn gwlad agored ac mewn 'lleoliadau eraill'. Fodd bynnag, ni wnaeth yr adolygiad hwn amlygu'r asesiad cronol o'r effaith ar y seilwaith, er enghraifft darpariaeth iechyd gymunedol, casglu gwastraff, cludiant i ysgolion a lleoedd ac ati, wrth gymeradwyo anheddau yng nghefn gwlad agored neu mewn 'lleoliadau eraill'.</p>

Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021	Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
Cynllunio Gwasanaethau: Dylai Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor:	
A7 Cyflwyno ei wybodaeth a'i thargedau perfformiad yn gliriach yn ei gynlluniau busnes.	<p><b>Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.</b></p> <p>Mae cynllun busnes Rheoli Datblygu'r Cyngor 2022-23 yn cynnwys hunanasesiad sy'n bwrw golwg ar dri maes allweddol: yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn y mae'r gwasanaeth yn gofidio amdano a'r hyn y mae angen iddo ddiwydd. Mae hyn yn darparu darlun clir o'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun busnes yn dangos unrhyw ddata sylfaenol a nifer cyfyngedig o dargedau y mae'n eu dangos i ategu amcanion y gwasanaeth. Felly, nid yw'r cynllun busnes yn cyflwyno gwybodaeth am berfformiad na thargedau mewn modd eglur. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n sefydlu Safonau Gwasanaeth i ddarparu eglurder ynghylch yr hyn y gall ymgeiswyr/asiantau ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth a rôl ymgeiswyr/asiantau o ran cyfrannu at broses esmwyth ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, dylai'r Safonau Gwasanaeth ddarparu manylion y gwasanaethau a gynigir, y safonau y mae'r gwasanaeth yn ymgeinio i'w cyrraedd, a thargedau perfformiad mesuradwy. Mae'r wybodaeth hon wedi'i bwriadu i fod ar gael yn rhwydd i swyddogion, Aelodau Etholedig, cymunedau lleol, datblygwyr a phartïon eraill â buddiant. Y bwriad yw bod y mesurau perfformiad terfynol a fydd yn rhan o'r Safonau Gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y cynllun busnes.</p>

Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021	Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
<p>A8 Adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyfuno rolau'r Swyddog Rheoli Datblygu a Gorfodi gan gynnwys yr effaith ar berfformiad.</p>	<p><b>Argymhelliad heb ei roi ar waith.</b></p> <p>Nid yw'r Cyngor wedi cynnal yr adolygiad hwn. Mae'r Cyngor wedi sicrhau gwasanaeth ymgynghorwyr i gynorthwyo gyda lleihau'r ôl-groniad o geisiadau cynllunio ac achosion gorfodi. Er gwaethaf dechrau araf, mae'r ymgynghorwyr yn gwella cyflymder eu proses benderfynu ar gyfer ceisiadau cynllunio ond nid ar gyfer gorfodi.</p> <p>Mae'r Cyngor yn ystyried rôl gorfodi'n gyffredinol, gan gynnwys mewn meysydd gwasanaeth eraill megis gwastraff ac ailgylchu ac iechyd yr amgylchedd. Yn ystod ein gwaith maes, cawsom neges gref bod gorfodaeth gynllunio'n bryder cynyddol yn y sir, y mae angen mynd i'r afael ag ef.</p>
<p>Monitro</p> <p>A9 Dylai'r Cyngor sefydlu fframwaith i sicrhau ei hun bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cyfrannu'n gydlynol ac yn gynaliadwy at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.</p>	<p><b>Argymhelliad heb ei roi ar waith.</b></p> <p>Roedd y Gwasanaeth Cynllunio'n bwriadu datblygu 'Rhestr Wirio Cynaliadwyedd' ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu i asesu effaith unigol a chronnus prosesau penderfynu. Byddai swyddogion yn cwblhau'r rhestr wirio cyn cyfarfodydd y pwyllgor ac yn cynnwys y rhestr wirio fel rhan o'r pecyn adroddiadau ar gyfer y Pwyllgor. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld tystiolaeth bod y gwasanaeth yn rhoi'r trefniant hwn ar waith.</p>

## Cynigion ar gyfer Gwella yn 2021

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol A10 Wrth wneud unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth cynllunio, dylai'r Cyngor fanteisio ar y cyfle i ystyried sut y gallai weithredu'n agosach yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

## Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor

### Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.

Fe wnaeth swyddogion gynnwys yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy o fewn yr hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu newydd ym mis Mai 2022. Fodd bynnag, mae dehongliad rhai Aelodau o 'ddatblygu cynaliadwy' yn wahanol i'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yn Rhifyn 11 Polisi Cynllunio Cymru. Wedi'i gynnwys yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor mae'r gofyniad bod y Pwyllgor yn 'ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio'. Er mwyn ymlynu wrth ddiben y Pwyllgor, mae hyfforddiant pellach ar gyfer Aelodau'n ofynnol fel bod y Pwyllgor yn deall yn llawn beth mae datblygu cynaliadwy'n ei olygu yng nghyd-destun cynllunio.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

# 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Awst 2023





## Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2006.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

## Adroddiad cryno

Cynnwys	4
Rheoli Adeiladu a Diogelwch Adeiladau yng Nghymru	4
Trychineb Grenfell ac Ymchwiliad Hackitt	6
Casgliadau Allweddol	8
Ffeithiau Allweddol	10
Argymhellion	12

## Adroddiad manwl

1	Nid yw cyrff cyfrifol wedi datblygu cynlluniau cynhwysfawr eto sy'n nodi sut y bwriedir ymdrin â'r cyfrifoldebau newydd a diwygiedig a gyflwynwyd gan y Ddeddf Diogelwch Adeiladau	16
2	Mae materion o ran darparu adnoddau'n ei gwneud yn annhebygol y gall awdurdodau lleol roi'r gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd ar waith yn llwyddiannus neu fod gwasanaethau'n addas ar gyfer y diben	24
3	Nid oes rhyw lawer o waith yn cael ei wneud i werthuso gwasanaethau rheoli adeiladu ledled Cymru ac nid oes system gynhwysfawr genedlaethol o sicrwydd diogelwch adeiladau	40

## Atodiadau

1	Ymagwedd a Dulliau Archwilio	47
2	Dogfennau Cymeradwy'r Rheoliadau Adeiladu	49
3	Y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a'r Person Atebol	50
4	Dull yr Alban	52
	Model gweithredu	52
	Ymateb i Grenfell	53
	Model hybiau lleo	55



# Adroddiad cryno

## Cyd-destun

### Rheoli Adeiladu a Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

- 1 Set o ofynion cyfreithiol ar gyfer dylunio a chodi adeiladau newydd, codi estyniadau i adeiladau presennol a gwneud addasiadau sylweddol iddynt a rhai newidiadau i'w defnydd, yw Rheoliadau Adeiladu. Mae rheoliadau adeiladu'n helpu i sicrhau bod adeiladau newydd, addasiadau, adnewyddiadau ac estyniadau (yn rhai domestig neu fasnachol) yn ddiogel, yn hygyrch ac yn rhad ar ynni.
- 2 Diffinnir y rheoliadau adeiladu gan Lywodraeth Cymru ac maent yn cynnwys testunau penodol gan gynnwys cyfanrwydd strwythurol, diogelu rhag tân, hygyrchedd, perfformiad ynni, dyfeisiau trydanol a gosod dyfeisiau hylosgi. Maent hefyd yn gosod, er enghraifft, safonau ar gyfer draeniau, awyru, diogelu rhag dŵr yn dod i mewn a diogelu rhag halogiad gan gynnwys nwy methan a radon. Er mwyn helpu pobl i gydymffurfio â hwy, mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu Dogfennau Cymeradwy sy'n cynnig arweiniad manwl ac yn dangos ffyrdd o sicrhau cydymffurfiaeth, a fynegir mewn datganiadau swyddogaethol syml – gweler **Atodiad 2** am ragor o wybodaeth.
- 3 Dylunwyr, adeiladwyr a pherchnogion adeiladau sy'n bennaf gyfrifol am gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu, ac mae dau lwybr yn agored iddynt wrth geisio cymeradwyaeth i'w gwaith<sup>1</sup>. Gallant ddewis talu am naill ai:
  - arolygydd awdurdod lleol o'r cyngor a chyfundrefn a weithredir trwy Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC); neu
  - arolygydd cymeradwy o gwmni rheoli adeiladu preifat a gymeradwywyd gan y Llywodraeth.

---

1 Mae'r system yng Nghymru'n adlewyrchu'r un yn Lloegr ac mae wedi bod yn ddigynfnewid i raddau helaeth ers mabwysiadu Rhan 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 a oedd yn darparu ar gyfer cyflwyno arolygwyr cymeradwy fel dewis arall yn lle cael cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu gan awdurdod lleol. Yn yr Alban, mae'r holl weithgareddau rheoli adeiladu yn nwylo llywodraeth leol ac nid oes arolygwyr cymeradwy ar gyfer adeiladau preifat.

- 4 Yn ymarferol, os cynigir gwaith adeiladu, rhaid i'r gwaith gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Er y gall gwaith ar adeilad newydd neu estyniad fynd rhagddo cyn unrhyw ganiatâd ffurfiol, ni all unrhyw beth symud ymlaen y tu hwnt i'r camau arolygu heb gymeradwyaeth arolygydd. Pan fo'r adeilad wedi'i gwblhau wrth fodd arolygydd, dyroddir Tystysgrif Cwblhau neu Derfynol (gan ddibynnu pwy sydd wedi cymeradwyo'r gwaith). Dim ond pan fo'r holl waith wedi cael ei gymeradwyo a bod arolygiad terfynol o'r safle wedi digwydd y darperir y dystysgrif hon.
- 5 Mae'r ddau'n gweithio yn yr un ffordd, gan wirio cynlluniau cyn i'r gwaith ddechrau, arolygu gwaith yn ffisegol yn ystod y datblygiad, cynghori ynghylch unrhyw newidiadau yn ôl yr angen i sicrhau cydymffurfiaeth, cyn ail-arolygu'r gwaith cyn cymeradwyo'r prosiect. Fodd bynnag, dim ond awdurdod lleol sydd â phwerau gorfodi ac erlyn lle ceir achosion o dorri'r Rheoliadau. Dylai arolygydd cymeradwy drosglwyddo'r prosiect i'r awdurdod lleol os oes problemau gyda'r prosiect na ellir eu datrys yn anffurfiol. Gall fod cosbau trwm, gan gynnwys dirwyon a charchariad, am achosion o dorri'r Rheoliadau, er mai anaml iawn y mae hyn yn digwydd yn ymarferol.

## Trychineb Grenfell ac Ymchwiliad Hackitt

- 6 Roedd y gyfundrefn rheoliadau adeiladu'n ddigynfnewid am nifer o flynyddoedd tan Dân Tŵr Grenfell yn 2017, y bu farw 72 o bobl ynddo. Yn dilyn y trychineb hwn, comisiynwyd adolygiad annibynnol o Reoliadau Adeiladu a diogelwch tân gan Lywodraeth y DU (y Deyrnas Unedig). Dan gadeiryddiaeth y Fonesig Judith Hackitt, cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad<sup>2</sup> ym mis Mai 2018 ac fe amlygodd faterion hirsefydlog a difrifol<sup>3</sup> gyda'r system diogelwch adeiladau, gan gynnwys:
- **Anwybodaeth** – nid oedd rheoliadau a chanllawiau wastad yn cael eu darllen gan y rhai yr oedd angen iddynt eu darllen, a phan oeddent yn gwneud roedd y canllawiau'n cael eu camddeall a'u camddechongli.
  - **Difaterwch** – prif gymhellid y system oedd gwneud pethau mor gyflym ac mor rad â phosibl yn hytrach na darparu cartrefi o ansawdd sy'n ddiogel i bobl fyw ynddynt. Pan godwyd pryderon gan eraill a oedd yn gysylltiedig â gwaith adeiladu neu gan drigolion, roeddent yn aml yn cael eu hanwybyddu. Roedd rhai o'r bobl a oedd yn gwneud gwaith adeiladu'n methu â blaenoriaethu diogelwch, gan ddefnyddio amwysedd rheoliadau a chanllawiau i 'chwarae'r' system.
  - **Diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau** – roedd amwysedd ynghylch ble'r oedd cyfrifoldeb yn gorwedd, a hynny'n cael ei waethygu gan rywfaint o natur dameidiog o fewn y diwydiant, ac yn rhagwahardd perchnogaeth gadarn ar atebolrwydd.
  - **Goruchwyliaeth reoleiddiol ac offer gorfodi annigonol** – nid oedd maint neu gymhlethdod prosiect i'w gweld fel pe baent yn goleuo'r ffordd yr oedd yn cael ei oruchwyllo gan y rheoleiddiwr. Lle'r oedd angen camau gorfodi, yn aml nid oeddent yn cael eu cymryd. Lle'r oeddent yn cael eu cymryd, roedd y cosbau mor fach fel eu bod yn rhwystr aneffeithiol.
- 7 Argymhellodd yr adroddiad fframwaith newydd i ddisodli'r system gymhleth a oedd wedi tyfu dros ddegawdau, ynghyd â'r angen i newid diwylliant o un sy'n blaenoriaethu cyfanrwydd a dyluniad strwythurol i un sydd â phwyslais cyfartal ar reolaethau ansawdd diogelwch tân. Yn dilyn Ymchwiliad Hackitt, blaenoriaethodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU waith i fyn d i'r afael â chanfyddiadau'r adolygiad a phenllanw hynny oedd Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (y 'Ddeddf')<sup>4</sup>. Y Ddeddf yw'r broses fwyaf i ailwampio rheoliadau diogelwch adeiladau ers 1984 yng Nghymru a Lloegr.

---

2 Judit Hackitt, [Building a Safer Future](#), Mai 2018

3 Llundain Sir John Egan, [Rethinking Construction: Report of the Construction Task Force](#), November 1998

4 [Deddf Diogelwch Adeiladau 2022](#).

- 8 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid allweddol yn rhoi gofynion Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 ar waith. Bu ffocws ein hadolygiad ar asesu parodrwydd cyrff i ymgymryd â'u cyfrifoldebau newydd ac estynedig, cydnherthedd gwasanaethau presennol, a chadernid systemau sicrwydd diogelwch adeiladau. Mae **Atodiad 1** yn nodi ein hymagwedd a dulliau archwilio.



# Casgliadau Allweddol

- 9 Ein casgliad ar y cyfan yw nad yw cyrff cyfrifol – yn enwedig awdurdodau lleol a thŷn ac achub – yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol a sicrhau bod adeiladau yng Nghymru'n ddiogel.
- 10 Yn **Rhan 1** o'r adroddiad, rydym yn ystyried y blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Ddeddf a pha mor barod yw awdurdodau lleol i gyflawni'r rhain. Canfuom fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i ymateb i drychineb Grenfell, gan weithio gyda Llywodraeth y DU. Arweiniodd hyn at Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog o ran rheoleiddio a goruchwyllo gwaith i ddylunio a chodi adeiladau.
- 11 Canfuom fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn dilyn llwybrau gwahanol o ran meysydd polisi allweddol, a bod peth amheuaeth o hyd ynghylch sut y bydd y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru, yn bennaf am nad yw penderfyniadau mewn meysydd allweddol wedi cael eu gwneud a'u cytuno eto. Mae hyn yn creu ansicrwydd, gyda'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni'r newidiadau hyn a, thrwy estyniad o ran cydweithio, gwasanaethau tân ac achub, sydd eto i ddatblygu cynlluniau cynhwysfawr sy'n nodi sut y maent yn bwriadu cyflawni eu cyfrifoldebau newydd a diwygiedig.
- 12 Yn **Rhan 2** rydym yn ystyried cryfder gwasanaethau rheoli adeiladu a gorfodi awdurdodau lleol, effeithiolrwydd y drefn pennu ffioedd a sut mae gwasanaethau'n newid i gryfhau cydnerthedd. Rydym yn dod i'r casgliad, fel proffesiwn, bod rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau'n wynebu heriau staffio sylweddol. Mae gweithlu sy'n heneiddio (gweler y Ffeithiau Allweddol isod), cynllunio gwael ar gyfer olyniaeth, diffyg buddsoddi ehangach mewn gwasanaethau a hyfforddi a datblygu'n amlygu nad yw'r gwasanaethau hyn yn gydnerth nac yn addas ar gyfer y dyfodol.
- 13 Mae gennym hefyd bryderon ynghylch rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu, a ninnau wedi dod i'r casgliad y gallai arferion cyfredol rhai awdurdodau fod yn anghyfreithlon gyda gwasanaethau'n peidio â gweithredu yn unol â rheoliadau a chanllawiau. Er bod y pandemig wedi helpu awdurdodau lleol i foderneiddio eu gwasanaethau, gan ddefnyddio TG (Technoleg Gwybodaeth) seiliedig ar gwmwl a threfniadau gweithio o bell, mae eu cydnerthedd yn dal i fod yn wan. Nid yw cyfleoedd i gryfhau gwasanaethau trwy gydweithredu a rhanbartholi yn cael eu blaenoriaethu ac ychydig o waith sydd wedi digwydd yn y meysydd hyn.

- 14 Yn olaf, yn **Rhan 3** rydym yn archwilio trefniadau sicrhau diogelwch adeiladau. Canfuom fod diffyg fframwaith cenedlaethol i fonitro a gwerthuso gwasanaethau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau'n golygu nad yw awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gweithio i fesurau deilliant, targedau na meincnodau priodol y cytunwyd arnynt. Ar y cyd â gweithgarwch cyfyngedig i graffu ar reoli adeiladu a diogelwch adeiladau a'u gwerthuso, a'r ffaith bod risgiau'n cael eu rheoli'n wael, rydym yn dod i'r casgliad nad yw systemau sicrwydd yn ddigonol.



Roedd tân Tŵr Grenfell yn drasiedi cenedlaethol, ac rydym yn dal i deimlo'i effaith heddiw. Mae fy adroddiad yn amlygu pryderon mawr ynghylch rhoi'r system newydd ar gyfer Diogelwch Adeiladau ar waith. Er ei bod yn galonogol gweld yr awch ac ymrwymiad gan y rhai sy'n gweithio yn y sector, rwy'n pryderu nad oes digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r gwasanaethau hyn ar lawr gwlad. Mae'r diffyg cynlluniau cadarn, prosesau penderfynu eglur ac adnoddau digonol yn codi pryderon go iawn na fydd y ddeddfwriaeth newydd yn cael ei chyflawni ac y bydd y problemau y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy'n dal i fodoli.

---

**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru






# Ffeithiau Allweddol



**177** cyfanswm y staff ym maes rheoli adeiladu

**11** cyfanswm y staff y penodwyd rhywun yn eu lle yn 2021-22



**0** nifer y syrfewyr neu reolwyr sydd ag anabledd


O'r **133** o syrfewyr a rheolwyr CagALL, mae **54.4%** dros 50 oed a dim ond **10%** sydd dan 30

**96%** cyfran y syrfewyr a'r rheolwyr sy'n wyn


**21** cyfanswm y staff a adawodd faes rheoli adeiladu yn 2021-22



**100%** cyfran y staff gweinyddol sy'n wyn



**118** Nifer cyfartalog y ceisiadau y mae pob syrfewr/rheolwr yn ymdrin â hwy



## Mae'r tîm rheoli adeiladu cyffredin mewn awdurdod lleol yn cynnwys:



### Rheolwr

Gwryw

50-60 mlwydd oed

Cymwysedig



### Syrfëwr

Gwryw

Dros 50 mlwydd oed

Cymwysedig



### Syrfëwr

Gwryw

Dros 50 mlwydd oed

Aelod cysylltiol



### Syrfëwr

Gwryw

Dros 40 mlwydd oed

Heb gymhwyso



### Syrfëwr

Gwryw

30-40 mlwydd oed

Heb gymhwyso



### Syrfëwr

Gwryw

O dan 30 mlwydd oed

Cymwysedig





### Gweinyddol

Benyw

Unrhyw oedran

Heb gymhwyso





# Argymhellion

- 15 Mae ein hargymhellion wedi'u nodi isod. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol unigol ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn a'n hargymhellion a chwblhau ffurflen ymateb sefydliadol a chyhoeddi hon. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd pwyllgor llywodraethu ac archwilio pob awdurdod lleol yn derbyn yr adroddiad ac yn monitro eu hymateb i'n hargymhellion mewn modd amserol.

## Arddangosyn 1: argymhellion

### Argymhellion

- A1 Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o eglurder ynghylch gweithredu a disgwyliadau'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau newydd. Dylai hyn gynnwys:
- egluro'r gofynion manwl ar gyfer cymhwysedd a chofrestru er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn;
  - amserlen benodol ar gyfer datblygu a mabwysiadu canllawiau ar gyfer Cymru i sicrhau y gall awdurdodau lleol ac eraill gyflawni eu dyletswyddau; a
  - dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, fel LABC Cymru, i roi cymorth i ddeall y canllawiau a'u rhoi ar waith pan gânt eu cyhoeddi.
- A2 Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau i gyflawni'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi ar gyfer Diogelwch Adeiladau er mwyn lleihau risgiau i'w rhoi ar waith.

## Argymhellion

---

- A3 Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dull marchnad gymysg o reoli adeiladu a dod i'r casgliad pa un a yw'n parhau i fod yn briodol ac yn effeithiol o ran cadw adeiladau yng Nghymru'n ddiogel. Dylai'r adolygiad hwn:
- asesu'r sefyllfa fel ag y mae yn erbyn newidiadau posibl, megis y model cyflawni yn yr Alban;
  - bod wedi'i fframio ar sail dadansoddiad SWOT o gostau, manteision, bygythiadau a risgiau;
  - manteisio ar ymchwil sy'n bodoli eisoes i adnabod arfer da; a
  - chael ei gyhoeddi gan gytuno ar ffordd ymlaen.
- A4 Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei gwaith i oruchwylio a rheoli'r sector rheoli adeiladu er mwyn sicrhau bod system sicrwydd gadarn ar waith ar gyfer rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau trwy:
- greu fframwaith perfformiad cenedlaethol gyda safonau gwasanaeth eglur i hybu cysondeb o ran y gwasanaethau. Dylai hyn hefyd gynnwys mesurau deilliant i fonitro perfformiad a fframwaith gwerthuso ac adrodd ar gyfer craffu.
  - datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau i fynd i'r afael â'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r sector. Dylai hyn gynnwys casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd, yn ogystal â chwmpasu blaenoriaethau, megis:
    - mwy o ffocws ar hyfforddeion i liniaru risgiau i olyniaeth;
    - sefydlu rolau swyddi cenedlaethol, cyson sy'n cyfateb i lefelau cymhwysedd;
    - cynyddu amrywiaeth y sector i sicrhau ei fod yn adlewyrchu Cymru fodern; a
    - dylid ystyried cyllid penodol hefyd i alluogi syrfewyr i ennill a chynnal cymhwysedd.
  - dylai Llywodraeth Cymru archwilio gyda'r sector addysg bellach sut orau i ddarparu hyfforddiant rheoli adeiladu yng Nghymru i roi cymorth i gynllunio ar gyfer olyniaeth, datblygu sgiliau a sicrhau cymhwysedd.

## Argymhellion

---

A5 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol sy'n mynegi gweledigaeth glir ar gyfer rheoli adeiladu er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer rhoi gofynion y Ddeddf ar waith. Dylai'r Cynlluniau:

- fod yn seiliedig ar asesiad o risgiau lleol ac yn cynnwys camau lliniaru;
- nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer gwasanaethau rheoli adeiladu i gyflawni eu holl gyfrifoldebau statudol;
- dangos rôl allweddol rheoli adeiladu o ran sicrhau adeiladau diogel a bod yn gysylltiedig ag amcanion llesiant ac amcanion corfforaethol eraill; a
- chynnwys mesurau deiliant sy'n canolbwyntio ar yr holl wasanaethau rheoli adeiladu, nid strwythurau peryglus yn unig.

A6 Dylai awdurdodau lleol fynd ati ar frys i adolygu eu rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau. Dylai hyn gynnwys:

- sefydlu amserlen o adolygiadau ffioedd rheolaidd i sicrhau bod taliadau'n adlewyrchu cost gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau;
- adrodd ar berfformiad ariannol a chyhoeddi'r wybodaeth honno'n flynyddol yn unol â'r Rheoliadau;
- sicrhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r Rheoliadau ac yn dehongli adroddiadau ariannol yn gywir; a
- diwygio ffioedd i sicrhau y codir am wasanaethau yn unol â'r Rheoliadau.

## Argymhellion

---

- A7 Dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig trwy archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio a rhanbartholi i gryfhau cydnerthedd trwy ddadansoddiad cost a budd o bartneru gydag awdurdodau cyfagos, sefydlu cyd-fentrau a/neu fabwysiadu model rhanbarthol lle y bo hynny'n fuddiol.
  
- A8 Dylai awdurdodau lleol adolygu prosesau rheoli risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod, eu cofnodi, eu hasesu, a'u lliniaru mewn modd systematig ac y gwneir gwaith rheolaidd i'w gwerthuso ac i graffu arnynt.



**Nid yw cyrff cyfrifol  
wedi datblygu  
cynlluniau cynhwysfawr  
eto sy'n nodi sut  
y bwriedir ymdrin  
â'r cyfrifoldebau  
newydd a diwygiedig  
a gyflwynwyd  
gan y Ddeddf  
Diogelwch Adeiladau**

---

- 1.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i Grenfell a'r newidiadau a gyflwynwyd, ac sydd yn yr arfaeth, yn y Ddeddf. Rydym yn nodi sut y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn ac yn darparu dadansoddiad sy'n nodi i ba raddau y maent mewn sefyllfa i'w cyflawni.

## **Fe wnaeth Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gwaith i ymateb i drychineb Grenfell a dewisodd weithio gyda Llywodraeth y DU ar Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022**

- 1.2 Yn dilyn trychineb Grenfell a chanfyddiadau ymchwiliad y Fonesig Judith Hackitt, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Arbenigol Diogelwch Adeiladau. Barn y Grŵp Arbenigol oedd, er bod y diffygion yn y system yr un mor ddilys yng Nghymru ag ydynt yn Lloegr, bod y cyd-destun yn wahanol ac felly bod angen i'r atebion fod yn wahanol hefyd.
- 1.3 Nid yw maint y dirwedd adeiladau uchel yng Nghymru'n debyg i'r un yn Lloegr lle amcangyfrifir bod dros 11,000 o adeiladau uchel iawn. Ar adeg gwaith y Grŵp Arbenigol roedd 147<sup>5</sup> o adeiladau preswyl uchel iawn yng Nghymru gyda hyd at bum adeilad uchel iawn ychwanegol yn cael eu codi bob blwyddyn.
- 1.4 Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd y Grŵp Arbenigol fap trywydd<sup>6</sup> ar gyfer gwneud adeiladau yng Nghymru yn fwy diogel, gan nodi blaenoriaethau tymor hwy ond hefyd ymyriadau tymor byrrach y gellid eu rhoi ar waith ar unwaith i sicrhau na fyddai methiannau Grenfell yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol. Argymhellodd y Grŵp Arbenigol y dylid:
- egluro rolau a chyfrifoldebau allweddol;
  - sicrhau yr ymdrinnir â'r anghydbwysedd rhwng dylunwyr adeiladau, contractwyr a rheoleiddwyr;
  - creu un system â safonau cyson trwy fynd i'r afael ag economi gymysg y system ddwy haen ar gyfer rheoli adeiladu gyda chylfundrefn rheoli adeiladu gyhoeddus a phreifat;
  - gwella capasiti a chymhwysedd swyddogion rheoli adeiladu;
  - creu cyfundrefn gorfodi a sancsiynau sy'n arwain at gydymffurfio effeithiol ac yn sicrhau diogelwch; a
  - chodi safonau gydag adeiladau nad ydynt yn ddiogel yn cael eu gwella.

---

5 O ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2023 mae 171 o adeiladau preswyl uchel iawn.

6 Y Grŵp Arbenigol Diogelwch Adeiladau, [Map tuag at adeiladau mwy diogel yng Nghymru](#), Mawrth 2019.



- 1.5 Ym mis Ionawr 2021, yn dilyn gwaith y Grŵp Arbenigol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur gwyn 'Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru'.<sup>7</sup> Cynigiodd y Papur Gwyn ddiwygiadau i'r gyfundrefn diogelwch adeiladau a bod rolau rhwng deiliaid dyletswyddau a phreswylwyr yn cael eu gwahanu. Yn dilyn ymgynghoriad, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull arfaethedig ond roedd arnynt eisiau, yn gymaint â phosibl, i gyfundrefn bolisi Cymru fod yn gyson â Lloegr. O ganlyniad, dewisodd Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen ar y cyd â rhai agweddau ar ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU, i fanteisio ar ddarbodion maint a sicrhau cysondeb priodol ledled Cymru a Lloegr.

### **Ceir ansicrwydd ynghylch sut y mae elfennau allweddol o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru**

- 1.6 Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 28 Ebrill 2022 ac mae'n canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:
- diogelwch a safonau pob adeilad;
  - sicrhau diogelwch adeiladau risg uwch, o ran adeiladwaith a meddiannaeth;
  - gwella cymhwysedd y bobl sy'n gyfrifol am oruchwylio, rheoli a chyflawni gwaith i adeiladau risg uwch;
  - sicrhau safonau a chanllawiau mwy eglur; a
  - gwneud preswylwyr yn ganolog i system newydd o ddiogelwch adeiladau.
- 1.7 Ochr yn ochr â'r Ddeddf, bu newidiadau hefyd i gyfraith diogelwch tân ar gyfer adeiladau sy'n cynnwys dwy set neu fwy o fangreoedd domestig yng Nghymru a Lloegr. Mae Deddf Diogelwch Tân 2021<sup>8</sup> yn egluro sut y cymhwysir y Gorchymyn Diogelwch Tân o ran pwy sy'n gyfrifol am reoli a lleihau risgiau tân mewn gwahanol rannau o adeiladau preswyl amlfeddiannaeth a'r rhannau o'r adeilad y mae'n ymwneud â hwy - er enghraifft, y wal allanol, a drysau rhwng mangreoedd domestig a rhannau cyffredin.
- 1.8 Trwy'r newidiadau hyn, mae ar Lywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod eglurder llwyr ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch adeilad ar bob adeg wahanol yn y broses. Mae Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015 eisoes yn nodi pwy yw'r bobl allweddol yn ystod prosiect adeiladu neu adnewyddu. Mae'r Cleient, y Prif Ddylunydd, y Prif gontractwr, dylunwyr a chontractwyr i gyd yn cael eu nodi fel 'deiliaid dyletswydd'.

---

7 Llywodraeth Cymru, Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad: Papur Gwyn Diogelwch Adeiladau, 12 Ionawr 2021


8 Deddf Diogelwch Tân 2021

- 1.9 Mae dyletswyddau ychwanegol bellach wedi'u gosod ar ddeiliaid dyletswydd mewn perthynas â diogelwch adeiladau. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd gofyn iddynt gydweithredu a rhannu gwybodaeth gyda chyrff rheoleiddio perthnasol a byddant yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau adeiladu. Bydd angen iddynt hefyd sicrhau eu bod nhw, a'r bobl maen nhw'n eu cyflogi, yn gymwys i wneud y gwaith maen nhw'n ei wneud. Bydd yn rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio a osodir arnynt.

Daeth Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 i rym ym mis Ebrill 2023. Mae pob agwedd ar y Ddeddf yn berthnasol i Loegr, ond dim ond Rhan 3 (gyda rhai mân eithriadau) sy'n berthnasol i Gymru. Mae is-ddeddfwriaeth a chanllawiau ynghylch Rhan 3 yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, gyda'r bwriad y bydd y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn llawn ac y bydd yn ofynnol cydymffurfio'n llwyr â hi o fis Ebrill 2025. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru'n datblygu deddfwriaeth a fydd yn ymdrin â'r meysydd sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Rheoleiddiwr newydd i Gymru (nad yw wedi'i benderfynu eto) a rolau deiliaid dyletswydd cyfatebol megis y Person Atebol.



- 1.10 Mae'r diwygiadau hyn yn berthnasol i bob prosiect adeiladu cymwys, p'un ai prosiect i adeiladu estyniad, bloc o fflatiau ynteu canolfan siopa ydyw. Felly bydd Llywodraeth Cymru'n mynnu bod adeiladau risg uwch<sup>9</sup> o fewn cwmipas y gwahanol newidiadau sy'n digwydd i'r amryw Gyfundrefnau Diogelwch Adeiladau yn mynd trwy bwyntiau stopio neu 'Byrth' cyn y gallant fynd ymlaen i gam nesaf y gwaith. Yn ôl ei hamserlen gyfredol, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y gyfundrefn dylunio ac adeiladu (rheoli adeiladu) newydd sy'n cynnwys Pwrth yn dod i rym ym mis Ebrill 2025. Y tri phorth yw:



- 1.11 Wrth fynd trwy Borth, bydd yn rhaid i'r rhai sy'n dylunio ac yn codi'r adeilad ddangos bod y dyluniad a'r adeiladwaith yn bodloni, ac yn parhau i fodloni, gofynion rheoleiddiol a sicrhau bod mesurau diogelwch digonol a gwybodaeth ddigonol am yr adeilad yn eu lle fel y gellir eu rheoli, eu cynnal a'u cadw a'u gwella'n briodol. Bydd yn rhaid iddyn nhw hefyd feddwl sut y bydd diogelwch yr adeilad yn cael ei reoli pan fydd yr adeilad yn cael ei feddiannu. O ganlyniad, nod y Ddeddf ac is-ddeddfwriaeth yw creu newid cyffredinol mewn cyfrifoldeb a diwylliant yn y diwydiant adeiladu trwy gyflwyno safonau a chanllawiau mwy eglur a sefydlu fframwaith rheoleiddio a chyfrifoldeb mwy effeithiol ar gyfer y diwydiant adeiladu.
- 1.12 Yn bwysig, mae'r Ddeddf yn egluro pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân ac adeiladau trwy gydol cylch oes adeilad risg uwch ac yn sefydlu dwy rôl newydd i wireddu'r uchelgais hon - yn Lloegr y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a'r Person Cyfrifol fydd y rhain. O ran y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau, mae Llywodraeth y DU wedi dewis penodi'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gyflawni'r swyddogaeth hon (gweler **Atodiad 4** am ragor o fanylion).

9 Mae'r diffiniad o 'Adeilad risg uwch' yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr. Yn gynnar yn 2023, fe [ymgyngorodd](#) Llywodraeth Cymru ar ei diffiniad arfaethedig o adeilad sydd o leiaf 18 metr o uchder neu sydd ag o leiaf 7 llawr sydd hefyd yn cynnwys o leiaf un uned breswyl neu sy'n ysbyty neu'n gartref gofal'. Nid yw canlyniad yr ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi eto. Yn Lloegr, mae gofyn bod o leiaf ddwy uned breswyl mewn adeilad.

- 1.13 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud swyddogaethau Rheoli Adeiladu'r rheoleiddiwr ar gyfer adeiladau risg uchel yn rôl i awdurdodau lleol, ond nid yw wedi nodi eto sut y bydd yr elfen hon o'r gyfundrefn newydd yn gweithio na beth yw ei disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae'r rhai yr ydym ni wedi cyfweld â hwy'n teimlo'n anesmwyth ynglŷn â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i wneud awdurdodau lleol yn Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau ar gyfer goruchwyllo adeiladau risg uchel. Cododd sawl corff arolygwyr cymeradwy (sy'n gweithio ar draws Cymru a Lloegr) a rhai aelodau o staff gwasanaethau tân ac achub bryderon nad oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau na phrofiad addas i gyflawni'r rôl hon. Yn hytrach, byddai'n well ganddyn nhw weld Cymru'n mabwysiadu'r system Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau sydd yn yr arfaeth yn Lloegr.
- 1.14 Ran amlaf o lawer, mae awdurdodau lleol a gwasanaethau tân ac achub yn pryderu ynghylch datblygiad hwyr a/neu hysbysu'n hwyr ynghylch penderfyniadau ac opsiynau polisi ar gyfer gweithredu'r newidiadau i'r gyfundrefn diogelwch adeiladau a gyflwynwyd gan y Ddeddf. Er enghraifft, fe gododd pob swyddog awdurdod lleol a gafodd ei gyfweld bryderon ynghylch diffyg manylion am y broses ar gyfer cofrestru'r proffesiwn Rheoli Adeiladu, un o nodweddion mwyaf arwyddocaol y Ddeddf, a rhywbeth a fydd yn effeithio ar holl awdurdodau lleol Cymru, nid dim ond y rhai ag adeiladau preswyl tal.
- 1.15 Cyn bo hir, bydd rhaid i bawb sy'n gweithio ym maes rheoli adeiladu, yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, gofrestru os ydynt am barhau i ymarfer. Hefyd, bydd angen i bob syrfêwr rheoli adeiladu mewn awdurdod lleol gwblhau asesiad ffurfiol rheolaidd o'i gymhwysedd. Bydd angen i syrfewyr a rheolwyr adeiladu fod â chymwysterau addas cyn y gallant ymarfer, er y gallai fod peth amser pontio i hyn ddigwydd. Os oes angen hyfforddiant cyn y gallant wneud gwaith, yna bydd hyn yn tynnu adnoddau allan o dimau sydd eisoes dan bwysau ac efallai y bydd angen darpariaeth ôl-lenwi ar gyfer hyn.
- 1.16 Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ar adeg ein harchwiliad nid oedd y system newydd wedi'i nodi mewn dogfen ddrafft ac nid oedd ymgynghoriad wedi cael ei gynnal arni. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r drefn ar gyfer cofrestru'r holl Arolygwyr Adeiladau a Chymeradwywyr Rheoli Adeiladu o fis Hydref 2023. Mae hyn yn creu ansicrwydd ac amwysedd ac mae'n lleihau'r gefnogaeth gan y rhai sydd â chyfrifoldebau diogelwch adeiladau, yn enwedig o ystyried bod llai a llai o gyfle wrth i amser fynd heibio.

1.17 Mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru a gyfwelwyd gennym yn cydnabod nad ydynt wedi gallu darparu adnoddau ar gyfer gwaith polisi mor gyflym ag yr hoffent, ac nid yw hyn wedi cael ei helpu gan ymddeoliad diweddar dau aelod allweddol o staff sydd wedi bod yn ganolog i lywio'r newidiadau yng Nghymru. O ganlyniad, nododd llawer o swyddogion mewn awdurdodau lleol anesmwythyd cynyddol bod yr Alban ymhell ar y blaen i Gymru a Lloegr o ran y cynnydd sydd wedi cael ei wneud, ac mae Lloegr bellach yn symud ymlaen yn gyflymach na Chymru. Mae'r ansicrwydd hwn yn ychwanegu at eu hamgylchedd gweithredu sydd eisoes yn gryn her.

**Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a gwasanaethau tân ac achub ddealltwriaeth dda am risgiau i ddiogelwch adeiladau lleol ond nid ydynt wedi nodi eto sut y maent yn bwriadu ateb gofynion y Ddeddf.**

- 1.18 Mae goblygiadau'r Ddeddf yn eang ac mae angen i lywodraeth leol fod wedi symud ymlaen gryn dipyn gyda gwaith i baratoi ar gyfer cyflawni'r cyfrifoldebau estynedig hyn. Er nad oes penderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud eto ynglŷn â dewisiadau polisi allweddol yng Nghymru, byddem yn dal i ddisgwyl canfod bod y rhai sy'n rheoli timau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau'n deall effaith y Ddeddf, yn enwedig negeseuon cyson Llywodraeth Cymru am y lefel uwch o arbenigedd y bydd ei hangen yn awr i gyflawni a dangos cymhwysedd a chydymffurfiaeth.
- 1.19 Trwy ein gwaith maes canfuom, fel rheol, fod gan staff diogelwch adeiladau awdurdodau lleol a gwasanaethau tân ac achub ddealltwriaeth dda am nifer a lleoliadau'r adeiladau risg uchel. Fodd bynnag, mae llawer yn cyfaddef bod lefel y manylder a'r wybodaeth am ddyluniad, adeiladwaith a chynnal a chadw'r adeiladau hyn yn amrywio ac nid oedd pawb a gyfwelwyd gennym yn teimlo'n hyderus bod ganddynt ddarlun cywir a chyfoes. Er gwaethaf hyn, gwelsom mai ychydig o weithredu sy'n digwydd neu sydd yn yr arfaeth o ran diweddarau a gwella gwybodaeth am yr adeiladau risg uchel posibl ym mhob ardal.
- 1.20 Fe wnaeth llawer o'r rhai a gyfwelwyd dynnu sylw hefyd at ddiffyg dealltwriaeth am oblygiadau posibl y Ddeddf ar lefel gorfforaethol ond hefyd yn uniongyrchol mewn meysydd gweithgarwch gweithredol allweddol, fel gwasanaethau tai. Er bod y rhan fwyaf o swyddogion wedi nodi bod mwy o ymwybyddiaeth o ddiogelwch adeiladau yn syth ar ôl trychineb Grenfell, nododd y mwyafrif llethol fod sylw wedi pylu dros amser ers hynny. Yn wir, nododd y rhan fwyaf mai anaml y mae rheoli adeiladu fel maes gwaith yn flaenoriaeth gorfforaethol, a bod gwybodaeth a dealltwriaeth wael am oblygiadau'r Ddeddf.

- 1.21 Ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi datblygu cynllun penodol i weithredu'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r gyfundrefn diogelwch adeiladau. Hefyd, ni allai unrhyw un a gyfwelwyd gennym mewn llywodraeth leol fynegi gweledigaeth glir ar gyfer yr hyn y bydd angen i'w gwasanaeth ei gyflawni o ran y Ddeddf a'u cyfrifoldebau estynedig, na map tuag at gyflawni. Mae hyn yn adlewyrchu'r flaenoriaeth gorfforaethol isel a roddir i reoli adeiladu. Mae hyn yn rhywbeth a adleisiwyd yn ein cyfweiliadau gyda staff gwasanaethau tân ac achub, y gwnaeth nifer ohonynt nodi pryderon ynghylch y flaenoriaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol i wasanaethau rheoli adeiladu.
- 1.22 Er enghraifft, nid yw rheoli adeiladu'n wasanaeth ar ei ben ei hun mewn 21 o'r 22 awdurdod lleol ac fel arfer mae wedi'i leoli o fewn y gwasanaethau cynllunio ac yn cael ei oruchwyllo gan y swyddog arweiniol ar gyfer cynllunio. Hefyd nid oes unrhyw aelod-hyrwyddwr ar gyfer rheoli adeiladu. Mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn aml yn profi diffyg cyfryngiad, proffil a chydabyddiaeth. Mae hyn yn cyfrannu at deimlad ymhlith swyddogion rheoli adeiladu eu bod yn ddi-rym, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu gadael i fwrw ymlaen â phethau ac ymdopi orau y gallant, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â materion o ddydd i ddydd, yn hytrach na gallu buddsoddi amser mewn cynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir.
- 1.23 Ar y cyfan, mae rheolwyr yn canolbwyntio ar barhau i ddarparu gwasanaethau ac nid ydynt yn paratoi nac yn cynllunio ar gyfer y modd y bydd y Ddeddf yn diwygio gwasanaethau. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ansicrwydd sylweddol sy'n parhau ynghylch sut y bydd y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru. Y canlyniad yw nad oes gan wasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol lawer o ddylanwad ac nad ydynt yn cael eu blaenoriaethu, a'u bod yn gweithio mewn amgylchedd ansicr iawn.



**Mae materion o ran  
darparu adnoddau'n ei  
gwneud yn annhebygol  
y gall awdurdodau  
lleol roi'r gyfundrefn  
diogelwch adeiladau  
newydd ar waith yn  
llwyddiannus neu  
fod gwasanaethau'n  
addas ar gyfer y diben**

---

- 2.1 Yn **Rhan 2** o'r adroddiad, rydym yn nodi sut y darperir gwasanaethau rheoli adeiladu ar hyn o bryd, gan fwrw golwg yn bennaf ar yr amgylchedd gweithredu ar gyfer awdurdodau lleol ond gan hefyd ystyried rôl arolygwyr cymeradwy. Rydym yn crynhoi'r heriau staffio ac adnoddau sy'n wynebu'r proffesiwn ac i ba raddau y mae gwasanaethau mewn sefyllfa dda i oresgyn y rhain.

## **Mae rheoli adeiladu fel proffesiwn yn wynebu heriau staffio sylweddol**

- 2.2 Er mwyn rhoi'r Ddeddf ar waith yn effeithiol, mae gofyn i awdurdodau lleol ac eraill fod â staff sy'n gymwys, yn meddu ar gymwysterau priodol, ac yn cael cymorth digonol i gynnal a diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth. Hefyd, mae'n bwysig bod staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu profiad, yn enwedig mewn adeiladau mwy cymhleth a safonau adeiladu newidiol, er mwyn gallu darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol.

## **Nid yw rheoli adeiladu'n cael ei ystyried yn ddewis da o ran gyrfa mwyach ac mae'r ddemograffeg heriol yn effeithio'n ddifrifol ar gydnerthedd byrdymor a hirdymor gwasanaethau**


- 2.3 Yn hanesyddol, roedd rheoli adeiladu'n cael ei ystyried yn rôl gadarnhaol i ddilyn gyrfa ynddi. Nododd llawer o reolwyr a gyfwelwyd gennym eu bod wedi ymuno â'u hawdurdod lleol fel hyfforddai a'u bod wedi cael budd o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u cyfrifoldebau dros amser a'u bod wedi cael cymorth i ddatblygu eu gyrfaedd yn y sefydliad. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi newid. Mae effaith cyni cyllidol wedi atal cyflogau rhag codi ac wedi lleihau nifer y staff i'r graddau nad yw rolau rheoli adeiladu mewn awdurdodau lleol bellach yn cael eu hystyried yn rhai deniadol yn ariannol a bod llai o gyfle staff i symud ymlaen yn eu gyrfa nag yn y gorffennol.
- 2.4 Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan yr her recriwtio barhaus sy'n wynebu awdurdodau lleol sy'n ei chael hi'n anodd llenwi swyddi gwag, hyd yn oed lle cynigir taliad atodol ar sail y farchnad. Er enghraifft, ar ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd 18.5 o rolau gwag Cyfwerth ag Amser Llawn (CagALI) ledled Cymru, gan gynnwys 14 o syrfewyr adeiladu. Er gwaethaf yr effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaethau, dim ond 2.2 o staff asiantaeth CagALI gafodd eu penodi i gryfhau gwasanaethau ac er gwaethaf y cynnydd mewn ceisiadau rheoli adeiladu a wnaed yn ystod y pandemig a 2021-22.



- 2.5 Yn ôl ein harolwg o wasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol, ar ddiwedd mis Mawrth 2022 roedd 133 o syrfewyr a rheolwyr adeiladu CagALI a 44 o staff gweinyddol yn gweithio yn y gwasanaethau hyn. Mae hyn yn trosi'n syrfêwr neu reolwr am bob 23,361 o drigolion yng Nghymru. O'i gymharu, roedd y data diweddaraf i gael ei gyhoeddi yn yr Alban yn nodi bod 498 o syrfewyr a rheolwyr adeiladu a 134 o staff gweinyddol<sup>10</sup>, sy'n cyfateb i un syrfêwr neu reolwr am bob 10,633 o drigolion.
- 2.6 Yn ogystal â'r her recriwtio a chadw barhaus, mae proffil oedran syrfewyr adeiladu awdurdodau lleol hefyd yn peri pryder. Mae **Arddangosyn 1** yn dangos, o'r 133 o syrfewyr a rheolwyr CagALI, bod 54.4% dros 50 oed a dim ond 10% o dan 30 oed. Mae hyn yn amlygu risgiau gweithredol a risgiau i barhad gwasanaethau ar gyfer awdurdodau lleol sy'n debygol o brofi colled fawr o ran profiad a gwybodaeth pan fydd pobl yn ymddeol yn y degawd nesaf.

### Arddangosyn 1: rheolwyr a syrfewyr rheoli adeiladu yn ôl oedran ym mis Mawrth 2022

Mae'r gweithlu rheoli adeiladu sy'n heneiddio'n risg fawr ar gyfer gweithredu a chyflawni'r gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd.



Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru

10 Nid yw'r data ar gyfer 2021-22 ar gael eto. Nid oes data cymharol ar gyfer Lloegr yn bodoli. Llywodraeth yr Alban, [Building Standards Workforce Data Collection Analysis Report 2021](#), Mehefin 2022

- 2.7 Yn arbennig, mae colli profiad yn y garfan rheolwyr yn risg sylweddol. O'r holl reolwyr, mae 10 (46%) wedi gweithio mewn gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol am dros 30 mlynedd, tra bod 15 dros 50 oed. Ceir disgwyliad cyffredinol y bydd nifer sylweddol o reolwyr a syrfewyr yn ymddeol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y gofynion cofrestru a chymhwysedd (gweler uchod ym **mharagraffau 1.15 – 1.17**). Bydd hyn yn arwain at ostyngiad pellach mewn capasiti, a cholli profiad ac arweinyddiaeth yn ystod cyfnod tyngedfennol o newid pan fydd disgwyliadau a galwadau ar wasanaethau yn cynyddu.
- 2.8 Ym mhen arall y cylch gyrfa, ychydig iawn o hyfforddeion sy'n cael eu recriwtio i gryfhau gwasanaethau a mynd i'r afael â bylchau o ran adnoddau a phrofiad sydd ar y gorwel. Dim ond saith hyfforddai oedd yn 2022, gyda dim ond pedwar mewn rolau parhaol ar ôl cwblhau eu hastudiaethau<sup>11</sup>. Cyfeiriodd rheolwyr at ddiffyg cefnogaeth gorfforaethol i gyflogi hyfforddeion a'r risg o golli staff sydd newydd gymhwyso i arolygwyr cymeradwy fel rhwystrau allweddol. Mae hyn yn gwneud cynllunio ar gyfer olyniaeth yn gryn her i bob awdurdod lleol. Yn ehangach, mae'r diffyg peirianwyr tân, prinder syrfewyr ac aseswyr sydd â digon o wybodaeth am systemau diogelwch strwythurol a chladin adeiladau uchel iawn yn parhau i fod yn bryder.
- 2.9 Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol<sup>12</sup> yn Lloegr wedi adrodd am faterion recriwtio a chadw tebyg, gan nodi bod 43% o awdurdodau yn ei chael hi'n anodd recriwtio swyddogion rheoli adeiladu. Yn yr un modd yn yr Alban, nodwyd materion tebyg o ran demograffeg ac olyniaeth hefyd, ond mae gweithredu newidiadau allweddol yn gynharach wedi arwain at ddull mwy cyfarwyddol gan Lywodraeth yr Alban.
- 2.10 Datblygodd Llywodraeth yr Alban strategaeth genedlaethol ar gyfer y gweithlu<sup>13</sup> ac roedd ganddi weledigaeth i sefydlu gweithlu cynaliadwy, medrus sy'n gwneud rheoli adeiladu'n 'broffesiwn i bawb'. Er mwyn cefnogi'r uchelgais hwn yn yr Alban, cyflwynwyd Fframwaith Cymhwysedd Proffesiynol ym mis Mai 2021. Mae'r fframwaith yn helpu i sicrhau y gall dilyswyr adeiladu ar bob lefel ddangos eu bod yn ddigon cymwys ac mae wedi'i wreiddio trwy'r System Asesu Cymhwysedd<sup>14</sup>. Mae hyn yn sbarduno gwelliant yn seiliedig ar sgiliau cyfredol ac fe'i cefnogir gan ddatblygiadau eraill yn y sector, megis hyb awdurdodau lleol (gweler **Atodiad 4** am ragor o wybodaeth).

---

11 Darperir hyfforddiant i brentisiaid a newydd-ddyfodiaid yn bennaf o dan raglenni cenedlaethol LABC a letyir gan Brifysgol Wolverhampton. Gall y [Brentisiaeth Radd Syrfewr Rheoli](#) hyfforddi syrfewyr i lefelau cymhwysedd gwahanol sy'n gysylltiedig â'u rôl. Wrth i syrfewr symud ymlaen trwy'r lefelau, gall asesu adeiladau mwy cymhleth a chael rolau ar lefel uwch.

12 Cymdeithas Llywodraeth Leol, [Local Government Workforce Survey 2022](#), Mai 2022

13 Llywodraeth yr Alban, [Building standards verification service: workforce strategy](#), Hydref 2020


14 Llywodraeth yr Alban, [Building standards - verifiers: professional competency framework](#), Mai 2021

2.11 Mae swyddogion Llywodraeth yr Alban yn credu bod colli staff profiadol – fe ymddiswyddodd 48 o bobl (syrfewyr a rheolwyr adeiladu yn bennaf) o wasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol yr Alban yn 2021, yn dilyn rhoi'r gyfundrefn reoleiddio newydd ar waith yn gynt - bellach yn cael sylw. Trwy ei strategaeth ar gyfer y gweithlu a'i fframwaith cymhwysedd, mae awdurdodau lleol yn blaenoriaethu uwchsgilio pobl a recriwtio rhagor o brentisiaid. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gamau lliniaru tebyg i waith Llywodraeth yr Alban yn yr arfaeth yng Nghymru.

2.12 Mae diffyg amrywiaeth o fewn y gweithlu rheoli adeiladu hefyd ac nid yw'n cynrychioli Cymru fodern. Canfu ein harolwg fod 100% o staff gweinyddol a 96% o syrfewyr a rheolwyr adeiladu'n disgrifio'u hunain fel gwyn Cymreig neu wyn Prydeinig o safbwynt ethnig, ac mai dim ond 5% o staff gweinyddol sy'n nodi bod ganddynt anabledd tra bod dim syrfewyr adeiladu na rheolwyr wedi nodi bod ganddynt anabledd. Hefyd, mae'r rolau o fewn y gweithlu wedi'u rhannu'n glir ar hyd llinellau rhywedd – **Arddangosyn 2.**

### Arddangosyn 2: rhywedd syrfewyr, rheolwyr, a staff gweinyddol adeiladu yn awdurdodau lleol Cymru ym mis Mawrth 2022

Dynion yw'r mwyafrif llethol o bobl mewn swyddi syrfewyr a rheolwyr adeiladu proffesiynol a menywod yw'r mwyafrif llethol mewn rolau gweinyddol â chyflogau is.




## Mae mynediad at hyfforddiant yn gyfyngedig ac nid yw staff yn cael cymorth i wella a chynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth

2.13 Er mwyn ateb gofynion cofrestru'r gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd a sicrhau bod staff yn gymwys i ymarfer, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid fuddsoddi mewn hyfforddiant digonol ac amserol. Mae datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant technegol a gynllunnir ac a gofnodir yn ofalus yn hanfodol er mwyn aros gyfuch â thechnoleg fodern a gofynion deddfwriaethol newidiol a sut y cânt eu cymhwyso'n ymarferol. Yn bwysig, cydnabyddir bod achrediad proffesiynol fel aelodaeth o'r Sefydliad Adeiladu Siartredig, Cymdeithas Siartredig y Peirianwyr Adeiladu a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yn hanfodol i ddangos cymhwysedd. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos bod llai na hanner y syrfewyr a rheolwyr adeiladu yng Nghymru ym mis Mawrth 2022 yn aelodau cymwysedig llawn o gorff proffesiynol cydnabyddedig a phriodol.

### Arddangosyn 3: cyfran y syrfewyr a rheolwyr adeiladu sy'n aelodau o gyrff proffesiynol a'u gradd ar ddiwedd mis Mawrth 2022

Mae llai na 40% o syrfewyr a rheolwyr adeiladu yn gymwysedig ac yn aelodau llawn o gyrff proffesiynol.



- 2.14 Hefyd, nododd rhai aelodau o staff broblem gynyddol nad yw awdurdodau lleol yn talu am ffioedd tanysgrifiadau proffesiynol mwyach oherwydd pwysau ar gyllid. Fodd bynnag, mae'r angen i ddangos cymhwysedd i fodloni'r safonau cofrestru newydd yn debygol o osod gofynion ychwanegol ar gyllidebau awdurdodau lleol i gynyddu adnoddau mewn hyfforddiant a chymwysterau proffesiynol i sicrhau y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Nododd y rhan fwyaf o'r swyddogion awdurdodau lleol a gyfwelwyd gennym nad yw hyn yn cael ei ystyried wrth bennu cyllidebau ar gyfer y dyfodol.
- 2.15 Nifer cyfartalog y diwrnodau hyfforddi a gymerwyd gan staff awdurdodau lleol yn 2021-22 oedd pum niwrnod ar gyfer rheolwyr, chwe diwrnod ar gyfer syrfewyr adeiladu a dau ddiwrnod ar gyfer staff gweinyddol. Roedd swyddogion Rheoli Adeiladu a gyfwelwyd gennym yn glir, fodd bynnag, bod pwysau cyllidebol parhaus yn dal i gyfyngu ar gyfleoedd i hyfforddi a'u bod yn aml yn peidio â chael eu hyrwyddo'n weithredol i osgoi sefyllfa lle byddai staff rheng-flaen yn peidio â bod ar gael i ddarparu gwasanaethau, hyd yn oed am gyfnodau byr.
- 2.16 Mae'r canllawiau ynghylch pennu ffioedd rheoli adeiladu yn caniatáu i awdurdodau lleol gynyddu eu taliadau i dalu am hyfforddi a datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal gweithlu cymwys a medrus. Fodd bynnag, er bod swyddogion rheoli adeiladu yn amlygu pwysigrwydd cronni arian i ariannu hyfforddiant ar gyfer staff, fe wnaethant nodi bod gwargedion yn aml yn cael eu defnyddio i ariannu blaenoriaethau corfforaethol eraill.
- 2.17 Ym mis Mawrth 2023, darparodd Llywodraeth y DU grant o £16.5 miliwn i'r LABC i ariannu 110 o hyfforddeion rheoli adeiladu newydd ar gyfer Lloegr i gefnogi'r broses o roi'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau ar waith. Nid oes cyllid o'r fath wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf diffyg buddsoddiad, mae'r LABC yn Lloegr yn dal i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi ar gael i staff awdurdodau lleol Cymru.
- 2.18 Mae'r materion o ran cydnerthedd sy'n effeithio ar wasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol Cymru yn cael eu teimlo mewn rhannau eraill o'r diwydiant. Canfuom fod y materion cadw a recriwtio sy'n wynebu awdurdodau lleol yn cael eu profi yn yr un modd gan wasanaethau tân ac achub Cymru. Mae'r diffyg pecynnau gwobrwyo cystadleuol a gweithlu sy'n heneiddio gyda niferoedd cynyddol yn debygol o ymddeol yn y tymor byr yn her gynyddol. Yn yr un modd, ceir problemau parhaus o ran argaeledd peirianwyr tân cymhwysedig ac mae cystadleuaeth gyda'r sector preifat, sy'n cynnig gwell telerau, amodau a chyflogau, yn parhau i annog staff profiadol y gwasanaethau tân ac achub i adael.

2.19 Yn hanesyddol, lle mae staff awdurdodau lleol Cymru wedi gadael, fel arfer er mwyn ymuno ag arolygwyr cymeradwy yr oedd hynny, a hwythau'n cynnig cyflogau, telerau gwasanaeth, fel taliadau bonws a cheir cwmni, mwy deniadol; yn ysgwyddo llai o gyfrifoldeb am strwythurau peryglus ac achosion gorfodi; ac yn peidio â gorfod ymdopi â'r pwysau parhaus sy'n cael eu creu gan gynni cyllidol. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae llif staff o awdurdodau lleol i arolygwyr cymeradwy wedi lleihau ac mae gwasanaethau arolygu adeiladau'r sector preifat hefyd yn dechrau cael traferth recriwtio staff digon cymwysedig a phrofiadol. Nododd cynrychiolwyr nifer o gyrff arolygwyr cymeradwy a gyfwelwyd gennym eu bod bellach wedi dechrau canolbwyntio ar dyfu eu gweithlu yn y dyfodol trwy raglenni hyfforddeion oherwydd diffyg argaeledd staff cymwysedig yng Nghymru a Lloegr.

### **Mae'r pandemig wedi helpu awdurdodau lleol i foderneiddio eu gwasanaethau, ond mae gorfodi'n dal i fod yn broblem**

2.20 Er gwaethaf y pwysau o ran adnoddau a wynebier gan dimau rheoli adeiladu awdurdodau lleol, mae'r rhan fwyaf yn parhau i gyflawni eu gwaith yn effeithiol. Parhaodd hyn trwy gydol y pandemig, a helpodd i gyflymu gwelliannau mewn effeithlonrwydd gyda'r newid i weithio gartref a digideiddio gwasanaethau.

2.21 Ar adeg y pandemig roedd y rhan fwyaf o syrfewyr rheoli adeiladu'n arfer teithio i safleoedd, gan gwrdd â phobl wyneb yn wyneb a gwneud penderfyniadau ar lawr gwlad, ond gyda COVID-19 ni ellid parhau â'r rhan fwyaf o'r prosesau hyn. Yn hytrach, canolbwyntiodd gwasanaethau rheoli adeiladu ar ddod o hyd i atebion i'w ffyrdd traddodiadol o weithio trwy ddiweddarau a newid gwasanaethau. Er bod rhai awdurdodau yn gwbl ddiigidol, i eraill creodd y pandemig gyfle i wella eu defnydd o dechnoleg a newid i wasanaethau yn y cwmwl i optimeiddio effeithlonrwydd a pherfformiad, ond hefyd cysoni arferion gwaith â'r sector preifat. Nododd sawl un a gyfwelwyd gennym na fyddai'r datblygiadau hyn wedi digwydd mor gyflym, os o gwbl, heb y pandemig.

2.22 Mae gorfodi'n rhan bwysig o sicrhau bod adeiladau'n ddiogel ac yn cydymffurfio. Gall gweithgarwch amrywio o ddarbwylllo a deialog i roi anogaeth ar gyfer newid, i fesurau mwy caled fel erlyn neu wrthod dyroddi hysbysiad cwblhau. Trwy ein gwaith maes, canfuom fod gorfodi'n dal i fod yn broblemus, yn bennaf oherwydd bod gan wasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol ddwy swyddogaeth a allai fod yn gwrthdaro â'i gilydd.

- 2.23 Yn gyntaf, hwy yw rheoleiddiwr lleol yr holl waith adeiladu yn eu hardal sy'n sicrhau bod materion a godwyd wrth ddylunio a chodi adeiladau nad ydynt yn bodloni'r safon ofynnol yn cael sylw. Fodd bynnag, yn ail maent hefyd yn cystadlu gydag arolygwyr cymeradwy am waith ac mae angen iddynt gynhyrchu digon o incwm i dalu am eu holl wasanaethau. Mae hyn yn wendid cynhenid yn system y farchnad gymysg a gyflwynwyd yn y 1980au ac mae'n adlewyrchu rôl groestynnol awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am blismona'r gyfundrefn rheoli adeiladu ond sydd hefyd mewn cystadleuaeth ag arolygwyr cymeradwy i sicrhau gwaith.
- 2.24 O ystyried ei bod yn ofynnol i arolygwyr cymeradwy gyfeirio achosion unigol o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau adeiladu at awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi, mae anghymhellion tebyg ar waith hefyd. Fel gydag awdurdodau lleol, mae cynnal perthnasoedd yn ystyriaeth bwysig wrth geisio cynyddu incwm i'r eithaf a gall annog arolygwyr cymeradwy i beidio â bod eisiau cymryd camau gorfodi.
- 2.25 Mae capasiti, adnoddau a gallu hefyd yn rhwystrau sylweddol a all gyfyngu ar gamau gorfodi. Cyfeiriodd swyddogion at ofynion a chost mynd â datblygwyr, perchnogion eiddo neu reolwyr i'r llys fel rhwystr i awdurdodau lleol yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Adleisiodd sawl arolygydd cymeradwy y safbwyntiau hyn, gan fynegi amheuaeth bod gan awdurdodau lleol yr adnoddau neu'r capasiti i orfodi safonau yn effeithiol a chymryd camau cyflym a phenderfynol.
- 2.26 Ar y cyfan, canfuom fod y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac arolygwyr cymeradwy, sy'n hanfodol i sicrhau bod adeiladau'n ddiogel, ar y gorau'n gyfyngedig ac ar y gwaethaf wedi'i nodweddu gan ddiffyg ymddiriedaeth ac amheuaeth ynghylch gweithredoedd ei gilydd. Yn wir, cododd nifer o swyddogion gwasanaethau tân ac achub a gyfwelwyd gennym bryderon ynghylch cadernid rheoleiddio gorfodaeth adeiladu'n fwy cyffredinol, o fewn awdurdodau lleol ond hefyd o ran arolygwyr cymeradwy.

### **Mae'n ymddangos bod rhai arferion rheolaeth ariannol mewn perthynas â rheoli adeiladu'n anghyfreithlon**

- 2.27 Mae Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010 (y 'Rheoliadau') yn gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer trefniadau llywodraethu ariannol gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol. Mae'r Rheoliadau wedi'u bwriadu i alluogi awdurdodau lleol i fod yn deg ac yn dryloyw o ran sut y codir ffioedd am wasanaethau.

2.28 Egwyddor allweddol y Rheoliadau yw y dylai awdurdodau adennill eu costau llawn ac na ddylai defnyddwyr gwasanaethau ond talu am y gwasanaeth y maent yn ei gael. O ganlyniad, mae'r Rheoliadau'n rhannu gweithgareddau yn waith y gellir codi tâl amdano, gwaith na ellir codi tâl amdano a gwasanaethau rheoli adeiladu eraill. Mae'n rhaid i weithgarwch y gellir codi tâl amdano gael ei ariannu gan ffioedd, a dylai gweithgarwch na ellir codi tâl amdano a gwasanaethau rheoli adeiladu eraill gael eu hariannu o gronfa gyffredinol yr awdurdod lleol. Mae **Arddangosyn 4** yn darparu enghreifftiau o weithgareddau.

**Arddangosyn 4: enghreifftiau o weithgareddau rheoli adeiladu y gellir codi tâl amdanynt, na ellir codi tâl amdanynt a rhai eraill**

Gweithgaredd y gellir codi tâl amdano	Gweithgaredd na ellir codi tâl amdano	Gwasanaethau rheoli adeiladu eraill
Cymeradwyo neu wrthod cynlluniau	Cysylltu ag awdurdodau eraill, e.e. y Gwasanaethau Tân ac Achub	Adeiladau peryglus
Arolygiadau o safleoedd	Gorfodi ar ran Arolygwyr Cymeradwy	Dymchweliadau
Ystyried gwaith a gyfeiriwyd gan AC (Arolygwyr Cymeradwy)	Adnabod gwaith adeiladu heb awdurdod	Cyngor i adrannau eraill
Ystyried tystysgrif unioni	Swyddogaethau i gefnogi pobl anabl	Gweinyddu diogelwch mewn meysydd chwaraeon
Mwy na 30 munud o gyngor cyn ymgeisio	30 munud cyntaf o gyngor cyn ymgeisio	Enwi neu rifo strydoedd

Ffynhonnell: CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth), [Local authority building control accounting](#), 2010



2.29 Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i bennu eu ffioedd a'u taliadau a rhoi cyfrif yn briodol amdanynt, datblygodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ganllawiau manwl<sup>15</sup>. Gyda'i gilydd, mae'r Rheoliadau a chanllawiau CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol:

- bennu a chyhoeddi ffioedd safonol a modd i gyfrifo ffioedd arbennig;
- pennu ffioedd sy'n seiliedig ar gyfradd fesul awr ar gyfer swyddogion a ffactorau gosod, penodol;
- monitro sefyllfa adennill costau'r gwasanaeth gyda'r nod o adennill costau dros 'gyfnod rhesymol';
- diwygio ffioedd i atal gwargedion neu ddiffygion;
- cyhoeddi datganiad ariannol blynyddol ar gyfer rheoli adeiladu; ac
- ystyried sefydlu cronfa wedi'i chlustnodi os bydd gwarged neu ddiffyg.

2.30 Hefyd, mae canllawiau CIPFA yn cyfeirio at gynigion ar gyfer monitro rheolaidd o 2010 gan 'yr Adran/y Cynulliad Cenedlaethol' i asesu effaith y Rheoliadau ar y cyfan ac yn arbennig i weld a oedd awdurdodau lleol yn bodloni'r egwyddor adennill costau. O ystyried bod y swyddogaethau rheoli adeiladu o dan y Rheoliadau y gellir eu harfer gan y Cynulliad Cenedlaethol wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006<sup>16</sup>, ac yr ymddengys fod y cyfeiriad at 'yr Adran' yn gyfeiriad at Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU ar y pryd, byddai'n ymddangos bod y cyfeiriad at 'y Cynulliad Cenedlaethol' yn anghywir ac y dylai fod wedi bod yn gyfeiriad at Lywodraeth Cymru. [Rydym yn deall, fodd bynnag, nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol (y Senedd bellach) na Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith monitro o'r fath.]

### **Mae dulliau pennu ffioedd yn amrywio'n sylweddol ac nid yw llawer ohonynt yn cydymffurfio â Rheoliadau**

2.31 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu ffioedd bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod yr incwm o weithgarwch y gellir codi amdano mor agos at y costau a ysgwyddir wrth ddarparu gwasanaethau â phosibl. Mae hyn yn golygu bod monitro'r sefyllfa adennill costau'n barhaus ac ailgyfrifo ffioedd yn rheolaidd yn hanfodol bwysig. Byddai'n groes i'r Rheoliadau pe bai ffioedd yn fwriadol yn cael eu ar lefel sydd uwchlaw'r costau yr amcangyfrifir y byddant yn cael eu hysgwyddo (gan ystyried unrhyw warged neu ddiffyg blaenorol a amcangyfrifwyd) neu pe caniateid yn fwriadol iddynt ostwng islaw'r hyn y mae'n ei gostio i ddarparu gwasanaethau.

15 CIPFA, [Local authority building control accounting](#), 2010

16 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 11, paragraff 30

- 2.32 Caiff ffactorau y dylid eu hystyried wrth bennu ffioedd eu nodi yn y rheoliadau. Ar wahân i'r egwyddor adennill costau a chostau staff, mae'r ffactorau yn cynnwys defnydd o'r adeilad, maint y llawr, a chost. Fodd bynnag, nid yw ystyriaethau posibl eraill megis cystadleurwydd ffioedd a chymharu ag eraill wedi'u nodi yn y Rheoliadau. Felly, ymddengys nad yw ystyriaethau eraill o'r fath yn ystyriaethau perthnasol y gellir eu hystyried. Mae canllawiau CIPFA yn nodi'r broses ar gyfer cyfrifo'r ffioedd ac yn rhoi enghreifftiau sut i wneud hyn.
- 2.33 Canfuom fod y broses ar gyfer penderfynu ar ffioedd gan awdurdodau lleol yn wahanol, yn aml yn sylweddol wahanol, i'r canllawiau a'r Rheoliadau. O'r 12 awdurdod a ymatebodd i'n hymarfer casglu data ac a ddarparodd wybodaeth yn disgrifio eu proses pennu ffioedd, nid oedd naw yn cydymffurfio. Gan amlaf oherwydd eu bod wedi cymhwyso ymgodiadau chwyddiannol penodedig; wedi copïo diwygiadau o ffioedd gan awdurdodau cyfagos; wedi defnyddio rhestrau cenedlaethol cyfartalog o gyfraddau i bennu eu taliadau hwy eu hunain; a/neu heb dangos sut yr oeddent wedi ystyried amgylchiadau lleol penodol sy'n sail i godi tâl megis eu strwythur staffio, ailgodi tâl yn ganolog a'r cyd-destun gweithredu lleol.
- 2.34 Ar adeg ein gwaith maes, nododd nifer o awdurdodau nad oeddent yn adolygu ffioedd yn flynyddol ac fe gyfaddefodd nifer lai nad oeddent wedi addasu ffioedd i adlewyrchu cost wirioneddol gwasanaethau am nifer o flynyddoedd. Mewn un achos, nid oedd ffioedd wedi newid ers 2012. Hefyd, er gwaethaf y gofyniad i seilio ffioedd ar gyfraddau fesul awr, nid oedd dau awdurdod yn gallu darparu'r wybodaeth hon. Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw gwasanaethau rheoli adeiladu llawer o awdurdodau lleol yn codi tâl ac yn pennu ffioedd yn unol â'r Rheoliadau a chanllawiau CIPFA. Nodwn hefyd fod graddfeydd y ffioedd cyhoeddedig yn dangos amrywiadau sylweddol ar gyfer gweithgareddau unigol – **Arddangosyn 5**.

#### **Arddangosyn 5: enghraifft o wahaniaethau rhwng ffioedd gwasanaethau Rheoli Adeiladu awdurdodau lleol Cymru 2022-23**

<b>Math o ffi</b>	<b>Ffi isaf</b>	<b>Ffi uchaf</b>	<b>Gwahaniaeth</b>	<b>Canolrif</b>
Ffi cynllun annedd sengl	£117	£288	145.6%	£210
Ffi arolygu annedd sengl	£274	£510	86.4%	£414
Ffi hysbysiad annedd sengl	£391	£915	134.1%	£671
Ffi gyfansawdd annedd sengl	£495	£1,830	269.7%	£1,155

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o raddfeydd ffioedd cyhoeddedig

2.35 Cymysg oedd ymwybyddiaeth o'r mater hwn ymhlith swyddogion. Nid yw rhai yn ymwybodol o berfformiad ariannol eu gwasanaeth yn bennaf oherwydd bod rheolaeth ar gyllid yn nwylo arbenigwyr y tu allan i'r gwasanaeth nad ydynt yn ymwneud â rheoli adeiladu. Roedd eraill yn ymwybodol o ofynion y rheoliadau ond yn disgrifio'r pwysau ar gyllidebau a oedd yn eu rhoi anogaeth i godi ffioedd neu ddiffyg gwybodaeth am ofynion y rheoliadau yn gorfforaethol. Mae hyn yn peri pryder mawr ac yn peri risgiau sylweddol i sicrhau gwerth am arian o'r gwasanaeth.

### **Mae rheolaeth ariannol ar wargedion a diffygion yn aneglur ac o bosibl yn anghyfreithlon**

2.36 Canfu ein harolwg o swyddogion awdurdodau lleol, o'r 15 a ddarparodd ymateb, mai dim ond pump a nododd fod eu hincwm sy'n dod o godi tâl am weithgarwch yn cael ei ddiogelu (h.y. yn cael ei glustnodi i'w gymhwyso i wasanaethau rheoli adeiladu), fod un wedi dweud mai dim ond peth ohono sy'n cael ei ddiogelu a bod naw wedi nodi nad oes unrhyw incwm yn cael ei ddiogelu.

2.37 Pan fydd gwargedion yn digwydd, anogir awdurdodau i greu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi, ond nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny. Canfu ein hadolygiad mai dim ond pedwar awdurdod lleol a ddatgelodd gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer rheoli adeiladu, er y gallai eraill fod wedi ystyried bod y symiau cysylltiedig yn amherthnasol yn ariannol ac wedi peidio ac adrodd arnynt. O ran perfformiad ariannol gwasanaethau, canfuom fod gan 11 awdurdod ddiffyg ar ddiwedd 2021-22 a bod gan saith warged. Nid oedd pedwar ohonynt yn gallu darparu'r wybodaeth hon.

2.38 Mae egwyddorion Rheoliadau 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i incwm rheoli adeiladu, gan gynnwys gwargedion, gael ei ddefnyddio i ddarparu gweithgareddau rheoli adeiladu. Mae canllawiau CIPFA yn nodi, wrth gyfrifo cyfanswm costau'r swyddogaeth rheoli adeiladu, y caniateir i awdurdodau gynnwys hyfforddiant fel cost anuniongyrchol mewn perthynas â chyflogeion wrth gyfrifo ffioedd. Hefyd, lle ceir gwargedion, gellir defnyddio'r rhain i fuddsoddi yn ansawdd y gwasanaeth neu i fynd i'r afael â newidiadau rheoleiddiol.

2.39 Canfuom nad oedd y rhan fwyaf o swyddogion rheoli adeiladu'n cynyddu eu ffioedd i adlewyrchu'r angen i ariannu hyfforddiant a datblygiad i'w staff oherwydd pwysau corfforaethol ehangach ar y gyllideb. Yn wir, nododd rhai swyddogion a gyfwelwyd gennym yn anecdotaidd fod ffioedd rheoli adeiladu yn cael eu defnyddio i greu gwargedion i dalu am wasanaethau eraill y cyngor, er na welsom unrhyw dystiolaeth o hyn yn ymarferol.

2.40 Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r modd y rhoddir y Rheoliadau ar waith ac y pennir taliadau rheoli adeiladu yn fwy cyffredinol gan awdurdodau lleol yn ateb gofynion cyfreithiol ac ymarferol. Mae ein dadansoddiad yn amlygu nad yw'r rhan fwyaf o ffioedd yn cael eu pennu'n gywir a, lle mae gwargedion a diffygion yn digwydd, nad yw'r rhain yn cael eu rheoli'n weithredol nac yn cael eu defnyddio at y diben a fwriadwyd. Mae hyn yn peri pryder arbennig oherwydd bod y Rheoliadau wedi'u cyflwyno i gefnogi rheolaeth ariannol dda a threfniadau llywodraethu da mewn gwasanaethau rheoli adeiladu ac y byddai eu rhoi ar waith yn gywir yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion o ran y gweithlu, recriwtio a hyfforddiant a nodwyd uchod.

**Ym mron pob achos, nid yw adroddiadau ariannol yn ateb gofynion rheoleiddiol ac mae hyn yn rhwystr i graffu ar brosesau gosod ffioedd, incwm a gwariant Rheoli Adeiladu**

2.41 Er mwyn dangos eu trefniadau llywodraethu ariannol ar gyfer incwm a gwariant rheoli adeiladu, mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi datganiadau ariannol blynyddol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol, fel lleiafswm, bod y Datganiadau hyn yn datgelu'r costau y gellir codi amdanynt a'r incwm a ddaw o hynny, unrhyw warged neu ddiffyg, eu bod yn cael eu cyhoeddi o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol a'u bod yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y swyddog Adran 151. Mae canllawiau CIPFA yn cynnwys templed sy'n adlewyrchu'r gofynion hyn ac enghraifft wedi'i chwblhau i helpu awdurdodau lleol i ddangos eu bod yn cydymffurfio. Gan bod cyhoeddi datganiad ariannol yn un o ofynion y rheoliadau, mae methu â gwneud hynny yn anghyfreithlon.

2.42 O'n hadolygiad o wefannau a datganiadau ariannol awdurdodau lleol, canfuom mai dim ond pedwar sydd â datganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd a dim ond dau o'r rhain a gydymffurfiodd â'r terfyn amser ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad. Fel a nodwyd uchod, mae canllawiau CIPFA yn cyfeirio at gynigion ar gyfer craffu i ganfod a yw awdurdodau'n dilyn yr egwyddor adennill costau. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau wrthym ni nad yw'r gwaith monitro hwn wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae diffyg goruchwyliaeth o hyd ar berfformiad ariannol a phrosesau pennu ffioedd gwasanaethau rheoli adeiladu ar lefel genedlaethol a lleol.

## Mae'r cynnydd gyda chydweithio a rhanbartholi wedi bod yn araf

- 2.43 Ar y cyfan, nid yw gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol wedi newid yn sylweddol er gwaethaf y pwysau ar adnoddau, capasiti a sgiliau. Mae rhai awdurdodau wedi gwneud rhai datblygiadau arloesol, fel Sir Fynwy sydd wedi partneru gydag asiant tai i ddod o hyd i gleientiaid newydd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau hefyd yn gweithredu'r cynllun Awdurdod Partneriaeth. Mae hyn yn caniatáu i weithwyr proffesiynol, fel penseiri, ddefnyddio awdurdod lleol o'u dewis i gymeradwyo cynlluniau a'r awdurdod lleol lle mae'r safle wedi'i leoli i gynnal yr arolygiadau ar y safle. Er enghraifft, efallai y bydd cadwyn archfarchnad wedi'i lleoli yn Lloegr a gall ddewis defnyddio eu tîm LABC lleol i gymeradwyo cynlluniau ond yna defnyddio awdurdod yng Nghymru i arolygu siop newydd yng Nghymru.
- 2.44 Er bod gwaith LABC Cymru – y rhwydwaith swyddogion Cymru gyfan - yn cael ei ystyried yn gadarnhaol, gan gynnig cymorth, proses ddysgu a'r cyfle i rannu gwybodaeth, nid yw hyn wedi trosi'n newid mwy ffurfiol i helpu i wella effeithlonrwydd a chryfhau cydnheredd. Mae'r grŵp wedi profi'n llwyddiannus o ran hysbysu timau'n gyson a'u cefnogi, ac mae sawl enghraifft unigol gadarnhaol o 'gydweithio mewn argyfyngau'. Er enghraifft, awdurdodau cyfagos yn helpu i gynnal arolygiadau a gweithgareddau cymeradwyo cynlluniau ym Mlaenau Gwent i helpu i fynd i'r afael â phwysau byrdymor o ran adnoddau yn yr awdurdod hwnnw. Er ein bod yn cydnabod bod y rhain yn gamau cadarnhaol i'r cyfeiriad cywir, nid ydynt yn mynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r sector, ac mae angen mwy o newid, a hwnnw'n newid mwy sylfaenol.
- 2.45 Mae cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau trwy fwy o gydweithio a rhanbartholi gwasanaethau. Gall hyn helpu awdurdodau lleol i gystadlu'n fwy effeithiol, ymateb i her y gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd a darparu atebion i fynd i'r afael â nifer o faterion difrifol y sector lle mae darparu adnoddau yn y cwestiwn. Er enghraifft:
- cyfuno staff i leddfu problemau capasiti ac i liniaru'r risgiau o ymddeoliadau sy'n gynhenid yn nemograffeg y sector;
  - cynyddu'r gallu i wario a chyfleoedd i wneud arbedion trwy gomisiynu a chaffael nwyddau a gwasanaethau ar y cyd a sefydlu taliadau unffurf am weithgareddau sy'n costio'r un faint (er enghraifft, hyfforddiant allanol);
  - galluogi staff i ddatblygu arbenigeddau, fel diogelwch tân, i reoli adeiladau risg uchel yn well; a
  - chryfhau'r capasiti mewn swyddogaethau cefn swyddfa.

- 2.46 Er bod rhanddeiliaid ar draws y sectorau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau'n cydnabod ac yn sôn am fanteision cydweithio a rhanbartholi, canfuom mai ychydig iawn o gynnydd sydd wedi cael ei wnaed i symud hyn ymlaen. Er y gall llawer o staff rheoli adeiladu a gyfwelwyd gennym nodi manteision posibl cydweithio gyda thimau rheoli adeiladu eraill, nid yw hyn wedi arwain at bartneriaethau mwy ffurfiol fel timau ymchwilio ar y cyd. Rydym yn cydnabod bod y gofynion sy'n cael eu rhoi ar reolwyr rheoli adeiladu fel unigolion ar hyn o bryd, a'u capasiti llai i flaenoriaethu'r gweithgareddau hyn, yn amlwg yn cyfyngu ar gyfleoedd i lywio newid. Ond o ystyried yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau rheoli adeiladu, mae angen newid i atal y materion sydd eisoes yn bresennol yn y sector rhag gwaethygu.
- 2.47 Yn yr Alban, o'i gymharu, mae Safonau Adeiladu Awdurdodau Lleol yr Alban (LABSS) wedi sefydlu model hyb i'r 32 o awdurdodau lleol gydweithio a gweithredu argymhellion ar gyfer gwella (gweler **Atodiad 4**). Mae'r Hyb yn gweithredu fel canolfan gydweithredol ganolog i symud y sector yn yr un cyfeiriad mewn ymateb i argymhellion ar gyfer gwella. Mae gan hyn y potensial i osod gwasanaeth a safon sy'n gyson ledled yr Alban, a ategir gan fframweithiau gweithredol a pherfformiad Llywodraeth yr Alban. Mae hefyd yn helpu awdurdodau sy'n profi problem staffio i frocera cymorth gan un arall.
- 2.48 Mewn ymateb i'r heriau tebyg y maent yn eu hwynebu, mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn newid y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi newid o fod â thîm arbenigol pwrpasol i dîm mwy o swyddogion Diogelwch Tân i Fusnesau. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth i reoli effaith trosiant staff yn well a chreu gweithlu mwy cydnerth, trwy ehangu'r gronfa o staff sy'n cael profiad o ddyluniad ac adeiladwaith sy'n gwella diogelwch tân adeiladau. Yn yr un modd, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi newid o wasanaeth lle mae swyddogion tân mewn lifrai yn gwneud gwaith diogelwch tân i wasanaeth sy'n gynyddol yn defnyddio staff corfforaethol i gryfhau perfformiad. Mae hyn yn helpu i wella effeithlonrwydd a chynyddu capasiti.



**Nid oes rhyw lawer  
o waith yn cael ei  
wneud i werthuso  
gwasanaethau rheoli  
adeiladu ledled  
Cymru ac nid oes  
system gynhwysfawr  
genedlaethol o  
sicrwydd diogelwch  
adeiladau**

---

**03**

- 3.1 Yn y Rhan olaf hon o'r adroddiad, rydym yn nodi sut y gwneir gwaith i reoli a gwerthuso perfformiad gwasanaethau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau a sut y mae risgiau'n cael eu hadnabod a'u lliniaru.

### **Cyfyngedig yw'r ddealltwriaeth am ba mor dda yw perfformiad gwasanaethau**

- 3.2 Mae rheoli perfformiad ac adrodd ar hynny'n elfen hanfodol o lywodraethu da. Mae bod ag ystod dda o ddata allweddol yn eich galluogi i ddeall y gwasanaethau yr ydych yn eu rheoli ac mae'n helpu i danategu penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth trwy ddarparu mewnwelediad a gwybodaeth. Mae data cywir hefyd yn rhagflaenydd i gynlluniau rhagolygol ac yn helpu sefydliadau i ddysgu o'r gorffennol i oleuo'r dyfodol.

### **Mae diffyg fframwaith rheoli perfformiad cenedlaethol ar gyfer rheoli adeiladau a diogelwch adeiladau'n ei gwneud hi'n anodd gwerthuso perfformiad gwasanaethau**

- 3.3 Ar adeg ein gwaith nid oes fframwaith cenedlaethol cytunedig ar gyfer adrodd ar berfformiad gwasanaethau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau yng Nghymru. Yn niffyg cyfres gadarn o fesurau cenedlaethol i reoli a gwerthuso perfformiad gwasanaethau, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar adrodd yn erbyn grŵp cul o fesurau. Canfuom fod y dangosyddion allweddol a ddefnyddir fwyaf yn ymwneud â:
- mesurau amseroldeb megis faint o amser a gymerir i gydnabod a gwirio ceisiadau, pa un a gynhelir ymweliad â'r safle ar y dyddiad y cytunwyd arno, cofnodi nodiadau'r ymweliad â'r safle o fewn dau ddiwrnod i arolygiad a nifer y tystysgrifau cwblhau a gyhoeddwyd o fewn cyfnod penodol.
  - monitro lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid gydag ymateb y gwasanaeth; a hefyd
  - cyfran o'r farchnad – y gyfran o'r farchnad rheoli adeiladu y mae awdurdod lleol yn ei gwasanaethu.
- 3.4 Er bod pob un o'r rhain yn bwysig ac yn berthnasol, nid ydynt yn darparu digon o fanylion i ddeall na barnu effeithiolrwydd gwasanaethau rheoli adeiladu. Er bod amseroldeb yn ffactor allweddol wrth weinyddu system rheoli adeiladu effeithlon, mae'r mesur yn rhoi pwys ar ymdrin â llawer iawn o geisiadau yn yr amser byrraf posibl, heb unrhyw ystyriaeth i ansawdd y gwaith a wneir ac nad yw'n rhoi unrhyw sicrwydd bod y gwaith wedi'i wneud yn ddiogel, bod risgiau wedi'u lleihau, a bod diogelwch cyffredinol deiliaid adeilad wedi'i wella.



- 3.5 Oherwydd y gwendidau hyn, nid yw awdurdodau lleol yn gallu dangos bod gwaith rheoli adeiladu yn lleihau risg ac yn gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol ac ansawdd bywyd yn yr ardal. Er enghraifft, canfuom fel a ganlyn:
- nid oes unrhyw ddata yn cael ei gasglu ar waith arolygwyr cymeradwy a gwasanaethau tân ac achub, ac nid yw meincodi i gymharu perfformiad yn cael ei wneud fel mater o drefn. O ganlyniad, mae'r broses o adrodd ar berfformiad yn dal i fod yn dameidiog ac nid yw'n rhoi sicrwydd digonol – risg fawr a amlygwyd yn Adroddiad Hackitt.
  - mae adroddiadau cyhoeddus - sy'n hysbysu rhanddeiliaid allweddol am effeithiolrwydd gwasanaethau ac 'arlwy' gwasanaethau – yr un mor gyfyngedig. Nid yw hyn yn helpu i ddarparu trosolwg gynhwysfawr ar yr holl weithgarwch rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau mewn ardal, neu'n genedlaethol.
  - er bod rhai mesurau sy'n ymwneud â risg, mae'r rhain yn gyfyngedig i adeiladau sydd wedi'u cofnodi fel strwythurau peryglus. Nid yw risg, yn enwedig risg i gydnerthedd gwasanaethau, yn rhywbeth sy'n cael ei ymgorffori yn y fframwaith perfformiad fel ystyriaeth ganolog lle mae effeithiolrwydd yn y cwestiwn.
  - ychydig o sylw a roddir i reoli perfformiad ariannol yn weithredol ac adrodd yn erbyn gofynion y rheoliadau cyllid, pennu ffioedd, cymharu costau, ailgodi tâl a diffygion.
- 3.6 Hefyd, dywedodd timau rheoli adeiladu wrthym fod y broses adrodd yn ymatebol yn bennaf pan fo pryderon yn cael eu codi yn hytrach nag yn rhan arferol o'u rôl. Lle caiff mesurau perfformiad eu cofnodi a'u monitro, gwneir hyn yn aml ar fenter tîm ei hun, at eu dibenion eu hunain, a gall fod yn broses faith a gyflawnir â llaw, oherwydd integreiddio gwael rhwng platfformau TG. Lle mae offer TG ar gyfer adroddiadau awtomatig yn bodoli, clywsom am enghreifftiau lle'r edd y system yn cael ei thanddefnyddio neu lle'r oedd yn cael ei defnyddio'n anghyson, oherwydd prosesau gwan neu anawsterau gweithredu. Mewn sawl achos, caiff dadansoddiad ei lunio ar daenlenni a ddelir yn lleol gan unigolion, gan beri risg i gydnerthedd a pharhad pan fydd staff yn absennol.
- 3.7 Mae gan Lywodraeth yr Alban fframwaith cenedlaethol i fonitro a dadansoddi perfformiad. Cyflwynwyd mesurau yn 2012 gan ymgorffori gwersi o ymchwil a oedd yn dadansoddi adolygiadau blaenorol o berfformiad. Mae diogelwch adeiladau yn gyfrifoldeb gweinidogol yn yr Alban ac mae darparwyr yn cael eu 'penodi' fel dilyswyr (gweler **Atodiad 4**). Er bod awdurdodau lleol yn cael eu dewis fel rheol, mae'r broses benodi ac ailbenodi yn ysgogi cysondeb a safonau, ac yn darparu fframwaith cadarn i asesu perfformiad.

### **Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithio i safon rheoli ansawdd ISO 9001, ond nid yw hyn yn rhoi sicrwydd digonol bod gwasanaethau'n gweithio'n effeithiol**

- 3.8 Mae nifer o awdurdodau lleol wedi ennill achrediad ISO 9001, y safon ryngwladol ar gyfer Rheoli Ansawdd. Mae'r safon yn defnyddio saith egwyddor rheoli ansawdd sy'n canolbwyntio ar:
- ffocws ar y cwsmer;
  - arweinyddiaeth;
  - ymgysylltu â phobl;
  - dull proses;
  - gwelliant;
  - gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth; a
  - rheoli perthnasoedd.
- 3.9 Nod y mesurau yw hybu dealltwriaeth a darparu cysondeb, gan ychwanegu gwerth, perfformiad effeithiol, a gwelliant mewn prosesau. Mae'r safon hefyd yn annog sefydliadau i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg, gan sicrhau bod mesurau ataliol yn cael eu cymryd cyn i risgiau godi. Unwaith y bydd sefydliad yn cael achrediad, mae'n ofynnol iddo werthuso'r modd y mae'n cydymffurfio â'r safon yn flynyddol.
- 3.10 Er bod yr awdurdodau wedi cael ISO 9001 yn ddefnyddiol ar gyfer codi safonau a lefelau cysondeb, gwelsom fod rhai awdurdodau wedi dewis rhoi'r gorau i ddefnyddio'r safon oherwydd cost a her gwerthuso parhaus i ddangos eu bod yn cydymffurfio. Mae hefyd yn amheus pa mor ddefnyddiol yw'r safon i farnu effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chadernid gwasanaethau o ystyried yr heriau niferus sy'n wynebu gwasanaethau rheoli adeiladu fel a nodwyd gennym.

### **Cyfyngedig yw gweithgarwch i graffu ar wasanaethau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau a'u gwerthuso**

- 3.11 Mae craffu effeithiol yn elfen hanfodol o lywodraethu da ac mae'n helpu i roi sicrwydd bod pethau'n gweithio'n dda neu fod angen iddynt wella. Heb system rheoli perfformiad gadarn, ni all craffu ond bod mor effeithiol â'r wybodaeth a'r mesurau y creffir yn rheolaidd arnynt. Canfuom nad yw gwasanaethau rheoli adeiladu llawer o awdurdodau lleol yn cyflwyno adroddiadau ffurfiol rheolaidd i bwyllgor craffu i ddangos y gwaith, yr effaith a'r risgiau sy'n wynebu'r gwasanaeth.

- 3.12 Er enghraifft, canfuom fod craffu'n anghyson ledled Cymru, ac mai dim ond ddwywaith y flwyddyn ac yn erbyn set gul iawn o fesurau a gwybodaeth y mae'n ofynnol i lawer o dimau adrodd ar eu perfformiad. Mewn sawl awdurdod, nid oes unrhyw graffu ffurfiol ar wasanaethau. Nododd sawl swyddog awdurdod lleol a gyfwelwyd gennym, o'u profiad hwy, ar ôl y diddordeb cynyddol cychwynnol mewn rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau a ddeilliodd o drychineb Grenfell, bod cyswllt rhwng aelodau ac uwch swyddogion yn gyfyngedig gan mwyaf ac yn canolbwyntio ar faterion unigol sy'n peri pryder - strwythur peryglus neu gais rheoli adeiladu gan etholwr. Nododd sawl un fod gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau am reoli adeiladu yn isel a'r risgiau a'r materion sy'n wynebu gwasanaethau'n anhysbys gan mwyaf.
- 3.13 Mewn cyferbyniad, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yr Alban adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad yn erbyn cyfres o ganlyniadau perfformiad allweddol. Yna caiff y canlyniadau hyn eu hasesu ochr yn ochr ag adborth cwsmeriaid a datblygir cynlluniau i helpu i ysgogi gwelliant. Anogir staff i gysylltu'r rhain â champau gwella y gellir eu defnyddio i fonitro cynnydd ac adnabod trywyddion ymholi allweddol i'r rhai sy'n gyfrifol am graffu. Mae allbwn yr asesiad wedi'i fwriadu i fod yn hygyrch i randdeiliaid ar amryw lefelau, gan hysbysu'r llywodraeth am dueddiadau strategol, hyrwyddo gwelliant yn weithredol i ddilyswyr, a chan hefyd ddarparu asesiad tryloyw ar gyfer y cyhoedd.

### **Mae prosesau rheoli risg yn annigonol**

- 3.14 Ceir dull cymysg o asesu risg, gyda rhai timau'n cynnal eu cofrestrau risg eu hunain, rhai yn bwydo i mewn i gofrestrau corfforaethol, a rhai'n peidio â chofnodi risgiau'n ffurfiol nac yn tracio'r modd y maent yn eu lliniaru. Yn wir, nododd sawl swyddog a gyfwelwyd gennym fod risgiau hysbys yn aml yn cael eu nodi'n anffurfiol o fewn timau a bod y rhain yn cael eu hystyried ar wahân i risgiau eraill ar draws y gorfforaeth.
- 3.15 Mae'r dull seilo hwn yn fygythiad i gydnerthedd gan bod y system yn dibynnu'n ormodol ar nifer fach o unigolion sydd â symiau sylweddol o wybodaeth nad yw'n cael ei chofnodi'n ffurfio, yn cael ei rhannu'n ffurfiol gyda chydweithwyr er gwybodaeth, neu'n cael ei huwchgyfeirio ar gyfer gweithredu. Dim ond lleiafrif bach o awdurdodau lleol y siaradom ni gyda hwy allai ddisgrifio'r weithdrefn ffurfiol ar gyfer uwchgyfeirio risgiau, gyda llawer yn cydnabod nad yw protocolau o'r fath yn bodoli. Heb adnabod a chofnodi risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn modd priodol, ni all awdurdodau wneud cynlluniau tymor hwy a pharatoi ar gyfer senarios yn y dyfodol.

- 3.16 Gan nad yw gwybodaeth gyd-destunol yn cael ei hintegreiddio'n rheolaidd â meysydd gwasanaeth eraill, nid yw'n glir bod digon o ddealltwriaeth yn bresennol ymhlith swyddogion atebol ar bob lefel uwchgyfeirio. Pan godir risgiau, anaml y byddant yn cyrraedd y trothwy sy'n ofynnol i gael eu hystyried yn risg gorfforaethol. Mae trywyddion archwilio gwael yn golygu nad yw risgiau'n cael eu lliniaru'n rhagweithiol, a hynny mewn amgylchedd lle mae'r capasiti i ddarparu'r mesur lliniaru hwn yn aml yn gyfyngedig.
- 3.17 Gyda thimau'n aml yn cael eu gadael i weithredu ar wahân, mae codi risgiau corfforaethol ac arwyddocaol eraill yn debygol o fod yn fwy o her nag ar gyfer gwasanaethau uwch eu proffil sy'n cael sylw mwy amlwg ac sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn â'r strwythur adrodd corfforaethol. O ganlyniad, efallai na fydd awdurdodau lleol ar eu lefel uchaf yn cael gweld y risgiau niferus sy'n wynebu'r gwasanaeth rheoli adeiladu – cynllunio gwael ar gyfer olyniaeth, gweithlu sy'n heneiddio, diffyg amrywiaeth, cymysgedd sgiliau annigonol, ynghyd â goblygiadau'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau newydd.



# Atodiadau

---

- 1 Ymagwedd a Dulliau Archwilio
- 2 Dogfennau Cymeradwy'r Rheoliadau Adeiladu
- 3 Y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a'r Person Atebol
- 4 Dull yr Alban

# 1 Ymagwedd a Dulliau Archwilio

## Ymagwedd

Ar gyfer y gwaith hwn ein hymagwedd fu deall pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid yn cryfhau ac yn gwella gwasanaethau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau yn dilyn Deddf Diogelwch Adeiladau 2022. Rydym wedi bwrw golwg ar gadernid gwybodaeth am anghenion, strategaethau, cynlluniau a pholisïau anghenion; wedi asesu cadernid y gwasanaethau presennol a chynlluniau i gryfhau'r rhain; ac wedi ystyried cadernid systemau sicrwydd.

Gwnaethom archwilio pob un o'r 22 o brif awdurdodau lleol yng Nghymru ar lefel uchel, gan reoli'r modd y cyflawnwyd ein harchwiliad i fod yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar swyddogion awdurdodau lleol yn ystod adferiad ar ôl y pandemig a'r argyfwng costau byw. Fe wnaethom sicrhau bod y gwaith yn ddigonol i gael darlun o'r sector cyfan ond heb iddo dynnu'n sylweddol oddi wrth gyfrifoldebau swyddogion am ddarparu gwasanaethau. Roedd ein hymagwedd yn hyblyg i gyd-fynd ag ymrwymadau swyddogion wrth gytuno ar ein gwaith maes a'i gyflawni.

## Dulliau

Fe wnaethom gwblhau ein hadolygiad rhwng mis Ionawr 2023 a mis Awst 2023 a defnyddio ystod o ddulliau i gyflawni ein gwaith:

- **adolygiad o ddogfennau:** fe wnaethom adolygu dogfennaeth gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Gwasanaethau Tân ac Achub a sefydliadau perthnasol eraill. Roedd hyn yn cynnwys cofnodion pwyllgorau perthnasol, strategaethau corfforaethol, cynlluniau busnes a dogfennau polisi. Fe wnaethom hefyd adolygu gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.
- **cyfweiliadau** – fe gynhaliom ni amrywiaeth o gyfweiliadau gwahanol:
  - **cyfweiliadau gyda swyddogion** – fe wnaethom gyfsweld â swyddogion arweiniol Diogelwch Adeiladau ym mhob un o'r 22 o brif awdurdodau lleol yng Nghymru a phob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub. Cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2023.
  - **cyfweiliadau cenedlaethol** – fe wnaethom gyfsweld â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, arolygwyr adeiladau cymeradwy'r sector preifat, melinau trafod, sefydliadau academaidd, a chyrrff ymchwil. Digwyddodd y rhain rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2023.
- **grwpiau ffocws** – yn unol â'n hymagwedd, roedd rhai awdurdodau lleol yn teimlo ei bod yn fwy priodol i ni siarad gydag amrywiaeth o swyddogion mewn grwpiau ffocws i leihau ein heffaith ar ddarparu gwasanaethau.
- **casglu data** – fe wnaethom gynnal ymarfer casglu data gyda swyddogion awdurdodau lleol. Fe wnaed hyn rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2023, ac fe gawsom ymatebion gan bob awdurdod lleol. Nid oedd rhai awdurdodau lleol yn gallu darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, ac rydym yn nodi hyn yng nghorff yr adroddiad lle y bo hynny'n berthnasol.
- **arolwg** – gan weithio gyda Cartrefi Cymunedol Cymru fe gynhaliom ni arolwg gyda phob cymdeithas dai yng Nghymru ond dim ond dau ymateb a gafwyd. O ganlyniad, nid ydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon wrth lunio ein canfyddiadau.
- **gwefannau** – awdurdodau lleol ac adnoddau allanol, e.e. CICAIR (Cofrestr Arolygwyr Cymeradwy Cyngor y Diwydiant Adeiladu), LABC, ac ati.

## 2 Dogfennau Cymeradwy'r Rheoliadau Adeiladu

Mae'r dogfennau cymeradwy yn ymdrin â'r materion canlynol ac fe'u diweddarwyd ddiwethaf ar y dyddiad a restrir:

- Rhan A – [Diogelwch strwythurol](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan B – [Diogelwch Tân](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Rhagfyr 2021
- Rhan C - [Ymwrthedd i halogyddion a lleithder](#) - Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan D - [Sylweddau gwenwynig](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan E - [Ymwrthedd i sŵn](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2022
- Rhan F – [Awyru](#) - Diweddarwyd ddiwethaf Hydref 2022
- Rhan G – [Glanweithdra, diogelwch dŵr poeth ac arbed dŵr](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Mai 2023
- Rhan H – [Systemau draenio a gwaredu gwastraff](#) – diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan J - [Dyfeisiau sy'n cynhyrchu gwres](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan K - [Diogelu rhag syrthio, gwrthdaro a tharo](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan L - [Arbed tanwydd ac ynni](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Mawrth 2023
- Rhan M – [Mynediad i adeiladau a defnydd ohonynt](#) – diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan N – [Diogelwch gwydr](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan O - [Gorgynhesu](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Hydref 2022
- Rhan P – [Diogelwch gyda thrydan](#) – diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan Q - [Diogelwch](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Mai 2018
- Rhan R - [Seilwaith ffisegol ar gyfer rhwydweithiau cyfathrebu electronig cyflym](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2016



## 3 Y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a'r Person Atebol

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dwy rôl newydd - y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a'r Person Atebol - sydd i fod i ddod i rym ym mis Hydref 2023.

### Y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau

Bydd gan y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau dri phrif gyfrifoldeb: goruchwylio diogelwch a safonau pob adeilad; helpu ac annog diwydiant yr amgylchedd adeiledig a gweithwyr rheoli adeiladu proffesiynol i wella eu cymhwysedd; ac arwain y broses o roi'r fframwaith rheoleiddio newydd ar waith ar gyfer adeiladau uchel iawn yn Lloegr. Mae'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau hefyd yn gyfrifol am berfformiad y sector rheoli adeiladu i sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd, ac am osod safonau adeiladu.

Bydd y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau (BSR) yn gyfrifol am oruchwylio systemau diogelwch a pherfformiad pob adeilad. Bydd yn cael pwerau i orfodi'r rheolau a gweithredu yn erbyn y rhai sy'n eu torri. Ac ar gyfer eiddo risg uchel, bydd yn gallu gweithredu rheolau llymach, gan gynnwys sut y cânt eu dylunio, eu hadeiladu a'u meddiannu. Tair prif swyddogaeth y Rheolwr Diogelwch Adeiladau yw:

- goruchwylio'r system diogelwch a pherfformiad ar gyfer pob adeilad: bydd hyn yn cael ei wneud trwy oruchwylio perfformiad cyrff rheoli adeiladu ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, a thrwy ddeall a chynghori ar safonau adeiladu a risgiau i ddiogelwch sy'n bodoli eisoes ac yn dod i'r amlwg;
- rhoi anogaeth ar gyfer mwy o gymhwysedd trwy osod y cyfeiriad ar gyfer pwyllgor cymhwysedd dan arweiniad y diwydiant a sefydlu gofynion cymhwysedd ar gyfer cofrestru gweithwyr proffesiynol rheoli adeiladu; ac
- arwain y broses o roi'r gyfundrefn reoleiddio newydd ar waith ar gyfer adeiladau risg uwch, gan gynnwys meddu ar y pwerau i gynnwys timau eraill, gan gynnwys y Gwasanaeth Tân, wrth wneud penderfyniadau rheoleiddiol ynghylch Diogelwch Adeiladau.

Mae'r Rheolwr Diogelwch Adeiladau newydd o dan reolaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) sy'n gyfrifol am oruchwylio a llywio gwelliannau yn diogelwch a pherfformiad pob adeilad, ac am orfodi cyfundrefn fwy llym ar gyfer adeiladau risg uwch.

Yn bwysig, dim ond yn rhannol y mae darpariaethau'r Ddeddf sy'n ymwneud â'r Rheoleiddiwr newydd yn berthnasol i Gymru ac mae union sefyllfa'r llywodraethau datganoledig yn dal heb ei phennu ar hyn o bryd.

## **Person Atebol**

Ar gyfer pob adeilad risg uwch, bydd 'Person Cyfrifol' adnabyddadwy yn cael ei benodi i fod yn gyfrifol am sicrhau bod diogelwch tân a diogelwch strwythurol yn cael eu rheoli'n effeithiol ar gyfer yr adeilad cyfan.

Bydd gan y Person Atebol (perchennog yr adeilad, rhydd-ddeiliad neu gwmni rheoli) ddyletswydd barhaus i asesu risgiau i Ddiogelwch yr Adeilad a darparu 'Adroddiad Achos Diogelwch' sy'n dangos sut y mae risgiau i Ddiogelwch yr Adeilad yn cael eu hadnabod, eu lliniaru, a'u rheoli'n barhaus. Bydd yn rhaid iddynt hefyd ddangos sut y maent yn sicrhau diogelwch preswylwyr. Mewn adeiladau lle mae strwythurau perchnogaeth yn gymhleth, efallai y bydd mwy nag un Person Atebol, ac os felly bydd Prif Person Atebol wedi'i benodi.

## 4 Dull yr Alban

### Model gweithredu

O fewn system yr Alban, penodir dilyswyr adeiladu (syrfewyr) gan y Gweinidog Grymuso a Chynllunio Llywodraeth Leol o dan Ddeddf Adeiladu (Yr Alban) 2003. Mae hyn yn caniatáu i'r Gweinidog benodi unrhyw ddilyswyr adeiladu am gyfnod o chwe blynedd. Ers rhoi'r Ddeddf ar waith yn 2005, dim ond awdurdodau lleol sydd wedi cael eu penodi i gyflawni'r rôl hon.

Cyn eu penodi, rhaid i'r Gweinidog ystyried cymhwysedd, cymwysterau, atebolrwydd cyhoeddus, a didueddrwydd y dilyswyr posibl. Er mwyn dangos y rhain, cyhoeddwyd Fframwaith Gweithredu i egluro sut y gall dilyswyr ddangos yr ymddygiadau hyn.

Ar ôl eu penodi'r dilyswyr, caiff perfformiad ei fonitro o dan Fframwaith Perfformiad. Mae saith deilliant perfformiad allweddol o fewn y fframwaith wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd yn 2021:

- lleihau i'r eithaf yr amser a gymerir i gyhoeddi adroddiad cyntaf neu i ddyroddi gwarant adeiladu neu ddiwygiad i warant adeiladu;
- cynyddu ansawdd yr asesiad o gydymffurfiaeth yn ystod y prosesau adeiladu;
- ymrwymo i'r siarter cwsmeriaid safonau adeiladu;
- deall ac ymateb i brofiad cwsmeriaid;
- cynnal rheolaeth ariannol;
- ymrwymo i eBuildingStandards; ac
- ymrwymo i amcanion a amlinellir yn yr adroddiad blynyddol o berfformiad dilysu.

Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Weinidogion yr Alban bennu rheoliadau adeiladu, y broses ar gyfer cymeradwyo, gorfodi a phennu ffioedd. Pennir ffioedd yn ganolog ac fe'u pennir gan y Gweinidog ar gyfer yr holl awdurdodau. Darperir cyfrifydd o fewn y system eBuildingStandards ar-lein i alluogi ymgeiswyr i gael mynediad at y system a phenderfynu ar eu ffi.<sup>24</sup>

## Ymateb i Grenfell

Yn dilyn Grenfell, sefydlwyd gweithgor gweinidogol ym mis Gorffennaf 2017 i oruchwylio adolygiadau o ddiogelwch adeiladau a thân. Ffurfiwyd paneli adolygu i ymdrin â gwahanol faterion a gwnaethant gyfres o argymhellion ar gyfer rhanddeiliaid. Sefydlwyd y Bwrdd Rhaglen Dyfodol Safonau Adeiladu (Building Standards Futures Programme Board - BSFPB) i ddarparu arweiniad a chyfarwyddyd ynghylch gweithredu'r argymhellion hyn.

Dan gadeiryddiaeth prif weithredwr awdurdod lleol, mae'r Bwrdd yn cynnwys:

- Safonau Adeiladu Awdurdodau Lleol yr Alban (LABSS);
- Homes for Scotland;
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig;
- Construction Scotland;
- Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban;
- Scottish Futures Trust;
- Y Sefydliad Adeiladau Siartredig;
- Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr;
- Royal Incorporation of Architects in Scotland; a
- Llywodraeth yr Alban.

Mae gan y Bwrdd saith ffrwd waith ar y gweill i roi cymorth i roi'r argymhellion ar waith – **Arddangosyn 6**.

## Arddangosyn 6: Ffrydiau gwaith Bwrdd Rhaglen Dyfodol Safonau Adeiladu'r Alban

Ffrwd waith	Esboniad
Strategaeth y gweithlu	Rhoi cymorth i fabwysiadu strategaeth y gweithlu a ddatblygwyd mewn ymateb i'r heriau demograffig a wynebir gan y sector.
Cynllun cydymffurfio	Datblygu dull gweithredu ar gyfer adeiladau cyhoeddus cymhleth a gwerth uchel er mwyn sicrhau dull wedi'i gynllunio o gydymffurfio trwy gydol y cyfnod datblygu.
Strategaeth ardystio	Datblygu strategaeth ar gyfer penodi dilyswyr yn y dyfodol.
Trawsnewid digidol	I gefnogi gweithrediad y platfform eBuildingStandards, a lanswyd yn 2016.
Strategaeth dechnegol	Adolygiad o sut mae safonau adeiladu yn cael eu datblygu a'u cyfleu i hyrwyddo cydymffurfiaeth.
Safonau dilysu	Adolygiad o'r fframweithiau gweithredu a pherfformiad i helpu i asesu dilyswyr yn erbyn gofynion a chan gysylltu â sgiliau.
Modelau cyflawni	Adolygiad i ystyried newidiadau i fodelau busnes o fewn y 32 o awdurdodau lleol, gan gynnwys y prosiect hybiau.

Ffynhonnell: [BSFPB](#)

Hefyd, er mwyn sicrhau mwy o gydymffurfio ac ymateb i argymhellion, cyflwynwyd Fframwaith Cymhwysedd Proffesiynol ym mis Mai 2021. Sefydlodd hyn rolau swyddi safonedig sy'n cyfateb i ddyfarniadau addysgol a chymwysterau proffesiynol. Mae hefyd yn darparu enghreifftiau o gymhwyseddau yn seiliedig ar brofiad i gyfateb i staff presennol, megis sgiliau rheoli a llywodraethu ariannol profedig neu hyfforddiant arbenigol penodol fel diogelwch ar feysydd chwaraeon. Mae'r fframwaith yn helpu i sicrhau bod dilyswyr adeiladu ar bob lefel yn gallu dangos eu bod yn ddigon cymwys.

Er mwyn gwreiddio'r Fframwaith, cyhoeddwyd System Asesu Cymhwysedd (CAS). Mae hon yn galluogi unigolion i nodi eu bylchau o ran dysgu a phrofiad er mwyn gallu targedu hyfforddiant a datblygiad y gweithlu yn well.

## Model hybiau lleol

O'r BSFPB, datblygwyd model cyflawni newydd trwy'r Grŵp Datblygu Model Cyflawni (DMDG), a hwnnw'n cynnwys Is-adran Safonau Adeiladu Llywodraeth yr Alban, Safonau Adeiladu Awdurdodau Lleol yr Alban (LABSS), yr awdurdod lleol lletyol (Cyngor Fife) a Chyfarwyddwyr yr Hybiau, i feithrin cydweithio a gweithredu'r argymhellion ar gyfer gwella diogelwch adeiladau a chynyddu cydymffurfiaeth. Lanswyd hwn ym mis Mai 2022 ac mae'n cael ei gyflwyno fesul cam ac mae'n canolbwyntio ar chwe uned fusnes – **Arddangosyn 7**.

### Arddangosyn 7: Ffrydiau gwaith Bwrdd Rhaglen Dyfodol Safonau Adeiladu'r Alban

Uned fusnes	Swyddogaeth a gwasanaethau
Uned Partneriaeth Weithredol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal rhwydwaith o gyrff</li> <li>• Rhannu llwyth gwaith</li> <li>• Mynediad at strwythur arbenigol a hybiau tân</li> <li>• Hwyluso arfer gorau</li> </ul>
Uned Cynllun Cymeradwyaeth Teip yr Alban	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheoli'r cynllun</li> <li>• Marchnata</li> <li>• Pennu ffioedd</li> </ul>
Uned Gweithdrefn a Thechnegol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymchwil dechnegol</li> <li>• Cynhyrchu papurau gwybodaeth</li> <li>• Cefnogaeth dechnegol i'r hyb</li> </ul>
Uned Trawsnewid Digidol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi'r grŵp cyflawni digidol</li> <li>• Rolau cyswllt a chymorth gyda rhanddeiliaid, LABSS, a rhanddeiliaid eraill</li> </ul>

## Uned fusnes

## Swyddogaeth a gwasanaethau

---

### Uned Dysgu a Datblygu

- Rheoli a gweithredu amgylchedd dysgu rhithwir
- Rheoli a gweithredu system rheoli dysgu
- Cymorth gyda chynlluniau prentisiaid
- Cymorth gyda DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus)
- Rheoli swydd y dilysydd mewn perthynas â'r Cynllun Asesu Cymhwysedd (CAS)

### Uned Fusnes Graidd

- Rheoli'r hyb
- Cymorth busnes a gweinyddol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Ffynhonnell: BSFPB



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:gwybodaeth@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.



# **Ymgynghoriad ar y Graddfeydd Ffioedd ar gyfer 2024-25**

Awst 2023

## Sut i ymateb

Ymatebwch erbyn 10 Hydref 2023 os gwelwch yn dda.

Gellir anfon ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

Ymgynghoriad Graddfeydd Ffioedd

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Cardiff

CF10 4BZ

Neu gellir eu cwblhau'n electronig a'u hanfon drwy e-bost i:

[post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir uchod neu drwy ein ffonio ar 029 2032 0500.

## Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ond hefyd deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol, dylech ddweud wrthym pam fod yr wybodaeth yr ydych wedi'i darparu'n wybodaeth gyfrinachol yn eich tyb chi. Os cawn gais yn gofyn inni ddatgelu gwybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob math o amgylchiadau. Ni ystyrir bod ymwadiad cyfrinachedd a grëwyd yn awtomatig gan eich system TG, ohono'i hun, yn rhwymo'r Archwilydd Cyffredinol nac Archwilio Cymru.

Bydd data personol yn cael ei brosesu yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Lle mae data o'r fath o fewn cwrpas cais am wybodaeth gan unigolyn arall, bydd angen ystyried darpariaethau deddfwriaeth diogelu data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn yr amgylchiadau penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae hyn yn debygol o olygu bod gwybodaeth sy'n ymwneud ag uwch swyddogion a ffigyrau cyhoeddus yn debygol o gael ei datgelu tra bo enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn debygol o gael eu cadw'n ôl.

## Safonau'r Gymraeg

Mae'n ofynnol i Archwilio Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n darparu ar gyfer peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein trefniadau ar gyfer y Gymraeg ar ein gwefan. Wrth adolygu'r ymgynghoriad hwn, byddem yn croesawu eich barn ar ôl i chi ystyried a oes unrhyw beth yn yr ymgynghoriad hwn sy'n tanseilio neu'n ategu'r gofyniad hwn. Byddem hefyd yn croesawu eich meddyliau ynglŷn ag unrhyw ddiwygiadau y gellid eu gwneud i ategu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

# Cynnwys

Sut i ymateb	2
Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data	2
Safonau'r Gymraeg	3
Rhagair	5
Yr Ymgynghoriad	8
Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)	12
Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol	13
Awdurdodau Unedol	13
Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol	14
Awdurdodau Tân ac Achub	14
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	15
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu	16
Cynghorau Tref a Chymuned ag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn	17
Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol	18



# Rhagair

Byddwch yn gyfarwydd â'n hymgyngoriad blynyddol ar y graddfeydd ffioedd. Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i ni wneud hyn ar gyfer cyrff llywodraeth leol, ond rydym yn dewis ymgynghori'n fwy eang fel bod yr holl randdeiliaid yn cael cyfle i ymateb i'n cynigion ar gyfer ffioedd.

Roedd ymatebion i'n hymarfer ymgynghori yn 2022 yn awgrymu bod y raddfa amser ar gyfer ymgynghori (yn ystod mis Awst ac yn gynnwys ym mis Medi) yn gryn her i rai cyrff. Felly rydym yn ymgynghori ychydig yn hwyrach eleni ac yn estyn terfyn amser ein hymgyngoriad tan 10 Hydref. Sylwer, er mwyn i ni gyflwyno ein Cynllun Ffioedd drafft ochr yn ochr â'n hamcangyfrif ar gyfer 2024-25 i Bwyllgor Cyllid y Senedd erbyn diwedd mis Hydref, na allwn roi estyniad pellach ar hyn.

Nid ydym yn gwneud ac ni chawn wneud elw o'n gwaith.

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod y ffioedd a godir gennym **yn methu bod yn uwch** na chost lawn cyflawni'r swyddogaeth y mae a wnelo'r ffi â hi. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar amcangyfrif o'n sylfaen gostau, y cymysgedd o sgiliau yr amcangyfrif y bydd ei angen ar gyfer gwaith archwilio a nifer y diwrnodau yr amcangyfrif y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Mae Archwilio Cymru'n dal i fod yn benderfynol o gyfyngu i'r eithaf ar ffioedd archwilio gan hefyd sicrhau bod ansawdd ei waith archwilio'n dal i gyrraedd safonau trylwyr.

Fel gweddill y sector cyhoeddus, rydym yn wynebu pwysau sylweddol o ran costau staff. I Archwilio Cymru, caiff y rhain eu gwaethygu gan brinder gwirioneddol fyd-eang o ran gweithwyr archwilio a chyllid proffesiynol, yr ydym yn gweld adlewyrchiad ohono yn ein gallu i recriwtio a chadw staff cymwysedig. Mae costau staff yn rhoi cyfrif am dros 80% o'n sylfaen gostau ac ar gyfer 2022-23 a 2023-24, fe wnaethom ddyfarnu codiadau cyflog i'n staff a oedd ymhell islaw chwyddiant ac yn is na'r cyfartaleddau a welir mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus (3% a 4% yn y drefn honno). Rhaid i ni ddechrau mynd i'r afael â'r diffyg hwn yn 2024-25, yn enwedig o ystyried yr heriau ar gyfer recriwtio a chadw a deimlir ar draws y proffesiwn archwilio.

I helpu i wrthbwyso costau staff, rydym yn gwneud penderfyniadau anodd i leihau ein gwariant nad yw'n ymwneud â chostau staff. Rydym yn symud i swyddfeydd llai, rhatach yn Ne a Gogledd Cymru, rydym wedi lleihau ein costau teithio a chostau cysylltiedig yn sylweddol, ac rydym wedi cael gwared ar lwfansau ariannol yr oeddem yn arfer eu talu i staff. Trwy ein Hadolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol, mae gennym fecanwaith sefydledig i herio ein model gweithredu ac i adnabod unrhyw gyfleoedd pellach ar gyfer arbedion a mesurau effeithlonrwydd.

Mae methiannau a pherfformiad gwael mewn gwaith archwilio cyhoeddus lleol yn Lloegr, ac yn y sector corfforaethol, yn dangos y gost a'r niwed enfawr a all ddeillio o fethiant i gyflawni gwaith archwilio o ansawdd da. Arweiniodd gwendidau'r sectorau hynny at nifer o adolygiadau<sup>1</sup> o archwilio a safonau proffesiynol newydd ledled y DU, sy'n cynyddu disgwyliadau o waith archwilio ac o ansawdd y gwaith archwilio hwnnw. I sicrhau bod y gyfundrefn archwilio cyhoeddus yng Nghymru'n dal i fod yn gryf ac effeithiol, rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn ansawdd gwaith archwilio ac mae hynny'n ganolog i bob penderfyniad a wnawn.

I gynnal y buddsoddiad hwn yn 2024-25, ac i ymateb i bwysau cyflogau a phrisiau, bydd angen i ni gynyddu cyfraddau ein ffioedd 6.4% ar gyfartaledd yn 2024-25.

Mae'r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol a archwilir yn ei thalu'n dibynnu nid dim ond ar gyfraddau ein ffioedd ond ar faint y gwaith a'r cymysgedd o sgiliau sy'n ofynnol. Y llynedd, fe gofiwch i ni roi dull archwilio sylfaenol wahanol ar waith ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol, a oedd yn ofynnol yn ôl safonau archwilio rhyngwladol newydd. Roedd hyn yn golygu bod angen cymysgedd cyfoethocach, mwy costus o sgiliau a adlewyrchwyd mewn ffioedd uwch. Yn yr hydref, byddwn yn adolygu'r profiad yn ystod y flwyddyn gyntaf y defnyddiom ni'r dull newydd fel ein bod yn dysgu gwersi ac yn sicrhau mesurau effeithlonrwydd lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd cyfarwyddwyr a thimau archwilio, wrth reswm, yn siarad gyda'r holl gyrff a archwilir i egluro effaith gyfunol yr ymarfer hwnnw, a chyfraddau'r ffioedd a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn, ar lefel y ffi a fydd yn cael ei chodi ar bob corff yn 2024-25.

1 Adolygiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd; Adolygiad Kingman; ac Adolygiad Brydon

Gwyddom fod cyrff a archwilir yn bryderus ein bod yn cynyddu ein ffioedd ar adeg pan fo oedi gyda pheth o'n gwaith archwilio – y mae rhywfaint ohono i'w briodoli i'r materion recriwtio a chadw a ddisgrifir uchod. Rydym yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn. Mae cyfarwyddwyr archwilio mewn cysylltiad â chyrff a archwilir i sicrhau dealltwriaeth gyffredin am gyflawni a disgwyliad cyffredin er mwyn i ni allu cydweithio mor effeithiol â phosibl.

Rydym yn bwriadu parhau i ddarparu mynediad at y Fenter Twyll Genedlaethol yn rhad ac am ddim.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth, ac edrychaf ymlaen at glywed eich barn.

Diolch yn fawr



**Adrian Crompton**

Archwilydd  
Cyffredinol Cymru

# Yr Ymgynghoriad

## Cyfraddau ffioedd 2024-25

Caiff cyfraddau arfaethedig ein ffioedd ar gyfer 2024-25 eu nodi yn **Arddangosyn 1**.

### Arddangosyn 1: cyfraddau ffioedd arfaethedig 2024-25

Gradd	Cyfradd (£ yr awr) 2024-25	Cyfradd (£ yr awr) 2023-24
Cyfarwyddwr Archwilio	181	170
Rheolwr Archwilio	138	130
Arweinydd Archwilio	111	107
Uwch Archwilydd	90	86
Archwilydd	64	62
Hyfforddai Graddedig	59	54
Prentis	46	40

Mae'r cynnydd cyfartalog o 6.4% y cyfeirir ato uchod yn gyfartaledd pwysedig yn seiliedig ar ein cymysgedd o staff ar y cyfan. Mae cynnydd gwirioneddol yn ôl gradd yn amrywio oherwydd ein bod, er mwyn ateb y gofyniad i godi 'dim mwy o dâl na'r gost lawn', yn cyfrifo cyfraddau yn seiliedig ar y staff gwirioneddol sydd yn eu swydd, ac felly mae'r cyfraddau'n darparu ar gyfer datblygiad cynyddrannol lle y bo'n berthnasol yn ogystal â chodiadau cyflog disgwylidig ar gyfer y flwyddyn.

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn craffu arnom o ran ein gwariant, ein perfformiad a'n cynlluniau ar gyfer y gyllideb ac mae'r tybiaethau yn yr ymgynghoriad hwn yn amodol ar gymeradwyaeth ganddo i'n Hamcangyfrif yn hydref 2023 a'n Cynllun Ffioedd yn gynnar yn 2024.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'n gwariant yn ein [Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23](#) a'n [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24](#).



## Hwyluso adolygiadau thematig a thraws-sector

Yn ein [ymgyngoriad ar ffioedd ar gyfer 2022-23](#), fe wnaethom nodi cynigion i newid y cyllid ar gyfer peth o'n gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrrff iechyd o ffioedd archwilio i Gronfa Gyfunol Cymru.

Fel y digwyddodd hi, nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu cadarnhau, cyn cyflwyno ein Hamcangyfrif ar gyfer 2023-24, ei chefnogaeth i wneud yr addasiadau i gyllid awdurdodau lleol a chyrrff iechyd a oedd yn angenrheidiol i ddigolledu Cronfa Gyfunol Cymru. O ganlyniad, fe ofynnodd Pwyllgor Cyllid y Senedd i ni ohirio'r cynnig hwn tan ein Hamcangyfrif ar gyfer 2024-25. Mae'r ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu effaith y newid arfaethedig ar ein ffioedd ar gyfer 2024-25. Fel o'r blaen, dim ond os bydd Llywodraeth Cymru'n cadarnhau ei bod yn fodlon gwneud addasiadau canlyniadol i gyllid fel nad oes cost net i Gronfa Gyfunol Cymru ac os bydd y Pwyllgor Cyllid a'r Senedd yn cefnogi'r dull y bydd y newid yn digwydd. Rydym yn ymgynghori ar y cynnig yn yr ymgynghoriad hwn, yn amodol ar y cafeatai hynny.

Byddai'r newid yn berthnasol i'r 22 o brif gynghorau a'r saith bwrdd iechyd ond nid i gyrff eraill mewn Llywodraeth Leol nac Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig.

Mae'r elfennau o'n ffi archwilio perfformiad yr ydym yn ceisio'u newid i Gronfa Gyfunol Cymru'n ymwneud â chynnal adolygiadau 'thematig' neu bwnc-benodol sy'n nodweddiadol yn golygu gwneud gwaith archwilio ar draws nifer o gyrff a archwilir (ar lefel Cymru gyfan a/neu ranbarthol) ac yn aml gyda ffocws traws-sector neu system gyfan.

Rydym ni o'r farn bod adolygiadau o'r fath yn ychwanegu gwerth at ein cyfundrefn archwilio gyda'u gallu i roi golwg system-gyfan, gan ein helpu i wella ansawdd gwasanaethau a ddarperir ar gyfer trethdalwyr, a darparu mewnwelediad i ddyhead Llywodraeth Cymru ar gyfer '[Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru](#)'. Rydym felly'n awyddus i gyflawni'r adolygiadau hyn mewn modd mor hyblyg ac effeithlon â phosibl. Roedd y cyfyngiadau allweddol a bwysleisiwyd gennym ynglŷn â'r model cyllido cyfredol yn ymwneud â'r canlynol:

- anhyblygrwydd posibl yn y ffordd yr ydym yn lledaenu canfyddiadau – sy'n codi o unrhyw ddisgwyliad gan gyrff a archwilir sy'n talu ffioedd y byddem fel rheol yn darparu allbwn sy'n ymwneud yn benodol â'r corff hwnnw; a hefyd
- cymhlethdod trafodaethol – o ystyried yr angen i daro cydbwysedd wrth godi tâl am amser ar draws codau lluosog ar y ddalen amser a chyda'r gofynion i godi 'dim mwy o dâl na'r gost lawn' a geir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, sy'n golygu bod rhaid i ni fod yn ofalus nad oes trawsgymhorthdal o un corff i gorff arall.

Fel ar gyfer 2023-24, wrth benderfynu faint o gyllid y byddem yn anelu at ei newid i Gronfa Gyfunol Cymru, rydym yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng gwaith a gyllid yn lleol a gwaith a gyllid trwy Gronfa Gyfunol Cymru, ac yn cydnabod bod ffrydiau cyllido presennol eraill Cronfa Gyfunol Cymru eisoes yn darparu cyfle ar gyfer gwaith trawsbynciol. Yr egwyddorion allweddol yw:

- cadw digon o ffi o waith archwilio lleol i roi cymorth i gyflawni gwaith sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyrff unigol a archwilir, gan gynnwys asesu risg, archwilio materion llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol (gan gynnwys archwiliadau o roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith), a phrosiectau archwilio pwrpasol sy'n codi o'n hasesiad lleol o risgiau;
- sicrhau y cedwir digon o ffi o waith archwilio lleol i gefnogi ein hymgylltiad lleol rheolaidd â chyrff a archwilir, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch arweinwyr mewn cyrff a archwilir, a phresenoldeb yng nghyfarfodydd byrddau, cynghorau a phwyllgorau fel y bo angen; a hefyd
- cymhwyso'r cynnig i gyrff mwy a archwilir (prif gynghorau a byrddau iechyd) y mae ein gwaith thematig yn fwy nodweddiadol berthnasol iddynt.

Rydym wedi ystyried barn cyrff a archwilir, a fynegwyd yn ymarfer ymgynghori'r llynedd, sy'n gwerthfawrogi'r mewnwelediad o'n gwaith archwilio lleol gan hefyd ddeall manteision y cynigion ar gyfer astudiaethau mwy thematig. Mae'r newid arfaethedig felly'n llai nag a ddisgwylid yn wreiddiol.

Rydym yn disgwyl y byddwn yn lleihau'r ffioedd a godir am ein gwaith archwilio perfformiad lleol o oddeutu 15% ar gyfer Llywodraeth Leol a chwarter ar gyfer cyrff lechyd (tua £0.9 miliwn) ac yn newid y cyllid ar gyfer y gwaith hwn i Gronfa Gyfunol Cymru. I ddigolledu Cronfa Gyfunol Cymru am y newid hwn, byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru addasu dyraniadau cyllid mewn modd cyfatebol.

Byddem yn croesawu eich barn ar ôl ystyried pa un a ydych yn cefnogi'r dull arfaethedig hwn.

## ISA315 ac ansawdd archwilio

Mae ein harchwiliadau o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a blynyddoedd yn y dyfodol yn cael eu cynnal dan safon archwilio ddiwygiedig (ISA 315 Adnabod ac Asesu'r Risgiau o Gamddatgan yn Berthnasol). Mae'r safon ddiwygiedig hon yn cael effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar sut y mae archwilwyr yn cynnal asesiadau risg archwilio ac felly ar yr archwiliad ar y cyfan.

Ein hasesiad cychwynnol ni o effaith y cymysgedd mwy cyfoethog hwn o sgiliau oedd cynnydd cyfartalog posibl yng ngraddfeydd y ffioedd ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol, sef rhwng 12% a 18%. Roedd y cynnydd gwirioneddol mewn ffioedd i gyrrff Llywodraeth Leol ar gyfer archwiliadau o gyfrifon 2022-23 yn 15% ar gyfartaledd – o'i gymharu â'r codiadau sylweddol uwch a amcangyfrifwyd gan gwmnïau archwilio'r sector preifat. Roedd y cynnydd hwn ar y cyfan yn cynnwys oddeutu 10% o ganlyniad i roi ISA315 ar waith, gyda'r gweddill yn deillio o gyfraddau ffioedd uwch ar gyfer y flwyddyn.

## Graddfeydd drafft ein ffioedd ar gyfer cyrrff llywodraeth leol

Mae gweddill y ddogfen hon yn darparu'r graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrrff llywodraeth leol ac ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r graddfeydd yn dangos yr ystod o ffioedd yr ydym yn disgwyl eu codi ar gyrrff nodweddiadol a archwilir yn y sector hwnnw gydag union ffioedd yn cael eu pennu mewn ymateb i amgylchiadau lleol. Nid yw'r graddfeydd hyn yn ofynnol ar gyfer unrhyw sector arall.

Byddwn yn mawr groesawu eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn 10 Hydref 2023, i oleuo adolygiad y Senedd o'n Hamcangyfrif a'n Cynllun Ffioedd Drafft ar gyfer 2024-25.

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

- Rydym yn gwahodd eich barn ynglŷn â pharhau i gyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol ar sail rad-ac-am-ddim.
- Mae'n ofynnol inni ymgynghori ar raddfeydd ffioedd a'u rhagnodi am baru data ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio'i bwerau paru data statudol dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i adnabod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn offeryn hynod effeithiol ar gyfer canfod ac atal twyll a gordaliadau. Canfu ein hadroddiad dwyflynyddol diwethaf arbedion a gordaliadau posibl o £6.5 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynyddu'r arbedion cronus i £49.4 miliwn ers 1996.
- Ers mis Ebrill 2015, mae'r Senedd wedi ariannu costau rhedeg y Fenter Twyll Genedlaethol trwy daliad o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn wedi'i fwriadu i annog sefydliadau i gyfranogi ar sail wirfoddol ac i symleiddio'r trefniadau ar gyfer cyfranogwyr gorfodol. Fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth, caiff y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol eu dangos yn **Arddangosyn 2**.

### Arddangosyn 2: Ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol

#### Ffi 2024-25

Awdurdodau unedol; comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstablaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol	Dim
Cyfranogwyr gwirfoddol	Dim
Gall pob cyfranogwr hefyd gael mynediad at Wiriwr Ceisiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (App Check)	Dim

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol

- 5 Rydym yn gwahodd eich barn ynglŷn â'r graddfeydd ffioedd arfaethedig a fydd yn gymwys i gyrff Llywodraeth Leol ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24 ac ar gyfer gwaith archwilio Perfformiad 2024-25.
- 6 Mae graddfa ein ffioedd archwilio cyfrifon yn ystyried y cynnydd cyfartalog yng nghyfraddau'r ffioedd fel a nodir yn **Arddangosyn 1**. Fel a nodir uchod, rydym yn parhau i adolygu effaith ISA315 a byddwn yn adlewyrchu'r canlyniad yn ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2024-25 a fydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2024.

## Awdurdodau unedol

### Arddangosyn 3: graddfa ffioedd drafft am archwilio cyfrifon 2023-24

Gwariant Gros £ miliwn	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
100	145	170	196	159
200	174	205	236	191
300	194	228	262	213
400	209	246	283	230
500	222	261	301	244
600	233	274	316	257
700	243	286	329	267
800	252	296	341	277
900	260	306	352	286
1,000	267	314	362	294
1,100	274	323	371	302
1,200	281	330	380	309

- 7 Mae graddfa arfaethedig ein ffioedd archwilio perfformiad yn ystyried y newid arfaethedig a fyddai'n golygu bod oddeutu 15% o'n gwaith perfformiad lleol mewn Awdurdodau Unedol yn cael ei gyllido gan Gronfa Gyfunol Cymru o fis Ebrill 2024.

#### Arddangosyn 4: graddfa ddrafft y ffioedd am waith archwilio perfformiad 2024-25

Yr holl awdurdodau unedol	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	90	96	109	112

#### Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol

#### Arddangosyn 5: graddfa ddrafft y ffioedd am archwilio cyfrifon 2023-24

Yr holl gronfeydd pensiwn	Fee range			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	45	56	60	48

#### Awdurdodau Tân ac Achub

#### Arddangosyn 6: graddfa ddrafft y ffioedd am archwilio cyfrifon 2023-24

Gwariant Gros £ miliwn	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
20	42	50	57	47
40	51	60	69	56
60	57	67	77	63
80	61	72	83	68
100	65	77	88	72

## Arddangosyn 7: graddfa ddrafft y ffioedd am waith archwilio perfformiad 2024-25

Pob awdurdod tân ac achub	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	18	18	18	17

## Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

## Arddangosyn 8: graddfa ddrafft y ffioedd am archwilio cyfrifon 2023-24

Gwariant Gros £ miliwn	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
2	26	31	36	29
4	32	37	43	35
6	35	41	48	39
8	38	45	51	42
10	40	48	55	44

## Arddangosyn 9: graddfa ddrafft y ffioedd am waith archwilio perfformiad 2024-25

Pob awdurdod parc cenedlaethol	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	22	24	27	22

## Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

- 8 Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol yn ardal pob heddlu – y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstablaid. Mater i archwilwyr ei bennu fydd sut i rannu cyfanswm y ffi rhwng y ddau gorff yn ardal heddlu penodol, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddir ar waith gan y naill gorff a'r llall.

### Arddangosyn 10: graddfa ddrafft y ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24

Gwariant Gros Cyfunol y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstablaid £ miliwn	Ystod gyfunol y ffioedd ar gyfer y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstablaid			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
50	73	84	96	78
100	86	100	113	93
150	95	110	125	102
200	102	118	134	110
250	107	125	142	116
300	112	131	149	122
350	117	136	155	126



## Cynghorau tref a chymuned ag incwm neu wariant blyneddol o dan £2.5 miliwn

- 9 Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru'n ddarostyngedig i gyfundrefn archwilio sicrwydd cyfyngedig.
- 10 Ym mis Hydref 2020, fe gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur a oedd yn nodi sut y bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel a nodir yn **Arddangosyn 11**.

### Arddangosyn 11: cylch archwilio tair blynedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned

	Grŵp A	Grŵp B	Grŵp C
Blwyddyn 1	Profi trafodion	Gweithdrefnau cyfyngedig	Gweithdrefnau cyfyngedig
Blwyddyn 2	Gweithdrefnau cyfyngedig	Profi trafodion	Gweithdrefnau cyfyngedig
Blwyddyn 3	Gweithdrefnau cyfyngedig	Gweithdrefnau cyfyngedig	Profi trafodion

- 11 Mae taliadau am y gwaith hwn yn seiliedig ar yr amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad yn ôl y cyfraddau ffioedd a nodir yn **Arddangosyn 1** ar **dudalen 8**.
- 12 Dan amgylchiadau lle mae ar yr archwilydd angen tystiolaeth bellach i gyflawni ei gyfrifoldebau'n iawn, gan gynnwys yn dilyn cyhoeddi adroddiad cysylltiedig er budd y cyhoedd, bydd gwaith profi ychwanegol yn cael ei wneud i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.
- 13 Pwysleisir y bydd y ffi wirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn ddibynnol ar yr amser a weithiwyd mewn gwirionedd ar yr archwiliad penodol hwnnw. Mae'r ystod ffioedd a ddarperir yn **Arddangosyn 12** at ddibenion dangosol yn unig.

**Arddangosyn 12: taliadau amcangyfrifedig ar sail amser am archwilio cyfrifon cynghorau tref a chymuned 2023-24**

	Band 1 (<£10k)	Band 2 (<£25k)	Band 3 (<£50k)	Band 4 (<£100k)	Band 5 (<£500k)	Band 6 (>£500k)
Archwilio trafodion	£160 – £195	£181 – £213	£245 – £300	£379 – £463	£676 – £809	£899 – £1160
Gweith-drefnau cyfyngedig	£117 – £138	£145 – £172	£145 – £172	£223 – £266	£223 – £266	£223 – £266

**Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol**

- Ac eithrio'r mathau hynny o gyrff y mae graddfeydd ffioedd wedi'u rhagnodi ar eu cyfer fel a ddangosir uchod, ceir nifer fach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol lle mae'r modd yr ydym yn rhagnodi'r raddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion o ran adnoddau'n ffioedd yn seiliedig yn uniongyrchol ar gostau gwneud y gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a nodir yn **Arddangosyn 1**. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau o'r Cydbwyllgorau Corfforedig. Mae'n dal i fod yn wir ar gyfer archwiliadau o'r gyrff hyn ein bod yn defnyddio dull cwbl gynhwysfawr o gynllunio archwiliadau.
- Ar gyfer pob math o gorff llywodraeth leol, i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae weithiau'n angenrheidiol bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletsyddau cyffredinol (y rhai a nodir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac yn adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn perthynas â herio gan etholwyr ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd y ffioedd a godir am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sy'n ofynnol.
- Gall archwilwyr wneud gwaith ardystio grantiau yng nghyrrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol hefyd. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn ddibynnol ar nifer y cynlluniau y mae'n rhaid eu harchwilio a nifer y gyrff a archwilir sy'n cyfranogi yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn fesul awr ac mae'n adlewyrchu'r maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion mewn perthynas â'r grant dan sylw fel a nodir yn **Arddangosyn 13**.

**Arddangosyn 13: amcangyfrifon o'r cyfrannau perthynol o raddau staff  
archwilio i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o waith ardystio grantiau**

Gradd staff	Cymysgedd o staff ar gyfer grantiau cymhleth	Cymysgedd o staff ar gyfer yr holl grantiau eraill
	%	%
Cyfarwyddwr ymgysylltu	1 to 2	0 to 1
Rheolwr Archwilio	4 to 6	1 to 2
Arweinydd Archwilio	18 to 21	12 to 16
Archwilydd/hyfforddai graddedig/prentis	71 to 77	81 to 87

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a'r dreth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon



Archwilio Cymru  
1 Cwr y Ddinas  
Stryd Tyndall  
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:gwybodaeth@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

# Llamu ymlaen: gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau mewn llywodraeth leol

Medi 2023



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

# Cynnwys

## Adroddiad manwl

Yr hyn a wnaethom a pham	4
Ymateb i newid	4
Rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith	11
Yr hyn a ganfuom	12

## Atodiadau

1 Dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr egwyddor datblygu cynaliadwy: Rheoli asedau	22
2 Dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr egwyddor datblygu cynaliadwy: Cynllunio'r gweithlu	28



# Adroddiad manwl

## Yr hyn a wnaethom a pham

- 1 Aeth pob cyngor trwy gyfnod o newid cyflym o ran sut a ble roedd eu staff yn gweithio yn ystod pandemig COVID-19. Nodweddwyd y newid hwn gan newid torfol i weithio o bell, a ddigwyddodd dros nos fwy neu lai. Yn awr, mae'r sefydliadau hynny mewn cyfnod newydd, lle mae etifeddiaeth yr adeg honno wedi cael effaith barhaus ar batrymau a lleoedd gweithio. Felly, beth yw'r normal newydd hwnnw i gynghorau, beth mae'n ei olygu ar gyfer sut a ble y maent yn cyflawni gwaith a beth yw'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol?
- 2 Rhwng 2021 a 2023 fe wnaethom waith ar reoli asedau a chynllunio'r gweithlu ar draws pob un o'r 22 o gynghorau. Fe wnaeth ystyried sut yr oeddent yn defnyddio'u profiadau o'r pandemig i gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau. 'Llamu Ymlaen' oedd y teitl a roddwyd gennym i'r gwaith yma.
- 3 Roedd tri phrif nod i'r adolygiad hwn:
  - cael sicrwydd bod cynghorau'n sefydlu trefniadau i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
  - egluro'r camau gweithredu y mae cynghorau'n eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i gryfhau eu trefniadau; ac
  - ysbrydoli cynghorau a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach trwy gasglu a rhannu enghreifftiau o arfer nodedig a gwersi a gwneud argymhellion priodol.
- 4 Fe wnaethom ddylunio'r gwaith hwn i ystyried effeithiolrwydd trefniadau cynghorau a hefyd i ba raddau yr oeddent yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy (fel a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) ar waith yn eu dulliau o gynllunio'r gweithlu a rheoli asedau.

## Ymateb i newid

- 5 Fe esgorodd y pandemig ar arbrawf mewn amser real o ran sut a ble roedd pobl yn gweithio. Mae'r ateb i'r cwestiwn i ba raddau y bydd y newidiadau hyn yn aros ac ar ba ffurf yn union yn dal i ddod i'r amlwg, ond gallwn dybio y bydd goblygiadau pellgyrhaeddol ar gyfer staff, gwasanaethau ac ystadau cynghorau.



- 6 I rai cynghorau, fe wnaeth y pandemig gyflymu'r cynnydd yr oeddent eisoes yn ceisio ei wneud a gweithredu fel 'prawf cysyniad' ar gyfer newidiadau mewn lleoliad, gweithio hyblyg a'r dechnoleg i ategu hynny. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod ystod o dueddiadau i'w cael yn barod a oedd yn aildrefnu'r ffordd o feddwl am weithleoedd a phatrymau cyn y pandemig. Mae'r adran isod yn nodi rhai o'r tueddiadau allweddol hyn, sut y maent wedi newid dros ac ers y pandemig, ynghyd â rhai o'r goblygiadau ar gyfer y dyfodol.
- 7 Nid yw'r rhestr o dueddiadau a geir yma'n gynhwysfawr ac nid ydynt yn cael eu harchwilio'n gynhwysfawr yn yr adroddiad hwn. Maent yn syml wedi'u bwriadu i amlygu rhai o'r ffactorau ehangach sydd wedi dylanwadu, ac a fydd yn parhau i ddylanwadu, ar ffordd cynghorau o feddwl am sut a ble y mae eu staff yn gweithio.

## Tuedd 1: Pwysau ar gapasiti a bylchau o ran sgiliau

- 8 Yn amlwg, roedd gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn profi pwysau ar eu capasiti cyn y pandemig. Dros y degawd cyn hynny, gostyngodd niferoedd staffio mewn cynghorau a daeth diffygion o ran sgiliau i'r amlwg. Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y cyfrif pennau mewn llywodraeth leol yng Nghymru wedi gostwng 19% rhwng mis Mawrth 2010 a mis Mawrth 2020.<sup>1</sup>
- 9 Rydym wedi adrodd yn flaenorol bod gostyngiadau staffio'n golygu nad oes gan gynghorau niferoedd digonol o staff ag arbenigedd mewn rhai meysydd allweddol. Rydym wedi adnabod bylchau mewn meysydd polisi a chynllunio trawsbynciol ac wedi amlygu bod gan awdurdodau cynllunio ddiffyg staff â sgiliau arbenigol, megis ym maes dylunio a seilwaith. Trwy ein gwaith Llamu Ymlaen, clywsom am bwysau mewn meysydd gan gynnwys gofal cymdeithasol, cynllunio ac iechyd yr amgylchedd, er nad yw'r heriau'n gyfyngedig i'r meysydd hyn. Mae effaith y pandemig hefyd yn debygol o fod wedi gwaethygu pwysau mewn gwasanaethau penodol. Y rheswm dros hyn yw bod rhai aelodau o staff wedi cael eu hadleoli dros dro, effaith cyfyngiadau ar gynhyrchiant ac ôl-groniadau a all fod wedi dod i'r amlwg am bod rhai gweithgareddau wedi cael eu lleihau neu wedi dod i ben dros dro.<sup>2</sup>




1 Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus](#), Medi 2021

2 Gweler hefyd Yr Archwilydd Cyffredinol, [Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus \(2021\)](#) am ragor o wybodaeth.

- 10 Mae cynghorau ledled y DU wedi bod yn profi anawsterau hirsefydlog gyda recriwtio a chadw staff allweddol a chystadleuaeth o du'r sector preifat mewn rhai galwedigaethau penodol, yn enwedig o ran cyflog.<sup>3</sup> Mae cystadleuaeth am staff creffnus yn bodoli yn y sector cyhoeddus hefyd a rhwng cynghorau. Yn nodedig, clywsom sôn am hyn ym maes gofal cymdeithasol.
- 11 Mae'r pwysau hyn yn debygol o barhau i dyfu. Mae disgwyl i boblogaeth Cymru gynyddu ac mae newidiadau yn y galw'n debygol o arwain at bwysau ychwanegol ar gostau a chapasiti. Ledled y DU, ceir pryderon na fydd codiadau yn y cyflenwad o lafur yn aros gyfwrch â galw cynyddol am wasanaethau. Mae hyn yn awgrymu na fydd recriwtio staff ychwanegol, ar ei ben ei hun, yn ddigon i fynd i'r afael â'r heriau.<sup>4</sup>

### Arddangosyn 1: Amcanestyniadau poblogaeth Cymru: Newid mewn grwpiau oedran o 2023 - 2043



Ffynhonnell: Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol Interim sy'n seiliedig ar 2020 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (diweddariad 2022)

3 Uned Wybodaeth Llywodraeth Leol, [Cynllunio'r gweithlu a gallu mewn llywodraeth leol - LGiU](#)  
4 Pwyllgor Gwasanaethau Cyhoeddus Tŷ'r Arglwyddi, [Fit for the future? Rethinking the public services workforce](#), Rhagfyr 2022

## Tuedd 2: Gweithio Hybrid

- 12 Mae gweithio hybrid yn fath o weithio hyblyg lle mae gweithwyr yn rhannu eu hamser rhwng gweithio o bell (fel arfer, ond nid o anghenraid, gartref) a bod yn lleoliad gwaith y cyflogwr. Nid yw'n newydd, ond mae canran y gweithlu yng Nghymru sy'n gweithio gartref wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau'r pandemig. Amlygodd gwaith a wnaed ar gyfer Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Senedd mai dim ond 4% o weithlu Cymru oedd yn gweithio gartref yn unig ar ddechrau 2020, ond bod hyn wedi codi i 37% ym mis Ebrill 2020 a'i fod yn 25% ym mis Tachwedd 2020.<sup>5</sup>
- 13 Er bod gweithio hybrid bellach yn ystyriaeth arwyddocaol i gyflogwyr, roedd y ffigyrau'n dangos, hyd yn oed yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf ledled y DU, mai lleiafrif oedd yn gweithio o bell o hyd. Amcangyfrifwyd nad yw 56% o weithwyr Cymru'n gallu gweithio gartref, sy'n llawer mwy nag unrhyw le arall yn y DU. Mae hyn o ganlyniad i'r gwahanol sectorau y mae pobl yn cael eu cyflogi ynddynt, gyda nifer gymharol is o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector bancio a chyllid lle bu newid sylweddol.<sup>6</sup> Yn amlwg, mae cyflogeion cynghorau'n cwmpasu ystod eang o rolau amrywiol a bydd eu gallu i ddefnyddio trefniadau gweithio hybrid yn amrywio. Bydd angen i gynghorau ystyried sut y mae hyn yn berthnasol ar draws eu gweithlu a sut y gellir dosbarthu manteision ffyrdd newydd o weithio.
- 14 Yn bwysig, mae a wnelo hybrid â mwy na dim ond nifer y diwrnodau mewn swyddfa. Mae a wnelo â ffyrdd o weithio, diwylliant sefydliadol a thechnoleg. Mae gan sefydliadau'r cyfle i ddiffinio beth mae hybrid yn ei olygu iddynt hwy a sut y mae arnynt eisiau iddo weithio dros y tymor hwy. Gallai hyn olygu, er enghraifft, hybrid gyda mwy o bwyslais ar weithio ar y safle neu oddi ar y safle, a gallai olygu gwahanol gymwysiadau ar gyfer gwahanol gategoriâu o staff.
- 15 Bydd angen i sefydliadau ddeall y berthynas rhwng eu model hybrid a chynhyrchiant hefyd. Er gwaethaf yr hyn y gallai llawer o gyflogwyr fod wedi ei ofni, ni chafodd y dyddiau cynnar pan orfodwyd pobl i weithio gartref effaith sylweddol ar gynhyrchiant o anghenraid.<sup>7</sup> Mae'r effaith y mae gweithio hybrid yn ei chael ar gynhyrchiant yn debygol o amrywio rhwng sectorau a rolau. Mae hyn yn tanlinellu mor bwysig ydyw bod sefydliadau'n parhau i fonitro, adolygu ac addasu eu trefniadau a gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio i wahanol rannau o'r busnes.



5 [Gweithio o bell – y normal newydd? \(senedd.cymru\)](https://www.senedd.cymru)

6 Fel yr uchod

7 Yr Athro Alan Felstead, 'Outlining the contours of the 'great homeworking Experiment' and its implications for Wales', Ionawr 2021

- 16 Mae gweithio hybrid yn debygol o ehangu pyllau recriwtio, a fyddai'n galluogi cynghorau i ddenu staff o ardaloedd pellach i ffwrdd ac yn helpu i reoli bylchau o ran sgiliau. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol i bob rôl a gallai hefyd arwain o bosibl at fwy o gystadleuaeth am staff.

### Tuedd 3: Hyblygrwydd mewn patrymau gweithio

- 17 Mae gweithio hybrid wedi cyflwyno hyblygrwydd o ran ble y mae gwaith yn cael ei wneud, ond mae staff hefyd yn gwerthfawrogi hyblygrwydd o ran pryd y mae gwaith yn cael ei wneud ac, o bosibl, i raddau mwy helaeth.<sup>8</sup> Gall cynghorau fod wedi cynnig rhai mathau o weithio hyblyg cyn y pandemig, er enghraifft 'amser hyblyg', oriau cywasgedig, llai o oriau neu rannu swyddi. Fodd bynnag, mae staff yn debygol o fod wedi cael cynnig mwy o hyblygrwydd yn ystod y pandemig. Mae'n anorfod y bydd hyn, ar y cyd â gweithio hybrid (neu weithio gartref pan oedd yn ofynnol yn ystod yr amser hwnnw), wedi cael effaith ar ganfyddiadau a disgwyliadau staff.
- 18 Mae'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) yn nodi bod llawer o sefydliadau wedi dweud y byddant yn fwy tebygol o ganiatáu ceisiadau am drefniadau gweithio hyblyg, heblaw am weithio gartref, o'i gymharu â chyn y pandemig. Maent hwy hefyd yn credu ei bod hi'n bwysig darparu gweithio hyblyg fel opsiwn wrth hysbysebu swyddi.<sup>9</sup> Yn ogystal â denu staff, gallai hyblygrwydd fod o gymorth i gadw staff. Er enghraifft, gellid defnyddio mathau mwy hyblyg o drefniadau gweithio i gadw staff sy'n nesáu at oedran ymdeol.<sup>10</sup>
- 19 Mae'r wythnos waith pedwar diwrnod yn gynyddol yn rhan o'r drafodaeth ynglŷn â dyfodol gwaith.<sup>11,12</sup> Effaith debygol i gyflogeion yw mwy o gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, ond gallai sefydliadau gael budd hefyd o fanteision o ran cynhyrchiant, costau rhedeg is, ôl troed carbon llai a'r gallu i ddenu a chadw'r bobl fwyaf dawnus.<sup>13</sup> Er bod y model hwn yn nodweddiadol yn cael ei ystyried mewn diwrnodau, gellir ei addasu i adlewyrchu gwahanol rolau a gofynion busnes.



8 [Top Ten HR Trends For The 2023 Workplace \(forbes.com\)](#)

9 CIPD, [An Update on Flexible and Hybrid Working Practices](#), Ebrill 2022

10 Pwyllgor Gwasanaethau Cyhoeddus Tŷ'r Arglwyddi, [Fit for the future? Rethinking the public services workforce](#), Rhagfyr 2022

11 Ymchwil y Senedd, [Yr wythnos pedwar diwrnod - rhan o fywyd gwaith Cymru yn y dyfodol? 2023](#)

12 ICAEW, [Four-day week: what happens after a successful trial? 2023](#)

13 CIPD [The compensation revolution: incentives to motivate and retain future talent 2023](#)

## Astudiaeth beilot wythnos pedwar diwrnod y DU

Cynhaliwyd yr astudiaeth beilot wythnos pedwar diwrnod fwyaf yn y DU rhwng mis Mehefin 2022 a mis Rhagfyr 2022. Roedd yn cynnwys 61 o sefydliadau ac oddeutu 2900 o gyflogeion. Fe wnaeth pob sefydliad deilwra'r wythnosau pedwar diwrnod i'w hanghenion hwy, gan gwmpasu modelau nodweddiadol a oedd yn amrywio o 'beidio â gweithio ar ddydd Gwener' i oriau blynyddol. Roedd y treial yn 'llwyddiant ysgubol', gyda 92% o'r sefydliadau'n parhau â'r model a 18 yn ymrwmo i newid parhaol. Roedd manteision amlwg i gyflogeion, gan gynnwys gwelliannau i iechyd meddwl a chorfforol a tharo cydbwysedd rhwng ymrwymadau gwaith ac ymrwymadau teuluol a chymdeithasol. Fe wnaeth nifer y staff a oedd yn gadael ostwng yn sylweddol yn ystod y cyfnod. Yn wir, 'Dyweddodd 15% o gyflogeion na fyddai unrhyw swm o arian yn eu cymell i dderbyn amserlen pum niwrnod yn lle'r wythnos pedwar diwrnod yr oeddent bellach wedi ymgyswngu â hi'. Roedd gwelliannau hefyd mewn metrigau busnes allweddol, gan gynnwys codiadau mewn refeniw.<sup>14</sup>

- 20 Bydd angen i gynghorau ystyried sut y gallai gwahanol fathau o weithio hyblyg gryfhau eu gallu i ddenu a chadw'r staff y mae eu hangen arnynt i gwrdd â'u pwysau mynychaf. Efallai y bydd arnynt eisiau ystyried yr effeithiau ehangach y gallai'r newidiadau hyn eu hachosi hefyd, i iechyd y boblogaeth a chydaddoldeb rhwng y rhywiau, er enghraifft.
- 21 Fodd bynnag, bydd angen i gynghorau ystyried hefyd sut y maent yn taro cydbwysedd rhwng y manteision hyn ac ymateb i ddisgwyliadau newidiol cyflogeion gan hefyd ddiwallu eu hanghenion busnes. Mae hyn yn arbennig o berthnasol, o ystyried y bydd deddfwriaeth newydd, sef Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth (Gweithio Hyblyg) 2023, yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gyflogeion.<sup>15</sup>

14 Autonomy 'The results are in: The UK's four day week pilot' Chwefror 2023

15 Mae Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth (Gweithio Hyblyg) 2023 yn cyflwyno mesurau diogelu newydd ar gyfer gweithwyr, gan gynnwys gofynion i gyflogwyr ymgynghori â'r cyflogai cyn gwrthod eu cais am drefniadau gweithio hyblyg a rhoi caniatâd iddynt wneud dau gais statudol mewn unrhyw gyfnod o 12 mis (yn hytrach na'r un cais a ganiateir ar hyn o bryd).

## Tuedd 4: Diwylliant a Llesiant

- 22 Awgrymwyd fod cyflogeion bellach yn rhoi mwy o flaenoriaeth i iechyd a llesiant, gyda pheth ymchwil yn gosod y rhain uwchlaw cydnabyddiaeth ariannol. Ceir awgrymiadau hefyd bod hyn yn dod yn fwyfwy pwysig i genedlaethau iau sy'n ymuno â'r gweithlu.<sup>16</sup>
- 23 Fel a ddisgrifiwyd uchod, mae gweithio hybrid a hyblyg yn offer pwysig y gall cynghorau eu defnyddio i hybu llesiant cyflogeion. Ceir tystiolaeth bod cyflogeion sydd â hyblygrwydd yn eu trefniadau gweithio'n fwy tebygol o fod yn fodlon yn y gwaith.<sup>17</sup> Gall y manteision hyn i lesiant cyflogeion drosi'n gynhyrchiant a chystadleurwydd gwell yn y farchnad lafur. Fodd bynnag, bydd angen i gynghorau fod yn ymwybodol hefyd o'r effeithiau negyddol posibl y gall gweithio gartref a hybrid eu cael ar iechyd meddwl a pherthnasoedd â chydweithwyr.<sup>18</sup>
- 24 Nodwyd fod gwerthoedd cyflogeion, a'u disgwyliadau ynghylch sut y mae cyflogwyr yn creu diwylliannau cadarnhaol, yn hybu cydraddoldeb ac yn datblygu amgylcheddau gweithredu cynaliadwy yn duedd gynyddol hefyd. Unwaith eto, mae gweithio hybrid a hyblyg yn fodd i gyflogwyr gyflawni mewn perthynas â hyn. Er enghraifft, gallai'r cyfleoedd hyn hybu amrywiaeth a chynhwysiant trwy alluogi pobl â chyflyrau iechyd neu anabledau i weithio mewn ffyrdd sy'n gweddu orau iddynt hwy a'i gwneud yn haws i unigolion reoli cyfrifoldebau gofalu.
- 25 Fodd bynnag, ceir risgiau y gallai'r modelau newydd hyn gael rhai effeithiau negyddol neu waethygu anghydraddoldeb.<sup>19</sup> Er enghraifft, gallai llai o amser yn y swyddfa olygu llai o amlygrwydd, a allai yn ei dro effeithio ar ddatblygiad gyrfa. Gallai hyn gael effaith anghymesur ar y rhai sydd eisoes dan anfantais neu sy'n fwy tebygol o weithio gartref, megis pobl anabl. Yn yr un modd, gall staff iau fethu â chael cyfleoedd i ddatblygu.<sup>20</sup> I rieni a'r rhai â chyfrifoldebau gofalu, ceir risg y gall gweithio hyblyg ei gwneud hi'n anodd taro cydbwysedd rhwng gwahanol alwadau.<sup>21</sup> Byddai angen i gynghorau sicrhau bod ganddynt ddull a pholisïau ategol eglur, dealltwriaeth gyson a defnydd cyson gan reolwyr ac arlwy dysgu a datblygu briodol i liniaru'r risgiau hyn.



16 Fforwm Economaidd y Byd, [How to energize workforce by focusing on employee wellbeing](#), 2022

17 CIPD, [An Update on Flexible and Hybrid Working Practices](#), Ebrill 2022

18 Fel yr uchod


19 Ymchwil y Senedd, [Gweithio o bell – y normal newydd?](#) 2021

20 Prifysgol Caerhirfryn, [Making hybrid inclusive- Key priorities for policy-makers](#) Hydref 2021

21 Fel yr uchod

## Tuedd 5: Technoleg

- 26 Bydd defnyddio technoleg yn allweddol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a adnabuwyd a gwireddu'r manteision a ddisgrifir uchod. Mae'n angenrheidiol i gefnogi parhad gweithio hybrid a bydd yn hanfodol i benderfyniadau ynglŷn â maint a threfn adeiladau cynghorau.
- 27 Fe wnaeth y pandemig gyflymu defnydd cynghorau o dechnoleg, trwy gynorthwyo eu staff i weithio o bell a newid i ddarparu gwasanaethau'n ddigidol. Mae datblygiadau mewn technoleg yn cynnig y potensial i barhau i drawsnewid sut y darperir gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd ac i leihau llwythi gwaith a gwella effeithlonrwydd, gan gynnwys trwy awtomeiddio. Fel hyn, mae technoleg yn debygol o newid natur rhai swyddi a gofynion o ran sgiliau yn y dyfodol.
- 28 Rydym yn gwneud gwaith 'Llamu Ymlaen' pellach ar ddulliau trawsnewid digidol cynghorau a byddwn yn adrodd ar hyn maes o law.



## Rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith

- 29 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Fel rhan o hyn, rhaid iddynt weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu 'gweithredu mewn modd sy'n ceisio diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. I wneud hyn, rhaid i gyrff cyhoeddus roi'r pum ffordd o weithio ar waith: hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.
- 30 Mae'r canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf yn disgrifio saith swyddogaeth gorfforaethol lle dylai gyrff cyhoeddus roi'r ffordd hon o feddwl ar waith i hybu newidiadau ehangach o ran sut y maent yn cyflawni. Mae cynllunio asedau a chynllunio'r gweithlu wedi'u cynnwys yn y rhestr. Gall rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn y meysydd hyn helpu sefydliadau i weithredu'r Ddeddf ar y cyfan.
- 31 Rydym ni o'r farn bod rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn un o nodweddion bod â threfniadau priodol i sicrhau gwerth am arian. Gall helpu cynghorau i gyflawni gwerth am arian, yn awr a thros y tymor hwy, a dylid ystyried ei fod yn fodd defnyddiol i weithio trwy ansicrwydd a tharo cydbwysedd rhwng galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd. Ar y sail honno, dylai fod yn offeryn a all helpu cynghorau wrth iddynt gyflwyno newidiadau o ran sut a ble y mae eu staff yn gweithio.

- 32 Rydym ni'n disgwyl, wyth mlynedd ers pasio'r Ddeddf, bod cyrff cyhoeddus yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud dan y ddeddfwriaeth hon. Rydym yn disgwyl i'w dealltwriaeth fod wedi aeddfedu ac iddynt allu dangos bod y Ddeddf wir yn trefnu'r hyn a wnânt.<sup>22</sup> Caiff y disgwyliadau hyn eu hadlewyrchu yn ein canfyddiadau a'n hargymhellion i bob cyngor.
- 33 Rydym yn gobeithio bod ein gwaith ym mhob cyngor wedi darparu rhywfaint o fewnwelediad trwy amlygu perthnasedd rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith a'r cyfleoedd a gynigir gan hynny. Mae'r adran nesaf o'r adroddiad hwn wedi'i bwriadu i helpu i oleuo'r ffordd honno o feddwl ymhellach.
- 34 Rydym hefyd wedi datblygu set o 'ddangosyddion cadarnhaol' ar gyfer y gweithlu ac asedau i ddangos sut fyddai'n edrych pe bai'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei rhoi ar waith yn dda. Mae'n nodi rhai nodweddion sy'n berthnasol i wahanol gamau o ran cynllunio a chyflawni gwaith yn y meysydd hyn. Rydym yn gobeithio eu bod yn ddefnyddiol o ran datblygu dealltwriaeth gyson ac ymarferol, yn enwedig y cynghorau hynny sydd wrthi'n ail-lunio gwaith yn y meysydd hyn ar hyn o bryd. Byddwn yn eu defnyddio i oleuo unrhyw waith y byddwn yn ei wneud yn y maes hwn yn y dyfodol.<sup>23</sup>

## Yr hyn a ganfuom

### Yr hyn a welsom a'r hyn y gwnaethom ei argymhell

- 35 Pan wnaethom ni ein gwaith, canfuom fod y rhan fwyaf o gynghorau'n gweithio trwy'r manylion o ran sut y dylai eu 'normal newydd' edrych. Roeddent yn ystyried beth oeddent wedi'i ddysgu o'r pandemig a beth oedd hynny'n ei olygu i'w gweithlu ac asedau ar y cyd. Dywedodd rhai wrthym fod y pandemig wedi cyflymu cyfeiriad teithio presennol.
- 36 O ganlyniad, roedd nifer o gynghorau wedi adolygu neu yn y broses o adolygu eu dogfennau strategol allweddol. Roedd hyn yn cynnwys Strategaethau Adnoddau Dynol, cynlluniau'r gweithlu, polisiau gweithio'n ddoethach a chynlluniau rheoli asedau corfforaethol. Nid oedd eraill wedi dechrau ar y gwaith hwnnw eto, ond roeddent yn cydnabod y byddai angen iddynt wneud hynny yn y tymor byr a chanolig.

22 Bydd Dyletswydd Llesiant y Ddeddf yn cael ei hestyn i gyrff cyhoeddus ychwanegol hefyd o fis Ebrill 2024. Felly bydd profiad a dealltwriaeth yn amrywio ar draws cyrff a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein harchwiliadau.

23 Wrth ddatblygu'r dangosyddion cadarnhaol hyn rydym wedi ceisio cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd) ac wedi ystyried canllawiau y mae wedi'u cyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys y 'matrics aeddfedrwydd' a gyhoeddwyd yn ddiweddar.



- 37 Am y rheswm hwn, roedd llawer o'n hargymhellion ar draws ein gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau strategol cynghorau o gynllunio'r gweithlu a rheoli asedau. Fe wnaethom argymhell wrth yr holl gynghorau hynny a oedd yn diwygio neu'n datblygu eu strategaethau y dylent ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i drefnu eu ffordd o feddwl ac adeiladu ar eu profiad o'r pandemig.
- 38 Fe wnaethom hefyd argymhellion a oedd yn canolbwyntio ar wella trefniadau cyflawni a monitro. Canfuom rai gwendidau mewn trefniadau cyflawni ategol, megis cynllunio'r gweithlu ac asedau mewn modd anghyson ar draws gwasanaethau a diffyg integreiddio rhwng prosesau cynllunio ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau. Canfuom gyfleoedd i wella monitro a goruchwyliaeth a'r angen i wneud gwaith meincnodi.
- 39 Mae cynghorau ar adeg dyngedfennol. Mae ganddynt y cyfle i ddefnyddio'r cyfnod cyflym hwn o ddysgu i osod cyfeiriad strategol newydd. Fodd bynnag, gallai gwendidau sylfaenol yn eu trefniadau ategol rwystro'u gallu i ddatblygu a chyflawni strategaethau effeithiol sy'n eu helpu i ymateb i heriau yn awr ac yn y dyfodol.
- 40 Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi effeithio ar allu cynghorau i gynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cynghorau, ar yr adeg y gwnaethom y gwaith yma, yn dal i weithio trwy ansicrwydd. Fodd bynnag, bydd cynghorau mwy na thebyg mewn sefyllfa well yn awr i ddiffinio a chyflawni eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- 41 Trwy ein gwaith, canfuom nad oedd llawer o gynghorau wedi ystyried eto sut y gallent ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w helpu i ddatblygu eu dulliau o gynllunio'r gweithlu a rheoli asedau. Nid ydym wedi gwneud gwaith cyfatebol ar draws swyddogaethau corfforaethol eraill (er bod peth gwaith ar y gweill a gwaith pellach yn yr arfaeth). Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd cynghorau'n llai tebygol o ystyried rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn eu hamryw swyddogaethau corfforaethol nag yn eu prosesau cynllunio corfforaethol a darparu gwasanaethau.

## Defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lamu ymlaen

- 42 Bydd angen i gynghorau bennu cyfeiriad eglur ar gyfer eu gweithlu ac asedau, gyda hynny'n cael ei oleuo gan eu gwersi o'r pandemig ac yn cael ei drefnu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Canfu ein gwaith rai meysydd allweddol lle mae angen i gynghorau ddatblygu eu ffordd o feddwl a'u trefniadau fel eu bod yn gallu gwneud hyn. Canfuom fod angen i gynghorau:
- ddatblygu eu cudd-wybodaeth i reoli risgiau allweddol o ran y gweithlu ac asedau yn y presennol er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer y tymor hir;
  - adnabod sut y gallant gael y gwerth uchaf posibl o'u dulliau o reoli asedau a chynllunio'r gweithlu;
  - cynnwys eu staff a gweithio gyda phartneriaid; a
  - pharhau i adolygu, dysgu ac arloesi.
- 43 Rydym yn rhoi sylw i bob un o'r pwyntiau bwled uchod mewn mwy o fanylder isod. Rydym hefyd yn cynnwys rhai enghreifftiau i ddangos sut allai edrych pan fo'r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol.

## Dylai cynghorau ddatblygu eu cudd-wybodaeth i reoli risgiau yn y presennol er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer y tymor hir

- 44 Bydd ar gynghorau angen dealltwriaeth dda am eu hamgylchiadau cyfredol i oleuo'u cynlluniau. Ar gyfer y gweithlu, mae hyn yn debygol o gynnwys gofynion o ran adnoddau a sgiliau, ble y ceir risgiau i'r rhain a sut allai hynny effeithio ar gyflawni. Ar gyfer asedau, mae hyn yn debygol o gynnwys ansawdd, cyflwr a defnyddio'u hadeiladau. Canfuom rai enghreifftiau lle nad oes gan gynghorau drosolwg dda o wybodaeth a risg berthnasol, sy'n debygol o gyfyngu ar eu gallu i reoli eu gweithlu a'u hasedau'n effeithiol a chynllunio ar gyfer y dyfodol.
- 45 Canfuom y gallai cynghorau wneud mwy i ystyried beth allai tueddiadau yn y dyfodol ei olygu i'w gweithlu ac asedau. Mae'r tueddiadau yr ydym ni wedi'u hadnabod yn yr adroddiad hwn yn berthnasol, yn ogystal â thueddiadau mwy penodol a lleol sy'n ymwneud ag anghenion a bylchau o ran sgiliau yn dyfodol, datblygiadau mewn technoleg a newidiadau i wasanaethau. Gallai'r rhain i gyd ddwyn goblygiadau ar gyfer dewisiadau y mae cynghorau'n eu gwneud yn y tymor byr a chanolig.

### Enghraifft o ymarfer

Fe wnaethom adrodd bod gan Gyngor Ceredigion ddealltwriaeth dda am risgiau allweddol o ran y gweithlu. Yn nodedig, mae'r cyngor wedi rhoi ei 'Fodel Llesiant Pob Oed' ar waith, gan newid i ddull mwy ataliol o ddarparu gofal cymdeithasol i oedolion ac mae'n ceisio trawsnewid ei weithlu yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, mae wedi adnabod cyfraddau uchel o ran swyddi gwag ac wedi cymryd camau i liniaru'r risg.

Roedd hyn yn cynnwys:

- gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer gofal cymdeithasol;
- cynyddu nifer y prentisiaethau gofal cymdeithasol a ddarperir ganddo; a
- newid swydd ddisgrifiadau i ganiatáu mwy o hyblygrwydd i staff symud rhwng rolau.<sup>24</sup>

Mae hyn yn enghraifft dda o gyngor yn mabwysiadu golwg hirdymor o ran sut y mae angen iddo newid gwasanaeth a gweithlu, gan hefyd ddefnyddio'i wybodaeth reoli i liniaru risgiau cyfredol.

- 46 Mae angen i gynghorau ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad hefyd i'w helpu i ddysgu a gwella. Fe wnaethom amlygu rhai gwendidau mewn mesurau perfformiad a mesurau canlyniadau a oedd yn aml yn peidio ag adlewyrchu uchelgeisiau cynghorau ar gyfer eu gweithlu ac asedau, ynghyd â chyfleoedd i gryfhau goruchwyliaeth gorfforaethol a chan aelodau etholedig.
- 47 Canfuom hefyd fod diffyg eang o ran meincnodi ar gyfer y swyddogaethau hyn. Heb feincnodi ni fydd cynghorau'n gallu eu sicrhau eu hunain eu bod yn cyflawni'n effeithiol ac yn sicrhau gwerth am arian. Rydym yn derbyn a deall bod cael yr wybodaeth hon yn gallu bod yn her. Fodd bynnag, dylai gwybodaeth gymharol helpu cynghorau i asesu effeithiolrwydd eu dulliau a goleuo'u prosesau cynllunio, penderfynu a chraffu.

## Dylai cyngorau adnabod sut y gallant gael y gwerth mwyaf posibl o'u dulliau o reoli asedau a chynllunio'r gweithlu

- 48 Yn amlwg, bydd angen i gynghorau ystyried sut a ble y bydd eu staff yn gweithio ar y cyd. Mae hyn yn golygu sicrhau bod cysondeb rhwng eu strategaethau ar gyfer rheoli'r gweithlu ac asedau, yn ogystal â strategaethau a pholisïau ategol eraill sy'n ymwneud â thechnoleg ddigidol, gweithio hybrid neu weithio'n ddoethach. Yn y pen draw, mae angen i'r gweithlu ac asedau ategu gweledigaeth ac amcanion llesiant cyngor.
- 49 Gallai cyngorau ystyried y manteision ehangach i recriwtio, cadw, cydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd. Fel a amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae opsiynau gweithio hybrid a hyblyg yn ehangu pyllau recriwtio. Gallai hyn alluogi cynghorau i ddenu staff o'r tu allan i ddalgylchoedd nodweddiadol, a fyddai yn ei dro'n gallu helpu i lenwi bylchau o ran sgiliau a chynyddu amrywiaeth yn y gweithlu. Gall polisïau o'r fath hybu llesiant a chydaddoldeb yn y gweithlu hefyd, gydag effeithiau canlyniadol ar gydnerthedd, llesiant staff, recriwtio a chadw.
- 50 Gwelsom rai enghreifftiau o gynghorau'n ystyried sut y gallai eu dulliau o reoli asedau a chynllunio'r gweithlu gyfrannu at eu hamcanion amgylcheddol. Er enghraifft, helpu i wneud cynnydd tuag at dargedau sero net trwy leihau nifer y swyddfeydd a siwrneiau i ac o'r gwaith.
- 51 Gwelsom hefyd rai cynghorau'n gwneud y cysylltiad rhwng eu hagendâu ar gyfer asedau, y gweithlu a thechnoleg ddigidol. Yn amlwg, mae angen i gynghorau fod â'r seilwaith digidol cywir i gefnogi modelau gweithio hybrid, ond mae angen iddynt hefyd ystyried yr effeithiau tymor hwy y bydd deallusrwydd artiffisial (AI) ac awtomeiddio'n eu cael ar ddarparu gwasanaethau.

### Enghraifft o ymarfer

Mae 'cynyddu galluedd digidol i'r eithaf' yn un o nodweddion allweddol cynllun corfforaethol Cyngor Caerdydd ac mae'n hollbwysig i weithgarwch parhaus i foderneiddio ei ystâd a'i weithlu. Mae'r Cyngor wedi penodi ymgynghorwyr i adnabod systemau a phrosesau pellach y gallai eu hawtomeiddio fel rhan o'i raglen 'Awtomeiddio a Deallusrwydd Artiffisial' Digidol yn Gyntaf.<sup>25</sup>

- 52 Gwelsom hefyd fod rhai cynghorau'n ystyried sut y gallant gyflawni amcanion economaidd, gan gynnwys symud ymlaen â chynlluniau i waredu prif adeiladau swyddfeydd fel rhan o gynlluniau adfywio ehangach.

### Enghraifft o ymarfer

Mae Cyngor Sir Gâr yn ceisio lleihau ei swyddfeydd corfforaethol oddeutu 50%. Mae rheolwyr wedi ystyried sut y gallant ddefnyddio'u hasedau mewn ffordd sy'n adlewyrchu sut y mae gwasanaethau'n gweithredu ar ôl y pandemig. Yng nghyd-destun y rhesymoli hwn, mae'r Cyngor yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gefnogi ei agenda adfywio economaidd gyda'r ffocws ar gynnal canol trefi.<sup>26</sup>

- 53 Canfuom nad oes gan rai cynghorau gysylltiad clir rhwng eu strategaethau ar gyfer rheoli'r gweithlu ac asedau a'u trefniadau cynllunio gwasanaethau. Gall bod â chysylltiadau effeithiol rhwng y ddau helpu i sicrhau bod uchelgeisiau strategol yn trosi'n ymarfer. Mae hefyd yn fecanwaith allweddol ar gyfer casglu cudd-wybodaeth, ac adnabod a chydgyfuno risg ar draws gwasanaethau. Ar ben hynny, gall helpu sefydliadau i ddefnyddio dull mwy integredig o gyflawni eu blaenoriaethau.

### Enghraifft o ymarfer

Yng Nghyngor Casnewydd, mae pob cyfarwyddiaeth yn cynhyrchu cynllun gwasanaeth blynyddol i roi cymorth i gyflawni strategaethau corfforaethol y Cyngor. Mae adran wedi'i neilltuo i gynllunio'r gweithlu ym mhob un ohonynt. Mae'r cynlluniau'n cynnwys gweithgareddau penodol y bydd y cyfarwyddiaethau'n eu cyflawni i roi cymorth i recriwtio a chadw staff. Mae'r gweithgareddau'n ymwneud â chynllunio ar gyfer olyniaeth, hyfforddiant a datblygu strwythurau a arferai fod yn wastad i ddarparu llwybrau gyrfaedd mwy eglur.<sup>27</sup>

26 Archwilio Cymru, [Cyngor Sir Gâr – Llamu Ymlaen - Rheoli Asedau | Archwilio Cymru 2022](#)

27 Archwilio Cymru, [Llamu Ymlaen – Y Gweithlu – Cyngor Dinas Casnewydd 2022](#)

## Dylai cynghorau gynnwys eu staff a gweithio gyda phartneriaid

- 54 Roedd y rhan fwyaf o gynghorau wedi ceisio barn eu staff i ddeall effaith gweithio gartref a gweithio hybrid a'u dewisiadau ar ryw adeg ers gwneud y newid. Fe wnaethom bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â staff ac argymhell bod cynghorau'n sicrhau eu bod yn defnyddio barn staff i oleuo datblygiad parhaus eu dulliau o gynllunio'r gweithlu a rheoli asedau. Bydd hi'n bwysig iddynt ystyried yr wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am berfformiad, i roi golwg gyflawn ar effaith y newidiadau.
- 55 Fe wnaethom amlygu cyfleoedd i gynghorau gynnwys partneriaid mewn trafodaethau ynglŷn â dyfodol eu gweithlu a'u hasedau. Gallai hyn eu helpu i adnabod cyfleoedd i gyflawni amcanion darparu gwasanaethau a chyflawni arbedion ariannol trwy swyddi a rennir neu gydleoli, er enghraifft. Fe wnaethom adrodd hefyd y dylai cynghorau geisio deall sut, ble a phryd y mae ar ddefnyddwyr eisiau cael mynediad at wasanaethau ar ôl y pandemig i helpu i oleuo'u ffordd o feddwl.
- 56 Gallai cynghorau archwilio rhagor o gyfleoedd i gydweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â risgiau cyffredin o ran y gweithlu. Clywsom am risgiau cyffredin mewn meysydd megis gofal cymdeithasol, iechyd yr amgylchedd a chynllunio. Yng Ngorllewin Cymru, mae cynghorau'n cydweithio ar y Cydweithgor Dysgu a Hyfforddi dan Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Clywsom hefyd sut yr oedd Powys yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni ei gynllun ar gyfer y gweithlu (gweler isod). Ymddengys fod cyfleoedd pellach i gynghorau ledled Cymru gydweithio i reoli risgiau strategol o ran y gweithlu, yn enwedig lle maent yn cystadlu i recriwtio i rai arbenigeddau. Gallai'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cynlluniau cysylltiedig ddarparu mecanwaith ar gyfer archwilio'r risgiau hyn ar draws ystod o sefydliadau partner allweddol.

### Enghraifft o ymarfer

Yn ein hadroddiad i Gyngor Powys, fe wnaethom nodi bod cydweithio'n nodwedd amlwg ar ei 'gynllun strategol ar gyfer y gweithlu'. Yn benodol, mae'r cyngor yn cydweithio i gyflawni elfennau allweddol o hyfforddiant, gan gynnwys:

- ei raglen brentisiaeth, y mae'n ei chyflawni mewn partneriaeth gyda darparwyr ac arianwyr hyfforddiant allanol, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Choleg Castell-nedd Port Talbot.
- yr Academi Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Phrifysgol Caerdydd sy'n cynnig hyfforddiant arbenigol.

Fe wnaethom nodi bod dull y cyngor yn golygu bod staff yn cael eu hyfforddi i lenwi bylchau mewn gwasanaethau yn y dyfodol.

## Dylai cynghorau barhau i adolygu, dysgu ac arloesi

- 57 Mae pethau wedi symud ymlaen ers y pandemig. Mae cynghorau'n wynebu heriau parhaus ond dylent fod mewn sefyllfa well yn awr i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl rhagweld yn llawn pa effaith y bydd newidiadau cyffredinol yn eu cael ar ffyrdd o weithio. Mae hyn yn golygu y bydd hi'n bwysig parhau i fonitro ac adolygu'r effaith ar unigolion, sefydliadau a darparu gwasanaethau.
- 58 Fel rhan o hyn, bydd hi'n bwysig parhau i ddefnyddio barn staff, yn ogystal â meincnodi a sganio'r gorwel. Gall meincnodi gynnwys cymharu yn yr ystyr ehangaf, gan gynnwys cymharu modelau a strwythurau darparu gwasanaethau, a rhannu arfer. Bydd gwybodaeth o'r fath yn eu helpu i barhau i gryfhau eu dulliau.
- 59 Mae cynghorau'n profi heriau tebyg o ran y gweithlu a rheoli asedau. Maent i gyd yn y broses o ddatblygu ffyrdd newydd o weithio. O ystyried hyn, byddai'n werth iddynt rannu eu dulliau a'u gwersi wrth iddynt barhau â'r broses hon.

## Beth ydym wedi'i ddysgu?

- 60 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu themâu a gododd ar draws yr adroddiadau i bob cyngor. Yn amlwg mae pob cyngor yn wahanol, a bydd y negeseuon hyn yn berthnasol mewn modd gwahanol ar draws y 22 o sefydliadau. Mae'r pwyntiau isod yn darparu crynodeb cyffredinol o'r gwersi allweddol ar draws y gwaith hwn:
- Nid yw cynghorau i'w gweld fel pe baent yn derbyn a deall yn llawn bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n berthnasol i ddylunio a chyflawni asedau a'r gweithlu. Ceir manteision sylweddol y gellid eu dwyn trwy roi'r ffordd hon o feddwl ar waith wrth ddiwygio'u strategaethau a'u trefniadau cyflawni. Mae hyn yn ysgogi cwestiwn pa un a yw hyn yn gyffredin ar draws gwasanaethau a swyddogaethau corfforaethol. Dylai cynghorau fyfyrion ynghylch hyn ac achub ar gyfleoedd perthnasol i roi'r fframwaith a nodir yn y Ddeddf ar waith. Byddwn yn parhau i brofi'r modd y rhoddir yr egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith trwy ein gwaith archwilio.

- Nid yw cynghorau'n gwneud defnydd effeithiol o ehangder y gudd-wybodaeth a allai eu helpu i reoli'r presennol neu gynllunio ar gyfer y dyfodol. Nid oedd gan rai cynghorau ddealltwriaeth dda am risgiau cyfredol ar draws eu gweithlu, roedd gan eraill ond gallent gryfhau eu dealltwriaeth am yr heriau yn y tymor canolig a'r tymor hwy a fyddai'n effeithio arnynt. Ymddengys mai anaml y mae meincnodi'n digwydd yn y meysydd hyn, gan olygu nad yw cynghorau'n gallu cymharu a deall go iawn i ba raddau y maent yn sicrhau gwerth am arian. Yn fwy cyffredinol, efallai fod rhagor o gyfleoedd iddynt ddysgu oddi wrth ei gilydd wrth iddynt ddatblygu ffyrdd newydd o weithio.
- Mae cynghorau'n cydnabod y budd a geir o gysylltu eu hasedau a'u gweithlu â chyflawni amcanion corfforaethol ehangach. Mae'n debygol y bydd cyfleoedd i fynd â hyn ymhellach a rhoi ystyriaeth yn systematig i ehangder llawn y manteision y gellid eu dwyn. Bydd hyn yn helpu cynghorau i gynyddu i'r eithaf werth eu gwaith yn y meysydd hyn. Bydd cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n eu helpu i gyflawni hyn. Ymddengys hefyd eu bod yn colli'r cyfle i gydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin, yn enwedig mewn perthynas â'r gweithlu.
- Mae gwendidau neu fylchau mewn trefniadau'n debygol o rwystro cynnydd tuag at uchelgeisiau strategol. Mae bod â threfniant craidd cadarn – megis strategaeth wedi'i diffinio'n dda, trefniadau cynllunio gwasanaethau ategol, a threfniadau monitro effeithiol – yn darparu sylfaen ar gyfer trawsnewid. Heb y trefniadau hyn bydd hi'n anodd i gynghorau roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Lle maent yn llenwi bylchau neu'n diweddarau elfennau o'r trefniadau hyn, dylai cynghorau ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w helpu.



# Atodiadau

---

- 1 Dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr egwyddor datblygu cynaliadwy: Rheoli asedau**
- 2 Dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr egwyddor datblygu cynaliadwy: Cynllunio'r gweithlu**

# 1 Dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr egwyddor datblygu cynaliadwy: Rheoli asedau

Mae'r tabl isod yn nodi rhai dangosyddion cadarnhaol i helpu i ddangos sut y gallai edrych pe bai'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei rhoi ar waith yn dda mewn perthynas â rheoli asedau. Gallai cynghorau ddefnyddio'r dangosyddion hyn i'w helpu i ddatblygu eu dull strategol o reoli asedau, ond gallai fod o gymorth hefyd mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch asedau penodol. Maent wedi cael eu haddasu o'r rhai yr ydym wedi'u defnyddio'n flaenorol i oleuo ein harchwiliadau o roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Nid yw'r rhestr hon wedi'i bwriadu i gael ei defnyddio fel rhestr wirio ac mae wedi'i bwriadu i gael ei dehongli i gyd-fynd â threfniadau a chyd-destunau sefydliadol. Wrth ddatblygu'r dangosyddion hyn, rydym wedi ceisio cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac wedi ystyried y '[Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Waith](#)'.

## Dangosydd cadarnhaol

## Ffyrdd o weithio y mae hwn yn ymwneud â hwy

**Defnyddiodd y cyngor amrywiaeth o wybodaeth i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr am ei sylfaen asedau** a'i ofynion o ran asedau, a sut y maent yn debygol o newid dros amser. Gallai hyn ymwneud â'r canlynol, er enghraifft:

Hirdymor, atal, cydweithio, cynnwys

- Sut y mae ei sylfaen asedau'n cael ei defnyddio (gan gynnwys ble mae ei staff wedi'u lleoli, pa ddefnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid sy'n defnyddio'r asedau) ac i ba raddau y mae'n sicrhau gwerth am arian.
- Yr ansawdd, y gwerth a'r risgiau ar draws ei asedau
- Sut allai fod effaith ar ei ofynion o ran asedau dros y tymor byr, canolig a hwy. Gallai hyn gynnwys:
  - Newidiadau mewn arferion gweithio, diwylliant, disgwyliaid a dewisiadau staff.
  - Gofynion o ran staffio a sgiliau yn y dyfodol.
  - Newidiadau i wasanaethau
  - Newidiadau technolegol a allai ddylanwadu ar sut a ble y mae staff yn gweithio neu y mae gwasanaethau'n cael eu darparu
  - Pwysau ariannol dros y tymor byr a chanolig.
- Sut y gallai ei asedau gael eu defnyddio yn y dyfodol, gan gynnwys eu gwerth ar y farchnad a chyfleoedd masnachol

Gallai'r cyngor fod wedi defnyddio offer fel dadansoddiad PESTLE, sganio'r gorwel neu gynllunio ar gyfer senarios i wneud hyn, gan gynnwys pobl berthnasol ar draws y cyngor a'r tu allan iddo fel y bo'n briodol.

## Dangosydd cadarnhaol

## Ffyrdd o weithio y mae hwn yn ymwneud â hwy

**Fe wnaeth y cyngor ystyried sut y gall ei asedau gyflawni blaenoriaethau sefydliadol ehangach** (sy'n gysylltiedig â'i amcanion llesiant a'r saith nod llesiant cenedlaethol) a **chael effaith ehangach**.

Gallai hyn gynnwys manteision ataliol ac ymwneud â'r canlynol, er enghraifft:

- Sut y gallai ei ddull o reoli asedau helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach, megis datgarboneiddio ac ansawdd aer.
- Sut y gallai ei ddull o reoli asedau gyflawni ei amcanion economaidd ac adfywio.
- Sut y gallai ei ddull o reoli asedau gyflawni amcanion cymdeithasol a diwylliannol, sy'n gysylltiedig ag amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd, llesiant. cydlyniant cymunedol neu'r Gymraeg.
- Sut y gallai newidiadau i wasanaethau effeithio ar ofynion o ran asedau, gan gynnwys trwy newidiadau mewn lefelau staff a gofynion o ran sgiliau
- Sut y gallai ei ddull o reoli asedau helpu i gyflawni a lliniaru effaith arbedion ariannol.
- Sut y gallai datblygiadau mewn rhannau eraill o'r busnes, megis ymagwedd y cyngor at dechnoleg ddigidol, gael effaith ar y gweithlu.

Fel rhan o hyn, mae'r Cyngor yn debygol o fod wedi cynnwys cydweithwyr ar draws y sefydliad i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth am flaenoriaethau, pwysau a chyfleoedd.

Gallai'r cyngor fod wedi defnyddio offer fel 'Asesiad Effaith Integredig' (os oes un ganddo) i archwilio'r cydgysylltiadau rhwng amcanion, blaenoriaethau, materion ac effeithiau.

Integreiddio, atal

## Dangosydd cadarnhaol

## Ffyrdd o weithio y mae hwn yn ymwneud â hwy

**Fe wnaeth y cyngor adnabod pwy yr oedd angen iddo'u cynnwys wrth ddatblygu a chyflawni ei ddull o reoli asedau ac fe roddodd arfer da ar waith wrth eu cynnwys.** Fel rhan o hyn:

Cynnwys

- Fe ddarparodd gyfleoedd dilys i bobl ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni ei ddull strategol a phenderfyniadau unigol o adeg gynnar.
- Fe geisiodd farn amrywiaeth lawn y boblogaeth ac fe sicraodd eu bod yn gallu cyfranogi. Roedd hyn yn cynnwys ceisio barn gwahanol genedlaethau.
- Fe wnaeth ystyried pa mor gynrychioliadol oedd ei weithgarwch cynnwys a ble allai fod bylchau. (gweler hefyd 'mae'r cyngor yn ceisio dysgu a gwella' isod).
- Mae'n defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i drefnu sut y mae'n cynllunio ac yn cyflawni.

**Fe wnaeth y cyngor adnabod y partneriaid yr oedd angen iddo weithio gyda hwy i gyflawni ei ddull o reoli asedau** (gan gynnwys yr ystod o fanteision ataliol/ ehangach a ddisgrifir uchod, megis gwella gwasanaethau, datgarboneiddio, adfywio economaidd) a sut y byddai'n gwneud hynny, mae:

Cydweithio, integreiddio

- Yn deall yr heriau a wynebir ganddynt, eu hamcanion/ blaenoriaethau a'r cyfleoedd cyffredin.
- Wedi datblygu perthnasoedd da â phartneriaid perthnasol trwy, er enghraifft, fuddsoddi amser mewn gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth mewn ffordd agored a thryloyw.
- Wedi datblygu trefniadau priodol i roi cymorth i weithio mewn partneriaeth, fel y bo angen (e.e. llywodraethu rhaglenni/ prosiectau, cynlluniau a dogfennaeth prosiect, trefniadau cyllido, mesurau perfformiad).

## Dangosydd cadarnhaol

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, **datblygodd y cyngor weledigaeth a dull, a oleuir gan ystyriaethau byrdymor a thymor hwy, ac a ategir gan drefniadau cyflawni priodol**. Roedd y dull:

- Yn nodi camau gweithredu eglur dros y tymor byr a chanolig, gan hefyd roi sylw i nodau/ystyriaethau tymor hwy.
- Yn ystyried manteision buddsoddi mewn dulliau hirdymor, ataliol a chost (yn gost ariannol ac o ran canlyniadau) peidio â gwneud hynny. Gallai hyn gynnwys sut y gallai atal problemau yn y dyfodol, megis costau cynyddol, allyriadau carbon, neu leihad yn ansawdd gwasanaethau neu yn llesiant staff.
- Wedi'i fwriadu i roi cymorth i gyflawni ei gynllun corfforaethol ac amcanion llesiant, yn ogystal â strategaethau a blaenoriaethau sefydliadol allweddol eraill.
- Wedi'i ategu gan strategaethau cysylltiedig a threfniadau cyflawni priodol. Ceir cysondeb rhwng trefniadau strategol a seiliedig-ar-wasanaethau.
- Yn nodi'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni yn y tymor byr a chanolig a'r risgiau tymor hwy a sut y gellid rheoli'r rhain, fel y bo'n briodol. Adlewyrchir hyn yng nghynllun ariannol tymor canolig y cyngor.
- Yn nodi mesurau a cherrig milltir/ camau cynnydd byrdymor a adnabuwyd lle bydd canlyniadau'n cael eu cyflawni dros y tymor canolig neu hwy.
- Yn ystyried sut i leihau i'r eithaf y gwastraff/ yr effaith negyddol ar adnoddau trwy gydol y broses gyflawni, e.e. ar gyfer prosiectau cyfalaf o ran defnyddio deunyddiau, effaith ar yr amgylchedd a.y.b.

## Ffyrdd o weithio y mae hwn yn ymwneud â hwy

Hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys

## Dangosydd cadarnhaol

**Mae'r cyngor yn dysgu ac yn gwella** sut y mae'n rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn ei waith ar asedau. Gallai hyn gynnwys:

- Adolygu a chryfhau sut y mae'n cynnwys rhanddeiliaid ac yn cydweithio gyda hwy
- Adolygu a chryfhau sut y mae'n defnyddio data i oleuo prosesau penderfynu a gwerth am arian
- Ymateb i argymhellion gan Archwilio Cymru, yn ogystal ag argymhellion perthnasol a chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y bo'n briodol.
- Dysgu oddi wrth gymheiriaid.

## Ffyrdd o weithio y mae hwn yn ymwneud â hwy

Hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys

## 2 Dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr egwyddor datblygu cynaliadwy: Cynllunio'r gweithlu

Mae'r tabl isod yn nodi rhai dangosyddion cadarnhaol i helpu i ddangos sut y gallai edrych pe bai'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei rhoi ar waith yn dda mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu. Gallai cynghorau ddefnyddio'r dangosyddion hyn i'w helpu i ddatblygu eu dull strategol o gynllunio'r gweithlu, neu elfennau penodol o hynny. Maent wedi cael eu haddasu o'r rhai yr ydym wedi'u defnyddio'n flaenorol i oleuo ein harchwiliadau o roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Nid yw'r rhestr hon wedi'i bwriadu i gael ei defnyddio fel rhestr wirio ac mae wedi'i bwriadu i gael ei dehongli i gyd-fynd â threfniadau a chyd-destunau sefydliadol. Wrth ddatblygu'r dangosyddion hyn, rydym wedi ceisio cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac wedi ystyried y '[Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Waith](#)'.



## Dangosydd cadarnhaol

## Ffyrdd o weithio y mae hyn yn ymwneud â hwy

**Mae'r cyngor yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr am ei weithlu**, y risgiau a'r gofynion, a sut y maent yn debygol o newid dros amser. Gallai hyn ymwneud â'r canlynol, er enghraifft:

Hirdymor, atal, cynnwys

- Cyfansoddiad ei weithlu, gan gynnwys ble y ceir bylchau o ran sgiliau a chapasiti a sut y mae hyn yn effeithio ar gyflawni a gwerth am arian.
- Sut a ble y mae staff yn gweithio
- Llesiant staff
- Ffactorau mewnol ac allanol a allai effeithio ar ei weithlu dros y tymor byr, canolig a hwy. Gallai hyn gynnwys:
  - Newidiadau mewn arferion gweithio, diwylliant, disgwiliadau a dewisiadau staff.
  - Gofynion o ran staffio a sgiliau yn y dyfodol.
  - Bylchau o ran sgiliau sy'n dod i'r amlwg/ parhau mewn meysydd arbenigol
  - Newidiadau technolegol a allai ddylanwadu ar sut a ble y mae staff yn gweithio neu y mae gwasanaethau'n cael eu darparu
  - Pwysau ariannol dros y tymor byr a chanolig.

Gallai'r cyngor fod wedi defnyddio offer fel dadansoddiad PESTLE, sganio'r gorwel neu gynllunio ar gyfer senarios i wneud hyn, gan gynnwys pobl berthnasol ar draws y cyngor a'r tu allan iddo fel y bo'n briodol.

## Dangosydd cadarnhaol

## Ffyrdd o weithio y mae hyn yn ymwneud â hwy

**Fe wnaeth y cyngor ystyried sut y gallai ei ddull o gynllunio'r gweithlu gyflawni blaenoriaethau sefydliadol ehangach** (sy'n gysylltiedig â'i amcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol) a **chael effaith ehangach**. Gallai hyn gynnwys manteision ataliol ac ymwneud â'r canlynol, er enghraifft;

Integreiddio, atal

- Sut y gallai ei ddull o gynllunio'r gweithlu effeithio ar sut a ble y mae staff yn gweithio, a allai yn ei dro helpu i gyflawni ei amcanion rheoli asedau a manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cysylltiedig (gweler y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'rheoli asedau').
- Sut y gallai newidiadau i wasanaethau effeithio ar lefelau staff a gofynion o ran sgiliau a sut y gallai'r dull o gynllunio'r gweithlu helpu i reoli hyn yn llwyddiannus
- Sut y gallai'r dull o gynllunio'r gweithlu helpu i gyflawni amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg a gwella llesiant staff
- Sut y gallai ei ddull o gynllunio'r gweithlu helpu i gyflawni a lliniaru effaith arbedion ariannol.
- Sut y gallai datblygiadau mewn rhannau eraill o'r busnes, megis ymagwedd y cyngor at dechnoleg ddigidol, gael effaith ar y gweithlu.

Fel rhan o hyn, mae'r Cyngor yn debygol o fod wedi cynnwys cydweithwyr ar draws y sefydliad i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth am flaenoriaethau, pwysau a chyfleoedd.

Gallai'r cyngor fod wedi defnyddio offer fel 'Asesiad Effaith Integredig' (os oes un ganddo) i archwilio'r cydgysylltiadau rhwng amcanion, blaenoriaethau, materion ac effeithiau.

## Dangosydd cadarnhaol

## Ffyrdd o weithio y mae hyn yn ymwneud â hwy

**Fe wnaeth y Cyngor gynnwys staff a'u cynrychiolwyr wrth ddatblygu a chyflawni ei ddull o gynllunio'r gweithlu a rhoi arfer da ar waith wrth gynnwys y rhain.** Fel rhan o hyn:

Cynnwys

- Fe ddarparodd gyfleoedd dilys i bobl ddylanwadu ar ei ddull/ penderfyniadau unigol o adeg gynnar.
- Fe geisiodd farn amrywiaeth lawn ei staff ac fe gymerodd gamau i sicrhau eu bod yn gallu cyfranogi. Roedd hyn yn cynnwys ceisio barn gwahanol genedlaethau.
- Fe wnaeth ystyried pa mor gynrychioliadol oedd ei weithgarwch cynnwys a ble y gallai fod bylchau. (gweler hefyd 'mae'r cyngor yn ceisio dysgu a gwella' isod).
- Fe ddefnyddiodd ganlyniadau gweithgarwch cynnwys wedyn i drefnu sut yr oedd yn cynllunio ac yn cyflawni'n barhaus.

**Fe wnaeth y cyngor adnabod y partneriaid yr oedd angen iddo weithio gyda hwy i gyflawni ei ddull o gynllunio'r gweithlu** (gan gynnwys y manteision ataliol/ ehangach a ddisgrifir uchod, gwella gwasanaethau, cydraddoldeb ac amrywiaeth), mae:

Cydweithio, integreiddio

- Yn deall yr heriau a wynebir ganddynt, eu hamcanion/ blaenoriaethau a'r cyfleoedd cyffredin.
- Wedi datblygu perthnasoedd da â phartneriaid perthnasol trwy, er enghraifft, fuddsoddi amser mewn gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth mewn ffordd agored a thryloyw.
- Wedi datblygu trefniadau priodol i roi cymorth i weithio mewn partneriaeth, fel y bo angen (e.e. llywodraethu rhaglenni/ prosiectau, cynlluniau a dogfennaeth prosiect, trefniadau cyllido, mesurau perfformiad).

## Dangosydd cadarnhaol

## Ffyrdd o weithio y mae hyn yn ymwneud â hwy

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, **datblygodd y cyngor weledigaeth a dull, a oleuir gan ystyriaethau byrdymor a thymor hwy, ac a ategir gan drefniadau cyflawni priodol**. Roedd y dull:

Hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys

- Yn nodi camau gweithredu eglur dros y tymor byr a chanolig, gan hefyd roi sylw i nodau/ystyriaethau tymor hwy.
- Yn ystyried manteision buddsoddi mewn dulliau hirdymor, ataliol a chost (yn gost ariannol ac o ran canlyniadau) peidio â gwneud hynny. Gallai hyn gynnwys sut y gallai atal problemau yn y dyfodol, megis costau cynyddol, allyriadau carbon, neu leihad yn ansawdd gwasanaethau neu yn llesiant staff.
- Wedi'i fwrriadu i roi cymorth i gyflawni ei gynllun corfforaethol ac amcanion llesiant, yn ogystal â strategaethau a blaenoriaethau sefydliadol allweddol eraill.
- Wedi'i ategu gan strategaethau cysylltiedig a threfniadau cyflawni priodol. Ceir cysondeb rhwng trefniadau strategol a seiliedig-ar-wasanaethau.
- Yn nodi'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni yn y tymor byr a chanolig a'r risgiau tymor hwy a sut y gellid rheoli'r rhain, fel y bo'n briodol. Adlewyrchir hyn yng nghynllun ariannol tymor canolig y cyngor.
- Yn nodi mesurau a cherrig milltir/ camau cynnydd byrdymor a adnabuwyd lle bydd canlyniadau'n cael eu cyflawni dros y tymor canolig neu hwy.

## Dangosydd cadarnhaol

**Mae'r cyngor yn ceisio dysgu a gwella** sut y mae'n rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth gynllunio'r gweithlu. Gallai hyn gynnwys:

- Adolygu a chryfhau sut y mae'n cynnwys rhanddeiliaid ac yn cydweithio gyda hwy.
- Adolygu a chryfhau sut y mae'n defnyddio data i oleuo prosesau penderfynu a gwerth am arian
ensure that they are operating effectively	<p><del>Whistleblowing policy has been reviewed and is awaiting approval by Overview and Scrutiny Co-ordinating Committee and Cabinet.</del></p> <p><del>Revised Officer Code of Conduct and Declaration of Interest forms to be presented to Scrutiny Committee</del></p> <p>Report on generic whistleblowing activity to be presented to Overview and Scrutiny Co-ordinating Committee.</p>			
A3.1 Ensuring members and Staff demonstrate a strong commitment to the rule of the law as well as adhering to relevant laws and regulations	Privacy notices for Councillors being developed and to be provided by Data Protection Officer.	Demonstrating strong commitment to rule of law. and adherence to relevant laws and regulations	EP/LE/AM	March 2024
A3.2 Creating the conditions to ensure that the statutory Officers, other key post holders and members are able to fulfil their responsibilities in accordance with legislative and regulatory requirements.	CMIA to complete professional qualification	Ensuring key post holders are able to fulfil their responsibilities in accordance with legislative and regulatory requirements.	EP/AJ	March 2024

Issue	Action	Outcome	Lead Officer	Completion Date
B1.1 Ensuring an open culture through demonstrating, documenting and communicating the organisation's commitment to openness	<u>FOI Policy and EIR Policy both to be further updated under current business plan.</u> Review of the FOI Publication Scheme <u>is in progress to be undertaken.</u>	Demonstrating commitment to openness.	LE/AW/MNH	March 2024
B3.1 Establishing a clear policy on the type of issues that the organisation will meaningfully consult with or involve individual citizens, service users and other stakeholders to ensure that service (or other) provision is contributing towards the achievement of intended outcomes	A new Engagement and Participation Policy, 'Talking, Listening and Working Together' has been published. Implementation of this policy to be considered before action complete.	Improving Community Engagement.	AW	March 2024
D2.3 Considering and monitoring risks facing each partner when working collaboratively including shared risks	To continue to take into account legislative changes e.g. Local Government and Elections (Wales) Act 2021.  To implement legislative changes, such as regarding the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 and	Risk management and compliance with legislation to demonstrate commitment to rule of law.	AW/EP	March 2024

Issue	Action	Outcome	Lead Officer	Completion Date
	consider/monitor risks facing each partner when working collaboratively, including shared risks.			
E2.2 Publishing a statement that specifies the types of decisions that are delegated and those reserved for the collective decision making of the governing body	Delegated Decision Register to be published.	Further clarity on which decisions are delegated through communication by way of publication.	EP	March 2024
G3.1 Ensuring that recommendations for corrective action made by external audit are acted upon	Monitor progress of actions/recommendations – ongoing action.	Assurances and managing risk.	EP/AW	March 2024

## 7 Conclusion

The annual governance framework review measured progress against the new CIPFA/SOLACE Delivering Good Governance Framework (2016) and overall governance arrangements were found to be acceptable or good. The review confirmed that the Council's governance arrangements are effective and fit for purpose.

The Council has made good progress during the year with recorded achievements against each of the seven core principles.

The development of a Local Code of Corporate Governance bringing together all the local codes and documents together in one document provides assurance that there are clear governance arrangements in place.

The Council has identified a number of minor issues for resolution during 2023/24 and has set these out in an action plan for completion (as above). The actions taken as a direct result of the pandemic will be recorded, as appropriate.

## 8 Certification of Annual Governance Statement

We propose over the coming year to take steps to address the above matters to further enhance our governance arrangements. We are satisfied that these steps will address the need for improvements that were identified in our review of effectiveness throughout the 2023/24 year and will monitor their implementation and operation as part of our next annual review. It is acknowledged that the pandemic may hinder some of these steps, which will be addressed and reported accordingly to Council in the 2023/24 AGS.

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>27ain Medi 2023</b>
<b>Lleoliad:</b>	<b>Hybrid</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Hunan-asesu Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu 2022-2023</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	<b>Ystyried gallu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu i Hunan-asesu.</b>
<b>Ar gyfer:</b>	<b>Argymhelliad</b>
<b>Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:</b>	<b>Mathew Vaux, Aelod y Cabinet dros Bartneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd.</b>

**Cefndir**

Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) *Pwyllgorau Asesu: Arweiniad Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a Pholisi* (Argraffiad 2018) yn nodi canllawiau ar swyddogaeth a gweithrediad pwyllgorau Asesu.

Yn 2022, cyhoeddodd y CIPFA ddiwygiad o'r "*Pwyllgorau Llywodraethu ac Asesu: Arweiniad Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a Pholisi*". Canllawiau sy'n nodi swyddogaeth a gofynion gweithredu hunanasesu pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio gan gynnwys hunanasesu.

Nod y canllaw yw:

- cynorthwyo aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu i ddeall pwrpas y pwyllgor, a swyddogaethau craidd (ac yn bosibl, ehangach), eu dyletswyddau fel aelodau, annibyniaeth ac atebolrwydd, ac effeithlonrwydd.
- meysydd lle gall pwyllgorau archwilio ddylanwadu arnynt, ychwanegu gwerth, a chefnogi llywodraethu cyffredinol o fewn yr awdurdod.

**Hunan-asesu**

Mae Canllawiau 2022 yn cynnwys canllawiau ar ddatblygu effeithiolrwydd ac yn argymhell bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu yn ystyried:

- ei fod yn gweithredu yn unol â'r arferion sy'n cael ei argymhell yng Nghanllawiau 2022,

- a yw'n cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.
- i fyfyrion ar sut/a yw wedi cyflawni ei gylch gorchwyl/swyddogaethau craidd,
- ystyried sut mae'n gweithredu (e.e. hyfforddi, cefnogi a datblygu profiad/gwybodaeth),
- ei effeithiolrwydd (effaith ar ansawdd llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risg a threfniadau archwilio boddhaol) ac unrhyw adborth gan y rhai sy'n rhyngweithio ag ef,
- Mae angen adolygu gwybodaeth a sgiliau'r aelodau,
- Gwerthuso ei effaith a nodi meysydd i'w gwella.

Yn ogystal, dylid ystyried y canlynol:

- Cyfraniad ac effaith gadarnhaol y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu ar waith yr awdurdod
- effaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu
- darganfod meysydd i'w gwella
- hyfforddiant
- Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu yn darparu adborth cyffredinol unigol i'r aelodau

Mae Canllawiau 2022 yn argymhell bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu yn rhoi adroddiad ar eu heffeithlonrwydd yn adroddiad blynyddol y Cadeirydd.

### **Hunan-asesiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu 2022-2023**

Yn dilyn cylchrediad o arolwg a gweithdy, ar 10fed Mawrth 2022 ystyriwyd drafft Hunan-asesu a Gwerthusiad o'r Adolygiad Effeithlonrwydd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu ('y Pwyllgor'). Cytunwyd y byddai'r ddogfen yn cael ei hail-ystyried er mwyn cyflwyno adolygiad terfynol yn y cyfarfod Pwyllgor nesaf.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor 7fed Mehefin 2022, cadarnhawyd bod y drafft Hunan-asesu a Gwerthuso Effeithlonrwydd wedi'i ychwanegu at y Blaenraglen Waith dan y cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer Medi 2022 yn y gobaith y byddai Gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer y Pwyllgor newydd o flaen llaw i'r cyfarfod er mwyn ail-ystyried y ddogfen a thrafod sgiliau'r Pwyllgor newydd. Cytunwyd y byddai gweithdy'n cael ei gynnal cyn y cyfarfod ym mis Medi er mwyn coladu sgiliau Aelodau'r Pwyllgor.

. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Tachwedd 2022.

Cynhaliwyd gweithdy pellach ar 13/06.23 er mwyn i'r Pwyllgor ystyried y drafft Hunan-asesu a Gwerthusiad o'r Adolygiad Effeithlonrwydd. Mae'r ddogfen Hunan-asesu ymarfer dda wedi'i atodi a'i chwblhau (gweler Atodiad 1-"Atodiad E")

Ni gyflawnwyd gan y Pwyllgor yr adnodd CIPFA 'Gwerthuso effaith ac effeithlonrwydd y pwyllgor asesu' ("Atodiad F")

### **Y Sefyllfa Bresennol**

Mae angen i'r Pwyllgor erbyn hyn ystyried:



## Tudalen 337

- os ydy'r ymarfer hunanasesu wedi'i gwblhau ar gyfer 2022-23
- Yn y dyfodol, mae'n dymuno defnyddio offer '*Hunanasesiad o arfer da*' CIPFA a '*Gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd y pwyllgor archwilio*', neu ddefnyddio dull arall o hunanasesu.

**Argymhellion:** bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- 1) nodi cynnwys y ddogfen drafft 'Hunan-asesu arfer dda' (i **atodiad 1**)
- 2) ystyried os yw'r ymarferion hunanasesu ar gyfer 2022-23 wedi'i gwblhau; a
- 3) Yn ystyried a yw'r Pwyllgor yn dymuno cynnal gweithdrefn hunanasesu ddiwygiedig ar gyfer proses hunanasesu 2023-2024.

**Rhesymau dros yr Awgrymiadau:** Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu yn fodlon bod y trefniadau sicrwydd effeithiol mewn lle er mwyn rheoli materion ariannol, rheolaeth risg, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol yr awdurdod.

**Atodiadau:** Atodiad 1 -Adnodd 'Hunan-asesu ac arfer dda' y CIPFA, a gwblhawyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu (Atodiad E)

**Pennaeth y Gwasanaeth:** Elin Prysor-Swyddog Arweiniol Corfforaethol:Gwasanaeth Llywodraethu a Chyfreithiol (a Swyddog Asesu)

**Swyddog Adrodd:** Hannah Rees, Swyddog Llywodraethu

**Dyddiad:** 6/9/23

# Self-assessment of good practice

This appendix provides a high-level review that incorporates the key principles set out in CIPFA's Position Statement and this publication. Where an audit committee has a high degree of performance against the good practice principles, it is an indicator that the committee is soundly based and has in place a knowledgeable membership. These are the essential factors in developing an effective audit committee.

A regular self-assessment should be used to support the planning of the audit committee work programme and training plans. It will also inform the annual report.

Good practice questions	Does not comply	Partially complies and extent of improvement needed*			Fully complies
	Major improvement	Significant improvement	Moderate improvement	Minor improvement	No further improvement
Weighting of answers	0	1	2	3	5

## Audit committee purpose and governance

- 1 Does the authority have a dedicated audit committee that is not combined with other functions (eg standards, ethics, scrutiny)?
- 2 Does the audit committee report directly to the governing body (PCC and chief constable/full council/full fire authority, etc)?
- 3 Has the committee maintained its advisory role by not taking on any decision-making powers?
- 4 Do the terms of reference clearly set out the purpose of the committee in accordance with CIPFA's 2022 Position Statement?
- 5 Do all those charged with governance and in leadership roles have a good understanding of the role and purpose of the committee?
- 6 Does the audit committee escalate issues and concerns promptly to those in governance and leadership roles?
- 7 Does the governing body hold the audit committee to account for its performance at least annually?

\* Where the committee does not fully comply with an element, three options are available to allow distinctions between aspects that require significant improvement and those only requiring minor changes.

Good practice questions	Does not comply					Partially complies and extent of improvement needed					Fully complies														
	Major improvement					Significant improvement					Moderate improvement					Minor improvement					No further improvement				
Weighting of answers	0					1					2					3					5				
8 Does the committee publish an annual report in accordance with the 2022 guidance, including:																									
<ul style="list-style-type: none"> <li>compliance with the CIPFA Position Statement 2022</li> </ul>																									
<ul style="list-style-type: none"> <li>results of the annual evaluation, development work undertaken and planned improvements</li> </ul>																									
<ul style="list-style-type: none"> <li>how it has fulfilled its terms of reference and the key issues escalated in the year?</li> </ul>																									
<b>Functions of the committee</b>																									
9 Do the committee's terms of reference explicitly address all the core areas identified in CIPFA's Position Statement as follows?																									
Governance arrangements																									
Risk management arrangements																									
Internal control arrangements, including:																									
<ul style="list-style-type: none"> <li>financial management</li> <li>value for money</li> <li>ethics and standards</li> <li>counter fraud and corruption</li> </ul>																									
Annual governance statement																									
Financial reporting																									
Assurance framework																									
Internal audit																									
External audit																									
10 Over the last year, has adequate consideration been given to all core areas?																									
11 Over the last year, has the committee only considered agenda items that align with its core functions or selected wider functions, as set out in the 2022 guidance?																									
12 Has the committee met privately with the external auditors and head of internal audit in the last year?																									

Good practice questions	Does not comply					Partially complies and extent of improvement needed				Fully complies
	Major improvement	Significant improvement	Moderate improvement	Minor improvement	No further improvement					
Weighting of answers	0	1	2	3	5					

## Membership and support

<p><b>13</b> Has the committee been established in accordance with the 2022 guidance as follows?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Separation from executive</li> <li>• A size that is not unwieldy and avoids use of substitutes</li> <li>• Inclusion of lay/co-opted independent members in accordance with legislation or CIPFA's recommendation</li> </ul>										
<b>14</b> Have all committee members been appointed or selected to ensure a committee membership that is knowledgeable and skilled?										
<b>15</b> Has an evaluation of knowledge, skills and the training needs of the chair and committee members been carried out within the last two years?										
<b>16</b> Have regular training and support arrangements been put in place covering the areas set out in the 2022 guidance?										
<b>17</b> Across the committee membership, is there a satisfactory level of knowledge, as set out in the 2022 guidance?										
<b>18</b> Is adequate secretariat and administrative support provided to the committee?										
<b>19</b> Does the committee have good working relations with key people and organisations, including external audit, internal audit and the CFO?										

## Effectiveness of the committee

<b>20</b> Has the committee obtained positive feedback on its performance from those interacting with the committee or relying on its work?										
<b>21</b> Are meetings well chaired, ensuring key agenda items are addressed with a focus on improvement?										
<b>22</b> Are meetings effective with a good level of discussion and engagement from all the members?										
<b>23</b> Has the committee maintained a non-political approach to discussions throughout?										

# Tudalen 341

## AUDIT COMMITTEES \ PRACTICAL GUIDANCE FOR LOCAL AUTHORITIES AND POLICE

Good practice questions	Does not comply					Fully complies
	Partially complies and extent of improvement needed					
	Major improvement	Significant improvement	Moderate improvement	Minor improvement	No further improvement	
Weighting of answers	0	1	2	3	5	
24 Does the committee engage with a wide range of leaders and managers, including discussion of audit findings, risks and action plans with the responsible officers?						
25 Does the committee make recommendations for the improvement of governance, risk and control arrangements?						
26 Do audit committee recommendations have traction with those in leadership roles?						
27 Has the committee evaluated whether and how it is adding value to the organisation?						
28 Does the committee have an action plan to improve any areas of weakness?						
29 Has this assessment been undertaken collaboratively with the audit committee members?						
<b>Subtotal score</b>						
<b>Total score</b>						
<b>Maximum possible score</b>						<b>200**</b>

\*\* 40 questions/sub-questions multiplied by five.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>27 Medi 2023</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/23 – 30/6/23</b>
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	<b>Darparu diweddariad i'r Aelodau ynglŷn â'r gwaith a wnaed gan yr adain archwilio mewnol yn ystod y cyfnod dan sylw</b>

Bu i'r Pwyllgor ystyried y Strategaeth Archwilio Mewnol blynyddol 2023/24 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024 lle pennwyd y prif feysydd gwaith i'r cynllun archwilio 2023/24. Ddaru'r Cynllun cynnwys adolygiadau a gafodd eu dwyn ymlaen o gynllun archwilio'r flwyddyn flaenorol, archwiliadau rheolaidd ee ardystio grantiau a gwaith cafodd ei flaenoriaethu ar sail risg, a ddefnyddir gan yr Adain Archwilio Mewnol er mwyn ffurfio barn sicrwydd.

O ran 2023/24, cynhaliwyd y asesiad risg yn ogystal â ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol o Cofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor gan fod y Cyngor yn wynebu risgiau newydd sy'n newid o hyd. Bydd AM felly yn asesu ei waith yn barhaus, gan ystyried anghenion a blaenoriaethau newidiol y Cyngor yn rheolaidd. Mae unrhyw waith adweithiol a ychwanegir at y Cynllun Gweithredol yn cael ei adrodd yn yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yma o ran cyflawni'r cynllun archwilio drwy ddarparu crynodeb o'r gwaith a wnaed. Mae hefyd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran adnoddau yn ogystal â chynllun gwella'r Adain.

<b>Argymhelliad:</b>	<b>Ystyried y gwaith a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran yr Adain Archwilio Mewnol.</b>
----------------------	--

<b>Rheswm dros y penderfyniad:</b>	<b>Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol yn ymgymryd â gwaith priodol a digonol i ddarparu sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.</b>
------------------------------------	---

<b>Atodiadau:</b>	<b>Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/23-30/6/23</b>
-------------------	--

<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	<b>Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro</b>
---	--

<b>Swyddog Adrodd:</b>	<b>Alex Jenkins Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol</b>
------------------------	--

<b>Dyddiad:</b>	<b>18 Gorffennaf 2023</b>
-----------------	---------------------------

# Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

## Legal and Governance Services

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Internal Audit Service



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

## Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol

### Internal Audit Progress Report

1 Ebrill – 30 Mehefin 2023

Paratowyd gan: Alex Jenkins,  
Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol

Dyddiad Cyhoeddi: 18 Gorffennaf 2023

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac  
Archwilio: 27 Medi 2023



# ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL


01/4/2023 – 31/6/2023

## 1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyflwynwyd y Strategaeth Archwilio a'r Rhaglen Flynyddol am 2023/24 i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor (PLIA) ar 9 Mawrth 2023.
- 1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r PLIA am y gwaith a wnaed gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol (AM) yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24 a thynnu sylw at unrhyw faes pryder a allai fod wedi dod i'r amlwg yn yr archwiliadau a gwblhawyd.
- 1.3 Ar 30/06/2023 roedd cyfanswm o 85 eitem yn y Cynllun Archwilio Dros Dro gweithredol. Roedd y rhain yn grynhoed o 77 darn o waith a gynlluniwyd yn cynnwys archwiliadau o'r Strategaeth Flynyddol & Cynllun. Cafodd y 8 eitem a oedd yn weddill eu hychwanegu yn ystod y chwarter cyntaf, h.y. gwaith ymatebol. Ceir rhagor o fanylion am y rhain yn Adran 3.

## 2 Y GWAITH ARCHWILIO A WNAED

- 2.1 Y Cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Archwilio:



Tudalen 345

2.2 Cwblhawyd pump darn o waith yn ystod y chwarter (gweler y tabl isod) a bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth benderfynu ynghylch barn flynyddol yr Adain Archwilio Mewnol:

Maes Archwilio	Math o Archwiliad	Sicrwydd
<b>Systemau Draenio Cynaliadwy</b> Sgôp: Asesu a chael sicrwydd bod gan y Cyngor system ar waith sy'n cydymffurfio â gofynion rheoliadol.	System	Sylweddol
<b>Stoc yr Amgueddfa</b> Sgôp: Gwiriad annibynnol o stoc oherwydd anghysondebau a ganfuwyd yn y cyfrif stoc diwedd blwyddyn i'r System Derbyn Arian Parod	Ymchwiliad Arbennig	Cyfyngedig
<b>Ymchwiliad Arbennig</b> Sgôp: Ymchwiliad annibynnol y gofynnwyd amdano gan Adnoddau Dynol, archwiliad dilynol i 'Eitemau coll – Ymchwiliad Arbennig'	Ymchwiliad Arbennig	YA
<b>Protocol Seibiant Taliadau Uniongyrchol</b> Sgôp: Adolygu a darparu cyngor ar brotocol seibiant ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.	Ymgynghoriaeth	Amherthnasol
<b>Darpariaeth Wyneb i Wyneb</b> Sgôp: Darparu cyngor ar weithdrefnau a rheolaethau arfaethedig ar y ddarpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid wyneb yn wyneb a ailgyflwynir gan gynnwys: gweithdrefnau trin arian, bancio a diogelwch.	Cynghori	Cynghori

2.3 Rhestrir isod enghreifftiau o arfer da sydd wedi'i nodi o'r archwiliadau a gwblhawyd y chwarter hwn. Mae'r gwaith hwn hefyd yn rhan o'r broses sicrwydd flynyddol:


- **Systemau draenio cynaliadwy (SDCau)**
  - Mae gan y Cyngor ddogfennau a chanllawiau digonol sy'n helpu i gefnogi gweithredu SDCau
  - Mae'r ffurflen gais yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol fel y nodir yn y safonau
  - Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi canllawiau i ddatblygwyr ac ymgeiswyr ac wedi darparu dolenni i ddeddfwriaeth, fframweithiau a chanllawiau allanol perthnasol
  - Risgiau llifogydd wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (SDCau wedi'u cynnwys yn flaenorol, camau lliniaru wedi'u cwblhau)
- **Amgueddfa Ceredigion – Cyfrif Stoc**
  - Cyfrifon Stoc Blynyddol wedi'u cynnal
  - Cynhelir cyfrifon stoc interim o gyflenwyr unigol o bryd i'w gilydd
- Cafodd y gwaith cynghori ac ymgynghori a gwblhawyd yn ystod y chwarter eu cynnwys ar y cynllun yn dilyn cais gan y gwasanaethau. Mae'n braf bod

**gwasanaethau'n ceisio cyngor Archwilio Mewnol yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisiau a gweithdrefnau.**

2.4 Mae cyfanswm o 18 o eitemau yn y rhaglen yn ddarnau o waith sy'n parhau. Mae Archwilio Mewnol wedi nodi enghreifftiau o arferion da o blith y rhain yn ystod y chwarter. Bydd y rhain hefyd yn cael eu hystyried wrth ffurfio barn flynyddol yr Adain Archwilio Mewnol:


- **Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes** – Cynlluniau Parhad Busnes Corfforaethol yn cael eu hadolygu a'u diweddarau gan wasanaethau a staff Argyfyngau Sifil. Rhoddwyd hyfforddiant i Reolwyr Corfforaethol i ddatblygu cynlluniau i ymateb i ymosodiadau meddalwedd wystlo.
- **Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol** – cynigion prosiectau newydd wedi'u darparu a'r panel wedi gofyn am gamau gweithredu lle'n briodol.
- **Gweithdy i Reolwyr Corfforaethol** – rhoi diweddariadau i reolwyr ynghylch ffyrdd o weithio, polisiau a gweithdrefnau er gwybodaeth ac i ddatblygu rôl.
- **Grŵp Seibergadernid a Llywodraethu Gwybodaeth** – mae'r Grŵp yn rhoi cefnogaeth weithredol, parodrwydd a chyfeiriad i fynd i'r afael â risgiau seiber a'u lleihau, a gwella diogelwch seiber, diogelwch gwybodaeth a llywodraethiant y Cyngor.
- **NMWAG – Twyll**. Y nod yw rhannu gwybodaeth a sgiliau ar atal twyll er mwyn adeiladu cadernid drwy'r Awdurdodau Lleol. Cafodd ymatebion twyll Archwilio Cymru eu rhannu er mwyn penderfynu ar gyfeiriad y grŵp yn y dyfodol.

2.5 Mae'r lefelau o sicrwydd a ddarparwyd ar gyfer yr holl archwiliadau a gwblhawyd hyd yma eleni fel a ganlyn:



2.6 Ceir canllaw i'r meini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu ynghylch y lefel sicrwydd yn Atodiad I.

2.7 Cafodd cyfanswm o 15 o 'gampau i'w cymryd' eu hargymell yn yr adroddiadau a gwblhawyd yn ystod y chwarter. O'r rheiny, barnwyd bod 3 yn 'angenrheidiol', 8 yn 'sylfaenol', 2 yn 'ganolig' a 2 yn mân sylwadau:



2.8 Amlinellir y meini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu ynghylch y 'camau i'w cymryd' yn Atodiad II

2.9 Mae'r 3 cam gweithredu angenrheidiol a'r 8 cam sylfaenol a nodwyd yn ystod y trydydd chwarter i'w gweld isod:

#### Systemau Draenio Cynaliadwy

##### A1

Fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cofrestr asedau o strwythurau a allai effeithio ar berygl llifogydd yn cael ei chreu a'i chynnal. Gan fod yn rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd, dylid ystyried cynnwys canllawiau ar sut i weld y gofrestr neu ddolen i'r gofrestr o wefan y Cyngor.

#### Amgueddfa Ceredigion - Stoc

##### A1

Mae'n rhaid dogfennu gweithdrefnau i sicrhau bod archwiliadau yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n gywir, bod gwybodaeth yn cael ei chadw yn unol â'r Rhaglen Gadw Gorfforaethol ac at ddibenion parhad busnes.

##### A2

Rhaid cynnal gwiriad annibynnol o gyfrif stoc blynyddol i sicrhau bod cofnodion yn gywir. Os oes cyfyngiadau o ran adnoddau staff, dylai swyddog annibynnol wirio sampl o eitemau o'r cyfrif stoc blynyddol.

##### A3

Dylid cadw cofnod cyflawn o'r cyfrif stoc blynyddol ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ynghyd ag un flwyddyn (2 flynedd) yn unol â Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor.

##### A4

Dylid cymryd gofal i sicrhau bod pris manwerthu'r eitemau yn siop yr amgueddfa yn gyson â'r rhai a restrir ar y system EPOS.

Dylid gwirio sampl o gynhyrchion o bryd i'w gilydd i sicrhau bod marciau pris yn cyfateb i'r system EPOS.

Dylid gwirio pwyntiau pris pob eitem yn flynyddol, gellid gwneud hyn fel rhan o'r cyfrif stoc blynyddol

##### A5

Rhaid ymchwilio i bob anghysondeb. Fel Awdurdod Cyhoeddus, mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus ac ymchwilio i unrhyw achosion o golled bosibl.

Lle mae angen diwygio meintiau stoc ar y system EPOS, rhaid i'r rhain gael eu gwirio'n annibynnol.

##### A6

Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod unrhyw 'stoc marw' a gofnodwyd yn cael ei dynnu oddi ar y cofnod stoc ar y system EPOS i sicrhau bod cofnodion stoc yn gywir ac yn gyfredol at ddibenion rheoli stoc.

Rhaid i bob achos o dynnu stoc marw oddi ar y cofnod gael ei awdurdodi gan reolwr. Dylai rheolwyr ymchwilio i achosion rheolaidd o ddifrod/colled er mwyn lleihau'r risg o golli incwm.

##### A7

Rhaid ystyried perfformiad ac effeithlonrwydd y system EPOS bresennol a'i gallu i berfformio yn ôl yr angen i ddarparu rheolaethau mewnol effeithiol a chadarn i liniaru'r risgiau a nodwyd.

Lle na ellir dibynnu ar y system EPOS i gadw cofnodion cywir, rhaid cadw cofnodion stoc amgen i sicrhau rheolaeth stoc gywir, i leihau gwallau a cholledion ac i ddiogelu arian cyhoeddus.

## Ymchwiliad Arbennig

**A1**

Rhaid i'r gwasanaeth ddogfennu a rhannu protocol y cytunwyd arno gyda'r staff ar y broses dderbyniol i'w dilyn ar gyfer storio eiddo personol defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel.

**A2**

Os bydd y gwasanaeth yn penderfynu derbyn y gall eiddo personol defnyddwyr gwasanaeth gael ei storio yn eiddo preifat swyddogion o bryd i'w gilydd; rhaid creu gweithdrefnau wedi'u dogfennu a'u cyfleu i'r holl swyddogion perthnasol er mwyn sicrhau bod rheolaethau digonol ar waith i liniaru risgiau e.e. Cymeradwyaeth y Rheolwr Corfforaethol, stocrestr, datganiad ac awdurdodiad defnyddiwr gwasanaeth/eiriolwr.

**A3**

Dylid atgoffa swyddogion o bolisiâu a gweithdrefnau allweddol y Cyngor gan gynnwys y Cod Ymddygiad i Weithwyr a'r safonau gofynnol disgwylidig o ran ymddygiad swyddogion a Rheoliadau Ariannol y Cyngor fan lleiaf.

3. Ceir 8 eitem ymatebol yn y Cynllun Archwilio Mewnol Gweithredol fel a nodir yn y tabl (isod).

Maes Archwilio	Math o Archwiliad	Statws
<b>Amgueddfa Ceredigion – Gwiriad Annibynnol o'r Stoc</b>	YA	Wedi'i gwblhau
<b>Ymchwiliad Arbennig - CM</b>	YA	Wedi'i gwblhau
<b>Ymchwiliad Arbennig – Motability GC</b>	YA	Ar waith
<b>Ymchwiliad Arbennig – Grant Tai</b>	YA	Ar waith
<b>Ymchwiliad Arbennig – Gweinyddu'r Gronfa Gofalwyr</b>	YA	Ar waith
<b>Ymchwiliad Arbennig - Arian parod Canolfan Hamdden Aberaeron</b>	YA	Ar waith
<b>Protocol Seibiant Taliadau Uniongyrchol</b>	Ymgynghoriaeth	Wedi'i gwblhau
<b>Darpariaeth Wyneb yn Wyneb</b>	Cynghori	Wedi'i gwblhau

## 4 ADNODDAU

- 4.1 Roedd digon o adnoddau ar gyfer Archwilio Mewnol yn ystod chwarter cyntaf o 2023/24.
- 4.2 Neilltuwyd 186 niwrnod i waith archwilio yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 30 Mehefin 2023, sy'n cynrychioli 101% o'r diwrnodau yr amcangyfrifwyd yr oedd eu hangen i gwblhau'r cynllun archwilio hyd at ddiwedd y flwyddyn.
- 4.3 Mae'r RhCAM yn parhau i gefnogi Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (GPAC) sy'n sicrhau bod pob awdurdod yn dilyn arferion gorau ac yn gweithredu mewn ffordd gyson; ac yn cefnogi Grŵp Prif Archwilwyr Gogledd a Chanolbarth Cymru (GPAGChC) sy'n cymharu arferion ac yn rhannu dogfennau cyffredinol. Cynhelir y cyfarfodydd hyn gan ddefnyddio 'Teams'.
- 4.4 Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y GPAGChC Is-Grŵp i ystyried Atal Twyll, sy'n medru treulio mwy o amser ar y pwnc penodol yma. Mae'r Is-Grŵp yma'n cael ei fynychu gan y Rheolwr Archwilio (ar Teams).
- 4.5 Mae pob aelod staff yn sicrhau ei bod yn bodloni unrhyw amodau sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus, a'i bod yn cwblhau hyfforddiant gorfodol y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn:
  - Mae pob aelod o'r staff archwilio wedi gwneud y gweminarau a'r modiwlau e-ddysgu angenrheidiol. Roedd y system e-ddysgu wedi'i ail-ddatblygu ac roedd nifer o'r staff archwilio wedi gwneud cyrsiau diweddarau.
  - Mae'r RhCAM wedi cwblhau'r holl hyfforddiant ar Raglen Rheolwr Ceredigion.
  - Mae'r RhCAM ynghyd â staff eraill o AM lle bo hynny'n berthnasol wedi 'mynychu' gweminarau rheolaidd a gynhaliwyd gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol, CIPFA a Data Cymru.
  - Mae tri aelod o staff wrthi'n cwblhau cymwysterau Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol.
  - Mae'r Uwch Archwilydd wedi cwblhau ei chymhwyster fel Technegydd Atal Twyll Achrededig
- 4.6 Mae trefniadau hefyd ar waith i feithrin sgiliau staff y gwasanaeth AM yn barhaus yn y meysydd archwilio / digidol / TGCh / atal twyll, a hynny drwy gael hyfforddiant a thrwy danysgrifio i ffynonellau gwybodaeth fel Fforwm Llywodraethu Gwell CIPFA.

## 5 DANGOSYDDION PERFFORMIAD

5.1 Mae'r Dangosyddion Perfformiad y mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn eu defnyddio ar hyn o bryd i'w gweld isod ynghyd â ffigurau perfformiad Chwarter 1 (hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn).

Dangosydd	Mesur	Targed	Chwarter 4 (hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn)
Nifer yr archwiliadau a gwblhawyd	Nifer	-	5
Canran yr amser a gynlluniwyd ar ei gyfer sy'n cael ei dreulio ar archwiliadau.	%	80	101
Canran yr holiaduron rheoli ansawdd a ddychwelwyd.	%	50	75
Canran ymatebion y cleientiaid a oedd yn nodi eu bod yn 'fodlon' neu'n 'fwy na bodlon'.	%	95	100
Canran y camau a dderbyniwyd o gymharu â'r camau a gymerwyd	%	95	100
Nifer cyfartalog y diwrnodau rhwng diwedd yr archwiliad ac adeg cyhoeddi'r adroddiad drafft	Diwrnodau	10	1.3
Nifer cyfartalog y diwrnodau rhwng y cyfarfod ymadael a'r adroddiad terfynol	Diwrnodau	5	0

## 6 CYNLLUN GWELLA 2023/24

6.1 Mae'r Hunanasesiad Archwilio Mewnol wedi'i gwblhau gan y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol ac fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel eitem agenda ar wahân ynghyd â'r cynllun gwella dilynol ar gyfer 2023/24.

6.2 Bydd y cynnydd a wneir ar y meysydd y nodwyd bod angen eu gwella yng nghynllun gwella'r Hunanasesiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarterol y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol.



## Canllaw i'r meini prawf sicrwydd a ddefnyddiwyd:

Lefel:	Uchel	Sylweddol	Cymedrol	Cyfyngedig
<b>Digonolrwydd y rheolaethau:</b>	Mae rheolaethau ar waith i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i amddiffyn y Cyngor yn erbyn risgiau rhagweladwy sylweddol. Ni chanfuwyd dim gwendidau sylfaenol.	Mae rheolaethau ar waith i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i leihau risgiau rhagweladwy sylweddol. Nodwyd rhai meysydd i'w gwella.	Mae rheolaethau ar waith i raddau amrywiol. Nodwyd bylchau sy'n golygu bod y gwasanaeth yn agored i risgiau penodol. Mae angen sicrhau gwelliannau.	Ystyrir bod y rheolaethau yn annigonol. Mae angen cryfhau'r gweithdrefnau yn fawr gan sicrhau cydymffurfiaeth.
<b>Risgiau:</b>	Mân risgiau yn unig.	Mae'r cyfle yn bodoli i wella'r sefyllfa o ran bod yn agored i risg.	Mae angen cyflwyno rheolaethau ychwanegol a/neu wella cydymffurfiaeth.	Os na chaiff y rheolaethau eu gwella, mae'r Cyngor yn agored i risg sylweddol (colled ariannol fawr, colli enw da, methu â chyflawni amcanion allweddol y gwasanaeth).
<b>Canllaw:</b>	Nid oes angen cymryd camau gweithredu sylfaenol na sylweddol.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu sylfaenol . Mae angen cymryd rhai camau gweithredu sylweddol.	Mae angen cymryd nifer o gamau gweithredu sylweddol.	Mae angen cymryd nifer o gamau gweithredu sylfaenol / sylweddol.
<b>Camau dilynol sydd angen eu cymryd:</b>	Archwiliad cychwynnol yn unig.	Camau dilynol o ran unrhyw gamau gweithredu sylweddol yn unig / hunanasesiad gyda samplau i ddangos tystiolaeth o gydymffurfio.	Camau dilynol i'w cymryd gan Archwilio Mewnol gan gynnwys cynnal profion sampl i sicrhau bod pob cam wedi'i weithredu ac i ailasesu'r sicrwydd.	Camau dilynol i'w cymryd gan Archwilio Mewnol gan gynnwys cynnal profion llawn i sicrhau bod pob cam wedi'i weithredu ac i ailasesu'r sicrwydd.

Canllaw i'r camau gweithredu fesul dosbarth:

Y camau gweithredu fesul dosbarth			
Sylfaenol	Sylweddol	Cymedrol	Teilyngu sylw
Gwendid sy'n hanfodol i reoli'r risg o fewn y gwasanaeth. Angen rhoi gwybod amdano ac angen i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol roi sylw iddo.	Canfyddiadau pwysig sy'n nodi na chydymffurfiwyd â'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu a allai arwain at risg ariannol i'r gwasanaeth neu golli enw da.	Canfyddiadau pwysig sy'n nodi na chydymffurfiwyd â'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ond nad ydyw'n risg fawr i'r gwasanaeth o ran colled ariannol / colli enw da.	Eitemau lle mae angen cymryd ychydig o gamau neu ddim camau o gwbl. Wedi'i gynnwys gan y gallai fod o ddiddordeb i'r gwasanaeth neu am ei fod yn rhoi cyngor ynghylch arferion gorau.

**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio****Dyddiad y Cyfarfod: 27 Medi 2023****Teitl: Hunanasesiad Archwilio Mewnol 2022-23****Pwrpas yr adroddiad: Cynnig sicrwydd i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus**

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwysio Llywodraeth Leol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn disodli Cod 2006 ar gyfer Archwilio Mewnol. Daeth hwn i rym ym mis Ebrill 2013. Rhaid cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Nodyn Cydymffurfio er mwyn sicrhau bod arferion archwilio mewnol cywir yn cael eu cymhwyso.

Mae'r Nodyn Cymhwysio yn cynnwys rhestr wirio a ddatblygwyd i ddiwallu'r gofynion fel y'u hamlinellir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) 1311 a 1312 ar gyfer hunanasesiadau cyfnodol fel rhan o'r rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwelliant. Mae'n ymgorffori gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ogystal â'r Nodyn Cymhwysio er mwyn cwmpasu'r ddwy ddogfen mewn ffordd gynhwysfawr.

Amgaeir yr hunanasesiad llawn yn ei grynsyth, yn ogystal â'r cynllun gwella a ddaeth yn sgil yr hunanasesiad.

Er mwyn tynnu sylw at y newidiadau allweddol yn yr Hunanasesiad ar gyfer 2022-23, mae'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwella a adroddwyd i chi yn Hunanasesiad 2021-22 wedi cael sylw a'u marcio fel 'cydymffurfio'. Yr ardal sy'n aros yw 1210:

5.3.1 A oes gan RhCAM gymhwyster proffesiynol, fel CMIIA/CCAB neu gyfwerth? Fel yr adroddir yn rheolaidd i GAC, mae'r CMIA ar hyn o bryd yn astudio i'r Tystysgrif mewn Archwilio Mewnol gyda'r IIA.

**Argymhelliad: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi cynnwys yr hunanasesiad.****Rheswm dros y penderfyniad: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn fodlon bod yr Adran Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n ddigonol gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a'r Nodyn Cymhwysio wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau, er mwyn rhoi sicrwydd dibynadwy ar ddiwedd y flwyddyn.****Atodiadau: Atodiad 1 Hunanasesiad yr Archwilio Mewnol**  
**Swyddog Arweiniol** Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro**Corfforaethol:** Alex Jenkins**Swyddog Adrodd:** Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol**Dyddiad:** 15 Awst 2023

Hunanasesiad Archwilio Mewnol 2022/23

Cwestiynau i'w Hystyried			Tystiolaeth / Sylwadau
1 Cenhadaeth Archwilio Mewnol			
1.1 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) a Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol (NCLIL), a yw'r gweithgarwch archwilio mewnol yn anelu at gyflawni Cenhadaeth Archwilio Mewnol fel y'i nodir yn SAMSC?			Mae Siarter a Strategaeth Flynyddol Archwilio Mewnol yn nodi bod y gwasanaeth yn anelu at gyflawni Cenhadaeth Archwilio Mewnol ac mae'n amlinellu safle'r gwasanaeth Archwilio Mewnol o fewn yr awdurdod er mwyn sicrhau gwrthrychedd.
<i>Gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol seiliedig ar risg.</i>			Mae'r gweithgarwch archwilio mewnol yn ystyried Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yn ei Gynllun Busnes sy'n rhaedru i lawr i'r cynlluniau arfarnu staff i sicrhau bod ffocws ar wella a diogelu'r gwerth sefydliadol.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	Mae'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg yn darparu'r amserlen waith arfaethedig ar gyfer gweithgareddau'r flwyddyn; mae'r Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol (RhCAM) yn paratoi'r cynllun ac mae'n cynnwys y canlynol: y meysydd i ganolbwyntio arnynt, y risgiau a nodwyd yng Nghofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor (gan roi sylw i bob un o'r risgiau coch o fewn cyfnod o 2 flynedd), canfyddiadau map sicrwydd yr Adain Archwilio Mewnol a'r asesiad risg blynyddol. Mae lle yn y cynllun hefyd ar gyfer materion sy'n codi'n ddirybudd ac o dan yr amgylchiadau hynny, gofynnir am gyngor neu wybodaeth ychwanegol oddi wrth y gwasanaethau.

Cwestiynau i'w Hystyried			Tystiolaeth / Sylwadau
2 Diffiniad o Archwilio Mewnol			
2.1 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â gofynion eraill SAMSC a NCLIL, a yw'r gweithgarwch archwilio mewnol yn annibynnol ac yn wrthrychol?			Mae'r gofyniad am annibyniaeth a gwrthrychedd wedi'i gynnwys yn y Siarter Archwilio Mewnol, sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofyniad staff i ddatgan unrhyw fuddiant a allai effeithio ar eu gwrthrychedd mewn datganiad</li> </ul>

			<p>ysgrifenedig blynyddol (yn ogystal ag yn unol â pholisi corfforaethol y Cyngor ar ddatgan a chofrestru lletygarwch a buddiannau) er mwyn i'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol (RhCAM) allu cynllunio dyrannu gwaith i osgoi'r risg o unrhyw wrthdaro buddiannau;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ni chaniateir i unrhyw archwilwyr mewnol a benodir o'r tu mewn i'r Cyngor gynnal archwiliad sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'u swydd flaenorol, am o leiaf 1 flwyddyn ar ôl eu penodi er mwyn sicrhau nad amharir ar wrthrychedd; hefyd, mae neilltuo gwaith archwilio arferol yn ddarostyngedig i gylchdro blynyddol, lle bo angen.</li> </ul>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	<p>O ran swyddogaethau, mae'r RhCAM yn atebol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLIA) ac ar lefel weinyddol, mae'n atebol i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol (SAC) Cyfreithiol a Llywodraethu.</p>
<p>2.2 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â gofynion eraill SAMSC a NCLIL, a yw'r gweithgarwch archwilio mewnol yn defnyddio dull systematig a disgybledig i werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu o fewn y sefydliad?</p>			<p>Cynhelir archwiliadau mewnol trwy ddilyn 'rhaglen archwilio' benodol o'r gwaith sy'n ofynnol ar gyfer pob aseiniad. Mae'r rhaglen yn cwmpasu'r holl feysydd gwaith sydd i gael sylw. Mae'r meysydd risg, rheolaethau a llywodraethu wedi'u cynnwys yn y rhaglenni archwilio fel sy'n briodol i bob aseiniad (a bennir gan y RhCAM). Caiff pob archwiliad ei adolygu ar ôl ei gwblhau gan y RhCAM, y Rheolwr Archwilio (RhA) neu'r Uwch Archwilydd (UA) i sicrhau bod yr holl waith sy'n ofynnol gan y rhaglen wedi'i wneud i ansawdd a safon foddhaol. Cyhoeddir adroddiadau archwilio yn enw'r RhCAM.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

Cwestiynau i'w Hystyried

Tystiolaeth / Sylwadau

3 Egwyddorion craidd

<p>Mae'r Egwyddorion Craidd, a'u hystyried yn eu cyfranwydd, yn mynegi effeithiolrwydd archwilio mewnol, ac yn darparu sail ar gyfer ystyried a yw'r adolygiad o gydymffurfio â'r safonau priodoledd a safonau perfformiad yn adlewyrchu cydymffurfio'n llawn, cydymffurfio'n rannol neu heb gydymffurfio â SAMSC a NCLIL. Wrth wneud yr asesiad hwn, dylai'r aseswr ystyried tystiolaeth gadarnhaol o gydymffurfio neu heb gydymffurfio a'r diffyg tystiolaeth o heb gydymffurfio lle mae'n anodd cael tystiolaeth gadarnhaol.</p>	
<p>Lle ceir achosion o gydymffurfio'n rhannol neu heb gydymffurfio mewn meysydd penodol, efallai y bydd angen i chi ystyried perthnasedd a ffactorau eraill er mwyn llunio barn ynghylch a yw'r gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio ag Egwyddor Graidd benodol. Dylid tynnu sylw at unrhyw farnau o'r fath a'u hesbonio.</p>	
<p><b>Arddangos Uniondeb</b></p>	<p>Mae staff Archwilio Mewnol (AM) yn ystyried Cod Ymddygiad Gweithwyr y Cyngor sy'n cael ei ategu gan saith egwyddor bywyd cyhoeddus. Yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd. Mae'r gwaith a wneir gan yr adran AM yn destun craffu gan y RhCAM neu'r RhA i sicrhau ei fod yn gyflawn ac yn gywir a bod yr ansawdd wedi'i sicrhau. Mae angen papurau gwaith clir a chryno, fel y nodir yn y Llawlyfr Archwilio (diweddarwyd Mai 2022). Mae'n rhaid cael tystiolaeth ddigonol ar gyfer yr holl ganfyddiadau a chasgliadau. Mae unrhyw wendidau a ddarganfyddir yn ystod yr adolygiadau yn cael eu hamlygu a'u trafod gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei archwilio.</p> <p>Mae staff yn ystyried Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (i gynnwys Gwyngalchu Arian) y Cyngor; ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os ydynt yn amau unrhyw dwyll neu afreoleidd-dra yn ystod eu gwaith, fel y nodir yn y Llawlyfr Archwilio.</p>
<p>3.1 Gan ystyried eich adolygiad o gydymffurfio â'r Cod Moeseg (Uniondeb, Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus), ydych chi o'r farn bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio'n llawn â SAMSC a NCLIL trwy arddangos uniondeb?</p>	

			<p>Mae staff AM yn llofnodi cod moeseg blynyddol i gadarnhau eu bod wedi darllen gofynion moeseg SAMSC, eu bod wedi'u deall, ac yn cytuno i gydymffurfio â nhw.</p> <p>Cyflwynwyd hyfforddiant Moeseg ac Atal Twyll i rheolwyr yn 2021 – caiff ei gyflwyno hefyd gan y RhCAM i staff AM. Mae e-fodiwl newydd wedi'i gwblhau ac yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gyda'r Adran Dysgu a Datblygu i'w ryddhau fel modiwl dysgu gorfodol i'r holl staff.</p> <p>Mae'r adran AM yn ystyried ac yn cyfrannu at amcanion corfforaethol y Cyngor trwy wella a diogelu gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwleidiad gwrthrychol a seiliedig ar risg.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><b>Arddangos cymhwysedd a gofal proffesiynol dyladwy</b></p>			
<p>3.2 Gan ystyried eich adolygiad o gydymffurfio â'r Cod Moeseg (Cymhwysedd, Cyfrinachedd, Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus) ac unrhyw dystiolaeth arall o'r adolygiad o gydymffurfio â'r safonau, ydych chi o'r farn bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio'n llawn â SAMSC a NCLIL trwy arddangos cymhwysedd a gofal proffesiynol dyladwy?</p>			<p>Mae pob adolygiad AM yn cael ei ddyrannu i staff yn seiliedig ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad pob archwilydd. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o ofynion SAMSC, yn ogystal â'r Siarter Archwilio Mewnol a'r Llawlyfr Archwilio, a ddiweddarwyd ym Mai 2022 i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflawni yn unol â safonau penodol.</p> <p>Mae pob aelod o staff AM yn cydymffurfio â Chynllun Arfarnu Corfforaethol y Cyngor, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wella gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau yn barhaus (gan gynnwys modiwlau hyfforddiant gorfodol). Hefyd, rhaid i bob archwilydd lofnodi cadarnhad blynyddol i nodi ei fod yn ymwybodol o God Moeseg SAMSC a'i fod yn cydymffurfio ag ef. Bydd staff newydd yn dilyn rhaglen gynefino Archwilio Mewnol yn ogystal â chynefino corfforaethol a'u hanfon ar gwrs hyfforddi 'Cyflwyniad i Archwilio' CIPFA i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion Cod Moeseg a Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus SAMSC. Mae'r rhai sy'n aelodau o gyrrff proffesiynol hefyd yn cydymffurfio â gofynion DPP y cyrrff hynny.</p>

			<p>Cynhelir cyfarfodydd tîm wythnosol i drafod llwyth gwaith AM a materion eraill, a gefnogir gan gyfarfodydd un-i-un cyfnodol gyda'r RhCAM.</p> <p>Anfonir Holiaduron Rheoli Ansawdd (HRhA) at y rhai a archwilir i geisio adborth am y gwasanaeth a gafwyd. Caiff Holiaduron Rheoli Ansawdd eu dosbarthu ar ddiwedd pob chwarter.</p> <p><u>Cymwyseddau:</u> Os bydd angen gwybodaeth arbenigol ar archwiliad, caiff y rhain eu hallanoli i sicrhau bod y wybodaeth yn ddigonol ac yn gymwys.</p> <p><u>Gofal proffesiynol dyladwy:</u> Mae'r RhCAM, y Rheolwr Archwilio neu'r Uwch Archwilydd yn adolygu'r gwaith archwilio.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><b>Yn wrthrychol ac yn rhydd rhag unrhyw ddylanwad gormodol (annibynnol)</b></p>			<p>Mae'r gofyniad o ran annibyniaeth a gwrthrychedd wedi'i gynnwys yn y Siarter Archwilio Mewnol sy'n nodi:</p>
<p>3.3 Gan ystyried eich adolygiad o gydymffurfio â'r Cod Moeseg (Gwrthrychedd, Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus) ac unrhyw dystiolaeth arall o'r adolygiad o gydymffurfio â'r safonau, ydych chi o'r farn bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio'n llawn â SAMSC a NCLIL trwy fod yn wrthrychol ac yn rhydd rhag unrhyw ddylanwad gormodol (annibynnol)?</p>			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofyniad staff i ddatgan unrhyw fuddiant a allai effeithio ar eu gwrthrychedd mewn datganiad ysgrifenedig blynyddol (yn ogystal ag yn unol â pholisi corfforaethol y Cyngor ar ddatgan a chofrestru lletygarwch a buddiannau) i alluogi'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol (RhCAM) i gynllunio sut i ddyrannu gwaith er mwyn osgoi'r risg o unrhyw wrthdaro buddiannau;</li> <li>• Ni chaniateir i unrhyw archwilwyr mewnol a benodir o'r tu mewn i'r Cyngor gynnal archwiliad sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'u swydd flaenorol, am o leiaf 1 flwyddyn ar ôl eu penodi er mwyn sicrhau nad amharir ar wrthrychedd; hefyd, mae neilltuo gwaith archwilio arferol yn amodol ar gylchdro blynyddol, lle bo angen.</li> </ul>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	<p>O ran swyddogaethau, mae'r RhCAM yn atebol i'r PLIA ac ar lefel weinyddol, mae'n atebol i'r SAC Cyfreithiol a Llywodraethu.</p>



<p><b>Bod yn gyson â strategaethau, amcanion a risgiau'r sefydliad</b></p>			<p>Mae'r gweithgarwch archwilio mewnol yn ystyried Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yn ei Gynllun Busnes sy'n rhaeadru i lawr i'r cynlluniau arfarnu staff i sicrhau bod ffocws ar wella a diogelu'r gwerth sefydliadol.</p> <p>Mae'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg yn darparu'r amserlen waith arfaethedig ar gyfer gweithgareddau'r flwyddyn; mae RhCAM yn paratoi'r cynllun ac mae'n cynnwys y canlynol: y meysydd i ganolbwyntio arnynt, y risgiau a nodwyd yng Nghofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor (gan roi sylw i bob un o'r risgiau coch o fewn cyfnod o 2 flynedd), canfyddiadau map sicrwydd yr Adain Archwilio Mewnol a'r asesiad risg blynyddol. Mae lle yn y cynllun hefyd ar gyfer materion a godir yn ddirybudd lle gofynnir am gyngor neu wybodaeth ychwanegol oddi wrth y gwasanaethau.</p>
<p>3.4 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â'r safonau, ydych chi o'r farn bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio'n llawn â SAMSC a NCLIL trwy fod yn gyson â strategaethau, amcanion a risgiau'r sefydliad?</p>			
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><b>Mewn safle priodol gydag adnoddau digonol</b></p>			<p>Mae safle'r RhCAM yn y Cyngor yn caniatáu iddi ymgysylltu'n rheolaidd ac yn agored ar draws y Cyngor, gan gynnwys y Grŵp Arweinyddiaeth (GA) a'r PLIA (PLIA); ac aelodau unigol o bob un. (5.2.1)</p> <p>Cyflwynir y strategaeth a'r cynllun archwilio blynyddol i'r PLIA i'w cymeradwyo, gan gynnwys y cynllun gweithredol blynyddol a'i ofynion o ran adnoddau. Diwygiwyd strwythur y gwasanaeth yn 2022 gan gynnwys swydd Cynorthwydd Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ebrill 2022 (6.1.9) Cafodd pob swydd eu llanw a oedd yn golygu bod capasiti'r Adain Archwilio Mewnol yn llawn o fis Mehefin 2022 ymlaen.</p>
<p>3.5 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â'r safonau, ydych chi o'r farn bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio'n llawn â SAMSC a NCLIL trwy fod mewn safle priodol gydag adnoddau digonol?</p>			
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><b>Arddangos ansawdd a gwelliant parhaus</b></p>			<p>Mae gan yr Adain Archwilio Mewnol Raglen Gwella Sicrwydd Ansawdd yr adroddir yn ei chylch yn Adroddiad Blynyddol (diwedd blwyddyn) y RhCAM sy'n mynd gerbron y PLIA. Mae'r Rhaglen Gwella Sicrwydd Ansawdd yn ymdrin â phob agwedd ar Archwilio Mewnol, gan gynnwys yr</p>
<p>3.6 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â'r safonau, ydych chi o'r farn bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio'n llawn â SAMSC a NCLIL trwy arddangos ansawdd a gwelliant parhaus?</p>			

CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	<p>hunanasesiadau blynyddol a'r asesiad allanol 5 mlynedd er mwyn cadarnhau y cydymffurfir â'r SAMSC a NCLIL. Cwblhawyd yr Asesiad Ansawdd Allanol gan Ynys Môn yn 22/23. Mae canlyniadau'r Rhaglen Gwella Sicrwydd Ansawdd yn sail i gynllun gwella'r Adain Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Rhoddir adroddiad am y cynllun gwella bob chwarter fel rhan o adroddiadau cynnydd Archwilio Mewnol a gyflwynir gerbron y PLIA. Caiff y Dangosyddion Perfformiad Allweddol eu monitro a'u hadrodd gerbron y PLIA.</p>
<b>Cyfathrebu'n effeithiol</b>			<p>Mae gan y RhCAM fynediad rhydd a dilyffethair at y Grŵp Arweinyddiaeth, PLIA, rheolwyr ac Aelodau. Mae ymgysylltiadau a chanlyniadau yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol i gleientiaid, naill ai trwy adroddiad, memo neu e-bost. Cyflwynir yr adroddiadau cynnydd chwarterol gerbron y PLIA a'u darparu i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Strategol. Mae'r adroddiadau cynnydd yn tynnu sylw at waith a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol yn ystod y chwarter gan gynnwys y lefel sicrwydd a ddarperir ar gyfer pob darn o waith, y camau gweithredu y mae angen eu cymryd a'r lefelau blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â nhw i sicrhau bod pob haen o reolwyr yn derbyn gwybodaeth am y risgiau a'r sicrwydd a roddir.</p>
3.7 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â'r safonau, ydych chi o'r farn bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio'n llawn â SAMSC a NCLIL trwy gyfathrebu'n effeithiol?			
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<b>Darparu sicrwydd seiliedig ar risg</b>			<p>Mae'r holl sicrwydd, cyngor a mewnwelediad a ddarperir yn seiliedig ar risg, yn wrthrychol ac yn cael ei roi gyda thystiolaeth. Caiff y cynllun archwilio mewnol ei bararoi drwy gynnwys risgiau o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ynghyd â'r asesiad risg blynyddol y mae'r RhCAM yn ei wneud. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd</p>
3.8 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â'r safonau, ydych chi o'r farn bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio'n llawn â SAMSC a NCLIL trwy ddarparu sicrwydd seiliedig ar risg, wedi'i seilio ar asesiad risg digonol?			
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

			yn cynnal map sicrwydd sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd i nodi'r meysydd lle mae angen sicrwydd ychwanegol. Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol yn hyblyg (gan gynnwys diwrnodau wrth gefn) ac mae'n caniatáu i ni addasu i risgiau sy'n newid.
<b>Yn graff, yn rhagweithiol a chanolbwyntio ar y dyfodol</b>			Mae AM yn ystyried y Strategaeth Gorfforaethol yn ystod unrhyw gynllunio sy'n cynnwys gweledigaeth gorfforaethol, blaenoriaethau ac amcanion llesiant y Cyngor er mwyn eu gwneud yn gyson â'r ddarpariaeth gwasanaeth.
3.9 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â'r safonau, ydych chi o'r farn bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio'n llawn â SAMSC a NCLIL trwy fod yn graff, yn rhagweithiol a chanolbwyntio ar y dyfodol?			
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<b>Hyrwyddo gwelliant sefydliadol</b>			Darperir Camau Rheoli i weithgaredd os canfyddir unrhyw wendidau yn ystod adolygiad yn ei brosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli. Rhoddir gwybod i'r PLIA, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Strategol am unrhyw rai y bernir eu bod yn sylfaenol neu'n arwyddocaol. Caiff camau gweithredu gan reolwyr eu monitro a chaiff adroddiadau am gamau gweithredu gan reolwyr eu cyflwyno i'r PLIA bob 6 mis. Mae'r cynllun archwilio mewnol yn cynnwys ymgysylltiadau ymgynghori ac mae'r diwrnodau wrth gefn wedi'u cynnwys yn y cynllun er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti ar gael ar gyfer ceisiadau gan reolwyr yn ystod y flwyddyn.
3.10 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â'r safonau, ydych chi o'r farn bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio'n llawn â SAMSC a NCLIL trwy hyrwyddo gwelliant sefydliadol?			
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

<b>Cwestiynau i'w Hystyried</b>	<b>Tystiolaeth / Sylwadau</b>
4 Cod Moeseg	
<b>Uniondeb</b>	Mae staff Archwilio Mewnol (AM) yn ystyried Cod Ymddygiad Gweithwyr y
4.1 Yn seiliedig ar eich adolygiad o	

<p>gydymffurfio â gofynion eraill SAMSC a NCLIL, ydych chi o'r farn bod archwilwyr mewnol yn arddangos uniondeb trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gyflawni eu gwaith gyda gonestrwydd, diwydrwydd a chyfrifoldeb?</li> <li>• Parchu'r gyfraith a gwneud y datgeliadau a ddisgwylir gan y gyfraith a'r proffesiwn?</li> <li>• Peidio â chymryd rhan yn fwriadol mewn unrhyw weithgarwch anghyfreithlon na chymryd rhan mewn gweithredoedd sy'n dwyn anfri ar y proffesiwn archwilio mewnol neu'r sefydliad?</li> <li>• Parchu a chyfrannu at amcanion cyfreithlon a moesegol y sefydliad?</li> </ul>	<p>Cyngor sy'n seiliedig ar saith egwyddor bywyd cyhoeddus.</p> <p>Mae'r gwaith a wneir gan yr adain Archwilio Mewnol yn destun craffu gan y RhCAM, Rheolwr Archwilio neu Uwch Archwilydd i sicrhau ei fod yn gyflawn ac yn gywir a bod yr ansawdd wedi'i sicrhau. Mae angen papurau gwaith clir a chryno, fel y nodir yn y Llawlyfr Archwilio. Mae'n rhaid cael tystiolaeth ddigonol ar gyfer yr holl ganfyddiadau a chasgliadau. Mae unrhyw wendidau a ddarganfyddir yn ystod yr adolygiadau yn cael eu hamlygu a'u trafod gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei archwilio. Mae staff yn ystyried Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (i gynnwys Gwyngalchu Arian) y Cyngor; ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os ydynt yn amau unrhyw dwyll neu afreoleidd-dra yn ystod eu gwaith, fel y nodir yn y Llawlyfr Archwilio. Mae staff AM yn llofnodi cod moeseg blynyddol i gadarnhau eu bod wedi darllen gofynion moeseg SAMSC, eu bod wedi'u deall, ac yn cytuno i gydymffurfio â nhw. Mae'r adran AM yn ystyried ac yn cyfrannu at amcanion corfforaethol y Cyngor trwy wella a diogelu gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol seiliedig ar risg.</p>	
<p>CYDYMFFURFIO</p>	<p>RHANNOL</p>	<p>HEB GYDYMFFURFIO</p>
<p><b>Gwrthrychedd</b></p>		
<p>4.2 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â gofynion eraill SAMSC a NCLIL, ydych chi o'r farn bod archwilwyr mewnol yn dangos gwrthrychedd trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Beidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch neu berthynas a allai amharu ar eu hasesiad diduedd neu gael ei weld ei fod yn amharu ar eu hasesiad diduedd?</li> <li>• Peidio â derbyn unrhyw beth a allai amharu neu gael ei weld ei fod yn amharu ar eu barn broffesiynol?</li> <li>• Datgelu'r holl ffeithiau perthnasol sy'n hysbys iddynt a allai, os na chânt eu</li> </ul>	<p>Mae'r gofyniad am annibyniaeth a gwrthrychedd wedi'i gynnwys yn y Siarter Archwilio Mewnol, sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofyniad staff i ddatgan unrhyw fuddiant a allai effeithio ar eu gwrthrychedd mewn datganiad ysgrifenedig blynyddol (yn ogystal ag yn unol â pholisi corfforaethol y Cyngor ar ddatgan a chofrestru lletygarwch a buddiannau) er mwyn i'r RhCAM allu cynllunio sut i ddyrannu gwaith er mwyn</li> </ul>	

<p>datgelu, ystumio'r adroddiadau ar weithgarwch sy'n cael ei adolygu?</p>			<p>osgoi'r risg o unrhyw wrthdaro buddiannau;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ni chaniateir i unrhyw archwilwyr mewnol a benodir o'r tu mewn i'r Cyngor gynnal archwiliad sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'u swydd flaenorol, am o leiaf 1 flwyddyn ar ôl eu penodi i sicrhau nad amharir ar wrthrychedd; hefyd, mae neilltuo gwaith archwilio arferol yn ddarostyngedig i gylchdro blynyddol, lle bo angen.</li> </ul> <p>Caiff pob archwiliad ei adolygu'n annibynnol cyn ei ddsbarthu i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i safon foddhaol, gan gynnwys datgelu'r holl ffeithiau perthnasol sy'n hysbys, fel y bo'n briodol. Cefnogir y rhain gan dystiolaeth.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><b>Cyfrinachedd</b></p> <p>4.3 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â gofynion eraill SAMSC a NCLIL, ydych chi o'r farn bod archwilwyr mewnol yn dangos parch a gofal dyladwy trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu'n ddarbodus wrth ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd wrth gyflawni eu dyletswyddau a diogelu'r wybodaeth honno?</li> <li>Peidio â defnyddio gwybodaeth ar gyfer unrhyw fudd personol neu mewn unrhyw fodd a fyddai'n groes i'r gyfraith neu'n niweidiol i amcanion cyfreithlon a moesegol y sefydliad?</li> </ul>			<p>Mae rhan fwyaf y wybodaeth a gesglir yn electronig, ac mae'n cael ei chadw yn ffeiliau personol yr archwilwyr. Mae pob aelod o staff Archwilio Mewnol bellach yn gweithio o bell o'u cartrefi yn unol â Pholisi Gweithio Hybrid Dros Dro'r Cyngor. Maent wedi darllen canllawiau'r Cyngor ac maent wedi derbyn hyfforddiant am Ddiogelwch Gwybodaeth, Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><b>Cymhwysedd</b></p> <p>4.4 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â gofynion eraill SAMSC a NCLIL, ydych chi o'r farn bod archwilwyr mewnol yn dangos cymhwysedd trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflawni'r gwasanaethau y mae ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i'w cyflawni yn unig?</li> <li>Cyflawni gwasanaethau yn unol â SAMSC?</li> <li>Gwella'n barhaus eu hyfedredd a'u heffeithiolrwydd ac ansawdd eu</li> </ul>			<p>Mae pob adolygiad AM yn cael ei ddyrannu i staff yn seiliedig ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad pob archwilydd. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o ofynion SAMSC, yn ogystal â'r Siarter AM a'r Llawlyfr Archwilio, i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflawni yn unol â safonau penodol. Mae holl aelodau staff AM yn cydymffurfio â Chynllun Arfarnu Corfforaethol y Cyngor sy'n gofyn iddynt wella eu gwybodaeth, sgiliau a</p>

gwasanaethau, er enghraifft trwy gynlluniau DPP?			chymwyseddau yn barhaus (gan gynnwys modiwlau hyfforddi gorfodol). Mae tri aelod o staff yn astudio ar hyn o bryd i ennill cymhwyster IIA. Mae'r rhai sy'n aelodau o gyrff proffesiynol hefyd yn cydymffurfio â gofynion DPP y cyrff hynny.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	Cynhelir cyfarfodydd tîm wythnosol i drafod llwyth gwaith AM a materion eraill, a gefnogir gan gyfarfodydd un-i-un cyfnodol gyda'r RhCAM.
<b>Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus</b>			Mae'r holl staff AM yn ystyried Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus y Pwyllgor ar Safonau Bywyd Cyhoeddus gan eu bod yn sail i God Ymddygiad Gweithwyr y Cyngor.
4.5 Yn seiliedig ar eich adolygiad o gydymffurfio â gofynion eraill SAMSC a NCLIL, ydych chi o'r farn bod archwilyr mewnol, boed yn ymwybodol neu trwy gydymffurfio â gweithdrefnau a normau sefydliadol, yn rhoi sylw dyladwy i <i>Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus</i> y Pwyllgor ar Safonau Bywyd Cyhoeddus?			
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

Cwestiynau i'w Hystyried			Tystiolaeth / Sylwadau
Safonau			
5 Safonau Priodoledd			
5.1 1000 Pwrpas, Awdurdod a Chyfrifoldeb			
Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ceisio cadarnhau bod diben, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgarwch archwilio mewnol wedi'u diffinio'n gywir ac yn gyson â SAMSC, wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol mewn siarter archwilio mewnol a'u hadolygu'n gyfnodol.			
5.1.1 A yw'r siarter archwilio mewnol yn cydymffurfio â SAMSC trwy gynnwys diffiniad ffurfiol o: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bwrpas</li> <li>• Awdurdod, a</li> <li>• Chyfrifoldeb</li> </ul> y gweithgarwch archwilio mewnol ac yn gyson â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC)?			Mae'r Siarter AM yn diffinio pwrpas AM, ei awdurdod a'i hawl mynediad o fewn y Cyngor a chyda thrydydd partion, a chwmpas ei gyfrifoldebau. Mae hawl mynediad hefyd wedi'i gynnwys fel rhan o'r Rheoliadau Ariannol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

<p>5.1.2 A yw'r siarter archwilio mewnol yn cydymffurfio â SAMSC trwy ddiffinio'r termau 'bwrdd' ac 'uwch reolwyr' yn glir ac yn briodol at ddibenion y gweithgarwch archwilio mewnol? Sylwer, disgwylir i'r pwyllgor archwilio gyflawni rôl y bwrdd yn y mwyafrif o achosion.</p>	<p>Mae'r Siarter AM yn diffinio'r PLIA fel y 'Bwrdd' at ddibenion gweithgarwch AM a'r GA fel 'uwch reolwyr'.</p>	
<p>CYDYMFFURFIO</p>	<p>RHANNOL</p>	<p>HEB GYDYMFFURFIO</p>
<p>5.1.3 A yw'r siarter archwilio mewnol hefyd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amlinellu safle'r gweithgarwch archwilio mewnol o fewn y sefydliad?</li> <li>• Sefydlu perthynas adrodd swyddogaethol y prif swyddog gweithredol archwilio (PSGA) gyda'r bwrdd?</li> <li>• Sefydlu'r atebolrwydd, y llinell adrodd a'r berthynas rhwng y PSGA a'r rhai y gall y PSGA adrodd yn weinyddol iddynt? Lle y bo'n berthnasol, bydd angen i hyn gynnwys gwasanaethau a rennir neu ddarparwyr allanol archwilio mewnol, a rôl y rheolwr contractau.</li> <li>• Sefydlu cyfrifoldeb y bwrdd a hefyd rôl y swyddogion statudol (fel y Prif Swyddog Ariannol (PSA), y swyddog monitro a'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig) mewn perthynas ag archwilio mewnol?</li> <li>• Sefydlu hawl archwilio mewnol i gael mynediad at yr holl gofnodion, asedau, personél ac adeiladau a'i awdurdod i gael y fath wybodaeth ac esboniadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau?</li> <li>• Diffinio cwmpas gweithgarwch archwilio mewnol?</li> <li>• Cydnabod bod cylch gwaith archwilio mewnol yn ymestyn i holl amgylchedd rheoli'r sefydliad?</li> <li>• Sefydlu annibyniaeth sefydliadol archwilio mewnol?</li> <li>• Cwmpasu'r trefniadau ar gyfer adnoddau priodol?</li> </ul>	<p>Mae'r Siarter AM yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi safle AM o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu;</li> <li>• Cadarnhau perthynas adrodd swyddogaethol y RhCAM gyda'r PLIA;</li> <li>• Cadarnhau perthynas adrodd gweinyddol y RhCAM gyda'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro;</li> <li>• Nodi cyfrifoldeb y PLIA o ran AM, (yn unol â'i gylch gorchwyl) a bod gan y RhCAM fynediad anghyfyngedig i bob lefel o reolwyr ac Aelodau etholedig, a rhyddid i adrodd heb ofn na ffafriaeth;</li> <li>• Datgan awdurdod a hawl mynediad AM yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor a'r Gweithdrefnau Ariannol Atodol sy'n rhan o'r cyfansoddiad;</li> <li>• Diffinio cwmpas gwaith Archwilio Mewnol o ran sicrwydd ac ymgynghori;</li> <li>• Cadarnhau bod cylch gwaith AM yn ymestyn i holl amgylchedd rheoli'r Cyngor;</li> <li>• Nodi sut mae AM yn cyflawni ac yn cynnal ei annibyniaeth;</li> <li>• Nodi sut y caiff gofynion o ran adnoddau eu mesur i sicrhau y cyflawnir y cynllun archwilio blynyddol yn effeithiol;</li> <li>• Nodi rôl AM pan ddarganfyddir unrhyw dwyll neu afreoleidd-dra, yn unol â Strategaeth Atal Twyll,</li> </ul>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffinio rôl archwilio mewnol mewn unrhyw waith sy'n ymwneud â thwyll?</li> <li>• Nodi'r trefniadau presennol ym mholisiau atal twyll a llygredd y sefydliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysu'r PSGA am bob twyll, llygredd neu amhriodoldeb a amheuir neu a ganfyddir?</li> <li>• Cynnwys trefniadau ar gyfer osgoi gwrthdaro buddiannau os yw archwilio mewnol neu'r PSGA yn ymgymryd â gweithgarwch nad yw'n ymwneud ag archwilio?</li> <li>• Diffinio natur y gwasanaethau sicrwydd a ddarperir i'r sefydliad, yn ogystal â'r sicrwydd a roddir i bartion y tu allan i'r sefydliad?</li> <li>• Diffinio natur gwasanaethau ymgynghori?</li> <li>• Cydnabod natur orfodol SAMSC?</li> </ul>			<p>Llwgrwobrwyo a Llygredd (i gynnwys Gwyngalchu Arian) y Cyngor;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi sut y dylai staff adrodd eu pryderon neu amheuron i AM, yn unol â Strategaeth y Cyngor ar Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd (i gynnwys Gwyngalchu Arian);</li> <li>• Cadarnhau bod staff AM yn osgoi ymgymryd â dyletswyddau gweithredol, er mwyn sicrhau bod barnau a phenderfyniadau proffesiynol diduedd ac effeithiol yn cael eu gwneud bob amser *;</li> <li>• Cadarnhau bod AM yn rhoi sicrwydd annibynnol, gwrthrychol a rhesymol i reolwyr ac Aelodau bod trefniadau ar waith a'u bod yn gweithredu'n effeithiol, a bod y farn AM flynyddol ar sicrwydd yn seiliedig ar ganfyddiadau AM o'r holl adolygiadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod bob blwyddyn. Mae'r farn hon yn cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;</li> <li>• Datgan bod yr adran AM yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cyngor trwy ddarparu gweithgarwch cynghori ac ymgynghori i wasanaethau;</li> <li>• Amlinellu natur orfodol y Safonau.</li> </ul>		
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO			
<p>5.1.4 A yw'r PSGA yn adolygu'r siarter archwilio mewnol yn gyfnodol ac yn ei chyflwyno i uwch reolwyr a'r bwrdd i'w chymeradwyo?</p>			<p>Cymeradwywyd y Siarter AM wreiddiol gan y Pwyllgor Archwilio ar 16/5/13. Caiff ei adolygu'n flynyddol gan y RhCAM a chymeradwywyd y diweddariad diwethaf ym Mawrth 2022.</p>		
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO			
<p>5.2 1100 Annibyniaeth a Gwrthrychedd</p>					
<p>Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ceisio cadarnhau bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn annibynnol a bod archwilwyr mewnol yn wrthrychol wrth gyflawni eu gwaith.</p>					
<p>5.2.1a) A oes gan y PSGA fynediad uniongyrchol ac anghyfyngedig at uwch reolwyr a'r bwrdd?</p> <p>5.2.1b) A oes gan y PSGA fynediad rhydd a dilyffethair at y prif weithredwr neu'r swyddog cyfatebol a chadeirydd y</p>			<p>Mae gan y RhCAM fynediad anghyfyngedig i bob lefel o reolwyr ac Aelodau (gan gynnwys y Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio), a rhyddid i adrodd heb ofn na ffafiaeth (gan gynnwys y Prif</p>		



pwyllgor archwilio, yn ogystal â chyfathrebu'n effeithiol â nhw?			Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio), yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol ac fel y'i dogfennir yn nogfen CIPFA 'Rhoi Egwyddorion ar Waith'.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.2.2a) A yw'r PSGA yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor archwilio? 5.2.3b) A yw'r PSGA yn cyfrannu at agendâu'r pwyllgorau archwilio?			Mae'r RhCAM a/neu gynrychiolydd yn mynychu pob cyfarfod o'r PLIA (cyfarfodydd hybrid ydynt a gallant ymuno â'r cyfarfodydd ar-lein neu'n bersonol). Mae'r RhCAM yn cyfrannu at y canlynol; y Siarter Archwilio Mewnol ac unrhyw adolygiadau; Y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Blynyddol; Adroddiadau Cynnydd Chwarterol; Adroddiadau Blynyddol (Diwedd Blwyddyn) sy'n cynnwys canlyniadau'r Hunanasesiadau Blynyddol ynghyd â'r Adroddiad Gwrth-dwyll, Adroddiadau ynghylch Camau Gweithredu gan Reolwyr, unrhyw ddogfennau priodol eraill; neu adroddiadau y mae'r PLIA wedi gofyn amdanynt.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.2.3 A yw bygythiadau i wrthrychedd yn cael eu nodi a'u rheoli ar y lefelau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwilydd unigol?</li> <li>• Ymgysylltu?</li> <li>• Swyddogaethol?</li> <li>• Sefydliad?</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n ofynnol i bob archwilydd unigol ddatgan unrhyw fuddiant a allai effeithio ar ei wrthrychedd mewn datganiad ysgrifenedig blynyddol;</li> <li>• Mae'r RhCAM yn cynllunio ymgysylltiadau i osgoi unrhyw fygythiadau i wrthrychedd a nodwyd trwy ystyried y datganiadau blynyddol;</li> <li>• Yn swyddogaethol, ni chaniateir i unrhyw archwilwyr mewnol a benodir o'r tu mewn i'r Cyngor gynnal archwiliad sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'i swydd flaenorol am o leiaf 1 flwyddyn ar ôl ei benodi i sicrhau nad amharir ar wrthrychedd; hefyd, mae neilltuo gwaith archwilio arferol yn ddarostyngedig i gylchdro blynyddol, lle bo angen;</li> <li>• Mae'n ofynnol i bob aelod o staff yn y Cyngor gydymffurfio â'r polisi corfforaethol ar ddatgan a chofrestru lletygarwch a buddiannau a dosberthir nodyn atgoffa chwarterol ar gyfer hyn.</li> </ul>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

<i>1110 Annibyniaeth Sefydliadol</i>			
<p>Mae'r is-adran hon yn ceisio cadarnhau bod trefniadau adrodd a rheoli wedi'u rhoi ar waith sy'n sicrhau annibyniaeth a gwrthrychedd y PSGA. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd swyddog arall o'r awdurdod yn rheolwr llinell y PSGA.</p>			
<p>5.2.4a) A yw'r PSGA yn adrodd i lefel sefydliadol sy'n gyfartal neu'n uwch na'r tîm rheoli corfforaethol? 5.2.4b) A yw'r PSGA yn adrodd i lefel o fewn y sefydliad sy'n caniatáu i'r gweithgarwch archwilio mewnol gyflawni ei gyfrifoldebau?</p>			<p>Mae'r RhCAM yn adrodd yn sefydliadol i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol (SAC) – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu. Mae'r SAC yn adrodd i'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Prif Weithredwr. Gyda'i gilydd maent yn ffurfio'r Grŵp Arweinyddiaeth. Nid yw hyn yn amharu ar annibyniaeth y RhCAM gan fod ganddi fynediad anghyfyngedig a rhyddid i adrodd heb ofn na ffafriaeth i bob lefel o reolwyr ac Aelodau (gan gynnwys y Prif Weithredwr a Chadeirydd y PLIA) yn unol â'r Siarter AM ac fel y'i dogfennir yn nogfen CIPFA 'Rhoi Egwyddorion ar Waith'. Yn bennaf mae adroddiadau archwilio yn cyfleu barn annibynnol a gwrthrychol i reolwyr ar lywodraethu, risg a rheolaethau ar y maes sydd o fewn eu cyfrifoldeb, ac yn rhoi camau unioni ar waith yn brydlon i gryfhau / gwella systemau / rheolaethau o fewn y gwasanaeth a archwiliwyd. Mae'r risg sy'n gysylltiedig â phob cam gweithred rheoli a argymhellir wedi'i nodi yn y cynllun gweithredu. Os bydd y RhCAM yn penderfynu bod y gwasanaeth wedi derbyn lefel o risg a all fod yn annerbyniol i'r Cyngor, bydd y RhCAM yn trafod hyn gyda'r uwch reolwyr a gall hefyd ddod â hyn at sylw'r PLIA. Mae safle'r RhCAM yn y Cyngor felly yn caniatáu iddi ymgysylltu'n rheolaidd ac yn agored ar draws y Cyngor, gan gynnwys y GA a'r PLIA.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.2.5 A yw safle'r PSGA yn y strwythur rheoli yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi statws digonol i'r PSGA i sicrhau bod cynlluniau archwilio, adroddiadau</li> </ul>			<p>Mae gan y RhCAM fynediad anghyfyngedig a rhyddid i adrodd heb ofn na ffafriaeth i bob lefel o reolaeth gan gynnwys y Prif Weithredwr; ac fe'i</p>

<p>a chynlluniau gweithredu yn cael eu trafod yn effeithiol gyda'r bwrdd?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod ef neu hi yn ddigon uchel ac annibynnol er mwyn gallu darparu her hygredded adeiladol i'r uwch reolwyr?</li> </ul>			<p>hanogir i ddarparu adroddiadau a chyflwyniadau i gyfarfodydd y GA. Mae'r cymorth hwn yn hanfodol fel ffordd o sicrhau bod y rôl yn cael ei chyflawni'n effeithiol; ac mae'n rhoi hyder i'r RhCAM, wrth herio rheolwyr gan sicrhau y rhoddir sylw i'r camau gweithredu a'r argymhellion gofynnol, gan wybod y rhoddir sylw i unrhyw bryderon sydd wedi'u huwch-gyfeirio cyn yr angen i'w cyfeirio at y PLIA.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.2.6 A yw'r PSGA yn cadarnhau i'r bwrdd, o leiaf unwaith y flwyddyn, fod y gweithgarwch archwilio mewnol yn sefydliadol annibynnol?</p>			<p>Mae'r RhCAM yn nodi sut y cyflawnir annibyniaeth yn yr Adroddiad Blynyddol (diwedd blwyddyn) i'r PLIA.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.2.7a) A yw annibyniaeth sefydliadol archwilio mewnol yn cael ei gwireddu trwy adroddiadau swyddogaethol gan y PSGA i'r bwrdd?</p>			<p>Mae AM yn sefydliadol annibynnol gan fod y RhCAM yn adrodd yn swyddogaethol i'r PLIA. Mae'r ffactorau i gefnogi hyn yn cynnwys y Pwyllgor Archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cymeradwyo'r Siarter AM;</li> <li>Cymeradwyo'r strategaeth a chynllun archwilio blynyddol seiliedig ar risg;</li> <li>Cymeradwyo'r cynllun adnoddau (sy'n rhan o'r cynllun archwilio);</li> <li>Adrodd ar weithgarwch, perfformiad a gwelliant AM yn chwarterol ac yn flynyddol; a</li> <li>Rhoi sicrwydd ynghylch cwmpas a lefelau adnoddau.</li> </ul> <p>Fel sy'n arferol yn sector cyhoeddus y DU, nid yw'r PLIA yn cymeradwyo taliad cydnabyddiaeth y RhCAM. Er mwyn sicrhau bod y RhCAM yn cael ei ddiogelu ac nad yw ei thâl a/neu berfformiad yn cael ei ddylanwadu'n amhriodol gan y rhai sy'n destun archwiliad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae safle'r RhCAM yn y Cyngor wedi'i nodi yn y Siarter AM;</li> <li>Nodir unrhyw newidiadau i safle'r RhCAM yn yr Adroddiad Blynyddol (diwedd blwyddyn) a chaiff y Siarter AM ei diweddarau yn unol â hynny;</li> <li>Cynhelir arfarniad o berfformiad y RhCAM gan y SAC –</li> </ul>
<p>5.2.7b) Mae'r 'Dehongliad' i SAMSC 1110 yn rhoi enghreifftiau o ffactorau a allai ddangos bod y PSGA yn adrodd yn swyddogaethol i'r Bwrdd, sy'n cynnwys lle mae'r bwrdd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cymeradwyo'r siarter archwilio mewnol</li> <li>Cymeradwyo'r cynllun archwilio seiliedig ar risg</li> <li>Cymeradwyo'r gyllideb archwilio mewnol a'r cynllun adnoddau</li> <li>Derbyn gwybodaeth gan y PSGA ar berfformiad y gweithgarwch (mewn perthynas â'r cynllun, er enghraifft)</li> <li>Cymeradwyo penderfyniadau sy'n ymwneud â phenodi a diswyddo'r PSGA</li> <li>Cymeradwyo taliad cydnabyddiaeth y PSGA</li> <li>Ceisio sicrwydd gan y rheolwyr a'r PSGA ynghylch a oes unrhyw gyfyngiadau priodol o ran cwmpas neu adnoddau.</li> </ul>			
<p>Mae Dehongliad y Sector Cyhoeddus i SAMSC 1110 yn nodi nad yw cymeradwyaeth y bwrdd ar gyfer taliad cydnabyddiaeth y PSGA yn digwydd yn gyffredinol yn y sector cyhoeddus yn y</p>			

<p>DU, a'r egwyddor sylfaenol felly yw bod yn rhaid diogelu annibyniaeth y PSGA trwy sicrhau nad yw ei daliad cydnabyddiaeth neu asesiad perfformiad yn cael ei ddylanwadu'n amhriodol gan y rhai sy'n destun archwiliad.</p> <p>Felly, dylai aseswyr AAA ystyried a yw camau digonol yn cael eu cymryd i ddiogelu annibyniaeth y PSGA trwy sicrhau nad yw taliad cydnabyddiaeth neu asesiad perfformiad yn cael ei ddylanwadu'n amhriodol gan y rhai sy'n destun archwiliad. Er enghraifft, gallai hyn adlewyrchu rhywfaint o gyfranogiad y prif weithredwr yn y broses asesu perfformiad neu adborth gan gadeirydd y pwyllgor archwilio.</p>			<p>Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro.</p>		
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO			
<p><i>1111 Rhyngweithio'n Uniongyrchol â'r Bwrdd</i></p>					
<p>5.2.8 A yw'r PSGA yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio'n uniongyrchol â'r bwrdd?</p>			<p>Mae gan y RhCAM fynediad rhydd a dilyffethair at y Prif Weithredwr a'r rhai sy'n eistedd ar y GA, ac fe'i hanogir i ddarparu adroddiadau a chyflwyniadau yng nghyfarfodydd y grŵp.</p> <p>Mae'r cymorth hwn yn hanfodol fel ffordd o sicrhau bod y rôl yn cael ei chyflawni'n effeithiol. Mae'r GA yn annog swyddogion arweiniol i wahodd y RhCAM i gyfarfodydd eu rheolwyr a digwyddiadau eraill megis gweithdai a diwrnodau hyfforddi penaethiaid i drafod sut y gall AM ychwanegu gwerth at eu gwasanaethau.</p>		
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO			
<p><i>1112 Swyddogaethau'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio y Tu Hwnt i Archwilio Mewnol</i></p>					
<p>5.2.9a) Lle mae gan y PSGA rolau neu gyfrifoldebau sydd y tu allan i archwilio mewnol, a oes mesurau diogelu digonol ar waith i gyfyngu ar yr hyn sy'n amharu ar annibyniaeth neu wrthrychedd?</p>			<p>Amh – nid oes gan y RhCAM unrhyw rolau na chyfrifoldebau sydd y tu allan i archwilio mewnol.</p>		
<p>5.2.9b) A yw'r bwrdd yn adolygu'r mesurau diogelu yn gyfnodol?</p>					
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO			
<p><i>1120 Gwrthrychedd Unigol</i></p>					
<p>5.2.10 A oes gan archwilwyr mewnol agwedd ddiuedd a theg?</p>			<p>Mae pob penderfyniad neu farn archwilio a ddarperir yn ddiuedd ac yn</p>		

## Tudalen 373

			deg ac yn seiliedig ar y ffeithiau sydd wedi eu profi sydd ar gael. Cesglir tystiolaeth i gefnogi pob penderfyniad a barn. Caiff y gwaith a wneir ei adolygu gan naill ai'r RhCAM, y Rheolwr Archwilio neu'r Uwch Archwilydd.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.2.11 A yw archwilwyr mewnol yn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau, boed yn ymddangosiad neu'n wirioneddol?			Mae'n ofynnol i staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl mewn datganiad blynyddol i'r RhCAM. Mae'r RhCAM yn dyrannu gwaith gan gymryd hyn i ystyriaeth yn ogystal â'r dyletswyddau a gyflawnwyd o fewn y Cyngor a'r gwasanaeth AM yn y gorffennol. Os bydd unrhyw beth yn codi yn ystod archwiliad, gellir ail-ddyrannu gwaith.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>1130 Amharu ar Annibyniaeth neu Wrthrychedd</i>			
5.2.12 Os bu unrhyw amhariad gwirioneddol neu ymddangosiadol ar annibyniaeth neu wrthrychedd, a yw hyn wedi'i ddatgelu i bartion priodol (yn dibynnu ar natur yr amhariad a'r berthynas rhwng y PSGA a'r uwch reolwyr/y bwrdd fel y nodir yn y siarter archwilio mewnol)?			Amh – dim amhariad wedi'i nodi.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.2.13 A yw adolygiad yn dangos bod dyraniadau gwaith wedi gweithredu ac felly nid yw archwilwyr mewnol wedi asesu'r gweithrediadau penodol y buont yn gyfrifol amdanynt yn ystod y flwyddyn flaenorol?			Fel y nodir yn y Siarter Archwilio Mewnol, ni chaniateir i unrhyw archwilwyr mewnol a benodir o'r tu mewn i'r Cyngor gynnal archwiliad sy'n ymwneud mewn unrhyw fodd â'u swydd flaenorol, am o leiaf 1 flwyddyn ar ôl eu penodi i sicrhau nad amharir ar wrthrychedd.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.2.14 Os bu unrhyw ymgysylltiadau sicrwydd mewn meysydd y mae gan y PSGA gyfrifoldeb gweithredol drostynt hefyd, a yw'r ymgysylltiadau hyn wedi cael eu goruchwyllo gan rywun y tu allan i'r gweithgarwch archwilio mewnol?			Amh – nid oes gan y RhCAM unrhyw rolau na chyfrifoldebau sydd y tu allan i archwilio mewnol. Y RhCAM yw rheolwr llinell y Swyddog Llywodraethu (SLI), ond dim ond ar sail weinyddol. Mae'r SLI yn cynorthwyo AM gydag eitemau megis mapio sicrwydd, ond mae'r holl waith gweithredol arall yn cael ei ddarparu, ei fonitro a'i reoli gan y Swyddog Monitro.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.2.15 A yw'r risg o fod yn or-gyfarwydd neu'n hunanfodlon yn cael ei reoli'n			Fel y nodir yn y Siarter Archwilio Mewnol, mae neilltuo gwaith archwilio

<p>effeithiol: er enghraifft trwy gylchdroi aseiniadau ar gyfer ymgysylltiadau sicrwydd parhaus a chyfrifoldebau archwilio eraill yn gyfnodol o fewn y tîm archwilio mewnol?</p>			<p>arferol yn amodol ar gylchdro blynyddol.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.2.16 A yw'r archwilwyr mewnol wedi datgan buddiannau yn unol â gofynion sefydliadol?</p>			<p>Fel y nodir yn y Siarter Archwilio Mewnol, mae'n ofynnol i archwilwyr ddatgan unrhyw fuddiant a allai effeithio ar eu gwrthrychedd mewn datganiad ysgrifenedig blynyddol (yn ogystal ag yn unol â pholisi corfforaethol y Cyngor ar ddatgan a chofrestru lletygarwch a buddiannau).</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.2.17 Lle mae unrhyw archwilydd mewnol wedi derbyn unrhyw roddion, lletygarwch, cymhellion neu fuddion eraill gan weithwyr, cleientiaid, cyflenwyr neu drydydd partïon eraill (ac eithrio fel y caniateir gan bolisiau'r sefydliad ei hun), a yw hyn wedi'i ddatgan a'i ymchwilio'n llawn?</p>			<p>Amh – ni dderbyniwyd unrhyw roddion, lletygarwch, cymhellion na buddion eraill gan weithwyr, cleientiaid, cyflenwyr neu drydydd partïon eraill (ond mae staff yn ymwybodol o bolisi'r Cyngor os cynigiwyd unrhyw eitemau).</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.2.18 A yw adolygiad yn nodi nad yw unrhyw achosion wedi'u canfod lle mae archwilydd mewnol wedi defnyddio'r wybodaeth a gafwyd yn ystod ei ddyletswyddau er budd personol?</p>			<p>Wedi'i gadarnhau – nid yw unrhyw achosion wedi'u nodi lle mae archwilydd mewnol wedi defnyddio'r wybodaeth a gafwyd yn ystod ei ddyletswyddau er budd personol.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.2.19 A yw archwilwyr mewnol wedi datgelu'r holl ffeithiau perthnasol sy'n hysbys iddynt a allai, os na chânt eu datgelu, ystumio eu hadroddiadau neu guddio arferion anghyfreithlon, yn amodol ar unrhyw gytundebau cyfrinachedd?</p>			<p>Caiff pob archwiliad ei adolygu'n annibynnol cyn ei ddosbarthu i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i safon foddhaol, gan gynnwys datgelu'r holl ffeithiau perthnasol sy'n hysbys, fel y bo'n briodol.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.2.20 Os bu unrhyw amhariad gwirioneddol neu ymddangosiadol ar annibyniaeth neu wrthrychedd yn ymwneud ag ymgysylltiad gwasanaethau ymgynghori arfaethedig, a ddatgelwyd hyn i'r cleient cyn derbyn yr ymgysylltiad?</p>			<p>Amh – dim amhariad wedi'i nodi.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.2.21 Lle y cytunwyd ar wasanaethau ymgynghori ychwanegol sylweddol yn ystod y flwyddyn nad oeddent eisoes wedi'u cynnwys yn y cynllun archwilio, a</p>			<p>Mae'r PLIA yn cydnabod bod y cynllun archwilio yn hyblyg ac wedi cytuno y caniateir i'r RhCAM adolygu a diwygio'r cynllun yn gyfnodol mewn ymateb i</p>

geisiwyd cymeradwyaeth gan y bwrdd cyn i'r ymgysylltiad gael ei dderbyn?			unrhyw ddatblygiadau a mentrau a ystyrir yn berthnasol. Mae'r cynllun archwilio gweithredol blynyddol yn cynnwys diwrnodau wrth gefn ar gyfer gwaith o'r fath. Caiff unrhyw newidiadau eu cynnwys mewn adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r PLIA.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.3 1200 Hyfedredd a Gofal Proffesiynol Dyladwy			
Mae'r adran hon yn ceisio cadarnhau bod ymgysylltiadau'n cael eu cyflawni gyda hyfedredd a gofal proffesiynol dyladwy, gan ystyried sgiliau a chymwysterau'r PSGA a'i staff, a sut mae yn arfer ei allu yn ymarferol.			
<i>1210 Hyfedredd</i>			
5.3.1 A oes gan y PSGA gymhwyster proffesiynol, fel CMIIA/CCAB neu gymhwyster cyfatebol?			Mae'r RhCAM yn astudio ar gyfer Tystysgrif mewn Archwilio Mewnol IIA ar hyn o bryd ac mae wedi ymrwymo i symud ymlaen gyda chymwysterau pellach unwaith y bydd wedi ennill y dystysgrif.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.3.2 A yw'r PSGA yn gyfrifol am recriwtio staff archwilio mewnol priodol, yn unol â phrosesau adnoddau dynol y sefydliad? A yw'r PSGA yn sicrhau bod swydd-ddisgrifiadau cyfoes yn bodoli sy'n adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau a bod manylebau person yn diffinio'r cymwysterau, cymwyseddau, sgiliau, profiad a nodweddion personol gofynnol?			Mae'r RhCAM yn gyfrifol am recriwtio staff priodol, yn unol â pholisïau a phrosesau Adnoddau Dynol y Cyngor (gan ddefnyddio system Ceri) sydd â'r wybodaeth, y cymwysterau, y cymwyseddau, y sgiliau, y profiad a'r priodoleddau personol sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth archwilio. O ganlyniad i'r ad-drefnu corfforaethol, cafodd yr holl swydd-ddisgrifiadau a manylebau person eu diweddarau a'u gwerthuso yn ystod 2018/19 neu 2019/20. Daeth swydd y RhCAM i rym ar 1/1/19, a dechreuodd gweddill y swyddi ar 4/5/19, 1/11/20, 1/12/20 a 13/06/2022. <b>Mae pob swydd yn cael ei gwerthuso'n annibynnol.</b>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.3.3 Gan ystyried yr atebion i'r cwestiynau eraill yn yr adran hon a materion eraill, a yw'r gweithgarwch archwilio mewnol ar y cyd yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau eraill sydd eu hangen i gyflawni ei gyfrifoldebau?			Ystyrir profiad a chymwysterau wrth recriwtio trwy lunio matricesau sgiliau. Ystyrir anghenion hyfforddi a datblygu pellach yn ystod arfarniadau staff, gan gynnwys gofynion DPP cyrff proffesiynol lle bo'n briodol.

<p>Lle nad yw'r gweithgarwch archwilio mewnol yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau eraill sydd eu hangen i gyflawni ei gyfrifoldebau, a yw'r PSGA yn cael cyngor a chymorth cymwys?</p>			<p>Mae tri aelod o staff yn astudio ar hyn o bryd i ennill cymhwyster IIA. Yn y gorffennol, lle nad yw sgiliau a gwybodaeth arbenigol megis archwilio TGCh ar gael yn yr adran, cafwyd y gwasanaeth hwn gan gyrff cyfrifyddu eraill neu ALIau cyfagos. Derbyniodd y RhA hyfforddiant a datblygiad gan Mindgrove i fynd i'r afael â'r gofyniad hwn yn ystod 2019/20.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.3.4 A oes gan yr archwilwyr mewnol ddigon o wybodaeth i werthuso'r risg o dwyll a threfniadau atal twyll yn y sefydliad?</p>			<p>Mae'r holl staff yn gyfarwydd â Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd y Cyngor (gan gynnwys Gwyngalchu Arian); ac yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd os amheuir unrhyw afreoleidd-dra. Mae gan y RhCAM a'r Uwch Archwilydd gymhwyster Technegydd Gwrth-dwyll Achrededig. Mae'r Rheolwr Archwilio yn meddu ar Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.3.5 A oes gan yr archwilwyr mewnol wybodaeth ddigonol am risgiau a rheolaethau technoleg gwybodaeth allweddol?</p>			<p>Mae gan staff AM wybodaeth ddigonol am risgiau a rheolaethau allweddol o ran gwybodaeth, ei diogelwch a'r amgylchedd TGCh; fodd bynnag, cafwyd cymorth ychwanegol yn y gorffennol pan oedd angen gwybodaeth fanylach o systemau cyfrifiadurol. Derbyniodd y RhA hyfforddiant a datblygiad gan Mindgrove i fynd i'r afael â'r gofyniad hwn yn ystod 2019/20.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.3.6 A oes gan yr archwilwyr mewnol wybodaeth ddigonol am y technegau archwilio â chymorth cyfrifiadurol priodol sydd ar gael iddynt gyflawni eu gwaith, gan gynnwys technegau dadansoddi data?</p>			<p>Mae dau aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant o ran y system CAATS. Mae'r Adain hefyd yn dibynnu ar ganlyniadau ymarfer paru data Menter Twyll Genedlaethol Archwilio Cymru. Cafwyd data gweithredol hefyd yn ystod 2019/20 a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer samplu yn ogystal â pharu data archwiliadau.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>1220 Gofal Proffesiynol Dyladwy</i></p>			
<p>5.3.7 A yw archwilwyr mewnol yn arfer gofal proffesiynol dyladwy trwy ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Faint o waith sydd ei angen i gyflawni amcanion yr ymrwymiad?</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Penderfynir ar gwmpas pob archwiliad cyn ei gychwyn. Mae rhaglen archwilio a dogfen gwmpasu yn cael eu llunio ar gyfer pob</li> </ul>



<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymhlethdod, perthnasedd neu arwyddocâd perthynol materion y cymhwysir gweithdrefnau sicrwydd iddynt?</li> <li>• Digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth?</li> <li>• Tebygolrwydd camgymeriadau sylweddol, twyll, neu ddiffyg cydymffurfio?</li> <li>• Cost sicrwydd mewn perthynas â buddion posibl?</li> </ul> <p>Wrth wneud yr uchod, rhaid i archwilwyr mewnlol hefyd ystyried sut y gall archwilio yn seiliedig ar dechnoleg a thechnegau dadansoddi data eraill roi sicrwydd.</p>	<p>adolygiad, sy'n sicrhau bod amcan yr archwiliad yn cael ei gyflawni.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r RhCAM yn sicrhau bod gan archwilwyr y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol wrth ystyried dyrannu gwaith a chymhlethdod systemau ac ati.</li> <li>• Mae'r rhaglen archwilio yn cynnwys adolygiad priodol o brosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn unol ag amcan yr archwiliad a'r Blaenoriaethau Corfforaethol.</li> <li>• Mae'r cynllun archwilio yn destun asesiad risg sy'n ystyried y tebygolrwydd o gamgymeriadau sylweddol, ac ati wrth ei lunio. Ystyrir y materion hyn hefyd pan ofynnir am archwiliadau / ymgynghoriadau newydd yn ystod y flwyddyn a fyddai'n gofyn am ail-flaenoriaethu gwaith. Mae'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os ydynt yn amau unrhyw dwyll neu afreoleiddra, fel y'i dogfennir yn y Siarter Archwilio Mewnol.</li> </ul>	
<p>CYDYMFFURFIO</p>	<p>RHANNOL</p>	<p>HEB GYDYMFFURFIO</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cost sicrwydd / budd yn cael ei hystyried yn ôl ei ddichonoldeb ac unrhyw risgiau canfyddedig.</li> </ul>
<p>5.3.8 A yw archwilwyr mewnlol yn arfer gofal proffesiynol priodol yn ystod ymgysylltiad ymgynghori trwy ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anghenion a disgwyliadau cleientiaid, gan gynnwys natur, amseriad a chyfathrebu canlyniadau'r ymgysylltiad?</li> <li>• Cymhlethdod cymharol a maint y gwaith sydd ei angen i gyflawni amcanion yr ymgysylltiad?</li> <li>• Y gost i'r ymgysylltiad ymgynghori o'i gymharu â'r buddion posibl?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ymgysylltiadau ymgynghori yn cael eu hystyried fesul achos. Gwneir gwaith yn unol â'r briff y cytunwyd arno gyda'r cleient i sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r adolygiad (oni bai y darganfyddir unrhyw wendidau a/neu afreoleiddra y byddai angen ymchwilio iddynt ymhellach). Darperir canlyniadau yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon, e.e. gall ebost neu femo fod yn fwy priodol nag adroddiad ar gyfer ymgynghoriadau cynghori llai arwyddocaol.</li> <li>• Mae'r RhCAM yn sicrhau bod gan archwilwyr y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol wrth ystyried dyrannu gwaith a chymhlethdod systemau, ac ati, i sicrhau'r canlyniad gorau. Cytunir ar gwmpas pob adolygiad cyn ei gychwyn sy'n sicrhau bod</li> </ul>	

			amcan yr ymgynghoriad yn cael ei gyflawni. <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cost sicrwydd / budd yn cael ei ystyried yn ôl ei ddichonoldeb ac unrhyw risgiau canfyddedig.</li> </ul>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>1230 Datblygiad Proffesiynol Parhaus</i>			
5.3.9 A yw'r PSGA wedi diffinio'r sgiliau a'r cymwyseddau ar gyfer pob lefel o archwilydd? Ac A yw'r PSGA yn asesu archwilwyr unigol yn gyfnodol yn erbyn y sgiliau a'r cymwyseddau gofynnol?			Amlinellir y sgiliau a'r cymwyseddau gofynnol wrth recriwtio yn ôl y swydd-ddisgrifiad a'r fanyleb person sy'n briodol i bob swydd. Mae pob ymgeisydd yn cael ei werthuso yn erbyn matrices sgiliau. Caiff sgiliau eu monitro'n ffurfiol yn rheolaidd trwy weithdrefnau arfarnu corfforaethol y Cyngor ac yn anffurfiol yn ystod y flwyddyn trwy'r broses adolygu archwilio.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.3.10 A yw archwilwyr mewnol yn dilyn rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus? Ac A yw archwilwyr mewnol yn cadw cofnod o'u datblygiad proffesiynol a'u gweithgarwch hyfforddi?			Mae'r holl archwilwyr yn cofnodi eu hanghenion hyfforddi a datblygu a'u cyflawniadau ar system Ceri. Ystyrir hyn yn ystod y broses arfarnu flynyddol, lle caiff unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu pellach eu nodi a'u gweithredu arnynt. Hefyd, mae cofnodion hyfforddi blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r RhCAM i sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth yr archwilydd yn cael eu cadw'n gyfredol.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<b>5.4 1300 Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella</b>			
Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ceisio cadarnhau bod y PSGA wedi datblygu a chynnal Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella (RhSAG) y gellir ei defnyddio i asesu cydymffurfio â SAMSC yn gywir.			
5.4.1 A yw'r PSGA wedi datblygu RhSAG sy'n cwmpasu pob agwedd ar y gweithgarwch archwilio mewnol ac sy'n cynnig modd gwerthuso cydymffurfiaeth â phob agwedd ar SAMSC? A yw'r RhSAG yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgarwch archwilio mewnol ac yn nodi cyfleoedd i wella? A yw'r PSGA yn cynnal y RhSAG?			Mae RhSAG gan AM yr adroddir arni yn Adroddiad Blynyddol (diwedd blwyddyn) y RhCAM. Mae'r RhSAG yn ymdrin â phob agwedd ar AM, gan gynnwys cwblhau hunanasesiad blynyddol (ac adolygiad allanol 5 mlynedd) sy'n gwerthuso cydymffurfiaeth AM â SAMSC. Mae'r RhSAG yn cynnwys cyfres o Ddangosyddion Perfformiad a bennir

<p>A yw unrhyw ofynion statudol ar gyfer adolygu'r gweithgarwch archwilio mewnol wedi'u bodloni?</p>			<p>gan y PLIA sy'n asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd AM ac a adroddir hefyd yn Adroddiad Blynyddol (diwedd blwyddyn) y RhCAM. Mae'r Adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gwella canlyniadol AM ar ôl cwblhau'r RhSAG. Mae'r RhSAG yn cael ei monitro a'i chynnal gan y RhCAM. Mae'r PLIA yn adolygu AM yn rheolaidd trwy adroddiadau cynnydd ac adroddiadau diwedd blwyddyn AM, a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor. Asesir y gwasanaeth AM yn flynyddol gan archwilwyr allanol y Cyngor, fel rhan o'u hadolygiad o reolaethau ar gyfer eu hadroddiad ISA 260; a chynhelir adolygiad allanol annibynnol o'r hunanasesiad AM bob 5 mlynedd fel sy'n ofynnol gan SAMSC.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>1310 Gofynion y Rhaglen Sicrhau a Gwella Ansawdd</i></p>			
<p>5.4.2 A yw'r RhSAG yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol?</p>			<p>Mae'r RhCAM yn cynnal hunanasesiad mewnol blynyddol, a ategir gan adolygiad allanol bob 5 mlynedd, fel sy'n ofynnol gan SAMSC (wedi'i gynnal ddiwethaf ym Mai 2022).</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>1311 Aseidiadau Mewnol</i></p>			
<p>5.4.3 A yw'r PSGA yn sicrhau bod gwaith archwilio'n cael ei ddyrannu i staff sydd â'r sgiliau, y profiad a'r cymhwysedd priodol?</p>			<p>(R3.2) Dyrennir pob adolygiad AM i staff yn seiliedig ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad pob archwilydd. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o ofynion SAMSC, yn ogystal â'r Siarter AM a'r Llawlyfr Archwilio, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â safonau penodol; a bod cyngor ac arweiniad ar gael, a dylid eu ceisio os oes ei angen gan y RhCAM, RhA, UA, Archwilwyr eraill, polisiau neu weithdrefnau.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.4.4 A yw asesiadau mewnol yn cynnwys monitro gweithgarwch archwilio mewnol yn barhaus, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Prosesau monitro ansawdd arferol?</li> <li>• Aseidiadau cyfnodol ar gyfer gwerthuso cydymffurfio â SAMSC?</li> </ul>			<p>Mae pob archwiliad yn cael ei adolygu gan y RhCAM, RhA neu UA o ran ansawdd, cywirdeb a chyflawnrwydd; fel arfer anfonir holiaduron rheoli ansawdd at gleientiaid i gael adborth ar y gwasanaeth a ddarperir; cyflwynir adroddiadau cynnydd chwarterol, yr adroddiad blynyddol (diwedd blwyddyn), canlyniadau'r hunanasesiad a'r RhSAG i'r PLIA.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

<p>5.4.5 A yw monitro perfformiad parhaus yn cyfrannu at wella ansawdd trwy ddefnyddio targedau perfformiad yn effeithiol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A oes cyfres o dargedau cynhwysfawr sydd rhyngddynt yn cwmpasu'r holl weithgarwch archwilio mewnol arwyddocaol?</li> <li>• A yw'r targedau perfformiad a ddatblygir trwy ymgynghori â phartion priodol ac yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gytundeb lefel gwasanaeth?</li> <li>• A yw'r PSGA yn mesur, monitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn?</li> <li>• A yw monitro perfformiad parhaus yn cynnwys ceisio adborth gan randdeiliaid?</li> </ul>	<p>Caiff perfformiad ei fonitro trwy gynnydd AM yn erbyn y cynllun archwilio gweithredol blynyddol, diweddariad o'r cynllun gwella a thargedau.</p> <p>Mae'r Dangosyddion Perfformiad a ddefnyddir yn seiliedig ar y rhai a ddefnyddir gan glwb meincnodi archwilio CIPFA ac maent yn cael eu cymharu â chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r Dangosyddion Perfformiad yn cael eu cymeradwyo gan y PLIA fel rhan o'r RhSAG.</p> <p>Caiff cynnydd, perfformiad a thargedau eu monitro'n rheolaidd gan y RhCAM a'u hadrodd yn chwarterol/blynyddol i'r PLIA.</p> <p>Anfonir holiaduron rheoli ansawdd at y rhai a archwilir i geisio adborth am y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Holiaduron Rheoli Ansawdd wedi'u dosbarthu'n chwarterol yn ystod 22/23.</p>	
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO
<p>5.4.6 A yw'r hunanasesiadau neu'r asesiadau cyfnodol a gynhelir gan bobl y tu allan i'r gweithgarwch archwilio mewnol yn cael eu cynnal gan y rhai sydd â gwybodaeth ddigonol am arferion archwilio mewnol?</p> <p>Byddai digonolrwydd yn gofyn am wybodaeth o SAMSC a'r canllawiau ehangach sydd ar gael megis y Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol a/neu gynghorion ymarfer IIA, ac ati.</p>	<p>Cynhelir yr hunanasesiad blynyddol gan y RhCAM a'i gyflwyno i'r PLIA; cynhaliwyd yr adolygiad allanol diwethaf gan Bennaeth Archwilio a Risg Ynys Môn sy'n gyfarwydd â gofynion SAMSC a NCLIL. Mae'r asesiad nesaf gan Ynys Môn ar y gweill ar hyn o bryd.</p>	
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO
<p>5.4.7 A yw'r asesiad cyfnodol yn cynnwys adolygiad o'r gweithgarwch yn erbyn y cynllun seiliedig ar risg a chyflawni ei nodau a'i amcanion?</p>	<p>Nodir cynnydd y cynllun archwilio 'hyd yma' ym mhob adroddiad cynnydd chwarterol, yn ogystal â chwmpas / amcan pob adolygiad, y sicrwydd a ddarparwyd a nifer y camau gweithredu gofynnol.</p> <p>Caiff y Dangosyddion Perfformiad Allweddol eu monitro a'u hadrodd gerbron y PLIA.</p>	
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO
<p><i>1312 Asesiadau Allanol</i></p>		
<p>5.4.8 A yw asesiad allanol wedi'i gynnal, neu a yw un wedi'i gynllunio i'w gynnal, o leiaf unwaith bob pum mlynedd?</p>	<p>Cynhaliwyd yr adolygiad allanol diwethaf ym Mai 2022.</p>	

<p>A yw'r PSGA wedi trafod y dulliau amgen o asesu allanol gyda'r bwrdd? Dylai hyn adlewyrchu costau cymharol y gwahanol ddulliau gweithredu, manteision posibl cael safbwynt allanol, ac a oes ffactorau y gellid eu hystyried sy'n cyfiawnhau asesiad annibynnol.</p>			<p>Mae'r RhCAM wedi trafod y dulliau amgen o asesu allanol gyda'r PLIA cyn yr adolygiad diwethaf. Penderfynwyd dewis dilysiad annibynnol o hunanasesiad y RhCAM (yn hytrach nag asesiad 'llawn') a fyddai'n osgoi dyblygu gwaith, ac yn golygu llai o amser ac arian. Dewiswyd yr aseswr ei hun ar gyfer y Cyngor gan archwilwyr WCAG sy'n gweinyddu'r cydweithrediad, er mwyn sicrhau annibyniaeth.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>5.4.9 A yw'r PSGA wedi trafod cymwysterau ac annibyniaeth yr aseswr neu'r tîm asesu gyda'r bwrdd? Wrth wneud hyn, dylai'r PSGA ystyried a yw'r aseswr neu'r tîm asesu wedi dangos ei gymhwysedd o ran ymarfer proffesiynol archwilio mewnol a'r broses asesu allanol. Gellir dangos cymhwysedd trwy brofiad a dysgu damcaniaethol. Mae profiad sefydliadau neu sectorau tebyg yn fwy gwerthfawr na phrofiad llai perthnasol. Yn achos tîm asesu, nid oes angen i bob aelod feddu ar yr holl gymwyseddau – y tîm cyfan sy'n gymwysedig. Os nad yw gallu'r aseswr neu'r tîm asesu yn amlwg ar unwaith, dylai'r PSGA gofnodi sut y gwnaethant ddefnyddio barn broffesiynol i benderfynu a yw hyn yn ddigonol i gynnal yr asesiad allanol. Os oes gan yr aseswr neu'r tîm asesu unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ymddangosiadol â'r sefydliad, dylid esbonio hyn yn glir i'r bwrdd, a dylid rhoi mesurau diogelu ar waith i leihau effaith hyn ar y modd y cynhelir yr asesiad allanol. Gall gwrthdaro buddiannau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, fod yn rhan o'r sefydliad y mae'r gweithgarwch archwilio mewnol yn perthyn iddo, neu o dan ei reolaeth.</p>			<p>Cynhaliwyd yr adolygiad allanol diwethaf gan Bennaeth Archwilio a Risg Ynys Môn sy'n gyfarwydd â gofynion SAMSC a NCLIL. Mae gan yr aseswr flynyddoedd lawer o brofiad o archwilio a rheoli ac mae'n mynychu'r NMWCAG / WCAG ar ran Cyngor Sir Ynys Mon. Dewiswyd yr aseswr ei hun ar gyfer y Cyngor gan archwilwyr WCAG sy'n gweinyddu'r cydweithrediad, er mwyn sicrhau annibyniaeth. Heblaw am fynychu WCAG ac NMWCAG, nid oes gan Gyngor Sir Ynys Mon a Cheredigion unrhyw weithgarwch ar y cyd arall mewn perthynas ag archwilio. Ni chofnodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r penodiad hwn. Roedd yr un broses yn ei lle ar gyfer yr aseswr presennol – dewisodd WCAG Ynys Môn fel aseswr allanol; heblaw am fynychu WCAG ac NMWCAG nid oes gan Ynys Môn a Chyngor Sir Ceredigion unrhyw weithgarwch ar y cyd arall o ran archwilio.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

5.4.10 A yw'r PSGA wedi cytuno ar gwmpas yr asesiad allanol gyda noddwr priodol, megis cadeirydd y pwyllgor archwilio, y Prif Swyddog Ariannol neu'r Prif Weithredwr? Dylai'r PSGA hefyd gytuno ar y cwmpas hwn gyda'r aseswr allanol neu'r tîm asesu.			Trafododd RhCAM y dulliau amgen o asesu allanol gyda'r PLIA cyn yr adolygiad diwethaf. Penderfynwyd dewis dilysiad annibynnol o hunanasesiad y RhCAM (yn hytrach nag asesiad 'llawn'). Rhoddwyd gwybod i'r aseswr am hyn cyn dechrau'r adolygiad.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>1320 Adrodd ar y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella</i>			
5.4.11 A yw'r PSGA wedi adrodd ar ganlyniadau'r RhSAG i uwch reolwyr a'r bwrdd? Sylwch fod: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid cyfathrebu canlyniadau asesiadau mewnol ac allanol a chyfnodol ar ôl eu cwblhau</li> <li>• Rhaid cyfathrebu canlyniadau monitro parhaus o leiaf unwaith y flwyddyn</li> <li>• Rhaid i'r canlyniadau gynnwys gwerthusiad yr aseswr neu'r tîm asesu o ran i ba raddau y mae'r gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio â SAMSC.</li> </ul>			Cyflwynir canlyniadau'r hunanasesiad blynyddol gorffenedig, a'r adroddiad blynyddol (diwedd blwyddyn) (gyda RhSAG) i'r PLIA yn flynyddol. Cyflwynir yr asesiad allanol 5 mlynedd i'r PLIA ar ôl ei gwblhau.  Cafodd yr Aseiad Ansawdd Allanol mwyaf diweddar ei adrodd gerbron y PLIA ym mis Medi 2022. Roedd yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau'r asesiad ynghyd â'r cynllun gweithredu ar gyfer gwella.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.4.12 A yw'r PSGA wedi cynnwys canlyniadau'r RhSAG a chynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella yn yr adroddiad blynyddol?			(R5.4.1) Mae RhSAG gan AM yr adroddir arni yn Adroddiad Blynyddol (diwedd blwyddyn) y RhCAM. Mae'r RhSAG yn ymdrin â phob agwedd ar AM, gan gynnwys cwblhau hunanasesiad blynyddol (ac adolygiad allanol bob 5 mlynedd) sy'n gwerthuso cydymffurfiaeth AM â SAMSC.

			Mae'r RhSAG yn cynnwys cyfres o Ddangosyddion Perfformiad a bennir gan y PLIA sy'n asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd AM ac a adroddir hefyd yn Adroddiad Blynyddol (diwedd blwyddyn) y RhCAM. Mae'r Adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gwella canlyniadol AM ar ôl cwblhau'r RhSAG. Mae'r RhSAG yn cael ei monitro a'i chynnal gan y RhCAM, sy'n adrodd ar gynnydd i'r PLIA bob chwarter.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>1321 Defnydd o 'Cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Proffesiynol Archwilio Mewnol'</i>			
5.4.13 A yw'r PSGA wedi datgan bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn cydymffurfio â SAMSC dim ond os yw canlyniadau'r RhSAG yn cefnogi hynny?			Amh – datganiad heb ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn Adroddiadau Archwilio.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>1322 Datgelu Heb Gydydffurfio</i>			
5.4.14 A yw'r PSGA wedi rhoi gwybod i'r bwrdd am unrhyw achosion o heb gydymffurfio â SAMSC?			Adroddir canlyniadau'r hunanasesiad i'r PLIA. Bydd unrhyw achosion o heb gydymffurfio neu gydymffurfio'n rhannol yn cael eu hamlygu a'u nodi yn y cynllun gwella canlyniadol.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
5.4.15 Os yw'n briodol, a yw'r PSGA wedi ystyried cynnwys unrhyw wyriadau sylweddol o SAMSC yn y datganiad llywodraethu ac a oes tystiolaeth o hynny?			Amh – ni chanfuwyd unrhyw wyriadau sylweddol.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

Cwestiynau i'w Hystyried	Tystiolaeth / Sylwadau
6 Safonau Perfformiad	
6.1 2000 Rheoli Gweithgarwch Archwilio Mewnol	
<p>Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ceisio cadarnhau bod gwaith y gweithgarwch archwilio mewnol yn cyflawni dibenion a chyfrifoldeb y gweithgarwch, fel y'u nodir yn y siarter archwilio mewnol, a bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn ychwanegu gwerth at y sefydliad a'i randdeiliaid trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddarparu sicrwydd gwrthrychol a pherthnasol</li> <li>• Cyfrannu at effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.</li> </ul>	
<i>2010 Cynllunio</i>	
<p>6.1.1 A yw'r PSGA wedi pennu blaenoriaethau'r gweithgarwch archwilio mewnol mewn cynllun seiliedig ar risg ac a yw'r blaenoriaethau hyn yn gyson â nodau'r sefydliad?</p> <p>A yw'r cynllun seiliedig ar risg yn ystyried y gofyniad i lunio barn archwilio mewnol flynyddol?</p> <p>A yw'r cynllun seiliedig ar risg yn ymgorffori neu'n gysylltiedig â datganiad strategol neu lefel uchel o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut bydd y gwasanaeth archwilio mewnol yn cael ei ddarparu?</li> <li>• Sut bydd y gwasanaeth archwilio mewnol yn cael ei ddatblygu yn unol â'r siarter archwilio mewnol?</li> <li>• Sut mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn cysylltu ag amcanion a blaenoriaethau sefydliadol?</li> </ul>	<p>Mae'r RhCAM yn penderfynu ar flaenoriaethau, cwmpas a dulliau gweithgarwch archwilio'r Cyngor trwy sefydlu Strategaeth Archwilio Mewnol a chynllun Archwilio Blynyddol yn seiliedig ar risg, sydd wedi'u datblygu yn unol â Fframwaith Rheoli Risgiau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.</p> <p>Cyfeirir at ddogfennau corfforaethol amrywiol wrth lunio'r cynllun archwilio, i gynnwys y Strategaeth Gorfforaethol sy'n nodi gweledigaeth gorfforaethol, blaenoriaethau ac amcanion llesiant y Cyngor, er mwyn eu cyfateb â'r ddarpariaeth gwasanaeth.</p> <p>Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r cynllun archwilio blynyddol yn nodi'r 'math' o archwiliad sydd i'w gynnal ar gyfer pob adolygiad. Maent yn nodi y rhoddir blaenoriaeth i waith sicrwydd, ac yn benodol gwaith sicrwydd yn seiliedig ar y risgiau corfforaethol 'coch' yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r risgiau uchel a nodir yn asesiad risg blynyddol y RhCAM. Mae'r cynllun hefyd yn nodi, drwy wneud hyn, y bydd</p>



			<p>modd rhoi barn archwilio mewnol yn flynyddol.</p> <p>Mae'r cynllun archwilio seiliedig ar risg yn rhan o'r Strategaeth Archwilio Flynyddol, sy'n nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut mae'r gwasanaeth AM yn cael ei ddarparu a'i ddatblygu yn unol â'r Siarter AM, a</li> <li>• Sut mae'r gwasanaeth AM yn cysylltu â gweledigaeth gorfforaethol, blaenoriaethau ac amcanion llesiant y Cyngor.</li> </ul> <p>Mae AM yn asesu ei waith yn barhaus, gan ystyried anghenion a blaenoriaethau newidiol y Cyngor yn rheolaidd.</p> <p>Mae'r RhCAM wedi defnyddio'r asesiad risg a'r mewnbwn o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol wrth greu'r cynllun AM ar gyfer 2023/24, yn ogystal â gwaith ychwanegol a gynlluniwyd megis grantiau ac archwiliadau presennol sydd wedi'u dwyn drosodd o 2022/23.</p> <p>Mae'r cynllun yn nodi y bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu sicrwydd ynghylch pob risg sydd wedi'i dynodi'n Goch yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol o fewn cyfnod treigl o 2 flynedd. Mae'r cynllun yn rhestru'r risgiau y rhoddir blaenoriaeth iddynt.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.1.2 A yw'r cynllun seiliedig ar risg yn nodi sut y bydd gwaith archwilio mewnol yn nodi ac yn rhoi sylw i faterion a risgiau lleol a chenedlaethol? Wrth ddatblygu'r cynllun seiliedig ar risg, a yw'r PSGA wedi ystyried fframwaith rheoli risg y sefydliad ac aeddfedrwydd risg cymharol y sefydliad?</p> <p>Os nad yw fframwaith rheoli risg o'r fath yn bodoli, a yw'r PSGA wedi defnyddio ei farn am risgiau ar ôl cael mewnbwn gan uwch reolwyr a'r bwrdd ac wedi dangos tystiolaeth o hyn?</p>			<p>Cyfeirir at dogfennau a gohebiaeth fewnol ac allanol amrywiol wrth lunio'r cynllun seiliedig ar risg. Gall fod yn ddangosol yn unig oherwydd mae'n cymryd yn ganiataol nad oes unrhyw newidiadau mewn risg. Mae'r Strategaeth Archwilio Flynyddol yn nodi sut y bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n gyfnodol mewn ymateb i unrhyw faterion / datblygiadau lleol a chenedlaethol a ystyrir yn berthnasol. Mae'r cynllun archwilio sy'n seiliedig ar risg yn cael ei ddatblygu a'i lunio yn unol â Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor, ac mae'n ystyried y gofrestr risg gorfforaethol sy'n cael ei hadrodd yn rheolaidd i'r PLIA. Mae AM yn asesu ei waith yn unol â newidiadau mewn risgiau yn barhaus, gan ystyried anghenion a blaenoriaethau newidiol y</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

			<p>Cyngor yn rheolaidd. Mae'r RhCAM yn derbyn copi o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol bob chwarter fel y gall ailasesu'r cynllun Archwilio Mewnol ac ymateb i unrhyw newidiadau yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.</p> <p>Mae'r RhCAM yn cynnal map sicrwydd (sy'n cynnwys materion lleol a chenedlaethol) sy'n cael ei drafod yn ystod y cyfarfod tîm wythnosol ac mae'r cynllun archwilio yn cynnwys trefniadau wrth gefn fel y gellid ymateb i feysydd y mae angen sicrwydd arnynt, sydd wedi'u nodi ar y map sicrwydd drwy gydol y flwyddyn.</p>
<p>6.1.3 A yw'r cynllun seiliedig ar risg yn nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y gwaith archwilio sydd i'w wneud?</li> <li>• Blaenoriaethau'r darnau hynny o waith archwilio?</li> <li>• Amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y gwaith?</li> </ul> <p>A yw'r cynllun sy'n seiliedig ar risg yn gwahaniaethu rhwng archwilio a mathau eraill o waith?</p> <p>A yw'r cynllun sy'n seiliedig ar risg yn ddigon hyblyg i adlewyrchu risgiau a blaenoriaethau newidiol y sefydliad?</p>			<p>Mae'r cynllun archwilio blynyddol yn cynnwys y cynllun gwaith gweithredol cychwynol seiliedig ar risg i'w gyflawni ar gyfer y Cyngor, a chwmpas pob darn o waith. Rhoddir y flaenoriaeth i waith sicrwydd y tynnir sylw ato yn y Strategaeth a'r Cynllun, er bod ystyriaethau eraill e.e. terfynau amser LIC. Mae amcangyfrif o nifer y diwrnodau a neilltuir ar gyfer pob darn o waith yn cael ei nodi yn y cynllun, yn ogystal â chyfanswm nifer y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau'r cynllun cyfan, er mwyn asesu'r adnoddau angenrheidiol.</p> <p>Mae'r cynllun yn nodi'r 'math' o archwiliad sydd i'w gwblhau ar gyfer pob adolygiad, a gwaith arall i'w wneud, e.e. ymgynghoriadau.</p> <p>Mae'r RhCAM yn adolygu ac yn addasu'r cynllun yn ystod y flwyddyn, mewn ymateb i ddylanwadau mewnol a/neu allanol, a adroddir i'r PLIA.</p> <p>Yn ystod 2022/23 bydd y cynllun gwaith yn hyblyg yn unol â risg.</p>
<p>CYDYMFFURFIO</p>	<p>RHANNOL</p>	<p>HEB GYDYMFFURFIO</p>	<p>Mae'r cynllun yn nodi y bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu sicrwydd ar bob risg sydd wedi'i dynodi'n goch yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol o fewn cyfnod treigl o 2 flynedd. Mae'r cynllun yn rhestru'r risgiau y rhoddir blaenoriaeth iddynt.</p>
<p>6.1.4 A yw'r PSGA yn adolygu'r cynllun yn rheolaidd ac a yw wedi addasu'r cynllun pan fydd angen mewn ymateb i</p>			<p>Mae gweithrediad y cynllun yn cael ei fonitro gan y RhCAM yn barhaus ac, yn anochel, mae angen gwneud nifer o</p>

newidiadau ym musnes, risgiau, gweithrediadau, rhaglenni, systemau a rheolaethau'r sefydliad?			newidiadau yn ystod y flwyddyn am amrywiaeth o resymau, sy'n golygu bod angen ailflaenoriaethu tasgau, a diwygio'r gwaith gwreiddiol a gynlluniwyd, a manylir ar hyn yn yr Adroddiadau Cynnydd chwarterol i'r PLIA.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
6.1.5 A yw cynllun ymgysylltu gweithgarwch archwilio mewnol yn seiliedig ar asesiad risg wedi'i ddogfennu? A ddefnyddir yr asesiad risg i ddatblygu'r cynllun ymgysylltu a gynhelir o leiaf unwaith y flwyddyn?			Mae'r asesiad risg a ddefnyddiwyd wedi'i ddogfennu yn y Strategaeth Archwilio Flynyddol fel y'i cymeradwywyd gan y PLIA. Cynhelir asesiad risg o holl wasanaethau'r Cyngor yn flynyddol gan y RhCAM. Yn ystod 2022/23 roedd y cynllun gwaith yn hyblyg yn unol â'r risg.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
6.1.6 Wrth ddatblygu'r cynllun seiliedig ar risg, a yw'r PSGA hefyd wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Unrhyw ddatganiadau o fuddiant (er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau)?</li> <li>• Y gofyniad i ddefnyddio arbenigwyr, e.e. TG neu archwilwyr contract a chaffael?</li> <li>• Caniatáu amser wrth gefn i gynnal adolygiadau ad hoc neu ymchwiliadau i dwyll yn ôl yr angen?</li> <li>• Yr amser sydd ei angen i gynnal y broses cynllunio archwiliad yn effeithiol yn ogystal ag adrodd yn rheolaidd i'r bwrdd a bod yn bresennol yn y bwrdd, datblygiad yr adroddiad blynyddol a barn y PSGA?</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n ofynnol i staff ddatgan unrhyw fuddiant a allai effeithio ar eu gwrthrychedd mewn datganiad ysgrifenedig blynyddol i'r RhCAM sydd felly'n gallu cynllunio sut i ddyrannu gwaith er mwyn osgoi'r risg o unrhyw wrthdaro buddiannau.</li> <li>• Ceir cymorth ychwanegol lle mae angen sgiliau arbenigol e.e. archwiliadau TGCh cymhleth, megis archwiliad Financials ICT yn 2018/19. Derbyniodd y RhA hyfforddiant a datblygiad gan Mindgrove i fynd i'r afael â'r gofyniad hwn yn ystod 2019/20.</li> <li>• Archwiliad iechyd gan Zurich ynghylch llywodraethu gwybodaeth yn 22/23</li> <li>• Cyfrifir gofynion adnoddau'r cynllun a nodir unrhyw adnoddau ychwanegol sydd ar gael fel adnoddau wrth gefn ar gyfer unrhyw ddarnau o waith na ellir eu rhagweld.</li> <li>• Mae amser y RhCAM a'r RhA yn cynnwys dyraniadau ar gyfer gweithgarwch cynllunio ac adrodd, ac ati.</li> </ul>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
6.1.7 Wrth ddatblygu'r cynllun seiliedig ar risg, a yw'r PSGA wedi ymgynghori ag uwch reolwyr a'r bwrdd i gael dealltwriaeth o strategaethau'r sefydliad, ei amcanion busnes allweddol, y risgiau cysylltiedig a'r prosesau rheoli risg?			Mae'r RhCAM yn mynychu'r GA yn gyfnodol ac yn cael cyfarfodydd gyda Swyddogion Corfforaethol Arweiniol i drafod y cynllun archwilio a/neu ddarnau eraill o waith a wneir gan y gwasanaeth, lle bo angen.

<p>A yw'r PSGA yn nodi ac yn ystyried disgwyliadau uwch reolwyr, y bwrdd a rhanddeiliaid eraill o ran barn archwilio mewnol ac unrhyw gasgliadau eraill?</p>			<p>Mae'r RhCAM yn gyfarwydd â Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor sy'n cynnwys gweledigaeth gorfforaethol, blaenoriaethau ac amcanion llesiant y Cyngor; a'r Fframwaith Rheoli Risg. Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn cael ei hadrodd yn rheolaidd i'r PLIA a'i ddsbarthu i'r RhCAM.</p> <p>Mae amcanion y gwasanaeth AM yn cynnwys deall a chefnogi anghenion ac amcanion y Cyngor yn ei gyfarwydd, rôl y gwasanaeth wrth werthuso ac adrodd ar weithgarwch y Cyngor.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.1.8 A yw'r PSGA yn ystyried potensial unrhyw ymgysylltiad ymgynghori arfaethedig i wella rheoli risgiau, ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r sefydliad cyn eu derbyn?</p> <p>A yw ymgysylltiadau ymgynghori sydd a dderbyniwyd wedi'u cynnwys yn y cynllun seiliedig ar risg?</p>			<p>Mae amcanion y gwasanaeth AM yn cynnwys ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion trwy ddarparu cyngor ac arweiniad priodol a pherthnasol pan gyflwynir systemau a gweithdrefnau newydd.</p> <p>Mae'r cynllun yn hyblyg ac yn cael ei ddiweddarau mewn ymateb i unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau, busnes, risgiau, gweithrediadau, rhaglenni, systemau a rheolaethau'r Cyngor, ac ati.</p> <p>Caiff unrhyw drefniadau ymgynghori eu cynnwys yn y cynllun sy'n seiliedig ar risg. Mae'r RhCAM hefyd yn mynd i'r Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol i ddarparu cyngor am y prosiectau a gyflwynwyd gerbron y panel yn gynharach.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>2020 Cyfathrebu a Chymeradwyo</i></p>			<p>Mae'r RhCAM yn mynychu'r GA yn gyfnodol ac yn cael cyfarfodydd â'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol i drafod y cynllun archwilio a/neu ddarnau eraill o waith a wneir gan y gwasanaeth, lle bo angen.</p> <p>Trafodwyd y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r cynllun gwaith ar gyfer 2023/24 gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Statudol cyn eu cyflwyno gerbron y Grŵp Arweiniol. Cyflwynir y strategaeth a'r cynllun archwilio blynyddol i'r PLIA i'w cymeradwyo, sy'n cynnwys y cynllun blynyddol a'i ofynion o ran adnoddau.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

6.1.10 A yw'r PSGA wedi cyfleu effaith unrhyw gyfyngiadau ar adnoddau i uwch reolwyr a'r bwrdd?			Mae unrhyw gyfyngiadau y gwyddys amdanynt yn cael eu hadrodd yn yr adroddiadau cynnydd chwarterol pan ddaw hyn at sylw'r RhCAM. Mae'r effaith ddilynol ar y gwasanaeth hefyd yn cael ei dogfennu, e.e. yr angen am hyfforddiant ychwanegol. Hefyd, mae Adroddiad Blynyddol y RhCAM yn cynnwys adran lle adroddir am unrhyw gyfyngiadau a wynebwyd yn ystod y flwyddyn.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>2030 Rheoli Adnoddau</i>			
6.1.11 A yw'r cynllun seiliedig ar risg yn esbonio sut yr aseswyd gofynion adnoddau archwilio mewnol?			Mae dadansoddiad o sut mae nifer y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau'r cynllun archwilio gweithredol (a swyddogaethau eraill) yn cael eu cyfrifo a'r cyfanswm yn cael ei gynnwys yn y strategaeth.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
6.1.12 A yw'r PSGA wedi cynllunio'r defnydd o adnoddau, yn enwedig amseriad ymgysylltiadau, ar y cyd â rheolwyr er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar y swyddogaethau sy'n cael eu harchwilio, yn amodol ar y gofyniad i gael sicrwydd digonol?			Mae archwilwyr yn sicrhau bod ymgysylltiadau yn cael eu cynllunio ar y cyd â rheolwyr er mwyn lleihau gwaith ac amser a wastreffir (ac eithrio pan fydd angen ymweliadau dirybudd).
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
6.1.13 Os yw'r PSGA yn credu y bydd lefel yr adnoddau y cytunwyd arnynt yn effeithio'n andwyol ar ddarparu'r farn archwilio mewnol, a yw ef neu hi wedi dwyn y canlyniadau hyn at sylw'r bwrdd? Gall hyn gynnwys anghydbwysedd rhwng y cynllun gwaith a'r adnoddau sydd ar gael a/neu faterion arwyddocaol eraill sy'n peryglu'r broses o gyflawni'r cynllun neu sy'n gofyn iddo gael ei newid.			Os yw diffyg adnoddau yn cael ei nodi wrth lunio'r cynllun archwilio blynyddol, byddai'n cael effaith ar y farn archwilio gan na fydd adolygiadau digonol yn cael eu cynnal i roi barn archwilio ar sicrwydd. Byddai hyn yn cael ei adrodd i'r PLIA gan y RhCAM.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>2040 Polisiâu a Gweithdrefnau</i>			
6.1.14 A yw'r PSGA wedi datblygu a rhoi polisiâu a gweithdrefnau ar waith i arwain y gweithgarwch archwilio mewnol? Mae enghreifftiau'n cynnwys cynnal llawlyfr archwilio a/neu ddefnyddio systemau rheoli electronig i arwain staff			Mae'r Siarter Archwilio Mewnol, strategaeth a chynllun archwilio blynyddol, llawlyfr archwilio a rhaglenni archwilio yn rhoi arweiniad i'r adran AM. Mae polisiâu a chanllawiau priodol CIPFA hefyd yn cael eu dosbarthu i aelodau staff.

<p>wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau mewn modd sy'n cydymffurfio â SAMSC. A yw'r polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn arferion a safonau gwaith?</p>	<p>Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau yn ôl yr angen. Maent ar gael ar dudalen Archwilio Mewnol ar Teams. Cyflwynwyd y Siarter Archwilio Mewnol ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2023 a diweddarwyd y Llawlyfr Archwilio ym mis Mai 2022.</p>
<p>CYDYMFFURFIO    RHANNOL    HEB GYDYMFFURFIO</p>	
<p><i>2050 Cydlynu</i></p>	
<p>6.1.15 A yw'r cynllun seiliedig ar risg yn cynnwys dull sydd wedi'i ddatblygu'n ddigonol ar gyfer defnyddio ffynonellau sicrwydd eraill ac unrhyw waith y gallai fod angen ei wneud i ddibynnu ar y ffynonellau hynny? Yn gyffredinol, dylai'r PSGA rannu gwybodaeth a chydlynu gweithgarwch gyda darparwyr sicrwydd ac ymgynghori mewnol ac allanol eraill. Gallant hefyd gynnal ymarfer mapio sicrwydd, neu ddefnyddio mapio sicrwydd a wneir gan ddarparwyr sicrwydd eraill. Dylent hefyd gwrdd yn rheolaidd â'r cynrychiolydd archwilio allanol enwebedig i ymgynghori ar eu cynlluniau archwilio priodol a'u cydlynu. Lle mae risgiau sefydliadol allweddol yn ymwneud â gwaith a wneir trwy bartneriaethau, efallai y bydd yr archwilydd yn gallu cael sicrwydd o waith a wneir gan eraill, neu drwy gael sicrwydd yn uniongyrchol.</p>	<p>Mae amcanion y gwasanaeth AM yn cynnwys deall ei rôl ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd eraill o fewn y Cyngor, a chynllunio ei waith yn unol â hynny. Mae unrhyw sicrwydd uniongyrchol a roddir ar ffynonellau eraill yn cael ei nodi yn yr Adroddiad Blynyddol. Gwnaed gwelliannau i'r map sicrwydd yn ystod 2022/23. Dogfen fyw yw'r map sicrwydd sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd ac mae'r sicrwydd a roddir wedi'i rannu'n wahanol gategoriâu yn seiliedig ar y model 'Tair Llinell'. Mae'r map sicrwydd yn eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd wythnosol Archwilio Mewnol fel y gall yr holl staff roi mewnbyn ar y map sicrwydd. Mae'r RhCAM yn cwrdd yn rheolaidd â'r archwilwyr allanol, ac mae'r ddau yn cyflwyno eu cynlluniau i'r Pwyllgor Archwilio i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu gwaith.</p>
<p>CYDYMFFURFIO    RHANNOL    HEB GYDYMFFURFIO</p>	
<p><i>2060 Adrodd i'r Uwch Reolwyr a'r Bwrdd</i></p>	
<p>6.1.16 A yw'r PSGA yn adrodd yn gyfnodol i'r uwch reolwyr a'r bwrdd ar ddiben, awdurdod, cyfrifoldeb a pherfformiad y gweithgarwch archwilio mewnol mewn perthynas â'i gynllun? A yw'r adroddiadau cyfnodol hefyd yn cynnwys datgelu risg sylweddol a materion rheoli, gan gynnwys risgiau twyll, materion llywodraethu a materion eraill y mae eu hangen ar yr uwch reolwyr a'r bwrdd, neu maent yn gofyn amdanynt?</p>	<p>Mae'r RhCAM yn adrodd yn rheolaidd i'r PLIA ar ddiben, awdurdod, cyfrifoldeb a pherfformiad gweithgarwch archwilio mewnol mewn perthynas â'i gynllun (adroddiadau cynnydd chwarterol). Caiff adroddiadau chwarterol am ddarnau o waith y mae'r Adain AM wedi'u cwblhau eu rhannu â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Statudol ac mae'r rhain yn cynnwys y lefel sicrwydd a ddarperir ar gyfer pob darn</p>

<p>A yw amlder a chynnwys adroddiadau o'r fath yn cael ei bennu mewn trafodaethau â'r uwch reolwyr a'r bwrdd, ac a ydynt yn dibynnu ar bwysigrwydd y wybodaeth sydd i'w chyfleu a'r brys ynghylch y camau gweithredu cysylltiedig sydd i'w cymryd gan uwch reolwyr y bwrdd?</p>			<p>o waith, y camau gweithredu y mae angen eu cymryd a'r lefelau blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â nhw. Rhoddir cyflwyniadau i'r GA, cyfarfodydd rheoli, diwrnodau hyfforddi penaethiaid, gweithdy trawsnewid, ac ati ad-hoc i hysbysu staff ar draws y Cyngor o ddiben, awdurdod a chyfrifoldeb AM.</p> <p>Mae'r adroddiadau cynnydd i'r PLIA hefyd yn cynnwys unrhyw adolygiadau ychwanegol a gynhaliwyd gan AM yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a gynhaliwyd lle amheuir twyll, ac ati. Adroddir ar y rhain i'r GA fesul achos, lle bo angen, yn unol â'r cylch gorchwyl cytunedig.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>2070 Darparwr Gwasanaeth Allanol a Chyfrifoldeb Sefydliadol am Archwilio Mewnol</i></p>			
<p>6.1.17 Pan fydd darparwr gwasanaeth archwilio mewnol allanol yn gweithredu fel y gweithgarwch archwilio mewnol, a yw'r darparwr hwnnw'n sicrhau bod y sefydliad yn ymwybodol mai'r sefydliad sy'n parhau i fod yn gyfrifol am gynnal gweithgarwch archwilio mewnol effeithiol?</p>			<p>Amh – darperir archwilio mewnol yn fewnol.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.2 2100 Natur y Gwaith</p>			
<p>Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ceisio cadarnhau bod y gweithgarwch archwilio mewnol yn gwerthuso ac yn cyfrannu at wella prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y sefydliad gan ddefnyddio dull systematig a disgybledig.</p>			
<p><i>2110 Llywodraethu</i></p>			

<p>6.2.1 A yw'r gweithgarwch archwilio mewnol yn asesu ac yn gwneud argymhellion priodol i wella prosesau llywodraethu'r sefydliad ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol?</li> <li>• Goruchwylio rheoli risg a rheolaeth?</li> <li>• Hyrwyddo moeseg a gwerthoedd priodol o fewn y sefydliad?</li> <li>• Sicrhau rheolaeth perfformiad sefydliadol ac atebolrwydd effeithiol?</li> <li>• Cyfathrebu gwybodaeth risg a rheolaeth i feysydd priodol o'r sefydliad?</li> <li>• Cydlynu gweithgarwch a chyfathrebu gwybodaeth ymhlith y bwrdd, archwilwyr allanol a mewnol a'r rheolwyr?</li> </ul>	<p>Mae AM yn gwerthuso gwasanaethau, systemau a gweithdrefnau'r Cyngor; ac yn argymhell camau gweithredu lle nodir gwendidau.</p> <p>Mae'r meysydd a archwilir bob blwyddyn yn cael eu pennu gan ganlyniadau'r cynllun archwilio seiliedig ar risg, neu ar sail asesiad risg parhaus.</p> <p>Mae'r fframwaith Dataganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei wneud yn ystod 2022/23 am fod y Polisi a'r Fframwaith yn cael eu diweddarau a'u gwella. Mae adolygiad o Risgiau'r Gwasanaethau wedi'u cynnwys yng nghynllun Archwilio Mewnol 2023/24 ac mae adolygiad llawn o'r Fframwaith Rheoli Risgiau wedi'i gynnwys yn y flaenraglen waith.</p> <p>Cynhaliwyd archwiliad o foeseg hefyd yn ystod 2018/19 (ond oherwydd sefyllfa adnoddau AM yn ystod y flwyddyn, fe'i cynhaliwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin). Mae adolygiad dilynol wedi'i gynnwys ym mlaenraglen waith Archwilio Mewnol. Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn cyfrannu at y modiwl e-ddysgu Moeseg a Thwyll sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Bydd y modiwl hwn yn orfodol i bob aelod o staff Cyngor Sir Ceredigion.</p> <p>Nid yw rheoli perfformiad wedi'i adolygu'n ddiweddar oherwydd phenodiadau newydd, ond bydd yn cael ei gynnwys ym mlaengynllun gwaith AM.</p> <p>Mae 'Protocol Archwilio Cymru' wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar gan y GA i hwyluso'r gwaith o gydlynu gweithgarwch a chyfathrebu gwybodaeth ymhlith y bwrdd, archwilwyr allanol a mewnol a rheolwyr.</p>	
<p>CYDYMFFURFIO</p>	<p>RHANNOL</p>	<p>HEB GYDYMFFURFIO</p>
<p>6.2.2 A yw'r gweithgarwch archwilio mewnol wedi gwerthuso cynllun, gweithrediad ac effeithiolrwydd amcanion, rhaglenni a gweithgarwch y</p>	<p>Cynhaliwyd archwiliad o foeseg yn ystod 2018/19 (ond oherwydd sefyllfa adnoddau AM yn ystod y flwyddyn, fe'i cynhaliwyd gan Gyngor Sir</p>	



<p>sefydliad sy'n ymwneud â moeseg? Mae hwn yn faes lle mae'n bosibl y bydd y PSGA yn gallu defnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd.</p>	<p>Caerfyrddin). Mae archwiliad dilynol wedi'i gynnwys ym mlaenraglen waith yr Adain Archwilio Mewnol. Mae hyn, ynghyd â gwybodaeth am brosesau o fewn y Cyngor sy'n ymwneud â moeseg, wedi rhoi sicrwydd uchel ynghylch amcanion, rhaglenni a gweithgarwch y Cyngor sy'n ymwneud â moeseg e.e. y Pwyllgor Moeseg a Safonau; swyddog cwynion corfforaethol penodedig, hyfforddiant staff gorfodol, cofrestr rhoddion a lletygarwch a nodiadau atgoffa, cyfres o bolisiau sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd, diweddarau'r Cod Ymddygiad, ac ati.</p> <p>Cynhaliwyd arolwg o farn staff ar ddiwylliant moeseg y Cyngor yn ystod 2019/20 gan AM, a disgwylir gwneud gwaith dilynol ar hyn unwaith y bydd archwiliad 2020/21 wedi'i gwblhau. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi moeseg gan Zurich i'r gweithdy rheolwyr yn 2021. Mae AM wedi cyfrannu at fodiwl e-ddysgu moeseg gorfodol sydd bellach yn cael ei ddatblygu gyda'r Adran Dysgu a Datblygu.</p>	
<p>CYDYMFFURFIO</p>	<p>RHANNOL</p>	<p>HEB GYDYMFFURFIO</p>
<p>6.2.3 A yw'r gweithgarwch archwilio mewnol wedi asesu a yw trefn lywodraethu technoleg gwybodaeth y sefydliad yn cefnogi strategaethau ac amcanion y sefydliad? Mae hwn yn faes lle mae'n bosibl y bydd y PSGA yn gallu defnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd.</p>	<p>Dibynnir ar yr asesiadau allanol sy'n ofynnol gan TGCh, gan fod y gwasanaeth yn destun monitro parhaus gan wahanol gyrff e.e. cydymffurfiaeth y Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (RhGC) â'r Cod Cysylltu (CC). Mae CC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddangos bod y seilwaith yn ddigon diogel ac na fyddai'n peri risg annerbyniol i ddiogelwch y rhwydwaith. Mae hefyd yn angenrheidiol i fodloni gofynion sicrwydd gwybodaeth y RhGC a gwneud nifer o ymrwymadau i sicrhau diogelwch parhaus y rhwydwaith.</p> <p>Mae NTA Monitor Ltd (darparwr blaenllaw o wasanaethau ymgynghoriaeth diogelwch gwybodaeth, archwilio a phrofi treiddiad) hefyd wedi cwblhau Prawf Rhwydwaith Allanol ar systemau'r</p>	

			<p>Cyngor, ac wedi cynnal Archwiliad lechyd TG RhGC ar y safle. Cwblheir prawf cydymffurfio PCI-DSS yn flynyddol.</p> <p>Cynhaliodd archwilwyr arbenigol o Gyngor Sir Caerfyrddin archwiliad TGCh o system TGCh newydd Cyflogres Ceri yn ystod 2017/18, a dychwelodd yn 2018/19 i archwilio systemau ariannol cyfrifiadurol y Cyngor.</p> <p>Ategwyd hyn gan archwiliadau TGCh cyffredinol AM o gydymffurfiaeth o fewn systemau allweddol.</p> <p>Derbyniodd y RhA hyfforddiant a datblygiad gan Mindgrove i fodloni'r gofyniad hwn yn ystod 2019/20.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<b>2120 Rheoli Risg</b>			
<p>6.2.4 A yw'r gweithgarwch archwilio mewnol wedi gwerthuso effeithiolrwydd prosesau rheoli risg y sefydliad trwy bennu bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcanion sefydliadol yn cefnogi ac yn gyson â chenhadaeth y sefydliad?</li> <li>• Risgiau sylweddol yn cael eu nodi a'u hasesu?</li> <li>• Ymatebion risg priodol yn cael eu dewis sy'n cysoni risgiau ag archwaeth risg y sefydliad?</li> <li>• Gwybodaeth risg berthnasol yn cael ei chasglu a'i chyfleu mewn modd amserol ar draws y sefydliad, gan alluogi'r staff, y rheolwyr a'r bwrdd i gyflawni eu cyfrifoldebau?</li> </ul>			<p>Mae gan y Cyngor amcanion strategol clir sy'n cefnogi ei ddatganiad o'i weledigaeth ac sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor (Strategaeth Gorfforaethol).</p> <p>Mae risgiau unigol yn cael eu nodi a'u hasesu gan reolwyr yn eu cynlluniau busnes sy'n cael eu monitro a'u hadrodd yn chwarterol a'u hadolygu'n flynyddol. Mae risgiau sylweddol yn cael eu cynnwys yn y gofrestr risg gorfforaethol a adolygir yn chwarterol gan y GA, ac mae'n eitem agenda safonol yn y PLIA. Nodir camau lliniaru i gysoni risgiau ag archwaeth risg y sefydliad. Mae'r fframwaith rheoli risgiau corfforaethol yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei wneud yn ystod 2022/23 am fod y Polisi a'r Fframwaith yn cael eu diweddarau a'u gwella. Mae adolygiad o Risgiau'r Gwasanaethau wedi'u cynnwys yng nghynllun Archwilio Mewnol 2023/24 ac mae adolygiad llawn o'r Fframwaith Rheoli Risgiau wedi'i gynnwys yn y flaenraglen waith.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.2.5 A yw'r gweithgarwch archwilio mewnol wedi gwerthuso'r risgiau sy'n ymwneud â llywodraethu,</p>			<p>Mae AM yn gwerthuso gwasanaethau'r Cyngor yn unol â'r cynllun archwilio blynyddol seiliedig ar risg, neu ar sail</p>

<p>gweithrediadau a systemau gwybodaeth y sefydliad o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflawni amcanion strategol y sefydliad?</li> <li>• Dibynadwyedd a chywirdeb gwybodaeth ariannol a gweithredol?</li> <li>• Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithrediadau a rhaglenni?</li> <li>• Diogelu asedau?</li> <li>• Cydymffurfio â chyfreithiau, rheoliadau, polisïau, gweithdrefnau a chontractau?</li> </ul>			<p>asesu risg yn barhaus, ac yn darparu cyngor ac arweiniad priodol a pherthnasol pan gyflwynir systemau a gweithdrefnau newydd. Mae llywodraethu, gweithrediadau a systemau gwybodaeth wedi'u cynnwys yn y rhaglenni archwilio. Adolygir y Fframwaith Llywodraethu yn flynyddol ac mae'r RhCAM yn cyfrannu ato. Cynhelir pob adolygiad gan ystyried nodau ac amcanion y gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r prif systemau ariannol yn destun adolygiad treigl 3 blynedd (yn amlach yn ystod y pandemig oherwydd risgiau ychwanegol e.e. wfh). Mae AM yn asesu digonolrwydd gweithdrefnau i sicrhau bod asedau'r Cyngor yn cael eu diogelu'n ddigonol a bod gwasanaethau'n cydymffurfio â pholisïau, cynlluniau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau arwyddocaol.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.2.6 A yw'r gweithgarwch archwilio mewnol wedi gwerthuso'r potensial ar gyfer twyll a hefyd sut mae'r sefydliad ei hun yn rheoli'r risg o dwyll? Mae CIPFA wedi cyhoeddi <i>Cod Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd</i>, ac mae'n argymhell yn gryf ei fod yn cael ei ddefnyddio fel sail i asesu sut mae awdurdod yn rheoli ei risg o dwyll.</p>			<p>Mae pob archwilydd yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ganfod gwallau, twyll neu ddiffyg cydymffurfio o fewn systemau a gweithdrefnau'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn benderfynol o anelu at gael diwylliant o onestrwydd ac uniondeb, gwrthwynebu twyll, llygredd a chamymddwyn. Mae ganddo Strategaeth gynhwysfawr ar Atal Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd (gan gynnwys Gwyngalchu Arian) sy'n cynnwys cynllun ymateb seiliedig ar ganllawiau CIPFA. Cyflwynwyd y strategaeth hon i'r PLIA i'w chymeradwyo ar 3/6/21. Mae AM yn cyflwyno adroddiad atal twyll blynyddol i'r PLIA ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddodd Zurich sesiwn hyfforddi am foeseg ac atal twyll yng ngweithdy'r Rheolwyr Corfforaethol yn 2021. Mae Archwilio Mewnol wedi cyfrannu at y modiwl e-ddysgu y mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd y modiwl hwn yn orfodol i bob gweithiwr.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.2.7 A yw archwilwyr mewnol yn mynd i'r afael â risg yn ystod ymgysylltiadau</p>			

<p>ymgyngori yn unol ag amcanion yr ymgysylltiad?                  A yw archwilwyr mewnol yn effro i risgiau sylweddol eraill wrth ymgymryd ag ymgysylltiadau ymgynghori?                  A yw archwilwyr mewnol yn ymgorffori gwybodaeth am y risgiau sy'n codi o ymgysylltiadau ymgynghori yn eu gwerthusiad o brosesau rheoli risg y sefydliad?</p>			<p>Mae risgiau yn sail i bob rhaglen archwilio, gan gynnwys ymgynghoriadau.                  Mae pob archwilydd yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ganfod gwallau, twyll neu ddiffyg cydymffurfio o fewn systemau a gweithdrefnau'r Cyngor.                  Mae unrhyw risgiau a ganfyddir yn ystod ymgysylltiad ymgynghori yn cael eu hadrodd i'r rheolwyr bryd hynny, gyda champau lliniaru yn cael eu hargymell. Adroddir ymhellach ar y rhain, yn unol â'r broses rheoli risg, os na chymerir camau a bod y risg yn fwy nag archwaeth risg y Cyngor.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.2.8 A yw archwilwyr mewnol yn llwyddo i osgoi rheoli risgiau eu hunain, a fyddai mewn gwirionedd yn arwain at gymryd cyfrifoldeb rheoli, wrth gynorthwyo rheolwyr i sefydlu neu wella prosesau rheoli risg?</p>			<p>Nodir camau i liniaru risgiau canfyddedig mewn adroddiadau archwilio, gydag enw'r swyddog sy'n gyfrifol am roi'r cam ar waith a dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau. Mae archwilwyr yn ymwybodol o beidio â chymryd rhan weithredol yn y broses (e.e. grantiau / taliadau uniongyrchol).</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>2130 Rheolaeth</i></p>			
<p>6.2.9 A yw'r gweithgarwch archwilio mewnol wedi gwerthuso digonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolaethau yn nulliau llywodraethu, gweithrediadau a systemau gwybodaeth y sefydliad o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflawni amcanion strategol y sefydliad?</li> <li>• Dibynadwyedd a chywirdeb gwybodaeth ariannol a gweithredol?</li> <li>• Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithrediadau a rhaglenni?</li> <li>• Diogelu asedau?</li> <li>• Cydymffurfio â chyfreithiau, rheoliadau, polisïau, gweithdrefnau a chontractau?</li> </ul>			<p>(R6.2.5) Mae AM yn gwerthuso gwasanaethau'r Cyngor yn unol â'r cynllun archwilio blynyddol seiliedig ar risg, neu ar sail asesu risg yn barhaus, ac yn darparu cyngor ac arweiniad priodol a pherthnasol pan gyflwynir systemau a gweithdrefnau newydd. Mae llywodraethu, gweithrediadau a systemau gwybodaeth wedi'u cynnwys yn y rhaglenni archwilio. Cynhelir pob adolygiad gan ystyried nodau ac amcanion y gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r prif systemau ariannol yn destun adolygiad treigl 3 blynedd. Mae AM yn asesu digonolrwydd gweithdrefnau i sicrhau bod asedau'r Cyngor yn cael eu diogelu'n ddigonol a bod gwasanaethau'n cydymffurfio â pholisïau, cynlluniau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau arwyddocaol.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.2.10 A yw archwilwyr mewnol yn defnyddio gwybodaeth am y rheolaethau a gafwyd yn ystod ymgysylltiadau ymgynghori wrth werthuso prosesau rheoli'r sefydliad?</p>			<p>Mae gwerthuso rheolaethau yn rhan o bob rhaglen archwilio.</p>

CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
6.3 2200 Cynllunio Ymgysylltiad			
<p>6.3.1 A yw archwilwyr mewnol yn datblygu ac yn dogfennu cynllun ar gyfer pob ymgysylltiad? A yw'r cynllun ymgysylltu yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcanion?</li> <li>• Cwmpas?</li> <li>• Amseriad?</li> <li>• Dyrannu adnoddau?</li> </ul>			<p>Caiff dogfen gwmpasu ei chreu gan yr archwilydd a'i hanfon at y sawl sy'n cael ei archwilio cyn dechrau ar y gwaith archwilio. Mae amcanion a chwmpas yr archwiliad yn cael eu cynnwys yn y cynllun archwilio (a'r adroddiad archwilio) y rhaglen archwilio a'r ddogfen gwmpasu a chytunir ar amseriad yr archwiliad â'r sawl a archwilir. Rhoddir gwybod i bob archwilydd am yr adnoddau a ddyrennir pan ddyrennir y gwaith iddynt.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.3.2 A yw archwilwyr mewnol yn ystyried y canlynol wrth gynllunio ac ymgysylltu, ac a yw hyn wedi'i ddogfennu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcanion y gweithgarwch sy'n cael ei adolygu?</li> <li>• Sut mae'r gweithgarwch yn rheoli ei berfformiad?</li> <li>• Y risgiau sylweddol i'r gweithgarwch sy'n cael ei archwilio?</li> <li>• Adnoddau'r gweithgarwch?</li> <li>• Gweithrediadau'r gweithgarwch?</li> <li>• Sut mae effaith bosibl risg yn cael ei chadw i lefel dderbyniol?</li> <li>• Pa mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y gweithgarwch o'i gymharu â'r fframwaith neu'r model perthnasol?</li> <li>• Y cyfleoedd ar gyfer gwneud gwelliannau sylweddol i brosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y gweithgarwch?</li> </ul>			<p>Mae risgiau ac adnoddau'r gweithgarwch yn cael eu hystyried yn ystod y cam cynllunio archwiliad; mae amcanion a gweithrediadau'r gweithgarwch yn cael eu hystyried yn y cam cynllunio ac ymgysylltu; ac mae dulliau o leihau unrhyw risgiau canfyddedig, digonolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y gweithgarwch, a'r cyfleoedd i wneud gwelliannau yn cael eu gwerthuso yn ystod yr adolygiad. Cynhelir yr adolygiad trwy ddilyn rhaglen archwilio benodol, gan ddogfennu'r profion gofynnol a'r materion llywodraethu, risg a rheolaeth perthnasol sy'n gymwys. Dim ond pan fydd hyn yn ffurfio rhan o amcan yr archwiliad y caiff y modd y mae'r gweithgarwch yn monitro ei berfformiad ei ystyried. Darperir camau rheoli i'r gweithgaredd os canfyddir unrhyw wendidau yn ei brosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.3.3 Lle mae cynllun ymgysylltu wedi'i lunio ar gyfer archwiliad ar gyfer parti y tu allan i'r sefydliad, a yw'r archwilwyr mewnol wedi sefydlu dealltwriaeth ysgrifenedig gyda'r parti hwnnw ynghylch y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcanion?</li> <li>• Cwmpas?</li> </ul>			<p>Yr ymgysylltiad allanol diwethaf a dderbyniwyd gan RhCAM oedd adolygiad gan gymheiriaid o Gyngor Sir y Fflint, a chytunwyd ar gytundeb ysgrifenedig clir rhwng y ddau barti. Mae'r RhCAM ar fin cynnal adolygiad allanol o swyddogaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych; yr hyn a</p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifoldebau a disgwyliadau eraill yr archwilwyr mewnol a'r parti allanol (gan gynnwys cyfyngiadau ar ddsbarthu canlyniadau'r ymgysylltiad a mynediad at gofnodion ymgysylltu)?</li> </ul>			<p>elwir yn adolygiad gan gymheiriaid. Mae'r amcanion a'r cwmpas wedi'u nodi'n glir yn y cytundeb a baratowyd gan Grŵp Prif Archwilwyr Cymru.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.3.4 Ar gyfer ymgysylltiadau ymgynghori, a yw archwilwyr mewnol wedi sefydlu dealltwriaeth gyda'r cleientiaid ymgysylltu ynghylch y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcanion?</li> <li>• Cwmpas?</li> <li>• Priod gyfrifoldebau'r archwilwyr mewnol a disgwyliadau'r cleient a chleientiaid eraill?</li> </ul> <p>Ar gyfer ymgynghoriadau sylweddol, a yw'r ddealltwriaeth hon wedi'i dogfennu?</p>			<p>Fel arfer derbynnir manylion ymgysylltu yn ysgrifenedig mewn e-bost gan y cleient; fel arall, bydd AM nodi'r cwmpas yn y ddogfen gwmpasu.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>2210 Amcanion yr Ymgysylltiad</i></p>			
<p>6.3.5 A gytunwyd ar amcanion ar gyfer pob ymgysylltiad? A yw archwilwyr mewnol wedi cynnal asesiad risg rhagarweiniol o'r gweithgarwch sy'n cael ei adolygu? A yw'r amcanion ymgysylltu yn adlewyrchu canlyniadau'r asesiad risg rhagarweiniol a gynhaliwyd? A yw'r archwilwyr mewnol wedi ystyried tebygolrwydd y canlynol wrth ddatblygu'r amcanion ymgysylltu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwallau sylweddol?</li> <li>• Twyll?</li> <li>• Heb gydymffurfio?</li> <li>• Unrhyw risgiau eraill?</li> </ul>			<p>Mae amcanion a chwmpas archwiliad wedi'u cynnwys yn y cynllun archwilio. Cynhelir asesiad risg o bob gweithgarwch fel rhan o'r gwaith o lunio'r cynllun archwilio blynyddol seiliedig ar risg. Oni bai bod yr archwiliad yn archwiliad rheolaeth allweddol, er enghraifft, sy'n cael ei gynnal yn rheolaidd ar sail adolygiad treigl 3 blynedd, mae'r rheswm dros gynnwys y gweithgarwch yn y cynllun archwilio yn cael ei ddogfennu. Mae risgiau amrywiol yn cynnwys gwallau, twyll neu heb gydymffurfio yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad risg wrth lunio'r cynllun archwilio blynyddol. Mae'r ddogfen gwmpasu yn amlinellu'r cwmpas, yr amcanion, yr ystyriaethau o ran twyll a'r blaenoriaethau corfforaethol perthnasol.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.3.6 A yw'r archwilwyr mewnol wedi cadarnhau a yw'r rheolwyr a/neu'r bwrdd wedi sefydlu meini prawf digonol i werthuso a phenderfynu a yw amcanion a nodau sefydliadol wedi'u cyflawni?</p>			<p>Mae'r Cyngor yn destun adolygiadau parhaus. Mae'r fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar ganllawiau CIPFA a chaiff ei gwblhau'n flynyddol gyda mewnbwn gan reolwyr ac Aelodau (mewn gweithdy) ac wedi'i</p>

<p>Os barnwyd bod y meini prawf yn ddigonol, a yw'r archwilwyr mewnol wedi defnyddio'r meini prawf wrth werthuso dulliau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau?</p>	<p>gymeradwyo gan y GA, PLIA a'r Cyngor fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon. Mae'r fframwaith yn cael ei adolygu'n flynyddol gan AM i gadarnhau y gellir dangos tystiolaeth o effeithlonrwydd, ac mae hyn yn rhan o werthusiad AM o ddulliau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau'r Cyngor.</p>
<p>Os bernir bod y meini prawf yn annigonol, a yw'r archwilwyr mewnol wedi gweithio gyda'r rheolwyr a/neu'r bwrdd i ddatblygu meini prawf gwerthuso priodol? Os cyfeiriwyd at y meini prawf gwerth am arian, a ystyriwyd defnyddio holl brif fathau o adnoddau'r sefydliad, gan gynnwys arian, pobl ac asedau?</p>	<p>Amh – meini prawf yn seiliedig ar ganllawiau CIPFA.</p>
<p>CYDYMFFURFIO RHANNOL HEB GYDYMFFURFIO</p>	
<p>6.3.7 A yw'r amcanion a osodwyd ar gyfer ymgysylltiadau ymgynghori yn mynd i'r afael â phrosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fel y cytunwyd gyda'r cleient? A yw'r amcanion a osodwyd ar gyfer ymgysylltiadau ymgynghori yn gyson â gwerthoedd, strategaethau ac amcanion y sefydliad ei hun?</p>	<p>Gosodir amcanion ymgysylltu fesul achos. Bydd y mwyafrif yn cwmpasu un neu bob un o'r prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, a chytunir arnynt ymlaen llaw gyda'r cleient. Cynhelir pob adolygiad gan gadw mewn cof nodau ac amcanion y gwasanaethau yn y dyfodol.</p>
<p>CYDYMFFURFIO RHANNOL HEB GYDYMFFURFIO</p>	
<p><i>2220 Cwmpas yr Ymgysylltiad</i></p>	
<p>6.3.8 A yw'r cwmpas a sefydlir ar gyfer pob ymgysylltiad yn gyffredinol ddigonol i fodloni amcanion yr ymgysylltiad? A yw'r cwmpas ar gyfer pob ymgysylltiad yn cynnwys ystyried systemau, cofnodion, personél a phriodweddau ffisegol perthnasol? A yw'r ystyriaeth hon yn cynnwys meysydd sydd o dan reolaeth partïon allanol, lle bo'n briodol?</p>	<p>Mae cwmpas ymgysylltiad yn seiliedig ar ei amcanion, ac yn cael ei lunio fesul achos.</p> <p>Mae'r ddogfen gwmpasu yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Perchennog y risg</li> <li>• Y cwmpas a'r amcanion</li> <li>• Yr ystyriaethau o ran twyll</li> <li>• Y blaenoriaethau corfforaethol perthnasol.</li> </ul>
<p>CYDYMFFURFIO RHANNOL HEB GYDYMFFURFIO</p>	
<p>6.3.9 Lle mae cyfleoedd ymgynghori sylweddol wedi codi yn ystod ymgysylltiad sicrwydd, a luniwyd dealltwriaeth ysgrifenedig benodol o'r amcanion, cwmpas, cyfrifoldebau a disgwyliadau eraill? Lle mae cyfleoedd ymgynghori sylweddol wedi codi yn ystod ymgysylltiad sicrwydd, a gafodd</p>	<p>Pan nodir cyfleoedd ymgynghori, neu gwmpas archwilio pellach yn ystod ymgysylltiad, mae'r gwaith yn cael ei wneud gan AM fel arfer ochr yn ochr â'r archwiliad gwreiddiol (yn enwedig lle mae'r gwaith ychwanegol yn ganlyniad i adolygiad risg). Bydd hyn yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig i'r cleient.</p>

canlyniadau'r ymgysylltiad dilynol eu cyfleu yn unol â'r safonau ymgynghori perthnasol?			Bydd canlyniadau'n cael eu cyfleu mewn adroddiad archwilio fel arfer (a all fod yn adroddiad ar wahân i'r un a gyhoeddwyd yn dilyn y gwaith sicrwydd gwreiddiol). Penderfynir ar hyn fesul achos, a defnyddir y dull mwyaf priodol.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.3.10 Ar gyfer pob ymgynghoriad, a oedd cwmpas yr ymgysylltiad yn ddigonol ar y cyfan i fynd i'r afael ag unrhyw amcanion y cytunwyd arnynt? Os datblygodd yr archwilwyr mewnol unrhyw amheuon ynghylch cwmpas ymgysylltiad ymgynghori wrth ymgymryd â'r ymgysylltiad hwnnw, a wnaethant drafod yr amheuon hynny gyda'r cleient ac felly penderfynu a ddylid parhau â'r ymgysylltiad ai peidio?</p> <p>Yn ystod ymgysylltiadau ymgynghori, a aeth yr archwilwyr mewnol i'r afael â'r rheolaethau sy'n gyson ag amcanion yr ymgysylltiadau hynny?</p>			<p>Mae cwmpas ymgysylltiad yn seiliedig ar ei amcanion, ac yn cael ei lunio fesul achos.</p> <p>Mae archwilwyr yn trafod unrhyw amheuon gyda'r RhCAM/RhA/UA. Gwneir penderfyniad ynghylch sut i barhau â'r gwaith, a byddai unrhyw amrywiadau mawr yn cael eu cyfleu i'r cleient.</p> <p>Mae AM yn ystyried y materion llywodraethu, risg a rheolaeth sy'n berthnasol i bob ymgysylltiad.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>2230 Dyrannu Adnoddau ar gyfer Ymgysylltiad</i></p>			
<p>6.3.11 A yw archwilwyr mewnol wedi penderfynu ar y lefel briodol a digonol o adnoddau sydd eu hangen i gyflawni amcanion pob ymgysylltiad yn seiliedig ar:</p> <p>a) Natur a chymhlethdod yr ymgysylltiad unigol?</p> <p>b) Unrhyw gyfyngiadau amser?</p> <p>c) Yr adnoddau sydd ar gael?</p>			<p>Mae pob un o'r tair eitem: natur a chymhlethdod yr ymgysylltiad unigol, cyfyngiadau amser a'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu hystyried wrth dyrannu adnoddau ar gyfer ymgysylltiad fel rhan o'r cynllun archwilio.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>2240 Rhaglen Waith yr Ymgysylltiad</i></p>			
<p>6.3.12 A yw archwilwyr mewnol wedi datblygu a dogfennu rhaglenni gwaith sy'n cyflawni'r amcanion ymgysylltu? A yw rhaglenni gwaith yr ymgysylltiad yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adnabod gwybodaeth?</li> <li>• Dadansoddi gwybodaeth?</li> <li>• Gwerthuso gwybodaeth?</li> <li>• Dogfennu gwybodaeth?</li> </ul> <p>A gafodd rhaglenni gwaith eu cymeradwyo cyn eu gweithredu ar gyfer pob ymgysylltiad?</p>			<p>Mae gan yr Adran AM gyfres o raglenni gwaith archwilio mewnol sy'n cael eu diweddarau'n barhaus, mewn ymateb i unrhyw newidiadau gofynnol.</p> <p>Mae'r rhaglenni'n nodi pa wybodaeth sydd ei hangen a sut y dylid ei dadansoddi a/neu ei gwerthuso. Yna gall yr archwilwyr ddogfennu'r wybodaeth a gasglwyd.</p> <p>Mae angen i bob rhaglen waith geisio cymeradwyaeth RhCAM/RhA/UA cyn ei defnyddio.</p>



# Tudalen 401

A gafodd unrhyw addasiadau angenrheidiol ar gyfer rhaglenni gwaith eu cymeradwyo'n brydlon?			Bydd unrhyw addasiadau y bernir eu bod yn angenrheidiol yn cael eu gwneud i raglenni gwaith yn brydlon yn ystod y cam cymeradwyo.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<b>6.4 2300 Cyflawni'r Ymgysylltiad</b>			
Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ceisio cadarnhau bod archwilwyr mewnol yn dadansoddi, gwerthuso a dogfennu gwybodaeth ddigonol, ddibynadwy, berthnasol a defnyddiol i gefnogi canlyniadau a chasgliadau'r ymgysylltiad.			
<i>2310 Adnabod Gwybodaeth</i>			
6.4.1 A yw archwilwyr mewnol yn gyffredinol yn nodi gwybodaeth (digonol, dibynadwy, perthnasol a defnyddiol) sy'n cefnogi canlyniadau a chasgliadau'r ymgysylltiad? Mae gwybodaeth ddigonol yn ffeithiol, yn ddigonol ac yn argyhoeddiadol fel y byddai person call, gwybodus yn dod i'r un casgliadau â'r archwilydd. Gwybodaeth ddibynadwy yw'r wybodaeth orau y gellir ei chael trwy ddefnyddio technegau ymgysylltu priodol. Mae gwybodaeth berthnasol yn cefnogi arsylwadau ac argymhellion yr ymgysylltiad, ac mae'n gyson â'r amcanion ar gyfer yr ymgysylltiad. Mae gwybodaeth ddefnyddiol yn helpu'r sefydliad i gyflawni ei nodau.			Mae angen papurau gwaith clir a chryno, fel y nodir yn y Llawlyfr Archwilio. Mae'r holl bapurau gwaith archwilio yn cael eu hadolygu gan y RhCAM, RhA neu UA i sicrhau bod yr Adran yn cynnal ansawdd gwaith cyson bob amser a bod y safonau gofynnol yn cael eu cyflawni. Ceir tystiolaeth o'r holl ganfyddiadau a chasgliadau trwy wybodaeth ddigonol, ddibynadwy, berthnasol a defnyddiol. Os na ddarperir gwybodaeth ddigonol, anfonir taflen adolygu at yr archwilydd yn gofyn am y wybodaeth ychwanegol / gwaith i'w wneud. Mae gwybodaeth annibynadwy yn cael ei diystyru (oni bai y gellir cyflwyno tystiolaeth). Anwybyddir gwybodaeth amherthnasol heb unrhyw ddefnydd, ac atgoffir archwilwyr o'r gofynion.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>2320 Dadansoddi a Gwerthuso</i>			
6.4.2 A yw archwilwyr mewnol wedi seilio eu casgliadau a'u canlyniadau ymgysylltu ar ddadansoddiadau a gwerthusiadau priodol yn gyffredinol?			Mae'r RhCAM yn ei gwneud yn ofynnol i bapurau gwaith AM fod yn ddigonol, yn gryno ac wedi'u cyfeirio'n ddigonol i sicrhau bod yr holl ganfyddiadau, argymhellion a chasgliadau, a'r farn archwilio gyffredinol, yn cael eu cefnogi, ac yn darparu cofnod clir o'r gwaith a gyflawnwyd. Anfonir taflen adolygu at yr archwilydd yn gofyn am y wybodaeth / gwaith ychwanegol lle na chyflawnir y gofyniad hwn.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
6.4.3 Yn gyffredinol a yw archwilwyr mewnol wedi parhau i fod yn effro i'r			Mae archwilwyr yn arfer gofal proffesiynol dyladwy trwy fod yn

<p>posibilrwydd o'r canlynol wrth gynnal eu harchwiliadau unigol, ac a yw hyn wedi'i ddogfennu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Drwgweithredu bwriadol?</li> <li>• Gwallau neu hepgoriadau?</li> <li>• Gwerth am arian gwael?</li> <li>• Methu â chydymffurfio â pholisi rheoli?</li> <li>• Gwrthdaro buddiannau?</li> </ul>			<p>ymwybodol o'r tebygolrwydd o gamgymeriadau sylweddol, twyll neu ddiffyg cydymffurfio.</p> <p>Bod unrhyw wendidau neu faterion difrifol yn cael eu hadrodd i'r RhCAM neu'r RhA ar unwaith i benderfynu ar y ffordd orau o weithredu; bydd materion eraill yn cael eu dogfennu'n llawn i sicrhau yr eir i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.</p> <p>Nodir y gofyniad hwn yn y Llawlyfr Archwilio.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>2330 Dogfennu Gwybodaeth</i></p>			
<p>6.4.4 A yw'r archwilwyr mewnol wedi dogfennu'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i gefnogi casgliadau a chanlyniadau'r ymgysylltiad? A yw papurau gwaith yn ddigon cyflawn a manwl i alluogi archwilydd mewnol profiadol arall heb gysylltiad blaenorol â'r archwiliad i ganfod pa waith a gyflawnwyd, i'w ail-berfformio os oes angen, ac i gefnogi'r casgliadau y daethpwyd iddynt?</p>			<p>(R6.4.2) Mae'r RhCAM yn ei gwneud yn ofynnol i bapurau gwaith AM fod yn ddigonol, yn gryno ac wedi'u cyfeirio'n ddigonol i sicrhau bod yr holl ganfyddiadau, argymhellion a chasgliadau, a'r farn archwilio gyffredinol, yn cael eu cefnogi, ac yn darparu cofnod clir o'r gwaith a gyflawnwyd.</p> <p>Anfonir taflen adolygu at yr archwilydd yn gofyn am y wybodaeth / gwaith ychwanegol lle na chyflawnir y gofyniad hwn.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.4.5 A yw'r PSGA yn rheoli mynediad at gofnodion ymgysylltu? A yw'r PSGA wedi cael cymeradwyaeth uwch reolwyr a/neu gwnsler cyfreithiol fel y bo'n briodol cyn rhyddhau cofnodion o'r fath i bartïon allanol? A yw'r PSGA wedi datblygu a gweithredu gofynion cadw ar gyfer pob math o gofnodion ymgysylltu?</p>			<p>Mae gan yr Adran AM system ffeilio electronig a rennir; dim ond y RhCAM all gael mynediad at rai cofnodion. Nid yw unrhyw gofnodion o'r fath wedi'u rhyddhau i bartïon allanol. Byddai hyn yn cael ei drafod â'r Swyddog Diogelu Data / SAC – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro / Rheolwr Cwynion Corfforaethol a Rhyddid Gwybodaeth fel y bo'n briodol pe byddai cais o'r fath yn dod i law. Mae gan AM bolisi cadw sydd wedi'i gynnwys yn y Llawlyfr Archwilio.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.4.6 A yw'r gofynion cadw ar gyfer cofnodion ymgysylltu yn gyson â chanllawiau'r sefydliad ei hun yn ogystal ag unrhyw ofynion rheoleiddiol neu ofynion eraill?</p>			<p>Mae polisi cadw AM wedi'i ysgrifennu ar y cyd â pholisi rheoli cofnodion corfforaethol y Cyngor, a chanllawiau'r Gymdeithas Rheoli Cofnodion.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>2340 Goruchwyllo'r Ymgysylltiad</i></p>			

<p>6.4.7 A yw pob ymgysylltiad yn cael ei oruchwylio'n briodol i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, bod ansawdd yn cael ei sicrhau a bod staff yn cael eu datblygu? A yw tystiolaeth briodol o oruchwyliaeth yn cael ei dogfennu a'i chadw ar gyfer pob ymgysylltiad?</p>			<p>Goruchwylir archwilwyr gan y RhCAM, RhA neu UA trwy gydol yr archwiliad. Mae'r holl waith yn destun adolygiad ansawdd. Mae pob adroddiad yn cael ei wirio gan y RhCAM cyn ei gyhoeddi. Mae papurau gwaith yn cael eu llofnodi gan yr adolygydd. Mae'r holl adroddiadau terfynol yn cael eu llofnodi gan y RhCAM (neu ddirprwy). Ymdrinnir ag unrhyw faterion perfformiad trwy ddefnyddio Polisi Rheoli Perfformiad Gweithwyr y Cyngor – mae'r RhCAM a'r RhA wedi mynychu'r hyfforddiant rheoli gorfodol ar Grymuso Perfformiad Staff.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.5 2400 Cyfathrebu Canlyniadau</p>			
<p>Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ceisio cadarnhau bod archwilwyr mewnol yn cyfathrebu canlyniadau'r ymgysylltiadau mewn ffordd briodol.</p>			
<p><i>2410 Meini Prawf ar gyfer Cyfathrebu</i></p>			
<p>6.5.1 A yw'r cyfathrebu ynghylch canlyniadau ymgysylltu yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcanion yr ymgysylltiad?</li> <li>• Cwmpas yr ymgysylltiad?</li> <li>• Casgliadau perthnasol?</li> <li>• Argymhellion a chynlluniau gweithredu, os yn briodol?</li> </ul>			<p>Fel arfer mae adroddiad archwilio yn amlinellu amcanion yr adolygiad, y dull archwilio (h.y. cwmpas), crynodeb o'r canfyddiadau (i gynnwys canlyniadau cadarnhaol), barn sicrwydd (casgliad) a chynllun gweithredu i ddogfennu'r camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau a ganfuwyd yn y gwasanaeth / system (lle bo angen).</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.5.2 A yw archwilwyr mewnol yn gyffredinol yn trafod cynnwys yr adroddiadau terfynol drafft gyda'r lefelau priodol o reolwyr i gadarnhau cywirdeb ffeithiol, ceisio sylwadau a chadarnhau'r camau rheoli y cytunwyd arnynt?</p>			<p>Trefnir cyfarfod ymadael i drafod pob adroddiad archwilio drafft cyn ei gyhoeddi, i sicrhau ei fod yn ffeithiol gywir a bod y rheolwyr yn cytuno ar y camau gweithredu, pwy sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu gyda'r dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith, ac a ydynt am gynnwys unrhyw sylwadau pellach.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.5.3 Os oes argymhellion a chynllun gweithredu wedi'u cynnwys, a yw argymhellion yn cael eu blaenoriaethu yn ôl risg? Os yw argymhellion a chynllun gweithredu wedi'u cynnwys, a yw'r cyfathrebu hefyd yn nodi'r cytundebau y daethpwyd iddynt eisoes gyda'r rheolwyr ynghyd ag amserlenni priodol?</p>			<p>Mae'r camau gweithredu wedi'u graddio: haeddu sylw, cymedrol, arwyddocaol neu sylfaenol (yn dibynnu ar y risg ariannol a gweithredol i'r gwasanaeth / Cyngor). Mae'r cynllun gweithredu yn nodi a gytunwyd ar gamau gweithredu gyda'r rheolwyr (ac unrhyw sylwadau y dymunant eu nodi fel y bo'n</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

<p>Os oes unrhyw feysydd o anghytuno rhwng yr archwilydd mewnol a'r rheolwyr na ellir eu datrys trwy drafodaeth, a yw'r rhain yn cael eu cofnodi yn y cynllun gweithredu a'r risg weddilliol wedi'i hamlygu?</p>			<p>berthnasol), pwy yw'r swyddog sy'n gyfrifol am roi pob cam gweithredu ar waith, a'r dyddiad targed ar gyfer gweithredu.</p> <p>Nodir unrhyw anghytundeb yn y cynllun gweithredu, ac os bernir bod y cam gweithredu yn sylfaenol neu'n arwyddocaol, caiff ei amlygu fel risg i'r uwch reolwyr a'r PLIA.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.5.4 Yn amodol ar ofynion cyfrinachedd a chyfyngiadau eraill ar adrodd, a yw cyfathrebiadau yn datgelu'r holl ffeithiau perthnasol sy'n hysbys iddynt yn eu hadroddiadau archwilio a allai, os na chânt eu datgelu, ystumio eu hadroddiadau neu guddio arfer anghyfreithlon?</p> <p>Pan gyhoeddir barn neu gasgliad, a gaiff disgwyliadau uwch reolwyr, y bwrdd a rhanddeiliaid eraill eu hystyried?</p>			<p>Mae'r holl ganfyddiadau a chasgliadau perthnasol yn cael eu cofnodi mewn adroddiadau.</p> <p>Mae pob adroddiad archwilio yn cynnwys barn yr archwilydd sydd wedi'i graddio: uchel, sylweddol, cymedrol neu isel (yn dibynnu ar nifer y camau gweithredu gofynnol a'u safle risg).</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.5.5 Dylai safbwyntiau gael eu hategu gan wybodaeth ddigonol, ddibynadwy, berthnasol a defnyddiol (yn unol ag ymatebion i gwestiynau ar gyfer SAMSC 2300).</p> <p>Lle bo'n briodol, a yw cyfathrebiadau ymgysylltu yn cydnabod perfformiad boddhaol y gweithgarwch dan sylw?</p>			<p>Gweler pwynt 6.4.1</p> <p>Cyhoeddir memo sy'n rhoi barn sicrwydd 'uchel' ar gyfer adolygiad boddhaol sy'n arwain at 'ddim angen camau gweithredu'. Mae hefyd yn cynnwys cwmpas y gwaith i amlygu unrhyw gyfyngiadau i'r adolygiad.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.5.6 Pan fydd canlyniadau ymgysylltu wedi'u rhyddhau i bartïon y tu allan i'r sefydliad, a yw'r cyfathrebu yn cynnwys cyfyngiadau ar ddisbarthu a defnyddio'r canlyniadau?</p>			<p>Amh – ni ryddheir adroddiadau i bartïon allanol.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.5.7 Lle bu'n ofynnol i'r PSGA roi sicrwydd i sefydliadau partneriaeth eraill, neu gyrff hyd braich megis cwmnïau masnachu, a yw'r risgiau o wneud hynny wedi'u rheoli'n effeithiol, gan roi sylw i brif gyfrifoldeb y PSGA i reoli'r sefydliad y maent yn gweithio ar ei gyfer i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol?</p>			<p>Amh – dim gwaith o'r fath wedi'i wneud. (Mae cyfrif yr harbwr yn rhan o weithgarwch y Cyngor).</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p><i>2420 Ansawdd Cyfathrebu</i></p>			

6.5.8 A yw cyfathrebu archwilio mewnol yn gywir, yn wrthrychol, yn glir, yn gryno, yn adeiladol, yn gyflawn ac yn amserol?			Cadarnheir cywirdeb adroddiadau cyn eu cyhoeddi; rhaid i'r holl ganfyddiadau gael eu cefnogi gan dystiolaeth, ac felly maent yn wrthrychol; mae adroddiadau yn glir ac yn gryno gan nad ydynt yn cynnwys unrhyw wybodaeth ddiangen; bwriad y cynllun gweithredu yw bod yn adeiladol gan ei fod yn cynnig camau gweithredu i wella unrhyw wendidau a ddarganfuwyd. Y nod yw cyhoeddi adroddiadau o fewn 10 diwrnod i ddiwedd y gwaith maes archwilio. Ar gyfartaledd, cyflawnir hyn yn unol â'r Dangosyddion Perfformiad.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>2421 Gwallau a Hefgoriadau</i>			
6.5.9 Os yw cyfathrebu terfynol yn cynnwys gwall neu hepgoriad sylweddol, a yw'r PSGA wedi cyfleu'r wybodaeth gywir i bob parti a dderbyniodd y cyfathrebu gwreiddiol?			Os caiff adroddiad archwilio drafft ei ddiwygio, anfonir y fersiwn wedi'i diweddarau i'r holl dderbynwyr ar y rhestr ddosbarthu wreiddiol.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>2430 Defnydd o 'Wedi'i Gynnal yn Unol â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Proffesiynol Archwilio Mewnol'</i>			
6.5.10 Ai dim ond os yw canlyniadau'r RhSAG yn cefnogi datganiad o'r fath y mae'r archwilwyr mewnol yn adrodd bod ymgysylltiadau 'wedi'u cynnal yn unol â SAMSC'?			Amh – ni ddefnyddir y datganiad ar hyn o bryd.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>2431 Datgelu bod Ymgysylltiad Heb Gydymffurfio</i>			
6.5.11 Lle mae unrhyw ddiffyg cydymffurfio â SAMSC wedi effeithio ar ymgysylltiad penodol, a yw cyfathrebu'r canlyniadau yn datgelu'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Egwyddor neu reol ymddygiad y Cod Moeseg neu'r Safon(au) na chyflawnwyd cydymffurfiaeth lawn â nhw?</li> <li>• Y rheswm/rhesymau dros beidio â chydymffurfio?</li> <li>• Effaith peidio â chydymffurfio ar yr ymgysylltiad a chanlyniadau'r ymgysylltiad?</li> </ul>			Amh – dim digwyddiad o'r fath wedi'i gofnodi.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>2440 Lledaenu Canlyniadau</i>			

6.5.12 A yw'r PSGA wedi penderfynu ar gylchrediad adroddiadau archwilio o fewn y sefydliad, gan ystyried cyfrinachedd a gofynion deddfwriaethol?			Fel arfer bydd adroddiadau wedi'u cyfyngu i reolwr y gwasanaeth a archwiliwyd (sydd fel arfer yn gyfrifol am roi'r camau gofynnol ar waith), yn ogystal â'r SAC priodol. Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd wedi'i gynnwys ar y rhestr ddosbarthu ar gyfer yr archwiliadau sy'n gysylltiedig â'r risgiau yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
6.5.13 A yw'r PSGA wedi cyfleu canlyniadau'r ymgysylltiad i bob parti priodol?			Mae'r rhestr ddosbarthu yn cael ei gwirio yn ystod y cyfarfod ymadael, a'i nodi yn yr adroddiad, felly mae unrhyw hepgoriadau'n cael eu canfod fel arfer.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
6.5.14 Cyn rhyddhau canlyniadau ymgysylltu i bartion y tu allan i'r sefydliad, a oedd y PSGA wedi: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesu'r risg bosibl i'r sefydliad</li> <li>• Ymgynghori ag uwch reolwyr a/neu gwmsler cyfreithiol fel y bo'n briodol?</li> <li>• Lledaenu rheolaeth trwy gyfyngu ar y defnydd o'r canlyniadau?</li> </ul>			Ddim yn berthnasol – dim adroddiadau wedi'u rhyddhau i bartion allanol.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
6.5.15 Lle nodwyd unrhyw faterion llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth arwyddocaol yn ystod ymgysylltiadau ymgynghori, a gafodd y rhain eu cyfleu i'r uwch reolwyr a'r bwrdd?			Mae unrhyw gamau gweithredu sylfaenol ac arwyddocaol sydd eu hangen yn cael eu hadrodd yn chwarterol yn adroddiad cynnydd y RhCAM i'r PLIA, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Statudol.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<i>2450 Barn Gyffredinol</i>			
6.5.16 A yw'r PSGA wedi rhoi barn archwilio mewnol flynyddol? A yw'r farn archwilio mewnol flynyddol yn dod i gasgliad ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad? A yw'r farn archwilio mewnol flynyddol yn ystyried disgwyliadau uwch reolwyr, y bwrdd a rhanddeiliaid eraill? A yw'r farn archwilio mewnol flynyddol wedi'i hategu gan wybodaeth ddigonol, ddibynadwy, berthnasol a defnyddiol (gan ystyried yr atebion i'r cwestiynau ar SAMSC 2300)?			Mae'r farn wedi'i chynnwys yn Adroddiad Blynyddol y RhCAM i'r PLIA. Mae'r farn yn seiliedig ar y gwaith a wnaed a'r sicrwydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn, ar fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor. Cefnogir y farn gan wybodaeth ddigonol, ddibynadwy, berthnasol a defnyddiol – gweler pwynt 6.4.1. Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn cyfeirio at y map sicrwydd ac mae'n nodi'r ffynonellau eraill o sicrwydd sy'n cefnogi'r farn.
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

<p>6.5.17 A yw'r cyfathrebu yn nodi'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwmpas y farn, gan gynnwys y cyfnod y mae'r farn yn berthnasol iddo?</li> <li>• Unrhyw gyfyngiadau cwmpas?</li> <li>• Ystyried yr holl brosiectau cysylltiedig gan gynnwys y ddibyniaeth ar ddarparwyr sicrwydd eraill?</li> <li>• Y fframwaith risg neu reolaeth neu feini prawf eraill a ddefnyddir fel sail i'r farn gyffredinol?</li> </ul> <p>Os rhoddir barn archwilio mewnol amodol neu anffafriol, a nodir y rhesymau dros y farn honno?</p> <p>A yw'r PSGA wedi cyflwyno adroddiad blynyddol y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu?</p>	<p>Mae Adroddiad Blynyddol y RhCAM yn gorffen gyda'r farn. Rhoddir y farn ar gyfer bob blwyddyn ariannol, ac mae'n seiliedig ar nifer a chwmpas yr adolygiadau a'r camau dilynol a gwblhawyd, y sicrwydd a roddwyd (gan gynnwys unrhyw sicrwydd gan ddarparwyr eraill y dibynnir arno), a'r camau a gymerwyd gan reolwyr (yn enwedig y camau hynny yr ystyrir eu bod yn sylfaenol ac arwyddocaol). Mae'r farn yn cyfrannu at Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.</p>			
<table border="1"> <tr> <td style="background-color: #92d050;">CYDYMFFURFIO</td> <td>RHANNOL</td> <td>HEB GYDYMFFURFIO</td> </tr> </table>	CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO		
<p>6.5.18 A yw'r adroddiad blynyddol yn ymgorffori'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Barn yr archwiliad mewnol blynyddol?</li> <li>• Crynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn?</li> <li>• Datgelu unrhyw amodau i'r farn?</li> <li>• Y rhesymau dros unrhyw amodau i'r farn?</li> <li>• Datgelu unrhyw namau neu gyfyngiadau yn y cwmpas?</li> <li>• Cymhariaeth neu waith a wnaed mewn gwirionedd â'r gwaith a gynlluniwyd?</li> <li>• Datganiad ar gydymffurfio â SAMSC?</li> <li>• Canlyniadau'r RhSAG?</li> <li>• Cynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r RhSAG?</li> <li>• Crynodeb o berfformiad y gweithgarwch archwilio mewnol yn erbyn ei fesurau perfformiad a thargedau?</li> <li>• Unrhyw faterion eraill y mae'r PSGA yn barnu eu bod yn berthnasol i baratoi'r datganiad llywodraethu?</li> </ul>	<p>Mae'r farn AM flynyddol wedi'i chynnwys yn Adroddiad Blynyddol y RhCAM i'r PLIA.</p> <p>Mae crynodeb o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn sy'n cefnogi'r farn flynyddol wedi'i gynnwys yn yr adroddiadau cynnydd chwarterol a'r Adroddiad Blynyddol i'r PLIA.</p> <p>Ni ddarparwyd amodau yn ystod 2022/23.</p> <p>Mae unrhyw namau neu gyfyngiadau o ran cwmpas yn cael eu dwyn ar sylw'r PLIA e.e. cyfyngiadau o ran adnoddau. Cynhwysir cymhariaeth neu waith a wnaed mewn gwirionedd yn erbyn y cynllun gwreiddiol.</p> <p>Mae canlyniadau'r hunanasesiad yn erbyn SAMSC wedi'u cynnwys gyda'r cynllun gwella dilynol.</p> <p>Mae crynodeb o berfformiad Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, fel y'i defnyddir gan grŵp meincnodi archwilio CIPFA, a mesurau ansawdd eraill sy'n rhan o'r RhGSA.</p> <p>Mae cynnydd yn erbyn cynllun gwella'r flwyddyn yn cael ei nodi'n chwarterol ac yn flynyddol. Nodir unrhyw faterion eraill y mae'r RhCAM yn eu hystyried yn berthnasol.</p>			
<table border="1"> <tr> <td style="background-color: #92d050;">CYDYMFFURFIO</td> <td>RHANNOL</td> <td>HEB GYDYMFFURFIO</td> </tr> </table>	CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO		

6.6 2500 Monitro Cynnydd			
<p>Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ceisio cadarnhau bod system ar waith i fonitro effeithiolrwydd canlyniadau cyfathrebu archwilio i reolwyr, gan gynnwys gweithgarwch dilynol priodol pan na chymerir unrhyw gamau gan reolwyr.</p> <p>A yw'r PSGA wedi sefydlu proses i fonitro a dilyn camau rheoli i sicrhau bod y camau y cytunwyd arnynt wedi'u gweithredu'n effeithiol neu fod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â chymryd camau?</p>			
<p>6.6.1 Lle mae materion wedi codi yn ystod y broses ddilynol (er enghraifft, lle na weithredwyd camau y cytunwyd arnynt), a yw'r PSGA wedi ystyried diwygio'r farn archwilio mewnol?</p> <p>A yw canlyniadau monitro camau rheoli yn llywio'r gwaith o gynllunio gwaith archwilio yn y dyfodol yn seiliedig ar risg?</p>		<p>Mae gan yr Adain AM raglen a thaenlen fonitro ar gyfer Camau Gweithredu Rheolwyr lle mae'r cynnydd a wneir o ran rhoi'r camau a gytunwyd arnynt ar waith yn cael ei fonitro a'i ddiweddarau. Mae adroddiad am y camau gweithredu gan reolwyr yn cael ei gyflwyno i'r PLIA bob 6 mis.</p> <p>Mae gan yr adain hefyd broses ar gyfer archwiliadau dilynol a lle bo'n bosibl, cynhelir archwiliadau dilynol unwaith y bydd pob dyddiad targed wedi'i gyrraedd (fel arall, yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol).</p> <p>Caiff barn Archwilio Mewnol ei hail-asesu yn unol â chanlyniadau'r archwiliadau dilynol.</p> <p>Mae'r canlyniadau hyn yn cyfrannu yn y dyfodol at gynlluniau archwilio sy'n seiliedig ar risg.</p>	
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
<p>6.6.2 A yw'r gweithgarwch archwilio mewnol yn monitro canlyniadau ymgysylltiadau ymgynghori fel y cytunwyd gyda'r cleient?</p>		<p>Os ymgynghorir ag AM e.e. gweithredu system newydd, fel arfer cytunir gyda chleientiaid bod archwiliad yn cael ei gynllunio yn ddiweddarach pan fydd y system yn weithredol.</p>	
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	
6.7 2600 Cyfathrebu Derbyn Risgiau			
<p>Mae'r adran hon yn ystyried y trefniadau sy'n gymwys os yw'r PSGA wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn lefel o risg a allai fod yn annerbyniol i'r sefydliad.</p> <p>Mae disgwyl i sefyllfaoedd o'r fath fod yn brin. Mae SAMSC 2600 yn nodi gofynion</p>			



## Tudalen 409

cyfathrebu ar gyfer y PSGA. Nid cyfrifoldeb y PSGA yw datrys y risg.			
<p>6.7.1 Os yw'r PSGA wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn lefel o risg a allai fod yn annerbyniol i'r sefydliad, a yw ef neu hi wedi trafod y mater gyda'r uwch reolwyr?</p> <p>Os yw'r PSGA, ar ôl trafod ag uwch reolwyr, yn parhau i ddod i'r casgliad y gallai lefel y risg fod yn annerbyniol i'r sefydliad, a yw ef neu hi wedi cyfleu'r sefyllfa i'r bwrdd?</p>			<p>Mae unrhyw anghytundeb ynghylch derbyn risg rhwng yr archwilydd a'r rheolwyr yn cael ei nodi yng nghynllun gweithredu'r adroddiad; ac os bernir bod y cam gweithredu a argymhellir yn sylfaenol neu'n arwyddocaol, caiff ei ddwyn at sylw'r uwch reolwyr a'r PLIA.</p>
CYDYMFFURFIO	RHANNOL	HEB GYDYMFFURFIO	

# Tudalen 410

Cydymffurfio â Safonau Canlyniadol:

Cydymffurfio â'r Safonau	Cydymffurfiaeth 2021/22			Cyfanswm
	Ie	Rh	Na	
1. Cenhadaeth Archwilio Mewnol	1			1
2. Diffiniad o Archwilio Mewnol	2			2
3. Egwyddorion Craidd	10			10
4. Cod Moeseg	5			5
5. Safonau Priodoledd				
1000 Pwrpas, Awdurdod a Chyfrifoldeb	4			4
1100 Annibyniaeth a Gwrthrychedd	21			21
1200 Hyfedredd a Gofal Proffesiynol Dyladwy	9	1		10
1300 Sicrhau Ansawdd a Gwella	15			15
6. Safonau Perfformiad				
2000 Rheoli Gweithgarwch Archwilio Mewnol	17			17
2100 Natur y Gwaith	10			10
2200 Cynllunio Ymgysylltiad	12			12
2300 Cyflawni'r Ymgysylltiad	7			7
2400 Cyfathrebu Canlyniadau	18			18
2500 Monitro Cynnydd	2			2
2600 Cyfathrebu Derbyn Risgiau	1			1
Cyfanswm	134 99%	1 1%	0 -	135 100%

## Tudalen 411

### Cynllun Gwella Canlyniadol (2022/23):

Cyf	Cydymffurfio â'r Safon	Camau Gweithredu Gofynnol	Dyddiad Targed
Safon 1210	5.3.1 A oes gan y PSGA gymhwyster proffesiynol, fel CMIIA/CCAB neu gymhwyster cyfatebol? <a href="#">Mae'r RhCAM yn astudio ar gyfer Tystysgrif Archwilio Mewnol IIA ar hyn o bryd.</a>	RhCAM i ennill cymhwyster proffesiynol CMIIA.	O fewn 3 blynedd i'r apwyntiad

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>27<sup>ain</sup> Medi 2023</b>
<b>LLEOLIAD:</b>	<b>O bell trwy Gynhadledd Fideo</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol o sylwadau Canmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth (2022-2023)</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>Rhoi trosolwg cynhwysfawr i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu o weithgarwch Canmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth (gan gynnwys Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn ystod 2022 - 2023. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn darparu gwybodaeth am gwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.</b>
	<b>Ynghyd â'r adroddiad ceir dogfennau perthnasol (a restrir fel atodiadau isod) sy'n cynnwys copi o Lythyr Blynyddol yr Ombwdsmon, wedi'i ddyddio 17 Awst 2023.</b>
<b>Ar Gyfer:</b>	<b>Gwybodaeth</b>
<b>PORTFFOLIO'R CABINET AC AELOD O'R CABINET:</b>	<b>Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd</b>

**Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â gweithgaredd Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Rhestrir yr adroddiad ei hun fel **Atodiad 1** ac mae'n cynnwys gwybodaeth benodol am nifer a math y ganmoliaeth a dderbyniwyd, y gwahanol gamau cwynion, perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â'r rhain a gwybodaeth am gydymffurfio â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Mae adroddiad sy'n manylu ar ganmoliaeth a chwynion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i gynnwys fel **Atodiad 2**, a darperir gwybodaeth am y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i gwynion (corfforaethol) yn **Atodiad 3**. Mae'r prif adroddiad yn cynnwys adran am y cyswllt a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") yn ystod y cyfnod adrodd. Mae Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon at y Cyngor wedi'i gynnwys fel **Atodiad 4**, ac mae hyn yn rhoi rhagor o fanylion am holl weithgarwch yr Ombwdsmon ar gyfer Ceredigion, yn ogystal ag ar gyfer cynghorau eraill ledled Cymru..

Dyma'r pedwerydd adroddiad yn olynol lle na ddechreuwyd ymchwiliadau Ombwdsmon nac adroddiadau ffurfiol mewn perthynas â chwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor. Er bod llai o

atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn adrodd hon, mae gan y Cyngor cyfradd cyson uchel o Setliadau Datrysiad Cynnar/Gwirfoddol.

Cydnabyddir felly bod heriau'n parhau mewn perthynas â chymhlethdod y cwynion a dderbyniwyd, cynnydd cyffredinol mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â chwynion, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, atgyfeiriadau Ombwdsmon ac atgyfeiriadau at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig â darpariaeth y Tîm Cwynion a'r Rhyddid Gwybodaeth ei hun. Mae'n anochel bod yr heriau hyn wedi cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion perfformiad mewn perthynas ag amserlenni rhagnodedig.

## Trosolwg Bras:

↑ **465** Canmoliaeth a dderbyniwyd

↑ **403** Ymholiadau a broseswyd gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

↑ **144** Y cwynion a dderbyniwyd: **Cyfnod 1 = 96**

**Cyfnod 2 = 48**

↓ **35** 'Cysylltiadau' a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

↑ **882** Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi'u prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

## Crynodeb

- Cafwyd llawer mwy o Ganmoliaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae gwella'r ffordd y caiff canmoliaeth eu cyflwyno yn parhau i fod yn waith y mae angen i'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth ei wneud, ond mae hyn yn cael ei ohirio oherwydd cyfyngiadau capasiti.
- Derbyniodd y gwasanaeth llawer mwy o ymholiadau-llawer ohonynt nail ai wedi'u dyrannu i'r meysydd gwasanaeth i'w datrys yn rhagweithiol, neu roedd angen ymatebion ffurfiol er mwyn egluro pam na ellid ymdrin â materion o'r fath o dan y gweithdrefnau cwynion.
- Mae'n werth nodi mai nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor oedd y trydydd isaf yng Nghymru.
- Mae angen llawer iawn o waith i atal cwynion Cyfnod 1 rhag cynyddu i Gyfnod 2 yn ddiangen oherwydd na fu'n bosibl ymateb o fewn yr amser penodedig o ddeg diwrnod gwaith.
- Mae cydymffurfio a'r amser sydd wedi enodi yng Nghyfnod 2 hefyd angen sylw, ynghyd a'r diffygionwrth ymdrin a chwynion a gafodd eu cyfeirio at yr Ombwdsmon. Mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn parhau i wynebu'r heriau o gyrraedd y galw cynyddol yn y nifer o ganmoliaeth, cwynion a cheisiadau rhyddid gwybodaeth.
- Fel y nodwyd uchod, roedd llai eu cyfeirio wrth yr Ombwdsmon na'r llynedd, ond noder mai nifer y Setliadau Datrysiad Cynnar / Gwirfoddol yw'r uchaf yng Nghymru.
- Cwynion dros faterion Casglu Gwastraff a materion Cynllunio yw'r rhesymau pennaf dros gwynion o hyd,; fodd bynnag, mae'r gwasanaethau hyn yn fwy tebygol o dderbyn cwynion ac felly rhaid ystyried y cyd-destun a lefel y gweithgarwch a wneir gan y ddau faes yma.

## Tudalen 415

- Roedd cydymffurfiaeth ag amserlenni Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ar ei lefel isaf o ran y rheiny a adroddwyd, sef 54% a 44%. Mae llawer o waith yn cael ei wneud i wella hyn.

### **Meysydd i ffocysu arnynt**

- Gwella ymlyniad gyda'r amser a benodwyd ar gyfer cwynion a pholisïau/deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol
- Cryfhau gwydnwch o fewn y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
- Atgyfnerthu'r egwyddor bod cwynion yn gyfrifoldeb ar hyd y Cyngor
- Darparu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar ymdrin â chwynion
- Gwella system ar gyfer derbyn canmoliaeth a data ynghylch gwersi a ddysgwyd
- Parhau gydag ymagwedd agored, dryloyw ac sy'n rhoi'r cyhoedd yn ganolbwynt wrth ddatrys pryderon

**Argymhellion:** Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth 2022-2023, yr atodiadau ategol, ac i nodi cynnwys Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2022-2023.

**Rheswm(au) dros yr Argymhelliad(au):** Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Tîm Cwynion a'r Rhyddid Gwybodaeth

**Atodiadau:**

**Atodiad 1**  
Adroddiad Blynyddol ar gyfer Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth 2022-2023

**Atodiad 2**  
Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-2023

**Atodiad 3**  
Gwybodaeth am Wersi a Ddysgwyd yn sgîl cwynion

**Atodiad 4**  
Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon: 2022–2023

**Atodiad 5**  
Gwybodaeth am Ddatrysiad Cynnar/Aneddiadau Gwirfoddol y cytunwyd arnynt gyda'r Ombwdsmon.

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

**Swyddog Adrodd:** Marie-Neige Hadfield, Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

**Dyddiad:** 7fed Medi 2023



# Adroddiad Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

---



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

**2022 – 2023**

# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	Tudalennau 3-4
<b>2. Canmoliaeth a dderbyniwyd</b>	Tudalennau 5-6
<b>3. Data a Dadansoddiad Cwynion</b>	Tudalennau 7-10
<b>4. Cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</b>	Tudalen10- 11
<b>5. Ceisiadau a dderbyniwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA)</b>	Tudalennau 11-12
<b>6. Atodiadau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>- <b>Atodiad 2: Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-2023</b></li> <li>- <b>Atodiad 3: Adnabod Gwersi o Gwynion</b></li> <li>- <b>Atodiad 4: Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon</b></li> <li>- <b>Atodiad 5: Crynodebau Datrysiad Cynnar yr Ombwdsmon / Datrysiadau Gwirfoddol</b></li> </ul>	

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Bydd yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am nifer y **Canmoliaeth, Cwynion** a Cheisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd o dan **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) 2000**, a **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA) 2004** yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.
- 1.2 Bydd rhannau o'r adroddiad yn canolbwyntio ar reolaeth a pherfformiad pob un o rwymedigaethau statudol a gweithdrefnol y Cyngor mewn perthynas â rheoli cwynion a mynediad at hawliau gwybodaeth sydd yn disgyn oddi fewn i gyfrifoldeb y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r ddeddfwriaeth/polisiâu amrywiol wedi'u hamlinellu isod:
- \* **Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol (Corfforaethol) 2020**
  - \* **Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014**
  - \* **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG)**
  - \* **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (RhGA)**
- 1.3 Mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn dîm bach, sy'n cynnwys 3.8 aelod o staff, ac mae'n gyfrifol am y swyddogaeth weinyddol o dan y ddeddfwriaeth a'r polisiâu uchod, gan gynnwys unrhyw achosion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon"). Mae'r Tîm Cwynion a rhyddid Gwybodaeth yn darparu cyngor, cymorth a chefnogaeth i swyddogion y Cyngor ar lefel gorfforaethol, yn ogystal ag i ysgolion - o dan gytundeb partneriaeth.
- 1.4 Yn dilyn ffurfio'r **Awdurdod Safonau Cwynion (ASC)** o dan **Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019**, mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ledled Cymru gyflwyno eu gweithgarwch cwynion i'r ASC bob chwarter. Mae'r wybodaeth hon ar gael am ddim ar wefan yr Ombwdsmon.
- 1.5 Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n gadarnhaol gyda'r Ombwdsmon a bydd Adran 4 yr adroddiad hwn yn rhoi manylion y **cwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon** yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae'n werth nodi mai dyma'r pedwerydd cyfnod adrodd yn olynol lle na lansiwyd ymchwiliadau ffurfiol i gŵyn yn erbyn Cyngor Sir Ceredigion. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y Cyngor wedi profi y nifer uchaf o achosion sydd angen ymyrraeth gan yr Ombwdsmon (o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill). Cyfeirir at achosion o'r fath fel Penderfyniad Cynnar/Setliad Gwirfoddol a byddant yn cael sylw manylach isod.
- 1.6 Mae datrys unrhyw bryderon a dderbynnir gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel a gwneir pob ymdrech i gyflawni canlyniadau boddhaol pan ddaw achosion o'r fath i'n sylw. Oherwydd yr ymdrechion parhaus a'r cydweithio cadarnhaol rhwng staff a rheolwyr ar draws y Cyngor, mae'n llawer mwy effeithiol datrys pryderon pan gânt eu derbyn fel 'ymholiad', heb orfod cychwyn y weithdrefn gwyno ffurfiol.

- 1.7 Ymdrinwyd â chyfanswm o **403 o ymholiadau** gan y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fodd bynnag, nid oes gan y gwasanaeth alluoedd adrodd digonol eto a all nodi faint o'r ymholiadau hyn oedd angen eu datrys yn dilyn hynny drwy weithdrefn gwyno (fwyaf priodol).
- 1.8 Bydd yr adroddiad hwn yn darparu rhywfaint o wybodaeth am gwynion ar lefel gorfforaethol, h.y. data ynghylch cwynion a reolir o dan bolisiau **corfforaethol** a **Gwasanaethau Cymdeithasol**. Mae'r ddau yn cynnwys **proses dau gam**, ond mae'r gofynion a'r amserlenni a nodir ym mhob un o'r rhain yn wahanol.
- 1.9 Lluniwyd adroddiad sy'n crynhoi'r trefniadau o dan bolisi cwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd hefyd yn darparu dadansoddiad o'r holl ganmoliaeth a chwynion a dderbyniwyd yn ystod 2022-2023, i'w gynnwys yn adroddiad perfformiad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylid ystyried y ddogfen hon ar y cyd â'r adroddiad hwn ac fe'i cynhwysir fel **Atodiad 2**.
- 1.10 Felly, bydd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r polisi corfforaethol a manylion ychwanegol ynghylch nifer, tueddiadau a chanlyniadau cwynion a gofrestrwyd ar gyfer y cyfnod adrodd hwn (2022-2023).
- 1.11 Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion corfforaethol yn cynnwys dau gam;
- **Cam 1 yw'r cam anffurfiol a rhaid ei gwblhau o fewn deg diwrnod gwaith**
  - **Mae Cam 2 yn gofyn am ymchwiliad ffurfiol, ar lefel a ystyrir yn rhesymol ac yn gymesur â'r materion sy'n cael eu codi.**
- 1.12 Mae'n sail i ethos ar gyfer sicrhau bod datrys cwynion yn effeithiol yn argymhell fel a ganlyn: '**Ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda**'. O bryd i'w gilydd gall ymchwiliadau ffurfiol o dan Gam 2 gymryd mwy o amser na'r **20 diwrnod gwaith** amlinellir yny polisi. Fodd bynnag, gwneir pob ymdrech i roi gwybod i'r achwynydd am unrhyw oedi a phryd y dylent ddisgwyl derbyn ymateb ffurfiol y Cyngor.
- 1.13 Darperir gwybodaeth am berfformiad y Cyngor yn hyn o beth yn yr adroddiad hwn, ond y flaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod ymchwiliad cadarn ac ystyrllon yn cael ei gynnal – hyd yn oed os yw hyn yn cymryd mwy o amser na'r amserlenni rhagnodedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â pharhad gwasanaeth o fewn y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth unwaith eto wedi effeithio ar allu'r Gwasanaeth i gynnal cyfathrebu effeithiol ag achwynwyr mewn rhai achosion.
- 1.14 Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol (SAC) ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am bob cwyn a gweithgaredd Rhyddid Gwybodaeth o fewn y Cyngor a bydd yn codi materion sy'n peri pryder i aelod(au) perthnasol y Grŵp Arweinyddiaeth. Yn ogystal, y SAC yw Uwch Swyddog enwebu'r Cyngor ar gyfer yr Ombwdsmon a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) mewn perthynas â chwynion a pherfformiad Rhyddid Gwybodaeth, yn y drefn honno.

## 2. Canmoliaeth

- 2.1 Mae'r holl ganmoliaeth a dderbynnir gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu recordio a'u monitro'n rheolaidd. Defnyddir adborth cadarnhaol o'r fath i **rannu a hyrwyddo arfer da** lle bynnag y bo modd. Mae canmoliaeth yn ffynhonnell anogaeth bod staff y Cyngor yn darparu gwasanaeth gwerthfawr ac uchel i'r rhai sydd yn eu derbyn.
- 2.2 Efallai y bydd cyfleoedd hefyd yn bodoli i rannu arfer da y tu hwnt i'r meysydd gwasanaeth sy'n derbyn yr adborth cadarnhaol, gan y gall hyn helpu i fabwysiadu dulliau sydd wedi'u profi o ddarparu gwasanaethau effeithiol ar lefel ehangach.
- 2.3 Mae'r tabl isod yn dangos nifer y ganmoliaeth a dderbyniwyd ar gyfer pob maes gwasanaeth yn ystod 2022-2023, ynghyd â'r data ar gyfer y ddau gyfnod adrodd cyn hyn:

Gwasanaeth	2020 – 2021	2021 – 2022	2022 – 2023
Cyswllt Cwsmeriaid & TGCh	37	29	44
Gwasanaethau Democraataidd	-	2	3
Economi ac Adfywio	11	14	12
Cyllid a Chaffael	24	5	6
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	26	25	33
Llywodraethu a Chyfreithiol	-	1	3
Pobl a Threfniadaeth	-	-	-
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	3	5	16
Porth Cymorth Cynnar	344	29	57
Porth Cynnal	72	27	78
Porth Gofal	169	77	139
Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	11	4	5
*Corfforaethol	117	6	69
<b>Cyfanswm</b>	<b>814</b>	<b>224</b>	<b>465</b>

\* Adborth cadarnhaol a ddarperir yn gyffredinol (tuag at holl weithlu'r Cyngor) a thuag at swyddfa'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol

- 2.4 Mae'n werth nodi bod y Cyngor **ond yn** cofnodi canmoliaeth a dderbynnir o **ffynonellau allanol**. O ganlyniad, bydd gwasanaethau sydd ag ychydig iawn, neu ddim, cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd yn llai tebygol o dderbyn unrhyw adborth cadarnhaol a fyddai'n gymwys i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn. Felly, nid yw absenoldeb data a gofnodir yn erbyn rhai gwasanaethau yn arwydd o ddiffyg gwerthfawrogiad o'u harferion gwaith nac unrhyw adlewyrchiad o'u perfformiad cyffredinol.
- 2.5 Gall digwyddiadauddylanwadu ar ATA yn ystod cyfnod adrodd penodol, e.e. derbyniwyd nifer sylweddol o ganmoliaeth i Porth Cymorth Cynnar ac ar lefel 'gorfforaethol', yn ystod 2020 – 2021. Mae hyn yn gyson â'r ymdrechion rhyfeddol a wnaed gan swyddogion yn ystod anterth y pandemig coronafeirws (cyhoeddi blychau bwyd, cefnogaeth i ofalwyr ac ati).
- 2.6 Digwyddodd tuedd debyg yn ystod y cyfnod adrodd hwn lle cofnodwyd nifer o ganmoliaeth ar lefel 'gorfforaethol'; priodolwyd hyn yn bennaf i lwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhaliwyd yn Nhregaron yn ystod Awst 2022.

## 2.7 Ciplun o ganmoliaeth a dderbyniwyd yn ystod 2022 – 2023

"Hoffwn ddweud cymaint mwynheais yn fawr y digwyddiadau diweddar a gynhaliwyd trwy Borth Cymorth Cynnar yn y Bandstand a Chanolfan Deuluol Penparcau. Dysgais lawer a mwynheais wrïo fy het ficed yn arbennig. Rwy'n gobeithio y bydd mwy o ddigwyddiadau fel hyn yn y dyfodol." - *Porth Cymorth Cynnar* -

"Arbennig! Wedi treulio llawer o amser 'ma. Bocsys adar, gliter, smwddis, gwallt, trefnu blodau, wal ddringo - gwych. Plant wrth eu bodd. Digon o weithgareddau amrywiol. Diolch!" - *Ysgolion a Dysgu Gydol Oes* -

"Neges fer i ddiolch i chi am gefnogi'r sesiynau dros yr wythnosau diwethaf ac am rannu'r wybodaeth. Mae'r hyn rydych chi'n ei wneud gyda'r Canolfannau Croeso [Ffoaduriaid Wcreineg] yn arbennig - diolch yn fawr iawn." - *Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd* -

"Mae eich cefnogaeth a'ch cyngor wedi bod yn hynod werthfawr; Ni allaf ddiolch digon ichi." - *Corfforaethol* -

"Diolch i'r holl staff am drefnu'r Parti Nadolig yn Hafan Deg. Braff oedd gweld pawb heddiw. Bwyd, cerddoriaeth ac anrhegion hyfryd i bawb." - *Porth Cynnal* -

"Hoffwn ddiolch i staff am yr holl waith y maent yn ei wneud o fewn Clic" - *Cyswllt Cwsmeriaid* -

"Ymwelais â chanolbarth Cymru yn ddiweddar gan ymweld â Rhaeadr, Pontarfynach ac yna Aberystwyth ar hyd ffordd y mynydd. Cefais amser bendigedig ac roeddwn eisiau mynegi fy modlonrwydd gyda'r gwasanaethau lleol yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn." - *Corfforaethol* -

"Ar ein gwyliau byr diweddar yn Nhregaron, teithiom yn y car i bob pwynt o'r cwmpawd. Gwnaeth cyflwr ardderchog yr holl ffyrdd, boed yn briffyrdd A neu'n lonydd troellog cul, argraff amom wrth i ni deithio o gwmpas. Diolch yn fawr iawn am gyfrannu at ymweliad cyntaf pleserus â'ch gwlad." - *Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol* -

"Hoffwn ddiolch i'r swyddogion sydd wedi ei gwneud hi'n bosibl lledu ac ail-wynebu llwybr isaf Pen Dinas, fel y sylwais heddiw wrth gerdded ar y bryn. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i bobl yr ardal yn ogystal â thwristiaid, gan gynyddu mynediad i bobl â phroblemau symudedd a chyfrannu at eu lles." - *Economi ac Adfywio* -


"Fel arfer, rwyf mor ddiolchgar am y ffordd wych yr ydych wedi ein helpu ac yn parhau i ddarparu cefnogaeth. Mae eich effeithlonrwydd yn rhagorol ac mae eich cyngor ar bob mater yn gyfeillgar, yn drylwyr, ac yn galonogol iawn i mi." - *Porth Cynnal* -

"Diolch o waelod ein calonnau am yr holl ofal a chariad a ddangosoch ac a roesoch i X. Roedd mor hapus ac yn caru pob un ohonoch, rhoddasoch iddo flynyddoedd gorau ei fywyd." - *Porth Gofal* -

"Roeddwn i eisiau dweud diolch enfawr am y seremoni ddoe: roedd yn berffaith! Roedden ni eisiau priodas agos gyda'n huned deuluol fach a dyna beth gawson ni. Rydych chi wedi rhoi atgofion inni eu trysori am byth." - *Cyswllt Cwsmeriaid* -

### 3. Cwynion

3.1 Mae'r siart isod yn dangos **cyfanswm y cwynion** a dderbynnir gan y Cyngor bob blwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys nifer y ceisiadau am wasanaeth, ymholiadau neu bryderon y gellid eu datrys gan y gwasanaeth(au) perthnasol ar sail ragweithiol neu'r rhai nad oeddent o fewn cylch gwaith y polisïau cwynion: e.e. achosion lle'r oedd llwybr apêl amgen ar gael, neu os ystyriwyd bod y mater sy'n cael ei gwyno yn *'benderfyniad a wnaed yn briodol'*. Dyma pryd mae'r Cyngor yn cymryd camau sy'n gwbl gyfreithlon ac sy'n cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth a/neu bolisi.



3.2 Mae'r tabl isod yn gwahanu **cwynion fesul cam**, ar gyfer pob un o'r blynyddoedd adrodd y cyfeirir atynt uchod.


Blwyddyn	Cyfnod 1	Cyfnod 2	Cyfanswm
2017-18	96	39	135
2018-19	92	40	133
2019-20	85	39	124
2020-21	61	42	103
2021-22	73	60	133
2022-23	<b>96</b>	<b>48</b>	<b>144</b>

3.3 Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2022-2023 ynghylch darpariaeth (neu ddiffyg hynny) **gwasanaethau Cymraeg** ar draws y Cyngor, ac ni dderbyniwyd unrhyw atgyfeiriadau gan Gomisiynydd y Gymraeg.

3.4 I roi'r uchod yn ei gyd-destun, mae'n werth nodi bod y Cyngor wedi cofnodi **95,421** o ymholiadau yn ystod 2022-2023.


3.5 Mae'r siart hon yn dangos dadansoddiad cwynion gan y Gwasanaeth ac mae hefyd yn darparu categori 'aml-wasanaeth' ychwanegol, a ddefnyddir pan fydd cwynion yn rychwantu mwy nag un maes gwasanaeth.

Cwynion yn ôl Gwasanaeth




3.6 Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyfeirio at nifer y cwynion a gaewyd yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Sylwch fod gwahaniaeth rhwng nifer y cwynion a dderbyniwyd a'r rhai a ddaeth i ben yn ystod 2022-2023, mae hyn oherwydd yr amser sydd ei angen i ymchwilio ac ymateb i gwynion (e.e. cofnodir bod cynw a dderbyniwyd ar 31 Mawrth 2022 wedi ei derbyn yn ystod 2021-2022, ond oni bai bod y gŵyn ar gau ar y diwrnod y derbyniwyd, bydd y canlyniad yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2022-2023).

3.7 Darparwyd dadansoddiad o'r cwynion Cyfnod 1 a ddaeth i ben yn ystod 2022-2023 isod ac mae'n dangos nifer yr achosion a oedd: wedi'u datrys yn llwyddiannus, wedi'u codi i ymchwiliad ffurfiol o dan Gam 2 (pe bai'r achwynydd yn anfodlon â'r canlyniad), a nifer y cwynion y bu'n rhaid eu codi i Gam 2 oherwydd methiant y Cyngor i ymateb o fewn yr amserlen a ragnodir ar gyfer cwynion Cyfnod 1 (deg diwrnod gwaith). Mae'r ail siart yn dangos y gwahanol resymau pam gafwyd ymchwiliwyd i gwynion yng Ngham 2. Fe sylwch yr ystyriwyd 15 cynw ar unwaith trwy gam ffurfiol, a ganiateir o dan y polisi ac a fydd fel arfer yn digwydd pan dderbynnir cwynion difrifol, neu'r rhai sy'n ymwneud â chyswllt gan yr Ombwdsmon.




RHESYMAU DROS SYMYD YMLAEN I GAM 2





3.8 Dangosir canlyniadau pob un o'r **72 cwyn Cam 1** a gaewyd yn ystod 2022-2023 isod. Mae'r categori y cyfeirir ato fel '**Arall**' yn cynrychioli unrhyw gwynion a ystyriwyd yn ddiweddarach o dan **broses wahanol** neu a ystyriwyd yn ddiweddarach i fod yn berthnasol i **gwmpas** y polisi cwynion (e.e. lle dylid dilyn polisi amgen neu os daeth yn amlwg na ddylid ystyried y mater penodol fel 'cwyn'). Mae'r un peth yn wir am y **42 cwyn Cam 2** yr ymchwiliwyd iddynt o dan y polisi corfforaethol ac a ddaeth i ben yn ystod 2022-2023.



3.9 Cafodd cyfanswm o **19 o gwynion Cam 1** eu **codi** i Gam 2 oherwydd bod yr **amserlen 10 diwrnod gwaith yn cael ei rhagori**. Mae hyn yn gyson â'r Polisi Cwynion Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Safonau Cwynion (CSA). Mae hyn yn cynrychioli **17%** o holl gwynion Cam 1 ac mae'n dangos bod angen gwelliannau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi Cam 1.

3.10 O'r **42 cwyn Cam 2** yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y cyfnod adrodd hwn, caewyd **15 achos o fewn yr amserlen ragnodedig o 20 diwrnod gwaith**. Mae hyn yn cynrychioli **36%** yn unig o'r holl gwynion ffurfiol sydd wedi cael eu cau o fewn amserlenni a nodwyd. Unwaith eto, **mae angen llawer iawn o welliant** i sicrhau bod cwynion yn cael eu hymchwilio a'u hymateb yn brydlon. Mae'n debygol y bydd gwelliannau o'r fath yn lleihau nifer yr atgyfeiriadau i'r Ombwdsmon.

### 3.11 Nodi gwersi o gwynion

3.12 Gwnaed pob ymdrech drwy gydol y cyfnod adrodd hwn i gasglu mwy o wybodaeth am y gwersi a **nodwyd o ganlyniad i gwynion** a thynnu sylw at y **gwelliannau a'r** cyfleoedd sy'n codi ohonynt. Yn anffodus, mae'r system gofnodi gyfredol ar gyfer cwynion yn anghydnaws ar gyfer dadansoddiad manwl fesul achos; fodd bynnag, adolygwyd yr holl gwynion a gadarnhawyd at ddibenion cyflwyno gwybodaeth am y gwersi a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

3.13 Er y dylai fod cyfleoedd bob amser i rannu arfer da, yn amlach na pheidio mae gwelliannau'n cael eu nodi pan fydd cwyn yn cael ei **gadarnhau**. Darperir gwybodaeth yn **Atodiad 3** sy'n rhestru'r gwahanol strategaethau, gwelliannau a chyfleoedd hyfforddi sydd i gyd wedi codi o ganlyniad i gwyn.


- 3.14 Yn dilyn ystyriaeth gan wahanol bwyllgorau democrataidd pan gyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Canmoliaeth, Cwynion a'r Rhyddid Gwybodaeth yn 2022, gwnaed cais am fwy o wybodaeth am gwynion lle ystyriwyd **bod 'cyfathrebu'** yn ffactor sylweddol. Felly, mae dadansoddiad wedi'i wneud mewn perthynas â hyn ac, er bod **cyfathrebu gwael yn nodwedd o'r rhan fwyaf o gwynion**, mae gwybodaeth wedi'i chasglu i benderfynu ar yr achosion lle mai dyma'r prif ffactor, neu o leiaf agwedd sylweddol ar y mater sy'n arwain at gŵyn.
- 3.15 O'r **106** cwyn gorfforaethol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd **56 achos** yn cyfeirio'n uniongyrchol at **ddiffyg cyfathrebu** ar ran y Cyngor. O'r rhain, cododd **39 cwyn** yn syml o ganlyniad i **'fethiant i ymateb'** gwasanaeth i bobl. Rhaid crybwyll hefyd bod y **Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth** wedi wynebu heriau sylweddol o **ran cynnal cyfathrebu** â'r rhai sy'n cysylltu â'r gwasanaeth (naill ai yn ystod y broses gwyno neu wrth geisio datrys y nifer helaeth o ymholiadau a dderbynnir).
- 3.16 Mae'r prif resymau a roddir dros y diffygion cyfathrebu yn cyfeirio'n bennaf at **ddiffyg adnoddau a phroblemau sydd ar gael** wrth **ddyrranu ceisiadau am wasanaeth** a/neu **ymholiadau**. Rhaid edrych ar hyn yng nghyd-destun y **galwadau cynyddol** gan y cyhoedd a **chymhlethdod ychwanegol** y materion sy'n codi.

## 4. Cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- 4.1 Mae gwybodaeth am nifer y cwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn adrodd wedi'i nodi yn **Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon**, a ddarperir yn **Atodiad 4**. Mae'r ddogfen hon yn rhoi rhywfaint o fanylion ynghylch y **meysydd gwasanaeth** sydd wedi bod yn gysylltiedig ag atgyfeiriadau i'r Ombwdsmon, yn ogystal â'u **canlyniadau**.
- 4.2 Er i'r Cyngor dderbyn **llai o atgyfeiriadau** i'r Ombwdsmon yn ystod 2022-2023 – cyfanswm o **35**, o'i gymharu â **52** o gysylltiadau yn ystod 2021-2022, mae nifer yr achosion a gafodd eu datrys drwy **Benderfyniad Cynnar / Setliad Gwirfoddol** yn gyson â'r llynedd, gyda chyfanswm o **13 achos**. Unwaith eto, **ni chynhaliodd yr Ombwdsmon unrhyw ymchwiliadau** i gwynion a gyfeiriwyd at ei swyddfa, er y cydnabyddir bod Ceredigion wedi derbyn y gyfran uchaf o ymyriadau'r Ombwdsmon o'i gymharu â chynghorau eraill ledled Cymru.
- 4.3 **Mae cyfathrebu gwael** yn parhau i fod yn thema allweddol mewn perthynas â chwynion a wneir i'r Ombwdsmon. Darperir **crynodebau** o'r achosion sydd angen ymyrraeth gan yr Ombwdsmon yn **Atodiad 5** (mewn perthynas â holl wasanaethau'r Cyngor), ac mae'n amlwg bod yr heriau sydd wedi wynebu'r Tîm **Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth** yn benodol, wedi cael **effaith** ar y gallu i ddarparu **gwasanaeth trin cwynion effeithiol**. Unwaith eto, mae hyn o ganlyniad i'r galwadau ar y tîm bach, sy'n delio â chwynion, Rhyddid Gwybodaeth a RhGA, ac yn rhoi cyngor a chymorth i ysgolion o dan Gytundeb Partneriaeth dynodedig.


Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn dwyn ynghyd mewn un ddogfen yr holl drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sydd gan y Cyngor ar waith. Mae'n seiliedig ar ganllawiau arfer gorau a nodir yn Fframwaith Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016 CIPFA/SOLACE. Mae Cod diweddaraf 2022/23 wedi'i adolygu i ystyried newidiadau parhaus i lywodraethu oherwydd pandemig COVID-19.

Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei lywodraethu yn erbyn Fframwaith Sicrhau Llywodraethu Da CIPFA/SOLACE. Hwn yw'r [Datganiad Llywodraethu Blynyddol](#). Mae'r broses adolygu yn cynnwys gweithdy i aelodau/swyddogion lle caiff Dogfen Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor ei dadansoddi a'i hadolygu. Cymeradwywyd yr adolygiad o Fframwaith 2021/22 gan y Cyngor ym mis

Gorffennaf 2022 gan roi sicrwydd 'uchel' bod system gadarn o graffu a chadernid ar waith. Rhaid i holl Swyddogion y Cyngor gydymffurfio â'r [Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol](#), tra bod yn rhaid i Gynghorwyr y Cyngor gydymffurfio â'r [Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau](#).

## RHEOLI ASEDAU

Diben [Polisi Datblygu Asedau](#)'r Cyngor yw nodi dull Cyngor Sir Ceredigion o wneud y gorau o'i asedau drwy brydlesu, gwaredu a chaffael er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion. Mae amcanion allweddol y Polisi fel a ganlyn:

- Nodi'r prif gamau wrth fynd ati i adolygu Datblygu Asedau. Gweler y Siart Llif am y broses Datblygu Asedau (atodiad C).
- Gosod cyd-destun strategol ar gyfer rheoli tir ac adeiladau sy'n wag neu sy'n cael eu tan-ddefnyddio.
- Sicrhau bod gan Gyngor Sir Ceredigion y portffolio asedau mwyaf effeithiol ac addas i gyd-fynd â'i amcanion.
- Cael y refereniw mwyaf posib o'r asedau sydd dan berchnogaeth y Cyngor.
- Nodi'r asedau nad oes bellach eu hangen at eu defnydd gwreiddiol, a chael yr incwm mwyaf posib drwy eu datblygu ac/neu eu gwaredu.
- Ychwanegu at y portffolio asedau lle bo'n briodol er mwyn cyflawni'r amcanion corfforaethol.
- Defnyddia'r Cyngor ystod o wahanol gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn, gan gynnwys cael gwared ar dir ac adeiladau sy'n wag neu nad oes eu hangen mwyach, buddsoddi mewn tir ac adeiladau i gynyddu incwm trwy gytundebau prydles, a buddsoddi i ddat-

blygu tir ac adeiladau ar gyfer defnyddiau masnachol neu ddefnyddiau eraill yn unol ag Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor.

Yn hollbwysig, mae hefyd yn ystyried defnydd y Cyngor o ofod. Mae hyn yn bwysig oherwydd yn ystod 2023/24 byddwn yn adolygu'r Polisi ac yn cyhoeddi Cynllun Rheoli Asedau newydd ar gyfer materion cyfredol. Yn benodol, bydd hyn yn gol-ygu cefnogi ffyrdd newydd y Cyngor o weithio, buddsoddi mewn technoleg newydd ac ailaddasu ein hasedau at ddbenion newydd i drawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau i'n cwsmeriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer y tymor hir.

## ADNODDAU DYNOL

Sail llwyddiant Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw gweithlu sy'n perfformio'n dda, ac sy'n gweithio mewn ffordd sy'n arloesol, yn ddigidol aeddfed ac yn gynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae gennym [Gynllun Gweithlu](#), sy'n amlinellu dull y Cyngor o reoli ei weithlu i ddiwallu ei anghenion darparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol. Mae'n cynnwys dadansoddi gofynion gweithlu'r sefydliad, nodi unrhyw fylchau, a chanolbwyntio ar y cynlluniau datblygu i fynd i'r afael â hwy.

Yn ystod 2023, mae Cynllun y Gweithlu yn cael ei ddiweddarau i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n cynnwys recriwtio, cadw staff a chynllunio olyniaeth i sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi â staff sydd â'r cymwysterau priodol. Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Gorfforaethol newydd 2022-27, bydd y Cynllun Gweithlu wedi'i ddiweddarau yn cyd-fynd â'r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd. Bydd hefyd yn cefnogi ffyrdd newydd y Cyngor o weithio a gwireddu'r buddion sy'n cynnwys cynhyrchiant uwch, llai o deithio a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Mae'r [Cynllun Gweithlu diwygiedig ar gyfer 2023-2028](#) yn cydnabod yr hyn a gyflawnwyd dros gyfnod y cynllun blaenorol, y cysylltiad â strategaethau corfforaethol eraill, proffil ein gweithlu ac yn nodi pedair prif flaenoriaeth thematig i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd.

Dyma'r pedair blaenoriaeth thematig a nodir yn y cynllun:

1. Gwireddu potensial
2. Profiad ymgeiswyr a denu doniau
3. Ffyrdd newydd o weithio
4. Ein diwylliant

Yng Nghynllun Gweithlu 2023-2028 ceir tros-olwg o bob thema cyn manylu ar y camau i'w cymryd er mwyn cyflawni gofynion y Cynllun. Ar ddiwedd y ddogfen ceir casgliad o fesurau arfaethedig i roi modd monitro cynnydd yn effeithiol dros gyfnod tair blynedd y cynllun. Disgwylir i'r Cynllun Gweithlu diwygiedig fynd drwy'r broses ddemocrataidd i'w gymeradwyo yn ystod haf 2023.

## LLESIANT GYDOL OES

Mae cynnig cymorth i bob oed a phob angen yn her sylweddol i'r Cyngor gan fod adnoddau yn brin. Mae demograffeg a phroffil y gymdeithas wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf gyda chynnydd sylweddol mewn camddefnyddio sylweddau a'i effaith, cynnydd mewn iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig ac yn nifer y grwpiau oedran hŷn sy'n byw yng Ngheredigion. O ganlyniad, mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny.

Mae'r [Strategaeth Llesiant Gydol Oes](#) yn nodi'r weledigaeth a'r dull gweithredu a ddefnyddir i drawsnewid y ffordd y cefnogi llesiant a diogelwch pobl Ceredigion.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu model gweithredu Llesiant Gydol Oes sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod pobl yn cael cymorth o'r math a'r lefel gywir, ar yr adeg gywir, er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, ac i wneud y mwyaf o annibyniaeth pobl a'u galluogi i aros yn eu cartref eu hunain ac yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd.

## YR ECONOMI

Cyhoeddwyd [Strategaeth Economaidd](#) Ceredigion ym mis Mawrth 2021. Mae'n nodi fframwaith ar gyfer gweithredu yn ystod y cyfnod o bymtheng mlynedd hyd at 2035, gan amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy gwydn o Geredigion, wedi'i greu a'i rannu gan bawb.

Yn y strategaeth sonnir am y camau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd yn yr economi leol, gan ganolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth sef Pobl, Menter, Lle a Chysylltedd, gyda phob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyriwyd.

Bydd gwaith yn parhau ar ddatblygu'r cynlluniau gweithredu manwl yn ystod 2023/24. Mae llawer o fentrau eisoes wedi'u datblygu a'u gweithredu o dan y cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Strategaeth Economaidd. Sicrhawyd sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, a bydd hyn yn galluogi gosod y sylfeini ar gyfer twf economaidd pellach. Mae'r Strategaeth yn gyfle cyffrous i adeiladu ar seiliau cadarn Ceredigion a chefnogi economi ffyniannus uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.

## TRECHU CALEDI & THLODI

Mae [Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28](#) yn cynnwys pedwar amcan llesiant ynghyd â thema drawsbynciol ar fynd i'r afael â chaledi a thlodi sy'n cysylltu â phob un o'r amcanion sy'n ymwneud â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio â chonglfeini llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r mecanwaith ar gyfer gweithredu'r thema trechu caledi a thlodi drwy Is-grŵp Tlodi y Bwrdd yn cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner sy'n craffu ar waith y Bwrdd i wella'r gwaith a wneir i fynd i'r afael â thlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan.

## GWEITHIO HYBRID

Mae'r [Strategaeth Gweithio Hybrid Dros Dro](#) yn egluro'r weledigaeth a'r dull gweithredu a ddefnyddir i sicrhau bod gan y Cyngor weithlu sydd â'r sgiliau a'r gallu i weithio mewn ffordd sy'n addas ar gyfer dyfodol y sefydliad.

Ar ôl ymateb yn dda i'r heriau cychwynnol a achoswyd gan y pandemig, symudodd y ffocws i sut y gallai'r Cyngor ddysgu o'r profiad ac adeiladu ar hynny. Gan ddefnyddio canfyddiadau ymchwil ac ymgysylltu â staff, datblygwyd y Strategaeth Gweithio Hybrid i nodi'r egwyddorion a'r broses ar gyfer gweithredu model gweithio hybrid sy'n cynnal y lefel uchel ofynnol o ran darpariaeth gwasanaeth tra hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i weithwyr wrth gydbwysu eu bywyd gwaith a chartref.

Bydd y polisi dros dro mewn grym am 12 mis er

mwyn rhoi modd treialu gweithio'n hybrid wrth i'r rheolwyr a'n gweithlu ganfod ffordd newydd effeithiol o weithio ar ôl y pandemig. Wrth i'r cyfnod interim ddod i ben yn ystod 2023, cynhelir adolygiad o'r trefniadau gweithio gyda golwg ar ddatblygu Polisi Gweithio Hybrid parh-aol.

## HOUSING

Mae [Strategaeth Dai](#) sydd wedi'i diweddaru ar gyfer 2023-28 wedi'i datblygu yn ystod 2023 sy'n nodi gweledigaeth ac uchelgeisiau tai'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023 i 2028. Rydym wrthi'n ymgynghori ar y strategaeth newydd a byddwn yn bwrw ymlaen â hi i'w mabwysiadu ym mis Hydref 2023.

Gweledigaeth y strategaeth newydd yw: *bydd digon o letyau addas a chynaliadwy i gwrdd ag anghenion preswylwyr nawr ac yn y dyfodol*. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig mae tai yn chwarae ynghyd a'i ddylanwad ar iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae'n ymateb i heriau allweddol, gan gynnwys darlun y dirwasgiad economaidd cenedlaethol, newidiadau deddfwriaethol, yr arferiad o pandemig COVID-19 a'r broblem ffosffadau sy'n effeithio ar ddatblygiad yn y Sir, sydd i gyd yn chwarae ei ran wrth effeithio tai Ceredigion.

Dwy brif flaenoriaeth y Strategaeth newydd yw:

- Cynyddu cyflenwad a gwella amodau tai.
- Cefnogi preswylwyr yn gartrefi a chymunedau ei hunan.

Mae'r [Strategaeth Dai](#) bresennol, sy'n dod i ben yn 2023, ar gael ar wefan y Cyngor.

# EIN PERFFORMIAD

## Sut yr ydym yn Meincnodi ein Perfformiad

Mae'r Cyngor yn monitro ac yn meincnodi ei pherfformiad yn rheolaidd fel rhan o'i threfniadau rheoli perfformiad cyfredol. Mae meincnodi perfformiad yn cyfrannu at ein heffeithlonrwydd ac effeithlonrwydd wrth alluogi ni i adnabod arferion gorau a chyfleoedd i wella.

Gyda'r newid deddfwriaeth yn pryderu llywodraethiad y prif gynghorau yn 2021, cafodd y set genedlaethol o Fesuriadau Atebolrwydd Perfformiad (PAMs), a defnyddiwyd ar draws y ddau ar hugain cyngor yn Gymru i'w diddymu.

Yn y gorffennol, mae Ceredigion wedi perfformio yn dda yn erbyn y mesuriadau yma. Yn y flwyddyn gyfan ddiwethaf o recordio'r PAMs yn 2019/20, casglwyd dau ddeg un mesuriad, gyda Cheredigion yn cyflawni 14 neu 72% ohonynt ar darged, 3 neu 14% arall ychydig oddi wrth y targed a 4 neu 13% i fwrdd o'r

targed yn arwyddocaol.

Yn dilyn y newid i ddeddfwriaeth, rydym nawr yn defnyddio pedwar prif ddull o feincnodi rheolaidd; ein Cynlluniau Busnes Lefel 1, a set o fesuriadau meincnodi allweddol, set o fesuriadau meincnodi cymunedol ac asesiad cyfnodol o berfformiad unigol yn erbyn y dangosyddion llesiant cenedlaethol. Mae'r tudalennau dilynol yn darparu crynodeb o'r canlyniadau yma.

## Perfformiad Cynllun Busnes

Mae ein perfformiad cynllun busnes yn cael ei monitro triwyr Bwrdd Perfformiad, ac ar sail gyfredol, gan y Grŵp Arweiniol. Ar ddiwedd 2022/23 mae ein perfformiad yn dangos bod 72% o fesuriadau ar darged ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 16% ychydig i fwrdd o'r targed gan 15%, ac roedd 12% i fwrdd o'r darfed yn arwyddocaol gan fwy na 15%, gwelir y siartiau i'r chwith isod.


## Gwerth am Arian

Gall Gwerth am Arian cael i'w diffinio fel y perthynas rhwng yr Economi, Effeithlonrwydd ac Effeithlonrwydd. Mae'n term sy'n cael i'w defnyddio i asesu os bod y Cyngor wedi cael y budd mwyaf o'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n eu caffael ac yn eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adnoddau


cyfyngedig sy'n wynebu'r Cyngor.

Er enghraifft, mae dau fesur effeithlonrwydd allweddol, sef casglu Treth y Cyngor ac ardrethi Annomestig (busnes), yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd o hyd, er bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar gyfraddau casglu yn genedlaethol.


## Cyfraddau casglu'r dreth gynor






## Treth gynor band D gyfartalog



## Cyfraddau casglu ardrethu annomestig



## Gwariant alldro referiw



- Ar targed: 117 (72%)
- Oddi ar y targed gan llai na 15%: 26 (16%)
- Oddi ar y targed gan mwy na 15%: 20 (12%)


- Ar amser / wedi cwblhau: 206 (71%)
- Ar y gweill ond ar ei ôl hi: 75 (26%)
- Heb cychwyn / heb cwblhau: 9 (3%)

Mae'r Dreth Gyngor Band 'D' gyfartalog, a ddefnyddir yn aml fel cymharydd rhwng gwahanol Siroedd, yn dangos bod cyfraddau presennol ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ledled Cymru sef £1,908, tra bod ein harbedion cronrol a wnaed dros y deng mlynedd diwethaf yn gwneud cyfanswm o £60m drwy ailstrwythuro, prosiectau ailgynllunio a thrawsnewid gwasanaethau. Roedd gwariant alldro refeniw y pen yn £2,843 am y flwyddyn llawn ddiwethaf a gwariant a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol 2023/24 yn £3,173.

### Mesuriadau Perfformiad Alweddol

Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion perfformio i fonitro pa mor dda mae ein gwasanaethau yn perfformio wrth gyrraedd anghenion defnyddwyr gwasanaeth ac er mwyn mesur effeithlonrwydd a gwerth am arian.

Maent yn mesur perfformiad ar draws ystod eang o wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys: rheolaeth ariannol, addysg, tai, gwasanaethau hamdden, rheolaeth gwastraff a glanhau strydoedd. Mae'r tudalennau dilynol (49-50)



yn darparu detholiad o'r mesuriadau yma, yn dangos perfformiad y Cyngor i gymharu â'i chymdogion agosaf yn rhanbarthau canolbarth a de canolbarth Cymru. Mae'r data a darparwyd yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn llawn ddiwethaf ac mae'r cyfnod amser wedi nodi ar bob siart unigol.

### Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru

Mae'r 46 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol wedi'u cynllunio i gynrychioli'r canlyniadau i Gymru a'i phobl a fydd yn helpu i ddangos cynnydd tuag at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol.

Nid ydynt yn ddangosyddion perfformiad yn benodol ar gyfer y Cyngor, maent yn ganlyniadau sirol, y mae'r Cyngor, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, yn cyfrannu atynt. Fodd bynnag, rydym yn adolygu cyfraniad Ceredigion at y dangosyddion hyn o bryd i'w gilydd. Cynhaliwyd yr olaf o'r ymarferion hyn yn 2022 fel Atodiad 9 Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022.

Mae adroddiad blynyddol 'Llesiant Cymru' yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yng Nghymru tuag at gyflawni'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol sy'n tynnu ar ganlyniadau'r dangosyddion cenedlaethol diweddaraf.

### Cynlluniau i'r Dyfodol

Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda Data Cymru a phob un o'r 21 o gynghorau eraill ledled y wlad i gefnogi datblygiad yr Offeryn Data Hunanasesu newydd. Mae'r Offeryn, a ddatblygwyd gan Data Cymru, yn darparu mynediad i ystod eang o ddata perfformiad ar draws gwasanaethau llywodraeth leol.


Bydd gwaith pellach yn digwydd yn ystod 2023 a 2024 i gryfhau'r mesurau a llenwi bylchau mewn data megis asesu gwerth am arian, rheoli asedau ac ymgynghori.

## MESURIADAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL

### Atal Digartrefedd

% o deuluoedd sydd wedi'u hatal rhag bod yn ddigartref anghyfreithlon (2021/22)


▼ Canran



### Ailgylchu

Canran o wastraff a gafodd ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (2021/22)


▼ Canran



### Casglu Gwastraff

Y cilogramau o wastraff cartrefi a gynhyrchwyd fesul unigolyn (2021/22)

▼ Kgs






# KEY PERFORMANCE MEASURES

## Tipio Anghyfreithlon

Nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth (2021/22)


▼ Nifer



## Dysgu Cymunedol

Nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer dysgu cymunedol awdurdod lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth (2021/22)


▼ Nifer



## Cwswela Ysgol

Nifer y plant a phobl ifanc a gafodd gwnsela yng Nghymru fesul 1,000 o'r boblogaeth 10-18 oed (2021/22)


▼ Nifer



## Prentisiaethau

Nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni prentisiaeth fesul 1,000 o'r boblogaeth (2021/22)


▼ Nifer



## Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Gadawyr ysgol Blwyddyn 13 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (2022)


▼ Canran



## Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Canran yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (2021-22)


▼ Canran



## Cwynion a Dderbyniwyd gan yr Awdurdod Lleol

Nifer y cwynion a dderbyniwyd fesul 1,000 o drigolion (2022/23)


▼ Nifer



## Cinio Ysgol Am Ddim

Canran y disgyblion cymwys a fanteisiodd ar y cynnig o brydau ysgol am ddim (2021/22)


▼ Canran



## Casglu Treth y Cyngor

Canran Treth y Cyngor a gasglwyd (2022-2023)


▼ Canran



# WIDER COMMUNITY MEASURES


## Goroesi Busnes

Canran goroesi 1 flwyddyn o fentrau newydd yn 2020  
(Demograffeg Busnes 2021, ONS)  
▼ Canran




## Iechyd Cyffredinol

Canran y boblogaeth sydd mewn iechyd da neu dda iawn  
(ONS Cyfrifiad 2021)  
▼ Canran




## Boddhad gyda'r Ardal Leol

Canran yr oedolion (16+) sy'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw  
(Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-2022)  
▼ Canran




## Cyfradd Cyflogaeth

Cyfradd cyflogaeth Ionawr 2022 i Rhagfyr 2022  
(ONS Arolwg Poblogaeth Blynnyddol)  
▼ Canran




## Ymddygiadau Iach

Canran y bobl sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach  
(Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 a 2022/23)  
▼ Canran




## Cydluniant Cymunedol

Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch  
(Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22)  
▼ Canran




## Diweithdra

Cyfradd ddiweithdra Ionawr 2022 i Rhagfyr 2022  
(ONS Arolwg Poblogaeth Blynnyddol)  
▼ Canran




## Sgiliau a Chymwysterau

Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i Lefel 2 neu uwch (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2022)  
▼ Canran



## Gwneud Penderfyniadau

Canran y bobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardaloedd lleol  
(Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22)  
▼ Canran



## Dweud eich dweud

Rydym yn croesawu eich barn ar yr adroddiad hwn a pherfformiad y Cyngor. Cysylltwch unrhyw bryd.

## Cysylltwch â Ni

✉ **Post:**

Cyngor Sir Ceredigion  
Canolfan Rheidol  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3UE

📞 **Ffôn :**

01545 570881

Mae Fersiwn **Testun Plaen** neu Fersiwn **Hawdd ei Ddarllen** o'r ddogfen yma ar gael o Gyngor Sir Ceredigion

[www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk)

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>27ain Medi 2023</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cofrestr Risgiau Corfforaethol</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	<b>I ddiweddarau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Asesu o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol</b>
<b>Portffolio'r Cabinet ac Aelodau'r Cabinet</b>	<b>Y Cyngorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet ar gyfer Polisi, Perfformiad, Partneriaethau a Gwasanaethau Democraataidd</b>

Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod y risgiau a nodwyd gan uwch reolwyr yn cael eu rheoli'n briodol. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei rheoli'n briodol.

Cynhaliwyd adolygiad o'r statws risg diweddaraf yng nghyfarfod y Grŵp Arweiniol ar 30.08.23 lle trafodwyd a chytunwyd ar ymgeiswyr ar gyfer dyrchafu / israddio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Mae'r gofrestr risg bellach wedi'i diwygio i gynnwys manylion pryd a pha bwyllgor a adolygodd y risg ddiwethaf, fel y gofynnwyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (21/06/2023).

### is gyfeiriwyd o gorfforaethol i wasanaeth

**R006: Rhaglen Llesiant Gydol Oes.** Mae'r sgôr risg wedi gostwng i 12 gan fod y model Llesiant Gydol Oes wedi'i ddatblygu a'i gydgrynhoi ymhellach. Mae gan staff, defnyddwyr y gwasanaeth a'r gymuned well ddealltwriaeth ac yn derbyn y model. Mae'r arolwg diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn cefnogi'r model. Mae'r model wedi'i adolygu a'i ddiwygio ychydig er mwyn gwella effeithlonrwydd ynghylch Sicrwydd Ansawdd a Lles Meddyliol. Mae'r risgiau wedi'u lliniaru ac mae'r canfyddiad risg wedi lleihau. Mae'r Grŵp Arweiniol wedi cytuno i ostwng y risg i lefel gwasanaeth.

**RO17: Diogelu.** Mae'r sgôr risg wedi gostwng i 12 wrth i'r camau lliniaru gael eu cwblhau ac i grŵp diogelu corfforaethol gael ei ailsefydlu. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n llawn ymhob cyfarfod rhanbarthol a chyfarfodydd cenedlaethol priodol a byrddau o fewn y maes diogelu. Mae'r gwasanaeth diogelu wedi'i staffio'n llawn yn dilyn penodiad asiantaeth tim Innovative. Canlyniad hyn yw gwasanaeth sy'n ymateb yn well

dan bwysau gan ymdopi gydag angen cynyddol. Mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu'n well gan wneud y gwasanaeth yn fwy ymatebol. Ar y cyfan, mae llai o bryderon ynghylch risgiau diogelu gan fod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Cytunodd y Grŵp Arweiniol i ostwng y risg i lefel gwasanaeth.

## **Is gyfeiriwyd o gorfforaethol i wasanaeth**

Dim

Mae Atodiad A yn cynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol diweddaraf.

Y sgôr risg ar gyfer R006: Rhaglen Llesiant Gydol Oes wedi gostwng i 12.

Y sgôr risg ar gyfer R017: Diogelu wedi gostwng i 12.

Mae'r holl risgiau eraill wedi'u hadolygu ac maent yn cynnwys statws Grŵp yr Awdurdodau Perthnasol diwygiedig a chamau lliniaru a sylwebaeth wedi'i ddiweddarau.

## **Argymhellion: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol sydd wedi'i diweddarau**

**Rheswm dros y penderfyniad:** Sicrhau bod y Cyngor yn rheoli Risgiau Corfforaethol yn briodol yn unol â'r Strategaeth a'r Fframwaith Risgiau Corfforaethol

**Atodiadau:** Atodiad A - Cofrestr Risgiau Corfforaethol

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd))

**Swyddog Adrodd:** Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd))

**Dyddiad:** 30<sup>ain</sup> Awst 2023

# Cofrestr Risgiau Corfforaethol

---



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

## Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Adolygwyd a diweddarwyd gan y Grŵp Arweiniol ar	30/08/2023
Y tro diwethaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei monitro oedd	21/06/2023
I'w chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	27/09/2023

# Cofrestr Risgiau Corfforaethol

Tudalen 520

## Cynnwys a Chrynodeb

Teitl y Risg	Perchennog	Statws y Risg			Statws yr Adolygiad	
		Sgôr	Statws	Tuedd	Gan	Pryd
R005: Cynllun Ariannol Tymor Canolig	Duncan Hall	20	■	➡	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol	19/07/2023
R006: Rhaglen Llesiant Gydol Oed	Audrey Somerton-Edwards	12	●	⬇️	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach	17/09/2021
R009: Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch	Alan Morris	20	■	➡	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	19/01/2022
R017: Diogelu	Audrey Somerton-Edwards	12	●	⬇️	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu	22/05/2023
R019: Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol/Llifogydd	Russell Hughes Pickering / Rhodri Llwyd	25	■	➡	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus	22/06/2023
R020: Clefyd Coed Ynn	Rhodri Llwyd	20	■	➡	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus	19/10/2022
R021: Ffosffadau	Russell Hughes-Pickering	20	■	➡	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus	07/12/2022
R022: Recriwtio a Chadw	Geraint Edwards	15	■	➡	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol	19/07/2023

### Allwedd y Risg

▲	Red	High Risk
●	Amber	Medium Risk
★	Green	Low Risk

### Trend Key

⬆️	Risk score has increased
➡️	No change to risk score
⬇️	Risk score has decreased



# Risg Gorfforaethol R005 Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Tudalen 521

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Duncan Hall

## Disgrifiad



Bydd lleihau cyllid craidd a chyllid allanol yn arwain at ostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir mewn rhai meysydd. Bydd peidio ag addasu, gweithredu'r arbedion a nodwyd ac ystyried modelau gwahanol o ran darparu gwasanaethau yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol ac ar gyfrifoldebau

## Y Canlyniadau Posibl

• Risg o beidio â chwrrd â'r terfynau amser o ran pennu'r gyllideb statudol. • Risg y bydd llai o adnoddau, llai o amser i roi newidiadau i wasanaethau ar waith, neu fetu â blaenoriaethu gwariant yn effeithiol yn unol â blaenoriaethau corfforaethol, yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau. • Risg na fydd y cynlluniau arbedion a nodwyd yn cael eu cyflawni yn ôl y

## Tystiolaeth o'r

• Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gadarnhawyd gan y cabinet ar 5.3.23 ac sydd i'w hystyried gan y Cyngor Llawn ar 21.9.23 yn dangos bwlch yn y gyllideb o £15.9m ar gyfer y blynyddoedd ariannol 24/25 i 26/27, gan gynnwys diffyg posibl yn y gyllideb o £6.4m ar gyfer 24/25. • Roedd angen arbedion o £8.8m ar gyfer cyllideb 23/24 ac mae cynnydd dangosol o 3.1% ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer 24/25 (a fyddai ond yn rhoi cynnydd o £4m yn y cyllid) • Mae lefel cyllid allanol cyfun Llywodraeth Cymru wedi gostwng dros y blynyddoedd o tua 80% i lawr i ychydig dros 70% o'r gyllideb refeniw, gan roi llawer mwy o faich ar gyllid a godir yn lleol drwy Dreth y Cyngor. • Mae lefelau chwyddiant uchel yn dal i gael eu gweld mewn nifer sylweddol o feysydd, ac yn bennaf oll mae Tâl Gweithwyr sy'n rhan sylweddol o'r Gyllideb yn ogystal â chwyddiant Ynni, Bwyd a Chontractwyr / Darparwr. Cydnabuwyd llawer o'r rhain a darparwyd ar eu cyfer yng Nghyllideb 23/24, fodd bynnag y risg yw bod chwyddiant (ac felly pwysau costau) yn parhau i fod yn uchel am gyfnod hwy. • Mae 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu' newydd bellach ar waith ac yn dechrau cyflawni ar gyfer 23/24. Mae'r Strategaeth Gydol Oed a Llesiant newydd hefyd yng nghyfnodau cynnar ei thaith weithredu a chytunwyd ar y flwyddyn gyntaf o gyllid o £4m ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru. Bydd angen i'r rhain oll gyflawni ar draws y tymor canolig, yn ogystal â pharhau i fanteisio ar gyfleoedd o'r math Buddsoddi i Arbed wrth iddynt godi. • Mae hanes cadarn blaenorol yn bodoli o fantoli Cyllidebau a sefyllfa gadarnhaol ar ddiwedd y flwyddyn o ran Alldro gydag opsiynau diamad Archwilio Cymru o fewn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae Mantolen y Cyngor (cyn-archwiliad) ar 31/03/2023 yn gryf sy'n cyfrannu at gydnerthedd ariannol cryf. • Mae enghreifftiau o Risgiau Gwasanaeth unigol sy'n dod o fewn y Risg Gorfforaethol gyffredinol hon e.e. Methiant posibl i gynnal rhwydwaith y Priffyrdd i safonau derbyniol os nad oes digon o arian yn cael ei ddyrannu, cyllid annigonol i alluogi rhaglen adnewyddu fflyd cerbydau gynhwysfawr (gan gynnwys y newid i Sero Net) a risg y gallai'r arbedion sy'n ofynnol mewn Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig gael effaith fawr ar ddarpariaeth



Camau Lliniaru	Erbyn Pryd	Medi	Rhag	Maw	Meh
R005T01: Parhau â'r trefniadau o ran rheolaeth ariannol	31 Ma 2024 w	★	★	★	★
R005T03: Sicrhau bod arbedion effeithlonrwydd o ran trawsnewid a gwasanaethau yn cael eu datblygu a'u gweithredu	31 Ma 2024 w	●	★	★	★
R005T04: Diweddaru'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i adlewyrchu lefel ddangosol o 3.1% o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25	30 Med 2023 i		●	●	●

Rhodddwy adroddiad ynghylch y sefyllfa alldro refeniw reoladwy ar gyfer 22/23 i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2023 - roedd gorwariant bach iawn o £6k a oedd yn unol â'r rhagolygon. Parhaodd y Balansau Cyffredinol ar £6.7m (3.7% o gyllideb 23/24) a'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn £48.8m (£53.9m 21/22, £38.3m 20/21).

Rhoddodd Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru gynnydd cyllid o 8.1% (£9.6m) ar gyfer 23/24. Fodd bynnag, gyda thua £22m o bwysau Costau (sy'n cyfateb i gyfradd chwyddiant o dros 13%), mae hynny'n dal i arwain at arbedion o tua £9m ar gyfer 23/24 a chynnydd o 7.3% yn Nhrefn y Cyngor. Mabwysiadwy dull newydd o weithredu o ran Arbedion y Gyllideb a oedd yn cynnwys adolygiad o benawdau cyllideb Corfforaethol (£2.9m), Cyfradd Cyfraniadau Cyflogwyr Gostyngol y Gronfa Bensiwn (£0.8m), terfyn ar y cynnydd a gymhwyswyd i gyllidebau Ysgolion Dirprwyedig (£2.1m) a Rhaglen Arbedion aml-flwyddyn newydd o'r enw 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu' wedi'i rhoi ar waith (£3m ar gyfer 23/24 a chynigion cychwynnol pellach ar gyfer y 2 flynedd y tu hwnt i hynny). Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyllid Setliad Cyllid Llywodraeth Leol 24/25 o 3.1% yn unig ar gyfartaledd (a fyddai'n rhoi £4m ychwanegol). Ni chytunir ar ddyfarniad Cyflog Staff Cyffredinol ar gyfer 23/24 ac mae'r Undebau wedi gwrthod cynnig sy'n fwy na'r Ddarpariaeth Gyllideb gyfredol o tua 0.6m (ar ôl darparu ar gyfer y swm Wrth Gefn a neilltuwyd ar gyfer Cyflogau ac Ynni) Mae'r rhain a ffactorau eraill yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddarau. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn amlinellu her ariannol tymor canolig sylweddol.

Bydd adroddiad monitro'r cyllideb ar gyfer Ch1 yn cael ei ystyried gan y Cabinet ym mis Medi. Mae'r sefyllfa ddiwedd y flwyddyn a ragwelir ar hyn o bryd yn cael ei rhagweld o orwariant o £2.9m (sef 1.6% o gyllideb Refeniw 23/24 o £180.1m), sydd ar ôl cymryd i ystyriaeth amrywiol gamau lliniaru gwerth cyfanswm o £4.2m). Mae nifer o heriau i'w gweld ar draws y Gwasanaethau gan gynnwys:

- Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol yn parhau i fod yn uchel ac yn rhy ddrud
- Cynnydd sylweddol yng nghostau Cludiant i Ddysgwyr rhwng y Cartref a'r Ysgol
- Cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau i Blant y Tu Allan i'r Sir (Bydd rhywfaint o hyn yn cael ei liniaru wrth i'r ddarpariaeth newydd yn y Sir ddod yn weithredol)
- Costau sylweddol yn ymwneud â staff asiantaeth yng Nghartrefi Preswyl ein Hawdurdod Lleol a'r gwasanaeth Galluogi
- Cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Bobl Hŷn

Mae set o fesurau wedi eu sefydlu, er mwyn gwarchod rhag unrhyw waethygu pellach yn y sefyllfa ariannol ac i liniaru ymhellach yn erbyn y sefyllfa bresennol. Mae'r Grŵp Arweiniol, gyda mewnbwn a chyngor y swyddog Adran 151, wedi rhoi fframwaith yn ei le ar draws yr holl Wasanaethau (ac eithrio Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig sy'n gyfrifoldeb Cyrff Llywodraethu unigol). Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfyngu gwariant lle bo modd am weddill y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd hyn yn berthnasol i wariant refeniw nad yw'n ymwneud â staffio a hefyd gweithgarwch recriwtio allanol, ond mae'n cael ei wneud mewn ffordd reoledig i gydnabod y bydd angen parhau i fodloni rhwymedigaethau statudol, rhwymedigaethau contractiol a rhwymedigaethau presennol craidd ac er enghraifft bod gweithgarwch sy'n sail i incwm neu sy'n cael ei ariannu gan grant(iau) yn gallu parhau. Bwriad y dull hwn o weithredu yw arafu, oedi neu gyfyngu dros dro ar wariant nad yw'n hanfodol / nad yw'n hollbwysig.

Mae gwaith hefyd yn dechrau ar Broses y Gyllideb 24/25, gyda chyd-destun y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i diweddarau a sefyllfa Ch1 ar gyfer 23/24 a Gweithdy Cyllideb Aelodau 1af wedi'i drefnu ar gyfer 19/9/23.

# Risg Gorfforaethol R006 Rhaglen Llesiant Gydol Oed

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Audrey Somerton-Edwards

## Disgrifiad

Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oed wedi'i sefydlu a'i datblygu i drawsnewid y ffordd y bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Felly bydd y rhaglen yn goruchwyllo datblygiad gwasanaethau a thrawsnewid gofal cymdeithasol. Bydd methu â chyflawni hyn yn creu risg y bydd yr awdurdod yn peidio â bodloni ei ofynion statudol a deddfwriaethol a'r heriau a wynebir gyda'r pwysau cynyddol ar gyllidebau gofal cymdeithasol.



Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oed yn symud ymlaen i ddatblygu a gweithredu trefniadau gwasanaethau a strwythur staffio i gefnogi'r pwyslais ar wasanaethau atal ac ymyrryd yn

## Y Canlyniadau Posibl

- Anallu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol ar draws pob oed
- Colli cyfleoedd i ddatblygu cymunedau cydnherth a gofalgar
- Cynnydd parhaus yn yr hyn sy'n cael ei wario i ddarparu gwasanaethau sydd â chost uchel
- Anallu i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau
- Heb fodloni dyletswyddau

## Tystiolaeth o'r

- Pwysau parhaus ar gyllidebau gofal cymdeithasol
- Cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n derbyn gwasanaethau statudol ar gyfer gofal a chymorth wedi'i gynllunio
- Angen darparu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan yn unol â deddfwriaeth
- Cyfnod hir o 'Broses rheoli newid' yn effeithio ar y gweithlu
- Anawsterau wrth gadw a recriwtio staff



Camau Lliniaru	Erbyn Pryd	Medi	Rhag	Maw	Meh
R006T01: Cyflwyno adroddiadau i'r bwrdd prosiect ynglŷn â'r cynnydd a wneir o ran gweithredu'r model newydd ar gyfer gwasanaethau.	30 Medi 2023	★	★	★	★
R006T03: Sicrhau bod rhaglenni Adnoddau Dynol/y Gweithlu yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r gweithdrefnau rheoli newid	30 Meh 2023	★	★	★	★
R006T07: Cyfathrebu a Llesiant Gydol Oed i'w gytuno a'i weithredu	30 Medi 2023	★	★	★	★

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd)

Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oed yn fodel a dderbynnir ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol a phartneriaid. Ar ben hynny, mae'r Rhaglen wedi cael ei chymeradwyo fel model darparu hyfyw fel y nodwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad diweddar.

# Risg Gorfforaethol R009 Rheoli Gwybodaeth a Chydnherthedd Seiberddiogelwch

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alan Morris

Tudalen 524

## Disgrifiad



Bydd peidio â sicrhau bod gennym drefniadau gwybodaeth, TGCh, diogelwch a chydymffurfiaeth yn eu lle yn effeithio ar allu'r Awdurdod i addasu i newid, gwella ei wasanaethau, a chyfathrebu mewn modd effeithiol â dinasyddion ac unigolion

## Y Canlyniadau Posibl

Bydd peidio â chael systemau seiberddiogelwch cadarn ar waith yn effeithio ar ddarparu pob gwasanaeth, gan olygu na fydd mynediad neu fynediad cyfyngedig at systemau gwybodaeth sy'n allweddol ar gyfer cyflenwi busnes. Gallai prosesau Rheoli Gwybodaeth annigonol ac ymwybyddiaeth annigonol staff mewn perthynas â rheoli data personal arwain at gamddefnyddio/golli data, a gallai hynny olygu peidio â chydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a gall beri gofid i'r sawl y mae ei ddata wedi cael ei gamreoli. Bydd peidio â rheoli'r holl ddata mewn modd sy'n unol â'r gyfraith yn arwain at ddirwy fawr bosibl gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn tansellio enw da yr Awdurdod. Bydd darparu gwasanaethau digidol yn cynyddu'r galw am

## Tystiolaeth o'r

Ni chafodd dim digwyddiadau mawr o fgythiadau seiber allanol eu hadrodd ac mae mân ymosodiadau wedi cael eu rheoli heb golli gwasanaeth • Mae pob seilwaith TGCh yn parhau i gael ei chywiro i'r lefel ofynnol, a llwyddwyd i sicrhau'r achrediad Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus. • Ni roddwyd gwybod am unrhyw achos mawr o golli data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. • Mae cyrsiau ymwybyddiaeth o wybodaeth yn parhau i gael eu cynnal, yn ogystal ag arferion o gydweithio mewn modd rhagweithiol â meysydd gwasanaethau er mwyn sicrhau bod eu data yn cael ei gadw mewn modd diogel a phriodol. • Bu'r staff yn bresennol mewn hyfforddiant seiber i sicrhau ein bod dal



Camau Lliniaru	Erbyn Pryd	Medi	Rhag	Maw	Meh
R009T04: Parhau ag Archwilio Data ar draws pob maes gwasanaeth	31 Maw 2024	★	★	★	★
R009T05: Gweithredu amserlen cadw cofnodion a gymeradwywyd	31 Maw 2024	★	★	★	★
R009T08: Datblygu adolygiad rheolaidd ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth	31 Maw 2024				★
R009T09: Ailstrwythuro i ganolbwyntio adnoddau ac arbenigedd yn well	31 Maw 2024				●
R009T10: Mudo data a chynnwys i leoliadau mwy addas	31 Maw 2024				●
R009T11: Gweithredu amgryptiad segur	31 Maw 2024				●

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd)

Grŵp cydnherthedd seiber yn parhau i gyfarfod ac yn profi i fod yn ddefnyddiol iawn. Adolygu'r aelodaeth i sicrhau bod y nifer fwyaf posibl yn manteisio arno. Cynnydd rhagorol ar gywiro awtomataidd sy'n golygu bod gwendidau dyfeisiau'n cael eu gwella a chaniatáu i'r cam nesaf o brofion seiber mewnol PSN gael ei gwblhau ym mis Medi. Gwaith yn parhau i wella ymhellach. Caffael wrth gefn O365 wrthi'n cwblhau a bydd yn caniatáu copïau wrth gefn llawn yn fuan. Bydd hyn yn caniatáu i ysgogiadau mudo a chadw gychwyn yn fuan. Gweithio gyda chyflenwyr i gytuno ar gynllun gwaith ar fudo dogfennau i fanteisio ar opsiynau trwyddedu newydd y Cwmwl. tynhau a ffurfioli gweithdrefnau a phrosesau'r Bwrdd Cyngori ar Newid trwy integreiddio â DPIA (Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data) a chynnwys y swyddfa Diogelu Data i wella llywodraethu newidiadau a throsolwg cyflenwyr. Cwblhawyd prosiect parhaus yn treialu CAF (Fframwaith Asesu Seiber) a Gov Assure ar draws 16 Awdurdod Lleol a gwasanaethau Tân ac Achub. Argymhellion a chanfyddiadau wedi'u rhannu gyda Llywodraeth Cymru, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Cyllid newydd yn cael ei ddarparu i Geredigion i gefnogi prosiect Galluogi CAF 23/24 ledled Cymru. Mae'r gallu i flaenoriaethu'r gwaith hwn yn parhau i fod yn her.

# Risg Gorfforaethol R017 Diogelu Tudalen 525

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro Audrey Somerton-Edwards

## Disgrifiad



Risg o fethiant i gynnal dyletswyddau statudol y sefydliad mewn perthynas â diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion yn ystod y cyfnod pontio i'r Model Darparu Gwasanaethau Integredig.

## Y Canlyniadau Posibl

Mae risg y gallai plant, pobl ifanc ac oedolion ddiodeff niwed sylweddol a allai arwain at effaith andwyol ar enw da'r corff corfforaethol ynghyd ag effaith gyfreithiol ac effaith ariannol.

## Tystiolaeth o'r Risg

- Cynnydd mewn atgyfeiriadau oherwydd newidiadau deddfwriaethol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) ac effaith Covid-19 ar unigolion a grwpiau sy'n agored i gamdriniaeth ac esgeulustod
- Cynnydd yn y galw a chymhlethdod yn benodol o ran plant a theuluoedd a phobl ifanc
- Cydnabyddir bod hwn yn faes gwaith sydd â risg uchel



Camau Lliniaru	Erbyn Pryd	Medi	Rhag	Maw	Meh
R017T06: Cynnal Tîm Diogelu Gydol Oed wedi'i Integreiddio'n llawn	31 Maw 2024	●	●	●	★
R017T07: Sicrhau bod hyfforddiant diogelu a datblygiad sgiliau yn cael eu cyflwyno i'r holl staff	31 Maw 2024	●	●	●	★
R017T08: Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Rhanbarthol ar draws pob tîm	31 Maw 2024	●	●	●	★
R017T11: Gweithredu strwythur Llesiant Gydol Oed diwygiedig i wella'r Sicrwydd Ansawdd, Diogelu Strategol	30 Medi 2023			★	★

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Mae ailsefydlu'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yn ychwanegu trylwyrdd at y dull sefydliadol o ddiogelu ar draws y gwasanaethau corfforaethol.

Mae gallu Cyngor Sir Ceredigion i reoli gwasanaethau diogelu yn effeithiol wedi'i gryfhau'n sylweddol drwy'r Tîm Prosiect a gomisiynwyd i gefnogi Plant a Phobl Ifanc.

# Risg Gorfforaethol R019 Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd

Tudalen 526

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Russell Hughes-Pickering / Rhodri Llwyd

## Disgrifiad



Newid hinsawdd yw un o'r heriau amgylcheddol mwyaf a wynebwn. Er y bydd peidio â chyrraedd targedau lleihau allyriadau carbon ac ynni yn cael effaith ariannol ac amgylcheddol i'r Awdurdod, ceir goblygiadau ehangach ar gyfer y Sir gyfan, e.e. mwy o achosion o lifogydd, sychder a stormydd, a allai gael effaith enfawr ar ein cymunedau ac ar ystâd y Cyngor sy'n cynnwys ein hadeiladau, ysgolion, Gwarchodfeydd Natur, Parciau, rhandiroedd a hefyd daliadau eraill nad ydynt wedi'u rheoli'n weithredol. Cydnabyddir bod rhaid i ni arwain trwy esiampl a gwneud popeth y gallwn ei wneud i leihau newid hinsawdd yn y dyfodol, a rhoi sylw i'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn a'u lliniaru. Rhaid datblygu mentrau polisi a strategaethau sy'n cynnwys cydnerthedd ecosystemau, gwelliannau bioamrywiaeth a chynlluniau lleihau llifogydd a'u gweithredu os ydym am lwyddo

## Y Canlyniadau Posibl

Mae newid hinsawdd yn golygu y byddwn efallai'n wynebu digwyddiadau tywydd amlach neu fwy difrifol megis llifogydd, sychder a stormydd. Gyda'r digwyddiadau hyn daw 'risgiau ffisegol' sy'n cael effaith uniongyrchol ar gymunedau ac effaith bosibl ar yr economi. Mae rhannau o forlin Ceredigion yn agored i erydu arfordirol a llifogydd, ac mae rhai cymunedau mewndirol mewn perygl o lifogydd a cholli tir o gyrsiau dŵr. Gallai'r effeithiau fod yn bellgyrhaeddol, gyda rhanddeiliaid yn wynebu canlyniadau sy'n bygwth bywyd neu'n newid bywyd, gydag effaith ar rannau mawr o'r Sir/Cyngor. Yn ogystal, gallai peidio â lleihau effeithiau newid hinsawdd gael canlyniadau o ran enw da, canlyniadau ariannol ac amgylcheddol ar gyfer y Cyngor, gan gynnwys ar ffurf cosbau ariannol am beidio â chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli carbon a bioamrywiaeth. Bydd effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys newidiadau i bryfed, plâu a chlefydau a fydd yn cytrefu ac yn effeithio ar ein hamgylchedd. Yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol y rhain, bydd yr effeithiau ar amser staff a chostau eraill i ddelio â hyn yn sylweddol. Mae colli brigdwf oherwydd clefyd coed ynn eisoes wedi cael canlyniadau ar gyfer microhinsoddau lleol a bydd yn

## Tystiolaeth o'r

Mae newid hinsawdd yn realiti ac yn digwydd ar draws y byd; mae'n cael effaith ar gymunedau lleol yng Ngheredigion. Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru a Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Ceredigion wedi nodi lleoliadau yn y Sir sydd mewn perygl nawr ac a fydd mewn perygl yn y dyfodol oherwydd erydu arfordirol a llifogydd, a llifogydd o brif afonydd/cyrsiau dŵr/dŵr wyneb. Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos er mwyn atal newid hinsawdd rhaid atal allyriadau carbon – nid yw eu lleihau yn ddigonol, mae'n rhaid i ni fynd ymhellach a gweithio tuag at fod yn awdurdod lleol sero-net.




## Camau Lliniaru

	Erbyn Pryd	Medi	Rhag	Maw	Meh
R019T01: Datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd Corfforaethol	31 Maw 2024	●	●	■	■
R019T03: Cynyddu faint o ynni a gynhyrchir trwy ffynonellau adnewyddadwy.	31 Maw 2024	★	●	★	★
R019T04: Nodi a rheoli'r ystâd gorfforaethol	31 Maw 2024	★	●	■	■
R019T05: Datblygu Cynlluniau Lleihau Llifogydd	31 Maw 2024	●	●	●	●

R019T06: Monitro'r arfordir gyda Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru, datblygu Amddiffyniad yr Arfordir

Tudalen 527



R019T08: Gwneud cais am arian i weithredu prosiectau sy'n lliniaru effaith newid hinsawdd

31 Maw 2024



### Sylwadau (e.e. cynnydd hyd)

Mae gwaith Ynni Rhanbarthol a'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol yn mynd rhagddo a disgwylir iddynt gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Mae Cynllun Gweithredu Strategaeth Ynni Rhanbarthol wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, ond mae angen cymeradwyaeth y Cabinet o hyd, bydd hwn yn cael ei drefnu yn y misoedd nesaf. Mae Swyddog Lleihau Carbon newydd wedi'i benodi a disgwylir iddo ddechrau ym mis Medi a bydd yn helpu i gyflawni cynlluniau lleihau allyriadau, a fydd yn cyfrannu at uchelgais Sero-Net y Cyngor ar gyfer 2030. Cafwyd awdurdodiad i fwrw ymlaen ag Re:fit, sef Fframwaith Ôl-osod Effeithlonrwydd Ynni, a fydd yn rhoi modd i Gyngor Sir Ceredigion ddarparu cynlluniau effeithlonrwydd ynni ac adnewyddadwy ar raddfa fwy a bydd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cynlluniau adnewyddadwy, uwchraddio goleuadau LED, ailosod boeleri, gwelliannau i adeiladau thermol (inswleiddio/gwydr) ac ati. Mae nifer o gyfleoedd adnewyddadwy hefyd wedi nodi (e.e. canopiâu solar yng Nghanolfan Rheidol), yn ogystal â rhai gosodiadau solar mwy o faint, y gellir eu cyflawni gan y fframwaith Re:fit, sydd i gyd yn cael ei gefnogi gan warantau arbedion. Mae rhan fwyaf y problemau biomas a brofwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol wedi'u datrys. Gosodwyd PV yn Ysgol Gynradd Aberteifi fel rhan o waith adnewyddu parhaus, hefyd PV i'w osod yn Ysgol newydd Dyffryn Aeron, sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd. Mae'r Ôl Troed Carbon gweithredol blynyddol yn cael ei gyfrifo a bydd ar gael erbyn diwedd mis Awst, a bydd y ffigurau hefyd yn cael eu defnyddio yn ffigurau adrodd allyriadau Llywodraeth Cymru, sydd i'w cyflwyno erbyn diwedd mis Medi. Daeth y Cynllun Rheoli Carbon i ben ar 31/03/23, ac mae gwaith wedi dechrau, i edrych ar roi Cynllun newydd ar waith, sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Sero-Net a'r uchelgais sero-net ar gyfer 2030. Bwriedir ailedrych ar yr adolygiad asedau tir a gynhaliwyd yn 2019/20, a edrychodd ar safleoedd posibl ar gyfer ynni adnewyddadwy (solar/gwynt), neu atafaelu carbon (plannu coed). Mae cam 2 o gyflwyno pwyntiau gwefru cerbydau trydan ledled Ceredigion wedi'i gwblhau, gyda'r holl fannau gwefru bellach yn weithredol. Mae darpariaeth cerbydau trydan wedi cynyddu'n sylweddol dros y 18 mis diwethaf, gyda 76 o leoedd cerbydau trydan bellach ar gael mewn 18 lleoliad yn y Sir. £295,0000 o gyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cam 3, a fydd yn cael ei ddarparu ym Mlwyddyn Ariannol 2023/24. Cynllun Lliniaru Llifogydd Camlas y Borth - Achos Cyfiawnhad Busnes - terfynwyd y contract gyda'r ymgynghorydd penodedig oherwydd iddynt fethu â darparu'r lefel ddisgwyliedig o wasanaeth, a bydd gwahoddiad tendr ar gyfer y cynllun i benodi ymgynghorydd newydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2023, gyda phenodi ymgynghorydd newydd erbyn mis Medi 2023. FAS Pentref Llandre - mae Achos Cyfiawnhad Busnes drafft wedi ei gynhyrchu. Ers datblygu'r model, mae diwygiadau wedi'u gwneud i'r strwythurau arafu a fydd yn helpu i liniaru risg llifogydd. Dim ond un opsiwn economaidd ymarferol a gynhyrchedd y rhestr fer, sy'n dechnegol ymarferol ac y gellir ei weithredu'n gymharol hawdd. Achos Busnes Amlinellol Capel Bangor - mae Achos Busnes Amlinellol drafft wedi'i gynhyrchu, a bydd canfyddiadau'r model gwaelodlin newydd wedi'u diweddarau yn cael eu trafod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a all arwain at adolygu mapiau llifogydd presennol Cyfoeth Naturiol Cymru i alluogi gwneud penderfyniadau ar gam 2 yr astudiaeth hon. Achos Busnes Amlinellol Tal-y-bont - mae'r ymgynghorydd yn y broses o gwblhau adolygiad o'r model hydrolog gwaelodlin gan gynnwys yr economeg derfynol cyn cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol yn llawn er mwyn sicrhau bod yr opsiwn a ffeirir fwyaf manteisiol yn economaidd yn cael ei gynnwys, ac yn dilyn hynny bydd trafodaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a digwyddiad Ymgysylltu â'r Gymuned/Rhanddeiliaid. Mae Canolfan Monitro Arfordirol Cymru yn parhau i arolygu'r arfordir amddiffynedig ar ran Cyngor Sir Ceredigion, ac mae eu defnydd o dechnoleg yn cynyddu maint a chywirdeb y data y gellir ei gasglu. Cafodd yr Awdurdod adroddiad drafft ar berfformiad yr arfordir a'r adolygiad rheoli parhaus ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordir y Borth a oedd yn nodi mai ychydig o newid a fu yn y proffil ar y pwynt tyngedfennol yn ystod y cyfnod rhwng 2020 a 2022, a bod aliniad cyffredinol y bae rhwng grwyn y graig i'r de a'r morglawdd i'r gogledd wedi cyrraedd rhywfaint o sefydlogrwydd.

# Risg Gorfforaethol R020 Clefyd Coed Ynn

Tudalen 528

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Rhodri Llwyd

## Disgrifiad

Clefyd coed ynn yw'r clefyd coed mwyaf arwyddocaol i effeithio ar y DU ers clefyd llwyfen yr Isalmaen, a bydd yn arwain at ddirywiad a marwolaeth oddeutu 90% i 95% o goed ynn yn y DU, ac mae coed ynn yn gyffredin ar draws Ceredigion. Mae hyn yn cynnwys ar gyrion coetiroedd ar ffurf gwrychoedd a choed sbesimen ar hyd ffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus eraill ac mewn mannau agored cyhoeddus. Mae'r haint clefyd coed ynn yn achosi i'r coed freuo, colli canghennau ac yn y pen draw gallent gwmpo. Mae'r newidiadau strwythurol i'r pren mewn coed ynn sy'n marw yn cynyddu'n sylweddol y risg o'r coed yn cwmpo.



Mae clefyd coed ynn eisoes yn cael effaith ar y brigdwf ar draws y sir. Amcangyfrifir bod 42,000 o goed ynn aeddfed ar hyd y ffyrdd sirol yn unig, a 10,000 pellach ar Ystâd Gorfforaethol y Cyngor. Gan gymryd bod dwysedd tebyg o goed ynn ar draws yr holl dir cyhoeddus a phreifat arall, gan gynnwys coetiroedd a gwrychoedd, mae effaith a gaiff colli coed oherwydd clefyd coed ynn dros y 5 mlynedd diwethaf a dros y 5 mlynedd nesaf ar ôl troed carbon Ceredigion, y microhinsawdd ac effeithiau lleol ar

## Y Canlyniadau Posibl

Ceir posibilrwydd parhaus ar gyfer marwolaeth neu anafiadau o ganlyniad i ddiwyddiadau cysylltiedig â chlefyd coed ynn, gan gynnwys risgiau i swyddogaethau statudol neu ddarparu gwasanaethau, gyda phroblemau iechyd a diogelwch cynyddol oherwydd dirywiad coed ynn ar ffyrdd, parciau gwledig, ystadau tai, ysgolion, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a llwybrau troed. Cynnydd yn y gwariant o gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i Glefyd Coed Ynn. Bydd allyriadau carbon o goed sy'n cwmpo/angen eu symud yn cael effaith ar darged carbon sero-net 2030 y Cyngor, a bydd angen paratoi rhaglen blannu sylweddol dros y degawd nesaf i wneud iawn am y coed ynn a gollwyd. Bydd yr ecosystemau a ddarperir gan goed ynn yn cael eu colli, e.e. ansawdd aer, lleihau llifogydd, cysgodi trefol, cynnydd mewn lefelau sŵn a cholli sgriniau gweledol gyfagos â'r priffyrdd, storio carbon, atafaelu carbon a chynefin ar gyfer bioamrywiaeth, a risgiau i

## Tystiolaeth o'r

Mae clefyd coed ynn eisoes yn gyffredin ac yn weladwy ar draws y Sir. Mae canllaw cenedlaethol ar gyfer asesu coed sydd â'r clefyd, gan ddefnyddio system yn seiliedig ar y ganran o frigdwf byw, wedi cael ei sefydlu ac yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pryd y mae angen gweithredu i roi sylw i'r risgiau sy'n codi yn sgil dirwyniad coed. Argymhellir y dylid gweithredu pan fydd oddeutu 50% o'r goron yn weddill. Oherwydd graddfa cwblhau arolwg ar draws yr holl goed sydd ym mherchnogaeth y Cyngor, mae dull blaenoriaethol o weithredu wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod yr ardaloedd risg uchel yn cael eu harolygu gyntaf. I gyflawni hyn mae dadansoddiad risg ansoddol wedi cael ei gwblhau sy'n ystyried y tebygolrwydd o gael anaf a difrifoldeb ar gyfer pob gwasanaeth yn yr awdurdod y nodwyd y bydd yn debygol o gael ei effeithio gan glefyd coed ynn. Rhoddwyd ystyriaeth i newidynnau megis y nifer amcangyfrifedig o goed ynn, y nifer amcangyfrifedig o ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac o ran cyflymder a gwelededd ar y priffyrdd. Mae Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn yn amcangyfrif y gallai'r cyfanswm cost i'r Cyngor ar gyfer rheoli'r risg o glefyd



Camau Lliniaru	Erbyn Pryd	Medi	Rhag	Maw	Meh
R020T04: Ymgymryd â chynllun gwaith â blaenoriaeth i docio/symud coed fel y bo angen	31 Maw 2024	★	●	★	★
R020T05: Ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru a chyfleoedd cyllid eraill i fynd i'r afael â'r risg a achosir gan	31 Maw 2024	●	■	■	■



Mae'r cynllun gwaith (Ysgolion) ar gyfer 2022 wedi'i gwblhau, ac mae cynllun gwaith (ysgolion) newydd ar gyfer coed 2023 sydd wedi dirywio yn y flwyddyn ddiwethaf ar fin digwydd a bydd yn digwydd dros wyliau'r haf a gwyliau hanner tymor yr Hydref. Mae'r cynllun coed ar ymyl y ffyrdd yn mynd rhagddo ac mae bellach yn seiliedig ar arolwg wedi'i ddiweddarau o'r holl ffyrdd a gynhaliwyd yn ystod haf 2022 a gyflawnwyd yn Ch1 2023. Arolygu ar gyfer y rhain a chynlluniau gwaith pellach ar gyfer coed ar ymyl y ffyrdd a choed ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno i gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): Rhandiroedd, Mynwentydd, Parciau, Ysgolion, a mannau agored cyhoeddus eraill wedi cychwyn, a bydd unrhyw gynlluniau gwaith torri sydd eu hangen yn dilyn yn yr Hydref. Nid oes cyllid ar gael ar hyn o bryd i gynorthwyo gydag arolygu a/neu dorri coed, a bydd y sefyllfa hon yn cael ei monitro'n barhaus ar gyfer newid. Mae'n bosibl y bydd cyllid ar gael i gynorthwyo gyda'r elfen lliniaru ailblannu o'r prosiect clefyd coed ynn. Ceisir eglurhad gan Gyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru ynghylch a yw cynlluniau grant posibl yn agored i awdurdodau lleol.

# Risg Gorfforaethol R021 Ffosfadau

Tudalen 530

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Russell Hughes-Pickering

## Disgrifiad



Ym mis Ionawr 2021 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth o lefelau ffosfadau ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru (gan gynnwys Afon Teifi) ynghyd â chyfarwyddyd safbwynt cynllunio dros dro (wedi'i ddiweddarau Mai 2021).  
Y Cyngor yw'r awdurdod cymwys fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Cynefinoedd ac mae'n ofynnol iddo roi sylw i'r cyngor wrth wneud penderfyniadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ac o ran y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae effaith ffosfadau ar 50% o'r Ganolfan Gwasanaeth Trefol a 14% o'r Ganolfan Gwasanaeth Lleol a ddynodwyd yn y CDLI. Cyfanswm y tir a effeithir yng Ngheredigion yw 806 km<sup>2</sup> / 44.6% o'r sir. Gallai 14 o safleoedd tai a neilltuwyd ddarparu 572 o gartrefi ac o'r rhain disgwylir i 114 ohonynt fod yn rhai fforddiadwy. Mae problemau arwyddocaol o ran datblygu yn yr ardal hon. Disgwylir i'r ardal a effeithir gynyddu pan fydd gwybodaeth a chyfarwyddyd pellach yn cael eu rhyddhau mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol.

## Y Canlyniadau Posibl

Mae'n debygol iawn y bydd datblygu ar draws y Sir yn cael ei gyfyngu'n fawr hyd nes y gall mesurau gael eu rhoi ar waith i liniaru effeithiau maethynnau ar amgylcheddau afonol a morol. Gallai hyn gyfyngu ar allu'r Cyngor i ddarparu prif elfennau ei Strategaeth Gorfforaethol, y Strategaeth Economaidd, y Cynllun Datblygu Lleol, Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol allweddol. Disgwylir i'r sefyllfa waethygu pan fydd data yn ymwneud ag asesiadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol yn cael eu rhyddhau yn 2022 a fydd â goblygiadau mawr ar gyfer gweddill y Sir.

## Tystiolaeth o'r Risg

Mae monitro maethynnau gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu nad yw 8 o'r 16 gorsaf fonitro ar Afon Teifi yn cwrrd â'u targedau a osodwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Felly, nid ydynt yn bodloni gofynion eu statws ffafriol cadwriaethol, ac o bosib yn difrodi'r ecosystemau bregus a oedd yn sail i'w dynodiad fel Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae targedau o'r fath hefyd yn cael eu monitro ar gyfer maethynnau eraill yn Ardal Cadwraeth Arbennig Teifi a'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ar hyd ein harfordir.



Camau Lliniaru	Erbyn Pryd	Me di	Rhag	Maw	Meh
R021T01: Sicrhau bod pob cais, cynllun a phrosiect yn cael ei sgrinio yn unol â chyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru	31 Maw 2024	★	★	★	★
R021T02: Codi ymwybyddiaeth yn lleol ac yn genedlaethol a nodi ffyrdd i fireinio'r cyfarwyddyd	31 Maw 2024	★	★	★	★
R021T03: Gweithio ar lefel is-genedlaethol a chenedlaethol trwy'r gweithgorau i gael atebion	31 Maw 2024	★	★	★	★
R021T04: Ceisio atebion lleol, dysgu o arferion gorau mewn mannau eraill, defnyddio asedau sydd ym mherchnogaeth y Cyngor	30 Medi 2023	★	★	●	★
R021T07: Parhau i lobio am ddull 'Tim Cymru' o weithredu gan gynnwys rhestr liniaru genedlaethol a data	31 Maw 2024	●	★	★	
R021T08: Ystyried atebion lleol megis Cyfleusterau Trin Preifat a gweithio gyda Dŵr Cymru	31 Maw 2024	●	★	★	

Cynnydd hyd at ddiwedd Awst 2023: Cyflwynwyd cynnig llwyddiannus ar gyfer cyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i benodi Swyddog Rheoli Maethynnau ac i osod monitorau ansawdd Dŵr ar hyd Afon Teifi. Mae'r astudiaeth ddichonoldeb gwlyptir wedi'i chwblhau ochr yn ochr â'r cyfrifiannell rhanbarthol a'r canllawiau lliniaru; mae 2 astudiaeth dichonoldeb gwlyptir ar y safle hyd at y cam cynllunio i gychwyn yn fuan. Mae estyniad wedi'i gytuno i alluogi'r prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau , ac mae ffermydd wedi'u recriwtio er mwyn gallu cwblhau gwaith lliniaru fel y cytunwyd yn y rhaglen. Mae rhestrau gwirio datblygwyr a chymorth o ran Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu paratoi ar hyn o bryd ac mae templed drafft Cynllun y Bwrdd Rheoli Maethynnau yn cael ei lunio. Mae gwaith Tîm Cymru yn mynd rhagddo gyda'r rhanbarth yn chwaraewr allweddol o ran dylanwadu ar gynllun gweithredu'r Prif Weinidog a'i roi ar waith.


# Risg Gorfforaethol R022 Recriwtio a Chadw

**Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Geraint Edwards**

**Disgrifiad**  
Bydd methu â recriwtio staff i rolau allweddol yn cael effaith ar y gallu i gynnal gwasanaethau diogel ac effeithiol a'r gofyniad i fodloni cyfrifoldebau statudol a deddfwriaethol.

**Y Canlyniadau Posibl**  
Gall effaith methu â recriwtio mewn modd amserol arwain at anallu i fodloni dyletswyddau statudol neu ofynion deddfwriaethol; anallu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol; neu ei gwneud yn heriol i wasanaethau ymateb i alwadau sy'n newid. Byddai hyn yn arwain at ymyrraeth gan reoleiddwyr a/neu gael eu rhoi mewn mesurau arbennig, gan greu pwysau ychwanegol sylweddol ar y gyllideb a niweidio enw da'r Cyngor, a fyddai'n effeithio ymhellach ar frand ein cyflogwr a'n gallu i recriwtio. Yn ogystal, gallai methu â recriwtio arwain at effaith negyddol ar weddill y gweithlu o ganlyniad i orfod rhannu'r llwyth gwaith ychwanegol.

**Tystiolaeth o'r Risg**  
Marchnad lafur heriol a welir yn y nifer uchel hanesyddol o swyddi gwag ledled y DU, y gyfradd isaf o ddiweithdra ers 1974 a'r cynnydd yn nifer y bobl economaidd anweithgar. Methiant i recriwtio mewn nifer o rolau proffesiynol er gwaethaf sawl ymgyrch. Mwy o ddefnydd o staff asiantaeth i gyflawni rolau allweddol â chymwysterau proffesiynol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol ac uwch reolwyr.



Camau Lliniaru	Erbyn Pryd	Medi	Rhag	Maw	Meh
R022T02: Ymgymryd â meincnod cyflogau holl awdurdodau lleol Cymru	31 Gorff 2023		●	●	●
R022T03: Adolygu'r ffurflen gais a'r broses	30 Meh 2023		●	★	★
R022T04: Ystyried cynllun prentisiaeth aml-lefel	30 Meh 2023		★	★	★
R022T05: Parhau i lobio dros raddfa gyflog Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol	30 Medi 2023		■	★	★

**Sylwadau (e.e. Cynnydd Hyd Yma)**  
Mae drafft terfynol Cynllun Gweithlu 2023-2028 wedi'i gwblhau, bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn Ch2. Mae gweithredu'r Cynllun yn allweddol i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw gyda ffocws ar frandio cyflogwyr, y broses ymgeisio, llais y gweithiwr, uwchsgilio digidol, cynllunio ar gyfer olyniaeth, cynllun graddedigion a rhaglenni prentisiaeth.

# Adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Adroddiad o'r:	Alun Williams, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd. Aelod Cabinet dros Bolisi a Pherfformiad : Bryan Davies
Dyddiad:	27ain Medi 2023
Pwnc yr adroddiad:	Y Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg Drafft
Pwrpas yr adroddiad:	Cyflwyno Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg Drafft a hysbysu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o'r broses a'r camau nesaf.

## Cefndir

Mae'r Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor yn cael ei hadolygu bob tair blynedd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn cyflawni eu dibenion. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf rhwng Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023.

Mae canfyddiadau'r adolygiad eisoes wedi'u hustyried gan Grŵp Arweiniol gan arwain at nifer o ddiweddariadau i'r Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg Drafft.

Mae'r Polisi a Strategaeth Rheoli Risg Drafft wedi'i gynnwys fel Atodiad Mae'r Fframwaith Rheoli Risg Drafft wedi'i gynnwys fel Atodiad.

## Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r Y Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg wedi'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu canfyddiadau'r adolygiad a'r tueddiadau cyfredol mewn arfer gorau. Mae'r diweddariadau pennaf wedi'u rhestru isod ac wedi'u uwchleuo'n felyn yn yr atodiadau i gael mynediad hawdd.

- **Cryfhau monitro risgiau gwasanaeth** – bydd risgiau gwasanaeth sy'n sgorio 15 neu'n uwch yn cael eu hasesu'n chwarterol gan Grŵp Arweiniol er mwyn uwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac i'r gwrthwyneb.
- **Bydd risgiau gwasanaeth yn cael ei ychwanegu i System Rheoli Perfformiad Teifi** er mwyn iddynt gael eu diweddaru a'u rheoli drwy'r system.
- Eglurwyd mai'r **trothwy i'r Grŵp Arweiniol i ystyried dwyshau / llacio'r risgiau yw 15.**
- Eglurwyd mai'r **Grŵp Arweiniol sy'n gyfrifol dros benderfynu os y dylai risg gael ei ddwyschau neu'i lacio.**
- **Egluro rôl yr Archwiliad Polisi a Fframwaith Mewnol**, sef asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y gweithredoedd sydd mewn lle i liniaru risg a darparu amcanion sicrwydd bod risgiau'n cael eu delio'n bwrpasol. Yn ychwanegol, bydd yr Archwiliad

## Tudalen 534

Mewnol yn darparu amcanion sicrwydd i'r Grŵp Arweiniol, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor ar gadernid ac effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheolaeth risg sy'n cynnwys adolygiadau cyfnodol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol, Cofrestr Gwasanaeth Risg a gweithdrefnau Rheoli Risg Corfforaethol.

- Egluro y **dylai sgoriau “targed risg” gael eu darparu** i gyd-fynd a'r camau lliniaru ar gyfer risg h.y. pa sgôr y dylai'r risg gael ei leihau iddo wedi cyflawni'r camau lliniaru a nodwyd.

### Ymgynghoriad

Ar ôl cymeradwyo'r ddogfen Rheoli Risg drafft, penderfynodd Grŵp Arweiniol y byddai ymarfer ymgynghori cyfyngedig i rhanddeiliaid allweddol yn cael ei gynnal i gynnwys aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Yswiriant Zurich. Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddai'r dogfennau terfynol yn cael eu cymryd drwy'r broses ddemocrataidd i'w chymeradwyo'n derfynol.

Anfonwyd llythyr ymgynghori at holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 30ain o Fehefin, yn gwahodd sylwadau ysgrifenedig erbyn 25 Awst. Cafwyd ymateb manwl a defnyddiol gan Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Derbyniwyd ymateb Zurich hefyd ac nid ydynt yn cynnig unrhyw newidiadau i'r drafft.

Ar hyn o bryd mae N.B. Zurich yn gwneud gwaith gyda'r awdurdod i gynorthwyo gwasanaethau i nodi risgiau Gwasanaeth.

### Y Camau Nesaf

Yn dilyn ystyried yr ymateb/ymatebion, bydd y dogfennau rheoli risg yn cael eu diwygio i gynnwys newidiadau gofynnol. Bydd y dogfennau rheoli risg yn cael eu rhannu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu cyfarfod nesaf ac yna'n mynd trwy'r broses Ddemocrataidd er mwyn ei gymeradwyo. Bydd unrhyw adborth arall o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch y Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau dilynol.

Yn dilyn trafodaethau, nid yw'r Grŵp Arweiniol yn ystyried y byddai gweithdy ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn angenrheidiol, gan fod holl aelodau'r Pwyllgor wedi cael y cyfle i ymgysylltu â'r ymgynghoriad dros yr Haf.

Argymhelliad	1. I nodi Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg Drafft 2. I nodi cynnydd cyfredol a'r camau nesaf.
Papurau a/neu benderfyniadau cefndir	Atodiad – Llythyr i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'i ddyddio 30ain Mehefin Atodiad 2: Polisi a Strategaeth Rheoli Risg Atodiad 3: Fframwaith Rheoli Risg
Deisyfiad polisi:	Cryfhau proses Rheoli Risg y Cyngor i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn addas i'w ddiben.

## Tudalen 535

Materion Cyllid:	Dim, ni fydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn effeithio ar gyllidebau.
Adroddiad pellach i'r Cabinet a/neu'r Cyngor:	Oes



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd  
Corporate Lead Officer : Policy, Performance and Public Protection

**Alun Williams**

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,  
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE  
[www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk)

30/06/2023

Annwyl bawb,

Mae Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risgiau'r Cyngor yn cael eu hadolygu bob tair blynedd i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol ac yn addas i'r diben. Rydym wedi bod yn cynnal yr adolygiad hwn yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac rwyf yn falch o gyhoeddi bod y gwaith hwn bellach wedi dod i ben.

Nododd yr adolygiad welliannau i gryfhau'r broses Rheoli Risgiau, mae'n adlewyrchu arferion gorau ac mae'n diweddarau'r Polisi, y Strategaeth a'r Fframwaith. Cytunwyd ar y drafftiau gan Grŵp Arweiniol y Cyngor ar Fehefin yr 28<sup>ain</sup> er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'n hyswirwyr. Mae'r dogfennau a ddiweddarwyd wedi'u hatodi yn y post hwn ac rydym yn croesawu unrhyw adborth sydd gennych.

Er hwylustod cyfeirio, rydym wedi crynhoi'r prif ddiweddariadau isod:

- Cryfhawyd o ran monitro risgiau i'r gwasanaethau – bydd risgiau i'r gwasanaethau sy'n sgorio 15 neu uwch yn cael eu hasesu'n chwarterol gan y Grŵp Arweiniol i'w huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac i'r gwrthwyneb.
- Bydd risgiau i'r gwasanaethau yn cael eu hychwanegu at System Rheoli Perfformiad Teifi fel y gellir eu diweddarau a'u rheoli drwy'r system er mwyn cael mynediad haws a chyflymach.
- Eglurwyd mai'r trothwy i risgiau gael eu hystyried gan y Grŵp Arweiniol ar gyfer uwchgyfeirio / is-gyfeirio yw 15.
- Eglurwyd mai'r Grŵp Arweiniol sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylai risgiau gael eu huwchgyfeirio neu eu his-gyfeirio ac y bydd rhai eithriadau lle gall sgorau risgiau fod yn fwy na 15 neu fwy ac aros fel risg i'r gwasanaeth.
- Rhoddwyd arweiniad ychwanegol mewn perthynas ag achosion lle mae sgorau risgiau yn uwch na 15 ond yn parhau i fod yn risg i'r gwasanaeth, ac i'r gwrthwyneb lle maent yn is na 15 ond yn parhau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- Ehangwyd rôl Archwilio Mewnol yn y Polisi a'r Fframwaith, sef asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y camau sydd ar waith i liniaru risgiau a rhoi sicrwydd gwrthrychol bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Yn ogystal, bydd Archwilio Mewnol hefyd yn rhoi sicrwydd gwrthrychol i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor ynghylch cadernid ac effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheoli risgiau trwy gynnwys adolygiadau

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

Prif Weithredwr / Chief Executive :  
Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Corporate Directors :

Eifion Evans  
Barry Rees  
James Starbuck



## Tudalen 537


cyfnodol o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, Cofrestr Risgiau i'r Gwasanaethau a gweithdrefnau Rheoli Risgiau Corfforaethol.

- Egluro y dylid rhoi sgorau "risg targed" i gyd-fynd â'r camau lliniaru ar gyfer risg, h.y. i ba sgôr y dylid lleihau'r risg drwy gyflawni'r camau lliniaru a nodwyd.

Bydd y cyfnod o ymgynghori â rhanddeiliaid ag Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rhanddeiliaid allweddol eraill ym maes Rheoli Risgiau yn dechrau heddiw ac yn dod i ben ar 25ain Awst. A allem ofyn am unrhyw adborth ysgrifenedig erbyn y dyddiad uchod. Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym yn bwriadu mynd â'r Polisi, y Strategaeth a'r Fframwaith Rheoli Risgiau drwy'r broses ddemocrataidd yn yr Hydref.

Yn y cyfamser, rwy'n gobeithio y bydd y dogfennau Rheoli Risgiau sydd wedi'u diweddarau yn ddefnyddiol i chi, a pheidiwch ag oedi cyn cysylltu os oes gennyh unrhyw ymholiadau.

Yn gywir,



Alun Williams


Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Cc: Elin Prysor  
Alex Jenkins  
Harry Dimmack  
Rob Starr  
Diana Davies  
Alison Hodgson

# Cyngor Sir Ceredigion

## Rheoli Risgiau

### Polisi a Strategaeth



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Awdur:	Teitl y Ddogfen:	Dyddiad:	Fersiwn:
Alun Williams Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad Alison Hodgson Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol	Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau	20 <sup>fed</sup> Mehefin 2023	2.0 Terfynol
Cymeradwywyd gan:	Dyddiad Cymeradwyo:	Dyddiad Cyhoeddi:	Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:
Cabinet	Heb ei gymeradwyo eto		2025/26

Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau

## Tabl Cynnwys

<b>Rhagair</b> .....	<b>3</b>
<b>Polisi Rheoli Risgiau</b> .....	<b>4</b>
<b>Datganiad Polisi ynghylch Rheoli Risgiau</b> .....	<b>4</b>
<b>Strategaeth Rheoli Risgiau</b> .....	<b>6</b>
<b>Diben</b> .....	<b>6</b>
<b>Amcanion</b> .....	<b>6</b>
<b>Diffiniadau</b> .....	<b>7</b>
<b>Diwylliant Risgiau</b> .....	<b>7</b>
<b>Rolau a Chyfrifoldebau</b> .....	<b>8</b>
<b>Darparu Adnoddau ar gyfer Rheoli Risgiau</b> .....	<b>8</b>
<b>Llywodraethu Corfforaethol</b> .....	<b>8</b>
<b>Cynnwys Grwpiau Perthnasol eraill</b> .....	<b>8</b>
<b>Archwilio Mewnol</b> .....	<b>9</b>
<b>Partneriaethau</b> .....	<b>9</b>
<b>Risgiau Cymunedol / Risgiau Hirdymor</b> .....	<b>10</b>
<b>Adolygiadau</b> .....	<b>11</b>
<b>Atodiad 1: Rolau a Chyfrifoldebau</b> .....	<b>12</b>

Croeso i ddogfen Polisi Rheoli Risgiau a Strategaeth Rheoli Risgiau Cyngor Sir Ceredigion.

Mae rheoli risgiau yn effeithiol yn caniatáu i'r Cyngor:

- feddu ar hyder cynyddol wrth gyflawni ein blaenoriaethau a'n canlyniadau
- cadw bygythiadau i lefelau derbyniol
- gwneud penderfyniadau gwybodus wrth fanteisio ar gyfleoedd
- sicrhau bod gennym y cydbwysedd iawn rhwng gwobrwyon a risgiau
- gwella'r trefniadau o ran gweithio mewn partneriaeth a'r trefniadau llywodraethu corfforaethol.
- Amddiffyn pobl, asedau ac enw da'r Cyngor
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd

Yn y pen draw, bydd rheoli risgiau mewn modd effeithiol yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar ei gyfleoedd ac yn lleihau effaith y risgiau y mae'n eu hwynebu. Bydd hyn felly yn gwella gallu'r Cyngor i gyflawni blaenoriaethau gan wella'r canlyniadau i'r trigolion a lliniaru camau cyfreithiol a hawliadau ariannol yn erbyn y Cyngor ynghyd â lleihau'r niwed i'w enw da.

Mae'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau yn darparu fframwaith a phroses gynhwysfawr gyda'r bwriad o gefnogi'r Aelodau a'r Swyddogion wrth iddynt sicrhau bod y Cyngor yn medru cyflawni ei holl gyfrifoldebau o ran rheoli risgiau. Mae'r polisi yn amlinellu amcanion a manteision rheoli risgiau gan ddisgrifio'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli risgiau a darparu trosolwg o'r broses sydd ar waith gennym i reoli risgiau yn llwyddiannus.

Bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi a'r strategaeth o leiaf bob tair blynedd a chaiff unrhyw newidiadau i'r polisi hwn eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn i'r Cabinet eu cymeradwyo.

Mae'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau yn seiliedig ar y ddogfen Fframwaith Rheoli Risgiau. Dylid darllen y Polisi a'r Strategaeth ar y cyd â'r ddogfen hon.



# Cyngor Sir Ceredigion

## Polisi Rheoli Risgiau

### Datganiad Polisi ynghylch Rheoli Risgiau

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod bod agwedd ragweithiol tuag at reoli risgiau yn hanfodol wrth gyflawni ei weledigaeth o ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a dwyieithog sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n cynnal economi gref ac amgylchedd iach ynghyd â hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Strategaeth effeithiol ar gyfer Rheoli Risgiau sy'n dod yn rhan annatod o ddiwylliant y sefydliad. Mae'r fframwaith hwn yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol gan ystyried effeithiolrwydd sefydliadol yn benodol.

Mae'r Cyngor yn nodi mesurau cost-effeithiol i fynd i'r afael â'r risgiau y mae'n eu hwynebu gan eu dadansoddi, eu rheoli a'u rhoi ar waith er mwyn gwneud y canlynol:

1. Sicrhau bod y rhwymedigaethau statudol a'r amcanion polisi yn cael eu bodloni;
2. Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'r Blaenoriaethau Strategol a'r Amcanion Llesiant drwy wella'r modd y darperir y gwasanaethau.
3. Sicrhau bod prosiectau mawr ac arloesol yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.
4. Sefydlu ffyrdd effeithiol o weithio mewn partneriaeth gan ddatblygu'r ffyrdd hynny.
5. Amddiffyn a hybu enw da'r Cyngor;
6. Gwellu'r prosesau o ran gwneud penderfyniadau, cynllunio a blaenoriaethu gan sicrhau gwell canlyniadau o ran effeithlonrwydd gweithredol.
7. Diogelu'r Aelodau etholedig, y gweithwyr, y defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion yr ysgolion a'r holl randdeiliaid eraill y mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal drostynt.
8. Dysgu o gyfleoedd neu fygythiadau blaenorol gan gynnwys y llwyddiannau a'r methiannau wrth reoli risgiau at y dyfodol.

Mae cloriannu a rheoli risgiau yn rhan o holl brosesau Cyngor Sir Ceredigion ac yn benodol mae'r gwaith hwn yn rhan o'r canlynol:-

- Y broses o wneud polisiau, eu harchwilio a'u hadolygu
- Y polisi a'r strategaeth lechyd a Diogelwch
- Y trefniadau cynllunio a rheoli ariannol
- Y trefniadau ar gyfer cynllunio strategol a gosod amcanion
- Y cynlluniau busnes, y cynlluniau ar gyfer gwasanaethau a'r broses o'u rhoi ar waith,
- Y prosesau adrodd a gwneud penderfyniadau
- Y trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad
- Y prosesau ar gyfer rheoli newid a phrosiectau

Cydnabyddir y bydd rhai risgiau wastad yn bodoli ac na fyddant byth yn cael eu

## Tudalen 542

Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau  
dileu, ond rhaid i'r holl weithwyr ystyried risgiau gan dderbyn cyfrifoldeb am reoli'r  
risgiau sy'n gysylltiedig â'r meysydd y mae ganddynt awdurdod drostynt.

Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y glynir wrth bolisi'r  
Cyngor ar Reoli Risgiau.

Bydd y polisïau, y strategaethau a'r prosesau o ran rheoli risgiau yn cael eu  
hadolygu gan ystyried a ydynt yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cydymffurfio â'r  
rheoliadau fel rhan o'r cylch adolygu a gyflawnir gan y rheolwyr.





# Cyngor Sir Ceredigion

## Strategaeth Rheoli Risgiau

### Diben

Mae'r Strategaeth Rheoli Risgiau yn mynd law yn llaw â'r datganiad polisi ac mae'n amlinellu'r camau sydd angen eu cymryd i fodloni cyfres o amcanion sy'n gysylltiedig â rheoli risgiau.

### Amcanion

Amcanion y Strategaeth yw:

- Sicrhau bod rheoli risgiau wedi'i wreiddio yn niwylliant y Cyngor a'i fod yn rhan annatod ohono;
- Neilltuo rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd o ran gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli risgiau o fewn y Cyngor;
- Codi ymwybyddiaeth pawb sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau'r Cyngor o'r angen i reoli risgiau;
- Atal anafiadau, difrod a cholledion er mwyn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â risgiau;
- Gwneud mwy i wireddu cyfleoedd a'r manteision sy'n deillio ohonynt;
- Sicrhau cysondeb drwy'r Cyngor o ran rheoli risgiau.

Cyflawnir yr amcanion hyn drwy wneud y canlynol

- Cynnwys ystyriaethau ynghylch rheoli risgiau ym mhob agwedd ar y cynlluniau busnes;
- Cynnwys ystyriaethau ynghylch rheoli risgiau ym mhob agwedd ar y trefniadau sy'n gysylltiedig â rhaglenni, prosiectau a phartneriaethau;
- Hyfforddi pob Aelod etholedig, y rheolwyr, ac aelodau'r staff yn effeithiol gan ddatblygu eu sgiliau ym maes rheoli risgiau;
- Monitro risgiau ac adrodd yn eu cylch yn rheolaidd er mwyn nodi tueddiadau a chyfeiriad tebygol unrhyw risgiau fel y gall yr Aelodau a'r Uwch Reolwyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth wneud penderfyniadau.
- Bydd y Fframwaith Rheoli Risgiau ar gael i'r holl aelodau etholedig, y staff, y cyhoedd a'r rhanddeiliaid eraill ar fewnwyd a rhyngwyd y Cyngor a chaiff ei gyfathrebu drwy'r strwythur rheoli.
- Bydd pob Aelod yn derbyn hyfforddiant ar risgiau fel y gallant ystyried goblygiadau risgiau o ran eu gwaith gyda'r Cyngor.
- Bydd y Grŵp Arweiniol a'r Uwch Reolwyr yn derbyn hyfforddiant rheoli risgiau gyda'r nod o sicrhau bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i nodi, cloriannu a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.
- Bydd pob rheolwr a swyddog arall a nodir yn derbyn hyfforddiant rheoli risgiau ac asesu risgiau yn ôl yr angen.



# Tudalen 545

Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau

## Diffiniadau

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn diffinio **Risg** fel a ganlyn:

'y posibilrwydd y gallai rhywbeth ddigwydd a fyddai'n cael effaith andwyol ar gyflawni amcanion y Cyngor, ar ei enw da neu ar y modd y darperir ei wasanaethau'. Mesurir risgiau o ran eu heffaith a'u tebygolrwydd

**Rheoli risgiau** yw'r prosesau cynlluniedig a systematig, lle y caiff risgiau allweddol eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli gan alluogi'r manteision mwyaf posibl a lleihau unrhyw ganlyniadau negyddol posibl i'r cyngor a'i bartneriaid. Gellir dadansoddi risgiau a'u diffinio ymhellach fel a ganlyn:

Mae Rheoli Risgiau yn caniatáu i'r Cyngor wneud y canlynol:

- a. Nodi risgiau yng nghyd-destun yr amcanion corfforaethol, gan gynnwys y cyfleoedd posibl.
- b. Asesu risgiau gan bennu pa mor debygol ydynt ac effaith pob risg.
- c. Penderfynu ynghylch yr ymateb i bob risg yn unigol.
- d. Datblygu'r camau, y mesurau rheoli a'r prosesau angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r ymateb sydd wedi'i ddewis i fynd i'r afael â phob risg.
- e. Rhannu gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i reoli risgiau gan sôn am ganlyniadau'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli risgiau.
- f. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd.

Mae rheoli risgiau yn cyfrannu at y cynlluniau strategol a'r cynlluniau busnes ac mae'n helpu'r Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion llesiant a amlinellir yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 gan wella'r modd y darperir gwasanaethau a sicrhau mwy o werth am arian.

## Diwylliant Risgiau

Mae diwylliant risgiau cryf ac eang ar draws y bwrdd yn agwedd bwysig ar drefniadau llywodraethu corfforaethol cryf. Y diwylliant risgiau yw'r gwerthoedd, yr agweddau a'r arferion a rennir ac mae'n nodweddu'r modd y mae'r Cyngor yn ystyried risgiau o ddydd i ddydd drwy wneud y canlynol:

- a. Codi ymwybyddiaeth o'r risgiau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.
- b. Deall y busnes a pherthnasedd risgiau.
- c. Sicrhau bod yna berchnogaeth glir o'r risgiau.
- d. Pennu cyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli risgiau.
- e. Monitro effeithiolrwydd y broses rheoli risgiau ac adrodd yn ei chylch mewn modd effeithiol.

Er na ddylai'r Cyngor fod ofn mentro, mae'r egwyddorion a gynhwysir yn y polisi hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn taro'r cydbwysedd cywir o ran ei agwedd tuag at gyfleoedd busnes a'r trefniadau ynghylch rheoli risgiau.

Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau

## **Rolau a Chyfrifoldebau**

Holl Aelodau a Swyddogion y Cyngor sy'n gyfrifol am reoli risgiau ac mae disgwyl iddynt wneud hynny mewn modd effeithiol. O ystyried mor amrywiol yw gwasanaethau'r cyngor a'r ystod eang o risgiau posibl, mae'n hanfodol bod yna gyfrifoldeb clir am nodi'r risgiau posibl a'r camau sydd i'w cymryd er mwyn mynd i'r afael â hwy.

Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am fonitro bod y trefniadau rheoli risgiau corfforaethol yn y Cyngor yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn effeithiol.

Nodir y rolau a'r cyfrifoldebau eraill yn [Atodiad 1](#).

## **Darparu Adnoddau ar gyfer Rheoli Risgiau**

Nid yw rheoli risgiau yn fater newydd ac mae pob Aelod a Swyddog yn gyfrifol am ystyried goblygiadau risgiau fel y maent yn berthnasol iddynt.

Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, gyda chymorth y Prif Weithredwr, sy'n gyfrifol am sicrhau bod Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau ar waith.

Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dynodedig yn y Grŵp Arweiniol ar gyfer risgiau yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Bydd y Tîm Perfformiad ac Ymchwil yn gweithredu fel dolen gyswllt rhwng yr Aelodau etholedig, y swyddogion a'r Grŵp Arweiniol ar gyfer pob agwedd ar reoli risgiau.

## **Llywodraethu Corfforaethol**

Yn unol â Chanllawiau CIPFA / SOLACE ynghylch Llywodraethu Corfforaethol, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n nodi'r fframwaith y bydd yn ei ddefnyddio i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau effeithiol.

Mae Egwyddor F, canllawiau CIPFA yn nodi'r canlynol: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn. Mae'r fframwaith uchod yn cydnabod bod 'rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn bwysig, eu bod yn rhannau annatod o system rheoli perfformiad a'u bod yn hanfodol o ran cyflawni canlyniadau. Dylid ystyried risgiau fel rhan o bob gweithgaredd gwneud penderfyniadau gan fynd i'r afael â hwy'.

Mae'r Strategaeth Rheoli Risgiau yn sicrhau bod polisi Rheoli Risgiau'r Cyngor wedi'i ymgorffori'n llawn ym mhrosesau cynllunio a monitro strategol a gweithredol y Cyngor.

## **Cynnwys Grwpiau Perthnasol Eraill**

Mae nifer o grwpiau eraill yn bodoli lle mae'r swyddogion yn ymdrin â meysydd penodol o ran rheoli risgiau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Fforwm Iechyd a Diogelwch
- Y Grŵp Diogelwch Personol
- Y Grŵp Cynllunio ar gyfer Argyfyngau a Rheoli Parhad Busnes
- Grŵp Tywydd Garw Ceredigion

# Tudalen 547

Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau

- Technoleg Gwybodaeth (Strategaeth)
- Grŵp Rheoli Gwybodaeth
- Grŵp Risg Gwybodaeth – Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau

- Grŵp Monitro Cyfalaf
- Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol
- Grŵp Datblygu
- Grŵp Rheoli Asedau

## Archwilio Mewnol

Bydd gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi sicrwydd gwrthrychol i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor ynghylch cadernid ac effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheoli risgiau. Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol o bryd i'w gilydd ac yn gwerthuso'r gweithdrefnau Rheoli Risgiau Corfforaethol gan gynnwys rhoi adroddiadau am risgiau.

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol Blyneddol yn seiliedig ar risg ac wedi'i alinio â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu yn ôl risg. Bydd Archwilio Mewnol o bryd i'w gilydd yn gwerthuso rheolaeth y risgiau allweddol sydd wedi'u cynnwys mewn Cofrestrau Risgiau. Bydd yr holl risgiau coch o fewn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cynllun gwaith Archwilio Mewnol dros gyfnod treigl o ddwy flynedd a bydd adolygiadau cyfnodol o Gofrestrau Risgiau i'r Gwasanaethau hefyd yn cael eu cynnwys yn y cynllun Archwilio Mewnol.

Bydd Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd gwrthrychol bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol ar gyfer pob ymgysylltiad archwilio a gwblhawyd. Bydd yr archwilydd yn nodi risgiau ac yn profi'r rheolaethau sydd ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Bydd canfyddiadau'r archwiliad yn cael eu hadrodd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Rheolwyr Corfforaethol perthnasol ynghyd â chynllun gweithredu canlyniadol gan gynnwys risgiau a nodwyd, meysydd i'w gwella a chamau rheoli sydd eu hangen i liniaru risgiau.

Cynhelir gwiriadau gan Archwilio Mewnol i sicrhau bod y rheolwyr yn gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

Bydd y Grŵp Arweiniol yn cael copïau o'r holl adroddiadau archwilio allanol terfynol ac adroddiadau cynnydd archwilio mewnol i asesu a yw'r camau gweithredu a weithredwyd yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r risgiau a nodwyd ac a oes angen unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

## Partneriaethau

Bydd prosiectau ar y cyd a'r gwaith partneriaeth sy'n deillio o hyn yn glynu wrth y Protocol mewnol ar gyfer Prosiectau ar y Cyd. Mae'r protocol yn nodi'r broses sydd i'w dilyn wrth ddechrau ar brosiect/partneriaeth newydd, y ffyrdd o adolygu ac asesu prosiectau/partneriaethau sydd eisoes yn bodoli ynghyd â'r ffyrdd o ddod â'n hymwneud â phrosiect/partneriaeth i ben. Bydd yr holl dempledi sy'n rhan o'r protocol yn cynnwys templedi ynghylch nodi, asesu a monitro risgiau.

Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau

## **Contractau Allanol**

Mae'r tîm caffael canolog yn cadw cofrestr contractau.

Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl risgiau posibl sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau a chyflenwadau wrth baratoi ar gyfer y broses gaffael a bydd yn lliniaru'r rhain drwy gynnwys cwestiynau diwydrwydd dyladwy mewn tendrau a gosod mesurau priodol mewn contractau. Bydd y gwaith wedyn o reoli contractau, monitro contractau allweddol a chynnal cydberthynas dda gyda'r cyflenwyr yn ei gwneud hi'n bosibl iddynt nodi'n gynnar y risgiau sy'n codi yn ystod oes y contract a chymryd camau gweithredu priodol pan fo angen.

Bydd y Tîm Caffael canolog yn sefydlu rhwydweithiau gydag awdurdodau ac asiantaethau eraill, gan rannu gwybodaeth am reoli risgiau a chodi ymwybyddiaeth o faterion posibl o ran risgiau a allai effeithio ar y Cyngor o safbwynt caffael.

## **Risgiau Cymunedol / Risgiau Hirdymor**

Mae Cofrestr Risgiau Cymunedol Fforwm Cydnerth Lleol Dyfed Powys yn amlinellu risgiau penodol a allai achosi argyfwng sifil yn rhanbarth Heddlu Dyfed Powys. Nid yw'r ffaith bod risg wedi'i chynnwys ar y gofrestr risgiau gymunedol yn golygu y bydd yn digwydd. Yr hyn y mae'n ei olygu yw bod y risg yn cael ei chydabod fel un bosibl a bod y sefydliadau wedi gwneud trefniadau i leihau ei heffaith.

Ymhlith y prif risgiau a nodir y mae'r canlynol:

- Effaith Brexit
- Ffliw Pandemig,
  - Llifogydd,
  - Mathau eraill o dywydd garw (megis stormydd, gwyntoedd cryfion, tymereddau isel, eira trwm, tywydd poeth a sychder),
  - Colli Seilwaith,
  - Llygredd,
  - Afiechydion Anifeiliaid,
  - Digwyddiadau Diwydiannol,
  - Digwyddiadau Trafnidiaeth.

Mae'r risgiau yn yr hirdymor yn cynnwys y canlynol:

- Cydnerthedd Ariannol
- Gallu a chapasiti'r gweithlu o ran cydnerthedd
- Ymosodiad Seiber

# Tudalen 550

Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau

## **Adolygiadau**

Bydd y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau yn cael eu hadolygu bob tair blynedd (neu'n amlach os bydd hynny'n ofynnol yn sgil newidiadau i ddeddfwriaeth statudol) ac ymgynghorir â'r Pwyllgor Llywodraethu Archwilio a'r Grŵp Arweiniol cyn cwblhau a chyflwyno'r polisi i'r Cabinet er mwyn cael cymeradwyaeth:

Bydd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei hadolygu gan y Grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mhob un o'u cyfarfodydd a bydd y Gofrestr ar gael i'r holl reolwyr ei gweld drwy System Perfformiad Teifi.

Caiff y Cofrestrau Risgiau eraill eu hadolygu fel rhan o'r trefniadau priodol o ran partneriaethau a rheoli.

# Tudalen 551

Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau

## Atodiad 1: Rolau a Chyfrifoldebau

Mae gan bawb rôl i'w chwarae mewn fframwaith rheoli risgiau integredig. Bydd arweiniad ar y cyd a gwaith tîm yn helpu i gyfrannu at ei lwyddiant yn y pen draw. Mae'r rolau sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd fel a ganlyn:

Grŵp/Rhanddeiliad	Disgrifiad o'r Rôl
<b>AELODAU 'R CABINET</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cymeradwyo ac adolygu'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau sy'n seiliedig ar y Fframwaith Rheoli Risgiau er mwyn diogelu'r asedau ac fel rhan annatod o'i weledigaeth ar gyfer Ceredigion.</li></ul>
<b>Y PWYLLGOR LLYWODRA ETHU AC ARCHWILIO</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol proses rheoli risgiau'r Cyngor.</li><li>• Monitro'r cynnydd a wneir o ran mynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â risgiau a ddaw gerbron y Pwyllgor</li><li>• Ystyried y Gofrestr Risgiau Corfforaethol fel eitem ar yr agenda</li></ul>
<b>PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Hybu'r trefniadau ar gyfer Rheoli Risgiau a manteision hynny drwy'r Cyngor.</li><li>• Ymgymryd â chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y glynir wrth bolisi'r Cyngor ar Reoli Risgiau.</li><li>• Penodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol i fod yn gyfrifol am reoli risgiau.</li></ul>
<b>GRŴP ARWEINIOL</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Argymhell cymeradwyo'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau sy'n seiliedig ar y Fframwaith Rheoli Risgiau.</li><li>• Sicrhau bod y trefniadau Rheoli Risgiau yn cael eu rhoi ar waith ar draws y Cyngor yn unol â'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau cymeradwy</li><li>• Goruchwylio'r gwaith o sefydlu a chadw Cofrestr Risgiau Corfforaethol.</li><li>• Bod yn gyfrifol am dderbyn Risg Gorfforaethol i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol neu ddileu Risg Gorfforaethol o'r Gofrestr.</li><li>• Dyrannu cyfrifoldeb i'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer risgiau strategol corfforaethol.</li><li>• Ystyried a chymeradwyo cynlluniau a mentrau rheoli risgiau gan gynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer rheoli Risgiau Critigol.</li><li>• Ystyried y risgiau sydd ynghlwm wrth unrhyw gynigion ar gyfer polisiâu newydd / polisiâu sydd wedi'u newid a'r trefniadau o ran darparu gwasanaethau.</li></ul>

# Tudalen 552

Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau

Grŵp/Rhanddeiliad	Disgrifiad o'r Rôl
<p><b>SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETH OL, POLISI, PERFFORMIAD A DIOGELU'R CYHOEDD</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad yn gyfrifol am reoli risgiau.</li> <li>• Cloriannu effeithiolrwydd y mecanweithiau a ddefnyddir i reoli'r risgiau a nodir.</li> </ul>
<p><b>SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETH OL - CYLLID A CHAFFAEL</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael yn gyfrifol am ddarpariaeth yswiriant yr Awdurdod.</li> </ul>
<p><b>RHEOLWR PERFFORMIAD AC YMCHWIL A'R SWYDDOG PERFFORMIAD A GWELLA CORFFORAETHO L</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydlynu'r gweithgarwch o ran rheoli risgiau ar draws y Cyngor</li> <li>• Rhoi adroddiadau ynglŷn â gweithgarwch rheoli risgiau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd</li> <li>• Cadw cofrestr risgiau corfforaethol gan drafod y risgiau i'r gwasanaethau gyda'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.</li> <li>• Trefnu hyfforddiant rheoli risgiau i'r swyddogion a'r Aelodau, fel y bo'n briodol yn unol â'u hanghenion a'u cyfrifoldebau.</li> <li>• Darparu cyngor a chymorth yn ôl yr angen.</li> <li>• Adolygu'r Fframwaith Rheoli Risgiau yn ôl yr angen.</li> </ul>
<p><b>SWYDDOGION ARWEINIOL CORFFORAETH OL</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod yn gyfrifol am reoli risgiau sydd o fewn eu rheolaeth er mwyn diogelu eu gweithwyr a'u cleientiaid, amddiffyn asedau gan ddiogelu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i'r dinasyddion drwy sicrhau bod yr amcanion a nodwyd gan y Cyngor yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.</li> <li>• Sicrhau bod rheoli risgiau a pharhad busnes yn cael eu cynnwys ym mhob rhan o'u maes cyfrifoldeb.</li> <li>• Sefydlu a chadw Cofrestr Risgiau'r Gwasanaethau ar Deifi</li> <li>• Datblygu cynlluniau gweithredu mewn perthynas â risgiau strategol corfforaethol fel y maent yn berthnasol i'w maes cyfrifoldeb gan gofnodi'r rhain yng nghynlluniau gwella'r gwasanaethau perthnasol.</li> <li>• Adolygu pa mor addas yw'r cynlluniau a'r mentrau Rheoli Risgiau gan wneud argymhellion ynglŷn â'r rhain i'r Grŵp Arweiniol.</li> <li>• Sicrhau bod y risgiau a nodwyd fel rhai sydd o bwys i'r Cyngor cyfan yn cael eu huwchgyfeirio mewn modd amserol.</li> <li>• Sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn â risgiau ar gael ar draws y Cyngor a'i bod yn cael ei rhannu'n eang.</li> <li>• Rhannu profiad ynglŷn â risgiau, rheoli risgiau a gweithredu strategaethau rheoli risgiau ar draws y Cyngor.</li> <li>• Bod yn gyfrifol am dderbyn Risg o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol neu o Gofrestr Risgiau'r Timau.</li> <li>• Bod yn gyfrifol am argymhell uwchgyfeirio Risg i'r Gofrestr</li> </ul>



# Tudalen 553

Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau

	<p>Risgiau Corfforaethol, israddio risgiau neu gymeradwyo'r broses o archifo risgiau.</p>
--	---

Grŵp/Rhanddeiliad	Disgrifiad o'r Rôl
<b>SWYDDOGION ARWEINIOL CORFFORAETH OL (Parhad)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu'r risgiau i'r gwasanaethau yng nghyfarfodydd y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol yn rheolaidd.</li> <li>• Hysbysu'r Cyfarwyddwr Cyllid am unrhyw newidiadau sylweddol sy'n debygol o godi yn y gwasanaethau a ddarperir os byddai'r risgiau yn cael eu gwireddu er mwyn caniatáu iddo sicrhau bod mesurau priodol a digonol ar waith o ran yswiriant a chyllid.</li> </ul>
<b>RHEOLWYR CORFFORAE THOL</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli'n effeithiol ar bob lefel ym mhob gwasanaeth o fewn eu meysydd gwasanaeth penodol.</li> <li>• Parhau i ddatblygu Cofrestrau Risgiau eu Gwasanaethau a Chofrestrau Risgiau eu Timau a'u diweddarau'n rheolaidd (o leiaf bob chwarter).</li> <li>• Sicrhau bod y risgiau a nodwyd fel rhai sydd o bwys i'r Gwasanaeth / Cyngor cyfan yn cael eu huwchgwyfeirio mewn modd amserol.</li> <li>• Sicrhau bod y gwaith o reoli risgiau yn gysylltiedig â chynlluniau'r gwasanaethau, y prosiectau ac ati, a'u bod yn rheoli'r risgiau hynny sy'n gofyn am gymryd ragor o gamau gweithredu yn eu cylch, yn enwedig datblygiadau newydd a gwaith "prosiect".</li> <li>• Deall yr egwyddorion o ran rheoli risgiau gan fod yn ymwybodol ohonynt a chymryd cyfrifoldeb am reoli risgiau o fewn eu hamgylchedd gwaith eu hunain.</li> <li>• Bod yn ymwybodol o'r asesiadau risg presennol sy'n gysylltiedig â'u meysydd gwaith ynghyd â'r gweithdrefnau neu'r mesurau rheoli perthnasol sydd angen eu mabwysiadu er mwyn lleihau'r risgiau a nodwyd.</li> </ul>
<b>GWEITHWYR</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dwyn sylw eu rheolwr llinell at unrhyw faterion y maent yn eu credu sy'n peri risg i ddarparu gwasanaethau'n llwyddiannus neu gyflawni amcanion y Cyngor.</li> <li>• Cyfrannu at y gwaith o nodi, asesu a rheoli risgiau lle bynnag y bo hynny'n bosibl.</li> </ul>
<b>ARCHWILIO MEWNOL</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd gwrthrychol ynghylch perfformiad y sefydliad i'r Fframwaith Rheoli Risgiau, digonolrwydd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli risgiau a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.</li> </ul>
<b>ARCHWILIO ALLANOL</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddfa Archwilio Cymru yw Archwilwyr Allanol y Cyngor. Mae staff y Swyddfa yn dod i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio gan gyfrannu at y sicrwydd a ddarperir o ran Rheoli Risgiau.</li> </ul>

# Cyngor Sir Ceredigion

## Fframwaith Rheoli Risgiau



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Awdur:	Teitl y Ddogfen:	Dyddiad:	Fersiwn:
Alison Hodgson - Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol	Fframwaith Rheoli Risgiau	20 <sup>fed</sup> Mehefin 2023	Drafft 3.0
Cymeradwywyd gan:	Dyddiad Cymeradwyo:	Dyddiad Cyhoeddi:	Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:
Cabinet	Heb ei gymeradwyo eto		2025/26

## Tabl Cynnwys

<b>Y Fframwaith Rheoli Risgiau .....</b>	<b>3</b>
Cyflwyniad .....	3
Cefndir .....	3
Dulliau Gweithredu o ran Rheoli Risgiau .....	4
Methodoleg .....	5
Nodi Risgiau .....	6
Dadansoddi Risgiau .....	7
Ymdrin â Risgiau.....	12
Cwblhau'r Gofrestr Risgiau .....	14
Adolygu Risgiau, Monitro Risgiau a Rhoi Adroddiadau am Risgiau .....	17
<b>Fframwaith Rheoli Risgiau -Atodiadau .....</b>	<b>19</b>
Atodiad 1: Y Meini Prawf Asesu o ran Categoriâu PESTLE.....	19
Atodiad 2: Y Meini Prawf ar gyfer Asesu Risgiau o ran y Tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd	20
Atodiad 3: Y Meini Prawf ar gyfer Asesu Risgiau o ran effaith unrhyw ddigwyddiadau.....	21
Atodiad 4: Lefelau'r Risgiau .....	23
Atodiad 5: Y Templed ar gyfer Cynnig Risgiau .....	24

## Fframwaith Rheoli Risgiau

### Cyflwyniad

Mae'r Fframwaith Rheoli Risgiau yn ategu'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risgiau er mwyn sicrhau bod amcanion Polisi Rheoli Risgiau'r Cyngor yn cael eu gwireddu.

### Cefndir

Mae rhoi trefniadau da ar waith ar gyfer rheoli risgiau yn arf allweddol wrth gynorthwyo'r sefydliad i reoli ansicrwydd ac mae'n caniatáu iddo gyflawni canlyniadau ei amcanion yn well. Bwriedir i'r gwaith o reoli risgiau ddilyn dull systematig sydd wedi'i gynllunio er mwyn nodi, asesu a rheoli'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Mae'n hanfodol bod camau'n cael eu cymryd i reoli'r risgiau hynny'n effeithiol. Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli risgiau yn cefnogi atebion arloesol gan ei fod yn ystyried y manteision yn ofalus ynghyd â'r risgiau a allai ddigwydd.

Yswiriant fu'r dull traddodiadol o amddiffyn ein hunain rhag y risgiau mwyaf amlwg. Fodd bynnag, mae llawer o risgiau na ellir yswirio yn eu herbyn ac y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt mewn gwahanol ffyrdd. Hyd yn oed yn achos y risgiau hynny y mae modd yswirio yn eu herbyn, gellir cymryd camau i leihau'r risgiau posibl gan wneud arbedion o ran premiymau a tharfu cyn lleied ag y bo modd ar ein gwaith.

Amcan y Fframwaith Rheoli Risgiau yw:-

- Egluro'r cyfrifoldebau o ran nodi a rheoli risgiau
- Sicrhau bod y lefel briodol o drefniadau rheoli risgiau yn cael ei rhoi ar waith mewn modd cyson ar draws y Cyngor
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r trefniadau rheoli risgiau gan eu defnyddio fel rhan arferol o'r broses o reoli a gwella gwasanaethau
- Hwyluso'r gwaith o rannu profiadau ac arferion da ar draws y Cyngor a chyda chyrrff eraill

## Dulliau Gweithredu o ran Rheoli Risgiau


Mae angen datblygu dull gweithredu cyson a chorfforaethol o ran rheoli risgiau gan wneud hynny mewn ffordd drefnus a chymesur er mwyn osgoi creu baich biwrocraidd di-fudd.

Er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r trefniadau o ran rheoli risgiau yn y ffordd fwyaf effeithlon o fewn y Cyngor, mae risgiau wedi'u cynnwys:

- fel rhan o'r broses o lunio'r Cynlluniau Busnes a Chynlluniau'r Gwasanaethau
- fel eitem ar agendâu holl gyfarfodydd yr adrannau er mwyn nodi risgiau a newidiadau sy'n dod i'r amlwg
- fel rhan o'r prosesau o ran Rheoli Prosiectau Corfforaethol
- fel rhan o'r prosesau caffael
- Fel eitem ar agendâu holl gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol
- Fel eitem ar agendâu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

## Methodoleg

Datblygwyd methodoleg ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau o fewn y Cyngor. Mae gan y fethodoleg hon y fantais o fod yn gymharol syml a gellir ei defnyddio i adnabod risgiau strategol y Cyngor ac fel rhan o'r gwasanaeth arferol, y trefniadau parthed partneriaethau, y broses o gynllunio prosiectau a'r broses rheoli newid.




Mae Nodi Risgiau yn delio â'r ffyrdd y gall unrhyw un o fewn y sefydliad fynd ati i nodi risgiau

Mae Dadansoddi Risgiau yn ymdrin â sut y gallwn ni asesu risgiau

Mae Ymdrin â Risgiau yn ymwneud â sut yr ydym yn ymateb i'r risgiau

Mae Cwblhau'r Gofrestr Risgiau yn delio â'r broses o gofnodi'r risgiau a nodi pwy sy'n berchen y risgiau

Mae Adolygu Risgiau, Monitro Risgiau a Rhoi Adroddiadau am Risgiau yn amlinellu sut yr ydym yn rheoli ein risgiau



Mae cam cyntaf y cylch rheoli risgiau yn ymwneud â nodi'r bygythiadau a'r cyfleoedd sy'n bodoli eisoes a'r rhai sy'n dod i'r amlwg.

Gwneir hyn ym mhob agwedd ar fusnes y Cyngor, a chaiff y risgiau eu diffinio a'u rhoi o dan un o'r categorïau canlynol: Corfforaethol, Gwasanaeth; Tîm, Partneriaeth, Prosiect neu Gymunedol.

## Nodi Risgiau

Wrth nodi risgiau, dylid bob amser canolbwyntio'n bennaf ar amcanion yr Awdurdod neu'r Gwasanaeth. Dylid ystyried y canlynol: Beth allai fod yn fygythiad neu'n gyfle posib wrth gyflawni'r amcanion hynny?

Mae'r gwahaniaeth rhwng risgiau a materion yn aml yn cael eu drysu ond mae yna ffordd ddefnyddiol o gofio'r gwahaniaeth;

- Pethau **a allai ddigwydd** yw risgiau; pethau a fyddai'n ein hatal ni rhag cyflawni ein hamcanion neu a allai effeithio fel arall ar lwyddiant y sefydliad.
- Materion yw'r pethau **sydd eisoes wedi digwydd** ac y mae angen cymryd camau yn eu cylch i'w rheoli.

Gall unrhyw un nodi risgiau a gallant wneud hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys;

Yn fewnol drwy:

- Hunanasesiadau
- Asesiad Risg a gynhelir yn flynyddol ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru
- Perfformiad presennol
- Boddhad y defnyddwyr
- Cwynion
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Cyfarfodydd Tîm / Awgrymiadau staff ac adborth

Yn allanol drwy:


- Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru
- Adroddiadau'r rheoleiddwyr eraill
- Ein darparwr yswiriant Zurich
- Y Wasg / y Cyfryngau
- Ymgynghori ac Ymgysylltu â Dinasyddion



Ar ôl nodi'r risg, mae'n hanfodol bod y risg yn cael ei disgrifio'n glir er mwyn sicrhau bod pob cynulleidfa bosibl yn ei deall.



## Dadansoddi Risgiau



Mae Dadansoddi Risgiau yn cynnwys gosod risgiau mewn categorïau, asesu pa mor debygol y gallai rhywbeth ddigwydd ac ystyried beth fydd yr effaith os bydd hyn yn digwydd.

Defnyddir matrices y Cyngor ar gyfer Sgorio Risgiau i benderfynu ynghylch archwaeth y Cyngor ar gyfer delio â'r risg.

Gallai **Categori** fod yn Strategol neu'n Weithredol

Pa mor **Debygol** ydyw y bydd yn digwydd

Beth fydd yr **Effaith** os bydd yn digwydd



**Catogoreiddio**

Gellir catogoreiddio'r risgiau fel rhai Strategol neu Weithredol

Bydd **Risgiau Strategol** yn effeithio ar nodau ac amcanion tymor canolig a hirdymor y cyngor a byddant yn aml yn cynnwys ffactorau allanol a allai effeithio ar benderfyniadau a wneir o fewn yr awdurdod.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r categorïau PESTLE allanol y dylid eu hystyried. Mae [Atodiad 1](#) yn rhoi enghreifftiau pellach o'r ffactorau a allai gyfrannu at bob categori.

<b>Strategol</b>	<b>Gwleidyddol:</b>	Y risgiau sy'n gysylltiedig â methu â chyflawni polisi Llywodraeth Leol neu Lywodraeth Ganolog na bodloni ymrwymïadau maniffesto'r weinyddiaeth leol.
	<b>Economaidd:</b>	Y risgiau sy'n effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei ymrwymïadau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau cyllidebol mewnol, y methiant i brynu sicrwydd yswiriant digonol, newidiadau economaidd ar lefel macro allanol neu ganlyniadau penderfyniadau arfaethedig ynghylch buddsoddi.
	<b>Cymdeithasol:</b>	Y risgiau sy'n ymwneud ag effaith y newidiadau yn y tueddiadau demograffig, preswyl neu economaidd-gymdeithasol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion
	<b>Technolegol:</b>	Y risgiau sy'n gysylltiedig â gallu'r Cyngor i ddelio â chyflymder/maint y newid technolegol, neu ei allu i ddefnyddio technoleg i fynd i'r afael â gofynion sy'n newid. Gallant hefyd gynnwys canlyniadau methiannau technolegol yn fewnol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion.
	<b>Deddfwriaethol:</b>	Y risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau cyfredol neu bosibl yn y Gyfraith (e.e. rheoliadau TUPE).
	<b>Amgylcheddol:</b>	Y risgiau sy'n ymwneud â'r canlyniadau amgylcheddol o fwrw ymlaen ag amcanion strategol y Cyngor (e.e. o ran effeithlonrwydd ynni, llygredd, ailgylchu, gofynion tirlenwi, allyriadau ac ati)

## Tudalen 564

Risgiau gweithredol yw'r rhai y bydd rheolwyr a staff yn dod ar eu traws yn ystod eu gwaith beunyddiol. Gellir ystyried y rhain fel a ganlyn

<b>Gweithredol</b>	<b>Proffesiynol:</b>	Y risgiau sy'n gysylltiedig â natur benodol pob proffesiwn (e.e. pryderon ynghylch gwasanaethau tai, lles tenantiaid).
	<b>Ariannol:</b>	Y risgiau sy'n gysylltiedig â chynllunio a rheoli ariannol a digonolrwydd yswiriant.
	<b>Cyfreithiol:</b>	Y risgiau sy'n ymwneud ag achosion posibl o fynd yn groes i ddeddfwriaeth.
	<b>Ffisegol:</b>	Y risgiau sy'n ymwneud â thân, diogelwch, atal damweiniau, ac iechyd a diogelwch (e.e. peryglon, risgiau sy'n gysylltiedig ag adeiladau, cerbydau, peiriannau ac offer, ac ati).
	<b>Contractiol:</b>	Y risgiau sy'n gysylltiedig â methiant contractwyr i ddarparu gwasanaethau neu gynnyrch yn ôl y gost a'r fanyleb y cytunwyd arnynt
	<b>TGCh (Gweithredol):</b>	Y risgiau sy'n ymwneud â dibynnu ar offer gweithredol (e.e. Systemau neu gyfarpar TGCh a pheiriannau
	<b>Cwsmeriaid/Cleientiaid</b>	Y risgiau sy'n ymwneud â nodi anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid/cleientiaid.

## Asesu Tebygolrwydd

Mae hyn yn gofyn am asesu'r siawns neu'r tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd. Dylai'r tebygolrwydd, cyn belled ag y bo modd, fod yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r canlynol:

- a) y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd
- b) cryfder y mesurau (megis cynlluniau wrth gefn) i atal neu ragweld digwyddiad o'r fath
- c) a oes cyfleoedd i wneud gwelliannau ac a oes unrhyw rwystrau yn y ffordd?

Dylai'r tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd gael sgôr o rhwng 1 a 5 lle bo 1 yn golygu mai 'prin' yw'r tebygolrwydd a bod 5 yn golygu y bydd 'bron yn sicr' o ddigwydd. Mae [Atodiad 2](#) yn nodi'r meini prawf y dylid eu defnyddio wrth asesu pa mor debygol y bydd rhywbeth o ddigwydd.

## Asesu Effaith

Mae asesu effaith yn ystyried y canlyniadau i'r awdurdod, defnyddwyr y gwasanaethau ac eraill, pe byddai'r risgiau yn cael eu gwireddu.

Dylai effaith unrhyw ddigwyddiad gael sgôr o rhwng 1 a 5 lle bo 1 yn golygu bod yr effaith yn 'ddibwys' a 5 yn golygu bod yr effaith yn un 'ddifrifol'. Mae [Atodiad 3](#) yn darparu'r meini prawf asesu y dylid eu defnyddio i asesu'r effaith y gallai digwyddiad penodol ei chael ar yr awdurdod.

**Lefel y Risg**

Pennir lefel y risg fel a ganlyn.



Mae'r Matrics Risgiau isod yn dangos lefel y risg ac mae'n pennu archwaeth y Cyngor o ran ymateb i'r risg.

	Dibwys (1)	Mân (2)	Cymedrol (3)	Mawr (4)	Difrifol (5)
Bron yn sicr (5)	5 Risg Ganolig	10 Risg Ganolig	15 Risg Uchel	20 Risg Uchel	25 Risg Gritigol
Tebygol (4)	4 Risg Isel	8 Risg Ganolig	12 Risg Ganolig	16 Risg Uchel	20 Risg Uchel
Posibl (3)	3 Risg Isel	6 Risg Ganolig	9 Risg Ganolig	12 Risg Ganolig	15 Risg Uchel
Annhebygol (2)	2 Risg Isel	4 Risg Isel	6 Risg Ganolig	8 Risg Ganolig	10 Risg Ganolig
Prin (1)	1 Risg Isel	2 Risg Isel	3 Risg Isel	4 Risg Isel	5 Risg Ganolig

**Archwaeth Risg**


Gellir crynhoi archwaeth y Cyngor ar gyfer ymateb i risgiau fel a ganlyn. Ceir disgrifiad manwl o'r lefelau risg yn [Atodiad 4](#)

Lefel y Risg	Y tebygolrwydd y bydd yn digwydd	Math o Risg	Rheoli'r Risg
Risg Isel (1-4)	Annhebygol iawn neu dim ond posibilrwydd y bydd yn digwydd	Risg i'r Tîm/Gwasanaeth/Prosiect	Derbyn y risg neu ei rheoli gan ddefnyddio'r gweithdrefnau arferol
Risg Ganolig (5-12)	Annhebygol iawn, posibilrwydd y bydd yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd	Risg Gorfforaethol/Risg i'r Gwasanaeth/Prosiect	Rheoli'r risg gan ddefnyddio gweithdrefnau monitro/ymateb penodol
Risg Uchel (15-20)	Yn debygol o ddigwydd	Risg Gorfforaethol	Uwchgyfeirio'r risg er mwyn ei hystyried ymhellach/cynllunio ar ei chyfer

# Tudalen 567

Risg Gritigol (25)	Bron yn sic o ddigwydd	Risg Gorfforaethol	Uwchgyfeirio'r risg gyda chynlluniau manwl wrth gefn
--------------------	------------------------	--------------------	--

## Ymdrin â Risgiau



Bydd Ymdrin â Risgiau yn gofyn am asesiad o'r archwaeth am risg Gweler yr adran flaenorol ynglŷn â phennu'r ffordd briodol o ymdrin â risgiau.

Mae'r hyn a wneir o ran ymdrin â risgiau yn pennu sut y byddwn yn ymateb i'r risg neu'n ei rheoli

## Ymdrin â Risgiau

Ymdrin â risgiau yw'r broses sy'n asesu sut y byddwn yn ymateb i'r risg neu'n ei rheoli.

Mae angen i hyn ystyried y ffordd fwyaf cost effeithiol o liniaru'r risg ac a fydd y camau a gymerir yn lleihau'r risg i lefel dderbyniol o fewn cyfnod rhesymol o amser yn seiliedig ar ddifrifoldeb y risg.

<b>Derbyn / Caniatáu'r Risg</b>	Rheoli'r risg o fewn yr arferion rheoli presennol. Ni ddylid ond derbyn risgiau pan fydd y swyddogion yn credu bod y risgiau sy'n weddill yn rhesymol ac na fyddant yn cael unrhyw effaith sylweddol ar yr amcanion (h.y. eu bod i'w gweld yn y lliw gwyrdd yn y matrices).
<b>Cadw'r risg (derbyn y risg a chyllidebu ar ei chyfer)</b>	Derbynnir y risg a dyrennir cyllideb briodol i dalu am y costau sy'n deillio o'r risg.
<b>Lleihau'r risg (gwneud y gorau o'r sefyllfa / lliniaru'r risg)</b>	Nodi'r cam(au) ychwanegol sydd angen eu cymryd i leihau'r tebygolrwydd a/neu'r effaith pe bai'r digwyddiad yn digwydd. <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen cynllun gweithredu clir sy'n nodi beth fydd yn cael ei wneud, gan bwy ac erbyn pryd.</li> <li>• Dylid darparu targedau ar gyfer sgorio'r risgiau (h.y. i ba sgôr y dylid lleihau'r risg drwy gymryd y camau a nodir).</li> <li>• Bydd angen nodi adnoddau a chynnwys dadansoddiad cost/budd.</li> </ul>
<b>Rhannu'r risg (trosglwyddo – allanoli neu yswirio)</b>	Trosglwyddo'r risg drwy <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddefnyddio yswiriwr neu drydydd parti arall i ariannu'r gost neu'r colledion pe byddai'r risg yn cael ei gwireddu. Fodd bynnag, mae angen cymryd gofal i nodi'n fanwl y risgiau sydd i'w cynnwys.</li> <li>• Gellid hefyd gwneud trefniadau gydag eraill megis cydweithio, sefydlu partneriaethau neu ddarparu'r gwasanaethau ar contract er mwyn trosglwyddo'r risgiau. Fodd bynnag, gall risgiau eraill godi o'r trefniadau hyn a gallai'r cyfrifoldeb dros ddarparu'r gwasanaeth barhau gyda'r Cyngor. Wrth drosglwyddo risgiau i bartïon eraill, sicrhewch fod y cofrestrau risgiau yn rhoi manylion</li> </ul>




## Tudalen 569

	ynghylch pa bartion sy'n atebol am beth.
<b>Osgoi'r risg (dileu, tynnu'n ôl neu beidio â chymryd rhan)</b>	Rhoi'r gorau i'r gweithgaredd oherwydd ni fyddai ei addasu neu ei reoli yn lleihau'r risg i lefel dderbyniol. Dylid nodi unrhyw ganlyniadau sy'n effeithio ar gyflawni'r amcanion yn llwyddiannus gan eu hadrodd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol a'r Grŵp Arweiniol cyn rhoi'r cam gweithredu hwn ar waith.
<b>Manteisio ar y risg</b>	Pan nodir cyfle, mynd ati i fanteisio ar y risg drwy ei gwireddu a'i gwella er mwyn sicrhau budd.



## Cwblhau'r Gofrestr Risgiau



Rhaid i bob risg gael ei chofnodi ar gofrestr risgiau.

Cedwir pob cofrestr risgiau ar System Perfformiad Teifi, sef system rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor.

Bydd risgiau timau, contractau a phartneriaethau yn parhau i gael eu dal a'u monitro ar lefel leol, ond byddant yn dyrchafu risgiau lefel gwasanaeth os ystyrir bod hynny'n briodol yn yr adolygiad monitro perthnasol.

Mae pob lefel o'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal a chadw'r Cofrestrau Risgiau.

### Cofrestrau Risgiau

Bydd y Cyngor yn cadw nifer o wahanol fathau o gofrestrau risgiau. Mae'r tabl canlynol yn diffinio'r mathau presennol o risgiau a'r berchenogaeth sy'n ofynnol.

Lefel y Risg	Diffiniad	Percheno g
Risgiau Corfforaethol	Risgiau a allai effeithio ar gyflawni ein gweledigaeth, ein blaenoriaethau a'n canlyniadau hirdymor mewn modd llwyddiannus. Mae'r risgiau hyn fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>Risgiau a allai effeithio ar y Cyngor cyfan a/neu</li> <li>Risgiau na ellir eu rheoli ar lefel uned fusnes yn unig oherwydd bod angen cymorth lefel uwch.</li> </ul>	Grŵp Arweiniol
Risgiau i'r Gwasanaethau	Risgiau ar lefel y maes gwasanaeth a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau/amcanion y grŵp a'r uned fusnes yn llwyddiannus. Os na chaiff y risgiau eu rheoli'n dda, gallai'r risgiau hyn effeithio ar y Cyngor cyfan, yn ariannol, o ran ei enw da a/neu o ran darparu gwasanaethau.	Swyddog Arweiniol Corfforaet hol
Risgiau i'r Timau	Risgiau ar lefel tîm a allai gael effaith ar gyflawni canlyniadau/amcanion y tîm yn llwyddiannus.	Rheolwr Corfforaet hol
Risgiau i'r Contractau	Risgiau a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau/amcanion y contract yn llwyddiannus o ran darparu gwasanaethau, canlyniadau a gwerth am arian. Caiff risgiau i gontractau eu rheoli drwy'r broses contractio gan gynnwys rheoli contractau/ sicrhau busnes fel arfer.	Rheolwr Corfforaet hol

## Tudalen 572

Rhaglen/Prosiect/Risgiau i'r Partneriaethau	Risgiau a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau/amcanion y rhaglen, y prosiect neu'r bartneriaeth yn llwyddiannus o ran darparu gwasanaethau, gwireddu manteision ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol (defnyddwyr gwasanaethau, trydydd partïon, partneriaid ac ati).	Rheolwr Prosiect
---	---	------------------

## Tudalen 573

Ar ôl nodi ac asesu risg a chwblhau cynnig ynglŷn â risg, rhaid penodi perchennog i'r risg a rhaid i'r risg gael ei derbyn cyn iddi gael ei chofnodi ar y Gofrestr Risgiau priodol.

Ar ôl derbyn y risg, rhaid anfon copi wedi'i lofnodi o Gynnig y Risg ([Atodiad 5](#)) at [TeifiPerformanceSupport@ceredigion.gov.uk](mailto:TeifiPerformanceSupport@ceredigion.gov.uk) fel y gellir ei lwytho, gyda'r tasgau lliniaru, i'r System Rheoli Perfformiad Corfforaethol, System Perfformiad Teifi.

Ar ôl llwytho'r risg i'r gofrestr risgiau, bydd perchennog y risg yn gyfrifol am asesu a diweddarau sgôr y risg o leiaf bob chwarter yn unol â nodiadau cyfarwyddyd System Perfformiad Teifi.

## Uwchgyfeirio Risgiau

Mae hon yn broses allweddol lle y gall risgiau a nodir ac a reolir o fewn un lefel o'r Cyngor gael eu codi i'r lefel nesaf os ystyrir bod hynny'n briodol neu'n angenrheidiol.

Dylid uwchgyfeirio risgiau: naill ai

- i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol os rhoddir sgôr o 15 neu fwy i'r risg ac os yw'r rhagolygon ar gyfer gostwng y sgôr ar unwaith yn wael neu
  - i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol os yw'r risg yn un sy'n mynd ar draws y gwasanaethau neu i'r Gofrestr Risgiau'r Gwasanaeth priodol os rhoddir sgôr o 5 neu fwy i'r risg ac os yw'r rhagolygon ar gyfer gostwng y sgôr ar unwaith yn wael
- a/neu os yw'r**
- hyn a wneir i reoli'r risg wedi methu (h.y. bod lefel y risg wedi parhau i godi er gwaetha'r ffaith bod mesurau rheoli wedi'u rhoi ar waith)
  - risg a nodwyd y tu hwnt i gwmpas/cylch gwaith y gwasanaeth/tîm.
  - risg wedi digwydd ar un achlysur / ar sawl achlysur.

## Is-raddio Risgiau

Dylid israddio risgiau: naill ai

- o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol os yw'r sgôr wedi gostwng i 14 neu lai a bod y risg yn un nad ydyw ond yn berthnasol i un gwasanaeth
  - o Gofrestr Risgiau Gwasanaethau penodol os yw'r sgôr wedi gostwng i 4 neu lai
- a/neu os yw'r**
- nad yw'r risg yn cael ei hystyried yn un bellgyrhaeddol fel y tybiwyd o'r blaen.

## Risgiau sy'n Ymgeiswyr

Bob chwarter, unwaith y bydd y risgiau wedi'u diweddarau ar system Rheoli Perfformiad Teifi, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Arweiniol yn amlygu unrhyw risgiau sydd angen eu hadolygu i naill ai uwchgyfeirio neu is-gyfeirio rhwng y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Gofrestr Risgiau i'r Gwasanaethau. Gelwir y rhain yn 'Risgiau sy'n Ymgeiswyr'.

Mae'r Grŵp Arweiniol yn gyfrifol am benderfynu a ddylai risgiau gael eu huwchgyfeirio neu eu his-gyfeirio.

Mae yna achosion lle mae sgorau risgiau yn uwch na 15 ac yn parhau i fod yn risg i'r gwasanaethau, ac i'r gwrthwyneb lle mae sgorau yn is na 15 ond yn parhau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Yn yr achosion hyn, y Grŵp Arweiniol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ynghylch uwchgyfeirio ac is-gyfeirio. Mae rhai enghreifftiau o'r achosion hyn yn cynnwys:

- Risg sy'n sgorio 15 neu uwch ond y bernir ei bod yn cael ei rheoli orau ar lefel gwasanaeth oherwydd bod dealltwriaeth dda o'r risg, bod digon o adnoddau ar ei chyfer a bod ganddi gamau lliniaru cryf ar waith sy'n cael eu cyflawni.
- Risg sy'n sgorio 15 neu uwch sy'n amlwg o fewn y diffiniad o risgiau gweithredol, h.y. y risgiau hynny y bydd rheolwyr a staff yn dod ar eu traws yn ystod eu gwaith bob dydd.

- Gall risg yr ystyrir bod angen lefel uwch o oruchwyliaeth arni sgorio o dan 15 ond parhau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Unwaith y bydd risg wedi'i ychwanegu at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol bydd yn cael mwy o graffu a monitro gan y Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Archwilio a Pherfformiad Mewnol. Er enghraifft, gallai hyn fod pan fo materion y tu allan i reolaeth y gwasanaeth sy'n ei gwneud yn anodd i'r gwasanaeth liniaru'r risg a lleihau ei heffaith a/neu'r tebygolrwydd o ddigwydd.
- Gellid hefyd uwchgyfeirio risg i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol i sicrhau bod yr adnoddau sydd eu hangen ar gael i ymateb yn effeithiol i'r risg, a'i lliniaru, megis adnoddau ariannol neu bobl.
- Gallai rhai risgiau aros ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol os ydynt yn sgorio'n is na 15, megis risg gorfforaethol sydd wedi'i gostwng yn ddiweddar, ond lle mae angen monitro ychwanegol i sicrhau ei bod yn parhau i fod o dan y trothwy o 15.

### Archifo Risgiau


Gellir archifo risgiau

- os yw Sgôr y Risg wedi gostwng i 4 neu lai ac
- os na ystyrir bod y risg bellach yn flaenoriaeth i'r Cyngor neu'r gwasanaeth

Gall risg sydd wedi'i harchifo gael ei rhoi yn ôl ar y gofrestr risgiau os yw'r risg yn ailymddangos fel blaenoriaeth yn y dyfodol.

Unwaith eto, bob chwarter, unwaith y bydd y risgiau wedi'u diweddarau ar system Rheoli Perfformiad Teifi, bydd risgiau i'r gwasanaethau sy'n 4 neu'n is yn ymddangos ar fwrdd gwaith Teifi'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol yn gofyn iddynt naill ai archifo neu gadw'r risg i'r gwasanaethau.

## Adolygu Risgiau, Monitro Risgiau a Rhoi Adroddiadau am Risgiau



Caiff System Perfformiad Teifi ei defnyddio i wneud y canlynol:

- Cofnodi'r holl risgiau corfforaethol a risgiau i'r gwasanaethau
- Adolygu'r risgiau corfforaethol a'r risgiau i'r gwasanaethau a nodwyd
- Adolygu'r tasgau lliniaru
- Monitro effaith y tasgau lliniaru ar y risgiau corfforaethol a'r risgiau i'r gwasanaethau
- Rhoi adroddiadau ynghylch risgiau corfforaethol a'r risgiau i'r gwasanaethau i'r fforwm priodol

### Adolygu Risgiau

Dylai perchnogion y risgiau adolygu'r sgoriau, y mesurau rheoli a'r tasgau yn rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol a bod yna atebolrwydd llawn.

Os nad yw risg bellach yn gyfredol, dylid ei dileu o'r gofrestr risgiau.

Dylai cofrestrau risgiau fynd gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Grŵp Arweiniol a'r Timau Rheoli yn rheolaidd er mwyn eu hadolygu a 'sganio'r gorwel' am unrhyw risgiau newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg.

### Monitro Risgiau

Mae monitro risgiau yn gam allweddol yn y broses rheoli risgiau. Mae angen cynnal asesiad parhaus a rheolaidd o effeithiolrwydd y tasgau a roddir ar waith i leihau'r tebygolrwydd y bydd risgiau andwyol yn cael eu gwireddu a'u heffaith.


Dylid monitro risgiau yng nghyfarfodydd y timau, y gwasanaethau a'r grwpiau perthnasol.



**Rhoi Adroddiadau ynghylch Risgiau**

Dylai adrodd ynghylch risgiau fod yn broses gyfathrebu ddwy ffordd bob amser, er mwyn sicrhau bod y broses o reoli risgiau yn cael ei sefydlu'n gadarn fel offeryn rheoli i'w ddefnyddio bob dydd.

Mae'r strwythur ar gyfer adrodd ynghylch risgiau i'w weld isod.



**Gwerthuso / Sicrwydd**

Bydd Archwilio Mewnol yn asesu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y camau sydd ar waith i liniaru risgiau ac yn rhoi sicrwydd gwrthrychol bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Yn ogystal, bydd Archwilio Mewnol hefyd yn rhoi sicrwydd gwrthrychol i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor ynghylch cadernid ac effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheoli risgiau trwy gynnwys adolygiadau cyfnodol o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, Cofrestr Risgiau i'r Gwasanaethau a gweithdrefnau Rheoli Risgiau Corfforaethol.

## Fframwaith Rheoli Risgiau -Atodiadau

### Atodiad 1: Y Meini Prawf Asesu o ran Categoriâu PESTLE

Gwleidyddol	Economaidd	Cymdeithasol	Technolegol	Cyfreithiol	Amgylcheddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlogrwydd llywodraeth.</li> <li>Rhyddid i lefaru, llygredd, y blaid sy'n rheoli</li> <li>Tueddiadau rheoleiddio</li> <li>Polisi trethi a rheolaethau masnach</li> <li>Rhyfel</li> <li>Polisi'r Llywodraeth</li> <li>Etholiadau</li> <li>Terfysgaeth</li> <li>Newidiadau tebygol yn yr amgylchedd gwleidyddol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Camau yn y cylch busnes.</li> <li>Twf economaidd presennol a'r hyn a ragwelir</li> <li>Tueddiadau rhyngwladol</li> <li>Twf o ran swyddi</li> <li>Chwyddiant a chyfraddau llog.</li> <li>Diweithdra a'r cyflenwad llafur.</li> <li>Lefelau incwm gwario ar draws yr economi a dosbarthu incwm.</li> <li>Globaleiddio</li> <li>Newidiadau tebygol yn yr amgylchedd economaidd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Twf yn y boblogaeth a'r ddemograffeg</li> <li>Iechyd, addysg a symudedd cymdeithasol y boblogaeth</li> <li>Agweddau defnyddwyr</li> <li>Hysbysebu a'r cyfryngau</li> <li>Diwylliant cenedlaethol a rhanbarthol</li> <li>Dewisiadau o ran ffordd o fyw a'r agweddau at y rhain.</li> <li>Lefelau iechyd ac Addysg</li> <li>Digwyddiadau mawr</li> <li>Newidiadau cymdeithasol</li> <li>- ddiwylliannol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Effaith technoleg newydd.</li> <li>Dyfeisiadau a phethau newydd</li> <li>Y rhyngwrwyd a'r ffordd y mae'n effeithio ar waith a busnes</li> <li>Trwyddedu a phatentau</li> <li>Cyllid ymchwil a datblygu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Deddfwriaeth ddomestig</li> <li>Deddfwriaeth rhyngwladol</li> <li>Cyfraith cyflogaeth</li> <li>Cyfreithiau newydd</li> <li>Cyrff rheoleiddio</li> <li>Rheoliadau amgylcheddol</li> <li>Rheoliadau sy'n benodol ar gyfer diwydiannau</li> <li>Diogelu Defnyddwyr</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ecoleg</li> <li>Materion amgylcheddol rhyngwladol</li> <li>Materion amgylcheddol cenedlaethol</li> <li>Materion amgylcheddol lleol</li> <li>Rheoliadau amgylcheddol</li> <li>Diwylliant y sefydliad</li> <li>Morâl ac agweddau'r staff</li> </ul>

## Atodiad 2: Y Meini Prawf ar gyfer Asesu Risgiau o ran y Tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd

### Tebygolrwydd

Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5
Prin	Annhebygol	Posibl	Tebygol	Bron yn Sicr
<p>Mae profiad blaenorol yn y Cyngor hwn a chynghorau tebyg eraill yn golygu bod y canlyniad hwn yn annhebygol iawn o ddigwydd.</p> <p>Gallai ddigwydd o leiaf unwaith bob 10-15 mlynedd</p>	<p>Mae profiad blaenorol yn diystyru'r risg hon fel un sy'n debygol o ddigwydd ond mae cynghorau eraill wedi profi problemau yn y maes hwn.</p> <p>Gallai ddigwydd o leiaf unwaith bob 5-10 mlynedd</p>	<p>Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi wynebu problemau yn y maes hwn, ond nid ydyw wedi wynebu problemau yn ystod y tair blynedd diwethaf.</p> <p>Gallai ddigwydd o leiaf unwaith bob 1-5 mlynedd</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi wynebu problemau yn y maes hwn yn ystod y tair blynedd diwethaf.</p> <p>Gallai ddigwydd o leiaf unwaith bob blwyddyn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn wynebu problemau yn y maes hwn neu'n mae'n disgwyl wynebu problemau yn y maes hwn yn ystod y 12 mis nesaf.</p> <p>Yn debygol o ddigwydd mwy nag unwaith y flwyddyn</p>
<p>Mae mesurau rheoli effeithiol sydd wedi'u profi a'u gwirio ar waith er mwyn atal y risg hon rhag digwydd.</p>	<p>Mae mesurau rheoli ar waith ac er nad yw'r mesurau hyn wedi'u profi, ymddengys eu bod yn effeithiol.</p>	<p>Mae rhai mesurau rheoli ar waith ac ar y cyfan maent yn gweithio. Serch hynny, bu achlysuron yn y gorffennol pan wnaethant fethu gan arwain at broblemau.</p>	<p>Mae'n bosib bod mesurau rheoli ar waith ond yn gyffredinol cânt eu hanwybyddu neu maent yn aneffeithiol.</p>	<p>Nid oes dim mesurau rheoli ar waith.</p>

Os bydd y 'tebygolrwydd' a'r 'amseru' yn cael sgôr wahanol, dylid gwneud dyfarniad ynglŷn â'r sgôr cywir o ran tebygolrwydd.

### Atodiad 3: Y Meini Prawf ar gyfer Asesu Risgiau o ran effaith unrhyw ddigwyddiadau

Agwedd	Sgôr 1 Dibwys	Sgôr 2 Mân	Sgôr 3 Cymedrol	Sgôr 4 Mawr	Sgôr 5 Difrifol
Ariannol	Fawr ddim neu ddim effaith ariannol (llai na £5,000)	Byddai'r effaith ariannol yn arwain at wneud colledion neu golli incwm o ddim mwy na £25,000	Byddai'r effaith ariannol yn arwain at wneud colledion neu golli incwm o ddim mwy na £100,000.	Byddai'r effaith ariannol yn arwain at wneud colledion neu golli incwm o ddim mwy na £500,000	Byddai'r effaith ariannol yn fwy na £500,000.
Gwasanaeth	Ni amherir ar Wasanaethau'r Cyngor.	Amherir dros dro ar weithgareddau un o wasanaethau'r Cyngor ond nid y tu hwnt i hynny.	Amherir yn gyson ar weithgareddau un neu fwy o wasanaethau'r Cyngor.	Amherir yn ddifrifol ar wasanaethau ar lefel adrannol neu amherir yn gyson ar fwy nag un adran.	Amherir yn ddifrifol ar weithgareddau holl adrannau'r Cyngor. Atal gwasanaeth yn yr hirdymor neu ddyletswyddau statudol ddim yn cael eu cyflawni.
Prosiect	Mân oedi i brosiectau (diwrnodau)	Rhai o gerrig milltir y prosiect wedi'u methu	Cerrig milltir sylweddol y Prosiect wedi'u methu / oedi	Un o gerrig milltir mawr y prosiect wedi'i fethu.	Nid yw'r prosiect yn cyflawni'r amcanion ac mae'n methu rhan fwyaf y cerrig milltir.
Iechyd a Diogelwch	Angen Cymorth Cyntaf i drin anaf neu salwch  Dim diwrnodau wedi'u colli oherwydd salwch	Anaf neu salwch a oedd angen triniaeth feddygol  Llai na 10 diwrnod wedi'u colli oherwydd salwch	Anaf difrifol neu salwch Mwy na 10 diwrnod wedi'u colli oherwydd salwch	Anaf neu Salwch sylweddol Anabledd parhaol neu rannol	Nifer o fywydau wedi'u colli / Salwch difrifol ar raddfa fawr  Anabledd Parhaol
Cyflawni Amcanion Corfforaethol y Cyngor	Dim effaith ar gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor.	Gallai cyflawni un o amcanion corfforaethol y Cyngor gostio mwy neu gallai fod yna oedi.	Byddai oedi o ran nifer o'r amcanion corfforaethol neu ni fyddent yn cael eu cyflawni.	Oedi o ran llawer o'r amcanion corfforaethol neu ni fyddent yn cael eu cyflawni.	Ddim yn gallu cyflawni rhan fwyaf yr amcanion.
Tudalen 26 Meh 2023 V3	Morâl: Dim effaith	Morâl: Rhai perthnasau gelyniaethus a mân achosion o beidio â chydymffurfio	Morâl: Perthnasau gelyniaethus ac achosion mawr o beidio â chydymffurfio ar draws y sefydliad	Morâl: Gweithredu Diwydiannol	Morâl: Llawer o'r staff yn gadael / methu â denu staff

<b>Agwedd</b>	<b>Sgôr 1</b> <b>Dibwys</b>	<b>Sgôr 2</b> <b>Mân</b>	<b>Sgôr 3</b> <b>Cymedrol</b>	<b>Sgôr 4</b> <b>Mawr</b>	<b>Sgôr 5</b> <b>Difrifol</b>
Enw da	Dim sylw yn y cyfryngau / ambell lythyr	Erthyglau andwyol ar dudalennau blaen y cyfryngau lleol	Sylw ar un achlysur yn y cyfryngau cenedlaethol	Enw da: Sylw andwyol yn genedlaethol am gyfnod hir	Sylw helaeth yn y Wasg Genedlaethol ac ar y Teledu. Angen i Uwch Swyddog / Aelod ymddiswyddo
Amcanion y Llywodraeth	Dim effaith	Asesiad(au) gwael	Y gwasanaeth wedi'i gymryd drosodd dros dro	Y gwasanaeth wedi'i gymryd drosodd dros dro	Y gwasanaeth wedi'i gymryd drosodd yn barhaol
Goblygiadau statudol / cyfreithiol:	Dim effaith / heb fynd yn groes iddynt	Rhybudd wedi'i dderbyn	Wedi mynd yn groes iddynt  Hysbysiad Gwella Heriol	Camau Gweithredu  Hysbysiad Gwella	Erlyniad  Dirwy
Risg Gymunedol	Fawr ddim effaith ar iechyd, symudiad pobl, gwasanaethau cymunedol, yr economi a'r amgylchedd	Mân effaith ar iechyd, symudiad pobl, gwasanaethau cymunedol, yr economi a'r amgylchedd.	Difrod i leoliad penodol neu nifer o leoliadau, marwolaethau a rhai pobl wedi'u hanafu, symud hyd at 100 o bobl am 1 – 3 diwrnod, Effaith gyfyngedig ar yr economi a'r amgylchedd	Difrod sylweddol, 100-500 o bobl wedi'u symud am fwy nag wythnos, effaith sylweddol ar wasanaethau cymunedol a'r amgylchedd.	Marwolaethau ac anafiadau sylweddol, difrod helaeth i eiddo, symud hyd at 500 o bobl am gyfnod hir, difrod difrifol i seilwaith, effaith hirdymor ddifrifol ar yr amgylchedd.
Hyder	Dim diffyg hyder ac ymddiriedaeth yn y cyngor	Grŵp penodol neu bobl mewn ardal ddaearyddol fechan yn teimlo eu bod wedi colli hyder ac ymddiriedaeth yn y Cyngor.	Y gymuned leol yn colli hyder ac ymddiriedaeth yn gyffredinol yn y Cyngor	Y gymuned leol yn colli hyder ac ymddiriedaeth yn y Cyngor ar lefel enfawr	Colli hyder ac ymddiriedaeth yn y Cyngor yn lleol ac yn genedlaethol ar lefel drychinebus.

Nodwch yr effaith sy'n fwyaf perthnasol i'r risg sy'n cael ei gwerthuso (nid oes angen i bob pwynt ym mhob categori fod yn berthnasol.)



## Atodiad 4: Lefelau'r Risgiau

<p><b>Risg Isel</b> (1-4)</p>	<p>Naill ai'n annhebygol iawn neu dim ond posiblwydd y bydd yn digwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Ychydig o anghyfleustra/anhawster o ran perfformiad gweithredol unrhyw swyddogaeth/maes gweithgaredd penodol.</li> <li>▪ Rhai goblygiadau o ran atebolrwydd ar gyfer y maes swyddogaeth/gweithgaredd, ond ni fyddai'n effeithio ar allu'r awdurdod / y gwasanaeth / y tîm i fodloni'r gofynion adrodd allweddol.</li> <li>▪ Ymdrinnir â'r broses adfer yn sgil y canlyniadau hyn yn gyflym heb yr angen i ddargyfeirio adnoddau o'r gweithgareddau craidd.</li> <li>▪ Rhai mân effeithiau ar allu'r rhanddeiliaid i fynd ar drywydd hawliau. Er enghraifft, byddai ffynonellau neu lwybrau eraill ar gael i'r rhanddeiliaid.</li> <li>▪ Byddai canfyddiadau'r cyhoedd o'r awdurdod/ y gwasanaeth/ y tîm yn newid ychydig, ond ni fyddai unrhyw ddifrod nac ychwaith unrhyw darfu sylweddol.</li> </ul>	<p><b>Risg i'r Tîm / Gwasanaeth</b> Derbyn y risg neu ei rheoli gan ddefnyddio'r gweithdrefnau arferol</p>
<p><b>Risg Ganolig</b> (5-12)</p>	<p>Annhebygol iawn, posiblwydd y bydd yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Byddai perfformiad gweithredol yr awdurdod/ y gwasanaeth / y tîm dan fygythiad i'r graddau y byddai angen cynlluniau diwygiedig er mwyn goresgyn yr anawsterau yr oedd y maes swyddogaeth/gweithgaredd yn eu hwynebu.</li> <li>▪ Byddai'r awdurdod / y gwasanaeth / y tîm yn cael anhawster i gydymffurfio â gofynion allweddol o ran adrodd, a fyddai'n peryglu rhai o fuddiannau'r Cyngor.</li> <li>▪ Byddai'r broses adfer yn fwy graddol a byddai'n gofyn am gynllunio corfforaethol manwl gydag adnoddau'n cael eu dargyfeirio o feysydd gweithgareddau craidd.</li> <li>▪ Byddai'r rhanddeiliaid yn cael cryn anhawster wrth geisio mynd ar drywydd hawliau.</li> <li>▪ Byddai ymateb cyhoeddus anffafriol sylweddol yn arwain at rywfaent o ddifrod i'r awdurdod / y gwasanaeth / y tîm ac yn tarfu arnynt.</li> </ul>	<p><b>Risg Gorfforaethol neu Risg i'r Gwasanaeth</b> Rheoli'r risg gan ddefnyddio gweithdrefnau monitro neu ymateb penodol, gan nodi'r cyfrifoldebau</p>
<p><b>Risg Uchel</b> (15-20)</p>	<p>Yn debygol o ddigwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Byddai'r perfformiad gweithredol dan fygythiad i'r graddau na fyddai'r awdurdod/ y gwasanaeth / y tîm yn medru bodloni eu rhwymedigaethau a'u hatebolrwydd yn y meysydd gweithgareddau craidd.</li> <li>▪ Byddai goblygiadau difrifol o ran atebolrwydd yn golygu na fyddai'r sefydliad yn medru bodloni'r gofynion adrodd allweddol.</li> <li>▪ Byddai'r Awdurdod / y Gwasanaeth / y Tîm yn wynebu colledion ariannol sylweddol.</li> <li>▪ Byddai sgil-effeithiau andwyol a mawr yn effeithio ar sectorau helaeth o'r Cyngor a'i gleientiaid gan gynnwys y cyhoedd yn gyffredinol.</li> <li>▪ Gallai'r rhanddeiliaid wynebu canlyniadau a fyddai'n peryglu bywydau.</li> <li>▪ Byddai'r awdurdod / y gwasanaeth / y tîm yn ei chael hi'n anodd dod dros ganlyniadau o'r fath.</li> </ul>	<p><b>Risg Gorfforaethol</b> Rhaid uwchgyfeirio'r risg er mwyn ei hystyried ymhellach, cynllunio ar ei chyfer a'i rheoli.</p>
<p><b>Risg Gritigol</b> (25)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Byddai'r awdurdod / y gwasanaeth / y tîm yn methu â dod dros ganlyniadau o'r fath.</li> <li>▪ Byddai'r rhanddeiliaid yn wynebu canlyniadau a fyddai'n peryglu bywydau.</li> <li>▪ Byddai sgil-effeithiau andwyol a mawr yn effeithio ar sectorau helaeth o'r Cyngor a'i gleientiaid gan gynnwys y cyhoedd yn gyffredinol.</li> <li>▪ Byddai'r awdurdod / y gwasanaeth / y tîm yn rhoi'r gorau i weithredu.</li> </ul>	<p><b>Risg Gorfforaethol</b> Fel yr uchod. Angen cynllun gweithredu manwl wrth gefn.</p>

## Atodiad 5: Y Tabled ar gyfer Cynnig / Cyflwyno Risgiau

<b>CYFEIRNOD RISG: RISK ID:</b>	<i>Cynhyrchwyd gan y System System Generated</i>	<b>TEITL TITLE</b>	<i>Teitl Byr Short Title</i>		
<b>PERCHENNOG/SWYDDOG DIWEDDARU OWNER/UDATING OFFICER</b>			<b>SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL SY'N GYFRIFOL RESPONSIBLE CLO</b>		
<b>RHANDDEILIAID STAKEHOLDERS</b>	<i>Enwch eraill a all fod â diddordeb/ a all gael effaith ar y risg Name others who may have an interest/impact on the risk</i>				
<b>DISGRIFIAD O'R RISG RISK DESCRIPTION</b>	<i>Beth yw'r Risg What is the Risk Mae yna risg o X, oherwydd Y, There's a risk of X, due to Y,</i>				
<b>CANLYNIADAU POSIBL I'r Gwasanaeth ac I'r Cyngor POTENTIAL CONSEQUENCES To Service and To Council</b>	<i>Gwnewch yn glir Make clear a allai arwain at Z ac a fydd yn effeithio ar y Gwasanaeth/Cyngor drwy... which may result in Z' and will impact on the Service/Council by...</i>				
<b>TYSTIOLAETH O RISG Engreifftiau o'r Risg yn digwydd dros amser EVIDENCE OF RISK Incidences of the Risk Occurring overtime</b>	<i>Rhowch enghreifftiau a/neu wybodaeth i ddarlunio'r risg. Cyfeiriwch at y matrices tebygolrwydd Provide examples and/or information to illustrate the risk. Relate to the likelihood matrix</i>				
<b>Dadansoddiad RISG RISK Analysis</b>	<b>Math o risg</b>	<b>Risk Type</b>	<b>Prif GATEGORI</b>	<b>Main CATEGORY</b>	
	<b>Dewiswch eitem.</b>	Choose an item.	<b>Dewiswch eitem.</b>	Choose an item.	
<b>Asesiad Risg Cychwynnol</b>	<b>Posibilrwydd Dewiswch eitem.</b>	<b>EFFAITH Dewiswch eitem.</b>	<b>SGÔR (TebygolrwyddxEffaith) Dewiswch eitem.</b>		
<b>Initial Risk Assessment</b>	<b>Probability Choose an item.</b>	<b>IMPACT Choose an item.</b>	<b>SCORE (Probability x Impact) Choose an item.</b>		
<b>Mesur Measure <i>Cofiwch gynnwys mesur ar gyfer y risg Include a measure for the risk</i></b>	<b>Disgrifiad Description</b>		<b>Lefel Bresennol Current Level</b>	<b>Lefel Darged Target Level</b>	
<b>Sut y bwriedir trin y risg Risk Treatment</b>	<b>Dewiswch eitem.</b>				
	Choose an item.				

Continued on next page

# Tudalen 584

<b>CAMAU I LINIARU'R RISG</b> <b>ACTIONS TO MITIGATE RISK</b> <i>Teitl byr</i> <i>Brief Title</i>	<b>CAM I'W GYMRYD</b> <b>ACTION</b> <i>Disgrifiwch y cam a gymerir i liniaru'r risg</i>	<b>EFFAITH DDISGWYLIEDIG Y CAM</b> <b>EXPECTED IMPACT OF THE ACTION</b> <i>Sut bydd y cam gweithredu hwn yn lleihau/lliniaru'r risg</i> <i>How will this action reduce/mitigate the risk or exploit the risk.</i>	
1			
2			
<b>ADNODDAU</b> <b>ANGENRHEIDIOL AR GYFER</b> <b>LLINIARU'R RISG</b> <b>RESOURCES REQUIRED TO MITIGATE THE RISK</b>	<i>Amlinellwch yr adnoddau y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r camau gweithredu uchod, gan gynnwys unrhyw adnoddau ariannol y bydd eu hangen</i> <i>Outline the resources that are required to deliver the actions above include any financial resources that may be required</i>		
<b>ASESIAD RISG NEWYDD</b> <b>NEW RISK ASSESSMENT</b>			
<b>Asesiad Risg newydd gyda chamau gweithredu lliniarol yn eu lle</b>	<b>Posibilrwydd</b> <b>Dewiswch eitem.</b>	<b>EFFAITH</b> <b>Dewiswch eitem.</b>	<b>SGÔR (TebygolrwyddxEffaith)</b> <b>Dewiswch eitem.</b>
<b>New Risk Assessment with mitigating actions in place</b>	<b>Probability</b> <i>Choose an item.</i>	<b>IMPACT</b> <i>Choose an item.</i>	<b>SCORE (Probability x Impact)</b> <i>Choose an item.</i>
<b>DYDDIAD CYCHWYN</b> <b>START DATE</b>		<b>DYDDIAD GORFFEN</b> <b>END DATE</b>	
<b>Risg yn cael ei dderbyn gan</b> <b>Acceptance of Risk By</b>	<b>Reolwr y Tîm/Swyddog Arweiniol Corfforaethol/Grŵp Arweiniol/Gadeirydd y Bartneriaeth/Y Gymuned</b> <b>Team Manager / CLO / Leadership Group / Partnership Chair / Community</b>		
<b>Llofnodwyd</b> <b>Signed</b>		<b>Dyddiad</b> <b>Date</b>	
<b>Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Craffu</b>	<b>Dyddiau</b> <b>Date</b>	<b>Pwyllgor Craffu</b> <b>Scrutiny Committee</b>	
<b>Referred to Scrutiny</b>			



**21 Mehefin 2023 Blaenraglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio****Eitemau Sefydlog:**

Adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth

Ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth

Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol

Adroddiad Cynnydd ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cofrestr Risgiau Corfforaethol

Y Flaenraglen Waith

Cofnod o gamau gweithredu cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Adroddiadau ar Gwynion

Adroddiadau ar Berfformiad

**Eitemau ychwanegol i'w hystyried**

30 Tachwedd 2023	Datganiad Ariannol Blynyddol yn unig (i gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol)	Duncan Hall
Ionawr 2024	Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2023-24 Cod Lleol Llywodraethol Corfforedig Drafft 2024-25 Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol – Chwarter 2 Adroddiad Camau Rheoli Siarter Archwilio Mewnol Hunanwerthusiad Archwilio Mewnol ynghylch y Fenter Twyll Genedlaethol Cofrestr Risgiau Corfforaethol – Chwarter 2	Swyddog Llywodraethu Swyddog Llywodraethu Alex Jenkins Alex Jenkins Alex Jenkins Alex Jenkins Alun Williams
Mawrth 2024	Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2023-2024 Cod Lleol Llywodraethol Corfforedig Drafft 2024-25 Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol – Chwarter 3 Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-2025 Adroddiad Archwilio Mewnol – Fframwaith Llywodraeth 2023/2024 Cofrestr Risgiau Corfforaethol – Chwarter 3	Swyddog Llywodraethu Swyddog Llywodraethu Alex Jenkins Alex Jenkins  Alex Jenkins  Alun Williams
Mehefin 2024	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023-24 Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol – Chwarter 4 Adroddiad Camau Rheoli Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol Adroddiad Atal Twyll Blynyddol Archwilio Mewnol 2022-2023 Cofrestr Risgiau Corfforaethol – Chwarter 4	Swyddog Llywodraethu Alex Jenkins Alex Jenkins Alex Jenkins  Alun Williams
Medi 2024	Hunanasesu arfer da a gwerthuso effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol – Chwarter 1 Hunanasesiad Archwilio Mewnol 2022-2023 Cofrestr Risgiau Corfforaethol – Chwarter 1 Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth Cyngor Sir Ceredigion Adroddiad hunanasesu drafft	Swyddog Llywodraethu  Alex Jenkins  Alex Jenkins Alun Williams Marie-Neige Hadfield Rob Starr

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol